# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mawrth, 10 Gorffennaf 2012**
**Tuesday, 10 July 2012**

**Cynnwys**
**Contents**


| | |
|---|---|
| 3 | Cwestiynau i'r Prif Weinidog<br>Questions to the First Minister |
| 33 | Datganiad a Chyhoeddiad Busnes<br>Business Statement and Announcement |
| 36 | Datganiad: Y Dystiolaeth sy'n Tanategu'r Achos dros Ad-drefnu'r GIG yng Nghymru<br>Statement: The Evidence Underpinning the Case for Reconfiguring the NHS in Wales |
| 52 | Datganiad: Cyflwyno Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)<br>Statement: Introduction of the Public Audit (Wales) Bill |
| 62 | Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2011<br>Statement: The Chief Medical Officer's Annual Report 2011 |
| 77 | Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Gymdeithasol<br>Statement: Update on the Social Fund |
| 94 | Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012<br>Designation of Features (Appeals) (Wales) Regulations 2012 |
| 95 | Rhifedd<br>Numeracy |
| 118 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time |
| 128 | Dadl Fer a Ohiriwyd ers 27 Mehefin 2012: Arafu'r Traffig i Sicrhau Diogelwch ein Plant Ysgol<br>Short Debate Postponed from 27 June 2012: Putting the Brakes on Traffic to Ensure the Safety of our School Children |


Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Iechyd Anifeiliaid a Lles Da Byw

### Animal Health and the Welfare of Livestock

***1. William Powell:** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd anifeiliaid a lles da byw. OAQ(4)0621(FM)*

***1. William Powell:** What are the Welsh Government's priorities for animal health and the welfare of livestock. OAQ(4)0621(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** Animal health priorities include the eradication of bovine TB, ensuring contingency measures are in place to prevent and manage the incursion of a disease outbreak. We prioritise very strongly the need to improve welfare standards of animals at the time of slaughter, which will also need to comply with the law.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae blaenoriaethau iechyd anifeiliaid yn cynnwys dileu TB buchol, gan sicrhau bod mesurau wrth gefn ar waith i atal a rheoli achosion o'r clefyd rhag lledaenu. Rydym yn rhoi blaenoriaeth amlwg iawn i'r angen i wella safonau lles anifeiliaid adeg eu lladd, a bydd angen i hynny gydymffurfio â'r gyfraith hefyd.

**William Powell:** Thank you very much for that response. As you are aware, last week's announcement of further reductions in farm-gate prices for dairy farmers has come at a time when feed prices have been soaring and the current adverse weather has driven herds indoors, depleting existing stocks and, indeed, threatening next year's supplies. Taken together, these factors are driving dairy farmers, in many cases, to the edge of bankruptcy and to the political action that we expect to see tomorrow. With these impacts in mind, what specific contingencies are in place to deal with the potential animal health and welfare crisis in the dairy sector in Wales should these factors combine to suddenly force dairy farmers out of business?

**William Powell:** Diolch yn fawr iawn am yr ymateb. Fel y gwyddoch, mae'r cyhoeddiad yr wythnos diwethaf ynghylch gostyngiadau pellach yn y prisiau a gaiff ffermwyr llaeth, wedi dod ar adeg pan fo prisiau bwyd anifeiliaid wedi cynyddu'n aruthrol ac mae'r tywydd gwael presennol wedi golygu bod buchesi'n cael eu cadw dan do, sy'n disbyddu stociau bwyd presennol ac, yn wir, yn bygwth cyflenwadau y flwyddyn nesaf. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn peri bod ffermwyr llaeth, yn aml, yn agos at fod yn fethdalwyr ac yn eu harwain at y camau gweithredu gwleidyddol yr ydym yn disgwyl eu gweld yfory. O gadw'r effeithiau hyn mewn cof, pa gynlluniau wrth gefn penodol sydd ar waith i ymdrin â'r argyfwng iechyd a lles anifeiliaid posibl yn y sector llaeth yng Nghymru, pe bai'r ffactorau hyn yn cyfuno ac yn gwthio ffermwyr llaeth allan o fusnes yn sydyn?

**The First Minister:** We will always look to ensure that animal health and welfare standards are kept high. I know that things are difficult for dairy farmers and, indeed, the Deputy Minister for agriculture has written to

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn ceisio sicrhau bod safonau iechyd a lles anifeiliaid yn parhau'n uchel. Gwn fod pethau'n anodd i ffermwyr llaeth ac, yn wir, mae'r Dirprwy Weinidog amaethyddiaeth

the UK Government suggesting that the role of the proposed supermarket adjudicator should be strengthened, given the difficulty that dairy farmers are experiencing at the moment, in terms of both the weather and prices.

wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU yn awgrymu y dylai rôl y dyfarnwr archfarchnad arfaethedig gael ei gryfhau, o gofio'r anawsterau y mae ffermwyr llaeth yn eu hwynebu ar hyn o bryd, o ran y tywydd a'r prisiau.

**Antoinette Sandbach:** Do you agree with me that when Welsh livestock has been reared according to the highest standards of welfare, animals should be processed humanely at abattoirs? Professor Bill Reilly, former president of the British Veterinary Association, said that slaughter without stunning should be proportionate to actual demand from those religious communities that are legally exempt from the requirement to stun. Will you confirm that your Government is fully opposed to these exemptions being exploited as a cost-cutting exercise by processors simply to avoid the expense of running a stunning unit, particularly at any premises that has benefited from Welsh Government grant funding?

**Antoinette Sandbach:** A gytunwch â mi, pan fydd da byw Cymru wedi cael eu magu yn ôl y safonau lles uchaf, y dylai anifeiliaid gael eu prosesu heb greulondeb mewn lladd-dai? Dywedodd yr Athro Bill Reilly, cyn-lywydd Cymdeithas Milfeddygon Prydain, y dylai lladd heb stynio fod yn gymesur â'r galw gwirioneddol gan y cymunedau crefyddol hynny sydd wedi'u heithrio'n gyfreithiol o'r gofyniad i stynio. A wnewch chi gadarnhau bod eich Llywodraeth yn gwrthwynebu'n llwyr y modd y gallai proseswyr ecsbloetio'r eithriadau hyn er mwyn osgoi'r gost o redeg uned stynio, yn enwedig mewn unrhyw eiddo a gafodd arian grant gan Lywodraeth Cymru?

**The First Minister:** Absolutely. There are religious exemptions, and they are exemptions based purely on religious belief. They should not be used as a backdoor way of processing animals. If there are any examples that the Member is able to give to me on a confidential basis, I would be happy to accept them and investigate them thoroughly.

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr. Mae eithriadau crefyddol, ac maent yn eithriadau sy'n seiliedig ar gred grefyddol yn unig. Ni ddylid eu defnyddio fel ffordd drws cefn o brosesu anifeiliaid. Os oes unrhyw enghreifftiau y gall yr Aelod eu rhoi i mi yn gyfrinachol, byddwn yn fodlon eu derbyn, ac ymchwilio'n drylwyr iddynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Ategaf yr hyn a ddywedodd William Powell am y diwydiant llaeth yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol o'r sefyllfa yn sgîl eich swyddi blaenorol yn y Llywodraeth. Nid oeddwn yn gwbl glir o'ch ymateb pa un a ydych chi'n derbyn bod y sefyllfa bellach yn un argyfyngus o ran ffermwyr llaeth yng Nghymru neu beidio. Maent mewn sefyllfa lle mae'r prisiau am eu cynnyrch yn gallu gostwng dros nos, ac eto maent wedi clymu i mewn i gytundebau sy'n golygu bod yn rhaid iddynt aros am 12 mis efallai cyn cael eu rhyddhau o'r cytundebau hynny. Rwyf yn falch o glywed yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i wneud. Onid ydych chi'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau rhaglen o weithredu pendant i ddiogelu'r diwydiant pwysig hwn yng Nghymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** I endorse the comments made by William Powell about the dairy industry in Wales. You will be aware of the situation given your previous posts in Government. I was not entirely clear from your response whether you accept that the situation is now critical in terms of dairy farmers in Wales. They find themselves in a situation where the prices for their produce can fall over night, and yet they are tied in to contracts whereby they may have to wait for 12 months before they can be released from those contracts. I was very pleased to hear what the Deputy Minister has been doing. Do you now believe that the Welsh Government needs to ensure that there is a specific programme of action in place to safeguard this important industry in Wales?

**Y Prif Weinidog:** Y broblem yw'r pris ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid i hwnnw gael ei ddylanwadu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Cefnogwn y ffaith y bydd y Llywodraeth honno yn sefydlu dyfarnwr archfarchnadoedd. Mae'n bwysig dros ben bod gan y dyfarnwr ddigon o rym i sicrhau bod ffermwyr llaeth yn cael tegwch o ran y pris a gânt. Mae'r tywydd eleni wedi golygu bod llawer o wartheg wedi methu mynd mas i bori ar y gwair, ac mae hynny'n golygu bod costau ffermwyr yn llawer uwch gan eu bod yn gorfod prynu bwyd yn lle gadael i'r anifeiliaid bori fel a wnânt fel rheol. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod digon o rym gan y dyfarnwr er mwyn helpu ffermwyr llaeth.

**The First Minister:** The problem is the price at the moment, and that is something that the UK Government can influence. We welcome the fact that that Government is to put in place a supermarket adjudicator. It is very important that that adjudicator has adequate powers to ensure that dairy farmers are treated fairly in terms of the price that they receive. The weather this year has meant that many cattle have not been able to go outside to graze, which then means that farmers' costs are far higher because they have to buy in feed rather than allowing cattle to graze as they usually would. The Deputy Minister has written to the UK Government in order to ensure that the adjudicator has sufficient powers to assist the dairy industry.

## Tlodi

## Poverty

***2. Sandy Mewies:*** *Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lleihau nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. OAQ(4)0623(FM)*

***2. Sandy Mewies:*** *How is the Welsh Government planning to reduce the numbers of people living in poverty in Wales over the next four years. OAQ(4)0623(FM)*

**The First Minister:** Last week, we published our 'Tackling Poverty Action Plan 2012-2016', which sets out our activity over the next four years to reduce poverty in the key areas of poverty prevention, helping people to improve their skills and qualifications, and action to mitigate the impact of poverty here and now.

**Y Prif Weinidog:** Yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd ein 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016', sy'n nodi ein gweithgareddau dros y pedair blynedd nesaf i leihau achosion o dlodi yn y meysydd atal tlodi allweddol, gan helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau, a gweithredu i liniaru ar effaith tlodi y funud yma.

**Sandy Mewies:** Recent figures show that there has been a significant fall in child poverty in Wales. However, those figures are expected to rise again in the next few years, with, according to Save the Children, another 6,000 more young people being pushed into poverty next year because of spending cuts and the UK coalition Government's changes to benefits. Benefit cuts will hit Wales the hardest. Therefore, what impact is this having on the Welsh Government's work in trying to protect our poorest children?

**Sandy Mewies:** Mae ffigurau diweddar yn dangos bod gostyngiad sylweddol wedi bod mewn tlodi plant yng Nghymru. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y ffigurau yn codi eto yn y blynyddoedd nesaf oherwydd yn ôl elusen Achub y Plant, bydd 6,000 yn fwy o bobl ifanc yn cael eu gwthio i dlodi y flwyddyn nesaf oherwydd toriadau mewn gwariant a newidiadau i fudd-daliadau gan Lywodraeth Glymblaid y DU. Bydd y toriadau i fudd-daliadau yn effeithio ar Gymru'n fwy na neb. Felly, pa effaith a gaiff hyn ar waith Llywodraeth Cymru wrth geisio amddiffyn ein plant tlotaf?

**The First Minister:** We have established a ministerial task and finish group, which is undertaking a comprehensive assessment of the accumulative effects of the benefit changes. While, as a Government, we cannot

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen y Gweinidog, sy'n cynnal asesiad cynhwysfawr o effeithiau cynyddol y newidiadau i fudd-daliadau. Er na allwn, fel Llywodraeth, ysgwyddo baich ariannol y

pick up the financial burden of the changes being driven by Whitehall, we can, wherever possible, use the results of this assessment to target our efforts to help mitigate the negative implications of welfare reform.

newidiadau a gaiff eu gweithredu gan San Steffan, gallwn ddefnyddio canlyniadau'r asesiad hwn, lle bynnag y bo'n bosibl, i dargedu ein hymdrechion i helpu i liniaru ar oblygiadau negyddol diwygio lles.

**Mohammad Asghar:** According to Age Alliance Wales, more than 100,000 older people live in poverty in Wales. Many struggle to make ends meet and are worried about paying their winter fuel bills. Do you agree that measures to tackle fuel poverty are important in fighting poverty in general, and will you join me in welcoming the Westminster Government's warm home discount scheme, which offers a rebate to pensioners on low incomes and to other vulnerable households to help with the cost of their fuel bills?

**Mohammad Asghar:** Yn ôl Cynghrair Henoed Cymru, mae dros 100,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi yng Nghymru. Mae llawer yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd, ac maent yn poeni am dalu eu biliau tanwydd gaeaf. A ydych yn cytuno bod mesurau i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn bwysig o ran lleihau tlodi yn gyffredinol, ac a wnewch ymuno â mi i groesawu cynllun disgownt cartrefi cynnes Llywodraeth San Steffan, sy'n cynnig ad-daliad i bensiynwyr ar incwm isel ac i aelwydydd eraill sy'n agored i niwed, i'w helpu i dalu eu biliau tanwydd?

**The First Minister:** Over the years, we have had schemes such as the home energy efficiency scheme, which ensure that pensioners are able to heat their homes at an affordable rate in the winter. However, I regret the fact that it seems that the idea is being floated by your party that the winter fuel allowance should be cut for some pensioners and that free prescriptions should also be cut for some pensioners.

**Y Prif Weinidog:** Dros y blynyddoedd, cafwyd cynlluniau fel y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref, i sicrhau bod modd i bensiynwyr wresogi eu cartrefi ar gyfradd fforddiadwy yn y gaeaf. Fodd bynnag, rwy'n gresynu at y ffaith bod y syniad yn cael ei wyntyllu gan eich plaid, y dylid dileu'r lwfans tanwydd gaeaf ar gyfer rhai pensiynwyr a dileu presgripsiynau am ddim ar gyfer rhai pensiynwyr.

**Jenny Rathbone:** Research published last week stated that 1 million children are going hungry across Britain; in fact, the word 'starving' was used. While we need to be careful in how we address this information, this issue has been raised with me by people who deliver services to children. What does the Government believe is necessary to ensure that we are doing the best possible to ensure that children are properly fed?

**Jenny Rathbone:** Roedd ymchwil a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn datgan bod miliwn o blant llwglyd ledled Prydain; yn wir, defnyddiwyd y gair 'starving' neu 'newynog'. Er bod angen i ni fod yn ofalus sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth, nodwyd y mater hwn imi gan bobl sy'n darparu gwasanaethau i blant. Beth sy'n angenrheidiol, ym marn y Llywodraeth, i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau posibl i sicrhau bod plant yn cael digon o fwyd?

**The First Minister:** We recognise that food banks, for example, can be invaluable to those people who find themselves in need. We are looking to explore the links that can be made between existing food banks in Wales and relevant Welsh Government programmes such as Communities First and the social fund. However, ultimately, what people need is a decent amount of money to live on, as well as better skills and more jobs.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cydnabod bod banciau bwyd, er enghraifft, yn amhrisiadwy i'r bobl hynny sydd mewn angen. Rydym yn awyddus i edrych ar y cysylltiadau y gellir eu gwneud rhwng y banciau bwyd presennol yng Nghymru a rhaglenni perthnasol Llywodraeth Cymru fel Cymunedau yn Gyntaf a'r gronfa gymdeithasol. Fodd bynnag, yr hyn sydd ei angen ar bobl, yn y pen draw, yw swm digonol o arian i fyw arno, yn ogystal â sgiliau gwell a mwy o swyddi.

### Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

### Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of Plaid Cymru (Leanne Wood):** First Minister, do you stand by what you told the Assembly on 1 May 2012, which was that the Marcus Longley report is 'not a Government report'?

**Arweinydd Plaid Cymru (Leanne Wood):** Brif Weinidog, a ydych yn glynu wrth yr hyn a ddywedasoch wrth y Cynulliad ar 1 Mai 2012 am adroddiad Marcus Longley, sef 'nid adroddiad gan y Llywodraeth ydyw'?

**The First Minister:** Yes.

**Y Prif Weinidog:** Ydw.

**Leanne Wood:** If that is the case, will you reflect fully on the content of the e-mail exchanges that have come to light today? Those e-mails clearly show collusion and an intent to make facts fit a predetermined conclusion. Professor Longley states in those e-mails:

**Leanne Wood:** Os yw hynny'n wir, a wnewch chi adrodd ynghylch cynnwys yr ohebiaeth e-bost a ddaeth i'r amlwg heddiw? Mae'r negeseuon e-bost hynny'n dangos bod cydgynllwynio amlwg wedi bod a bwriad i sicrhau bod ffeithiau'n cyfateb i gasgliad a bennwyd ymlaen llaw. Dywed yr Athro Longley yn yr ohebiaeth e-bost:

'On reflection, the evidence as presented does not seem to be as incisive as we might have hoped'.

Ar ôl ystyried, nid yw'r dystiolaeth fel y'i cyflwynwyd yn ymddangos mor dreiddgar ag y byddem wedi'i obeithio.

Is the Minister for Health and Social Services included in that 'we'? Was she involved directly, or indirectly, in that e-mail exchange?

A yw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'i chynnwys yn y cyfeiriad hwnnw? A oedd hi wedi'i chynnwys yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn y negeseuon e-bost hynny?

**The First Minister:** No.

**Y Prif Weinidog:** Nac ydyw.

**Leanne Wood:** We are used to Labour spin and the sexing up of dossiers. [*Laughter.*] Is it really credible that the Minister for health did not know what was going on and that she had no involvement? If she did not know, do you not see that that is a problem? Does it not show incompetence? Can you afford incompetence in your Minister for health?

**Leanne Wood:** Rydym wedi arfer â sbin Llafur a gwneud cynnwys coflenni yn fwy apelgar.[Chwerthin.] A yw'n gredadwy, mewn gwirionedd, nad oedd y Gweinidog Iechyd yn gwybod beth oedd yn digwydd ac nad oedd ganddi unrhyw gysylltiad â'r mater? Os nad oedd hi'n gwybod, onid ydych yn gweld bod hynny'n broblem? Onid yw'n dangos anghymhwyster? Allwch chi fforddio bod eich Gweinidog Iechyd yn anghymwys?

**The First Minister:** I am sorry to have thrown the leader of Plaid Cymru off script—I know that I have done it once or twice before. Let us see what she is suggesting—that there is a conspiracy between the whole Welsh Government, the Welsh NHS Confederation, and a distinguished independent academic to produce a report that does Wales and the NHS down. Does she really believe that the Ministers that her party

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ddrwg gennyf fy mod wedi taflu arweinydd Plaid Cymru oddi ar ei hechel. Gwn fy mod wedi gwneud hynny unwaith neu ddwywaith o'r blaen. Gadewch inni weld beth y mae'n ei awgrymu—fod cynllwyn rhwng Llywodraeth Cymru, Cydffederasiwn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru, ac ysgolhaig annibynnol o fri, i gynhyrchu adroddiad sy'n pardduo Cymru a'r GIG. A yw hi wir yn credu bod y

had in Government in the last Government had knowledge of every single e-mail that officials sent? Is that really what she is saying? I have seen the e-mails, and I challenge her now: she has had her third question, of course, but at some point over the course of the next few days, I challenge her to produce the evidence that backs up a serious allegation. I await to see what that evidence looks like. I have the e-mails here, and I challenge her this afternoon and over the next few days to point to the e-mails that support such a conclusion as she makes, which is that there was collaboration and collusion between several different levels of Government and an independent academic. I hear Plaid saying that he is not independent; frankly, I find it cowardly to besmirch the reputation of an independent academic, who has been critical of Welsh Government in years gone by, at a time when he cannot answer. [*Interruption*.]

Gweinidogion a oedd gan ei phlaid yn y Llywodraeth ddiwethaf yn gwybod am bob neges e-bost a anfonwyd gan ei swyddogion? Ai dyma y mae hi'n ei ddweud mewn gwirionedd? Rwyf wedi gweld y negeseuon e-bost, ac rwyf yn ei herio yn awr: cafodd ofyn ei thrydydd cwestiwn, wrth gwrs, ond ar ryw adeg yn ystod y dyddiau nesaf, rwy'n ei herio i gyflwyno'r dystiolaeth i ategu'r honiad difrifol Hwn. Byddaf yn aros i weld y dystiolaeth. Mae'r negeseuon e-bost gennyf yma, ac rwy'n ei herio y prynhawn yma a thros y dyddiau nesaf i dynnu sylw at y negeseuon e-bost sy'n cefnogi'r fath gasgliad ganddi, sef, bod cydweithio a chydgynllwynio rhwng gwahanol lefelau yn y Llywodraeth ac ysgolhaig annibynnol. Clywaf aelodau o Blaid Cymru'n dweud nad oedd yn annibynnol; a dweud y gwir, fe ddywedwn mai tro gwael fyddai pardduo enw da ysgolhaig annibynnol, sydd wedi bod yn feirniadol o Lywodraeth Cymru yn y gorffennol, a hynny ar adeg pan na all ymateb. [Tarfu.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** First Minister, the *Oxford English Dictionary* defines independent as

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Brif Weinidog, mae'r *Oxford English Dictionary* yn diffinio annibynnol fel

'free from outside control; not subject to another's authority; not belonging to or supported by a political party'.

Yn rhydd o reolaeth o'r tu allan; nad yw'n ddarostyngedig i awdurdod un arall; nad yw'n perthyn i blaid wleidyddol nac yn cael ei gefnogi gan blaid wleidyddol.

When your Minister for health described 'The Case for Change' report as being independent, which definition of the word was she using?

Pan oedd eich Gweinidog Iechyd yn disgrifio adroddiad 'Y Ddadl dros Newid' fel adroddiad annibynnol, pa ddiffiniad o'r gair a ddefnyddiwyd ganddi?

**The First Minister:** I challenge the leader of the Welsh Liberal Democrats to produce the evidence that backs up her suggestion that the report was not independent.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n herio arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i gynhyrchu'r dystiolaeth sy'n cefnogi ei hawgrym nad oedd yr adroddiad yn un annibynnol.

**Kirsty Williams:** The Minister for health told us that the case for change had been

**Kirsty Williams:** Dywedodd y Gweinidog Iechyd wrthym fod yr achos dros newid wedi'i wneud

'approached…from a completely independent position…He has no partisan position to promote. This report constitutes

'o safbwynt gwbl annibynnol…Does ganddo ddim safbwynt bartisan i'w hyrwyddo. Mae'r adroddiad hwn yn

strong evidence from a clinical perspective—not a political one.'

cyflwyno tystiolaeth gref o bersbectif clinigol – nid o bersbectif gwleidyddol.'.

In fact, those e-mails show that her officials were hand in glove, nudging and influencing the author of that report to set out 'a persuasive vision' of the Government's agenda.

Yn wir, dengys y negeseuon e-bost hynny bod ei swyddogion yn cydweithio'n agos ag awdur yr adroddiad gan gynnig awgrymiadau a cheisio dylanwadu er mwyn nodi gweledigaeth argyhoeddiadol o agenda'r Llywodraeth.

How can the public have any confidence that any proposals that are brought forward are on the basis of independent and academic evidence? [*Interruption*.]

Sut y gall y cyhoedd fod yn ffyddiog bod unrhyw gynigion a gaiff eu cyflwyno yn seiliedig ar dystiolaeth annibynnol ac academaidd? [Tarfu.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**The First Minister:** I have the e-mail in front of me and it says nothing of the sort. It does not behove a leader of a political party to distort the content of e-mails in order to support her tenuous case. I say to her once again: produce the evidence that there has been collusion, or has she just not read the e-mails?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r e-bost gennyf o fy mlaen ac nid yw'n dweud dim o'r fath. Nid yw'n briodol bod arweinydd plaid wleidyddol yn gwyrdroi cynnwys negeseuon e-bost er mwyn cefnogi ei dadl fregus. Dywedaf wrthi unwaith eto am gynhyrchu'r dystiolaeth bod cydgynllwynio wedi digwydd, neu efallai nad yw hi wedi darllen y negeseuon e-bost wedi'r cyfan?

**Kirsty Williams:** I have read the e-mails and they are a shocking indictment if your Minister knew about it or did not. First Minister, you have a Minister for health who gives handouts to health boards that have overspent their budgets and says that they are not bailouts. She sees local hospitals being stripped of services but describes it as not a downgrading. When her department puts pressure on an author of a report to make it 'more positive', she describes that as 'independent'. How can you and the Welsh public have any confidence in a Minister for health that refuses to be straight with them?

**Kirsty Williams:** Rwyf wedi darllen y negeseuon e-bost ac maent yn ddamniol, os gwyddai eich Gweinidog am y mater neu beidio. Brif Weinidog Cymru, mae gennych Weinidog Iechyd sy'n rhoi arian ychwanegol i fyrddau iechyd sydd wedi gorwario eu cyllidebau gan ddweud nad arian i achub croen ydyw. Mae'n gweld gwasanaethau yn cael eu cymryd oddi ar ysbytai lleol, ond yn egluro nad yw'n enghraifft o israddio. Pan fydd ei hadran yn rhoi pwysau ar awdur adroddiad i wneud yr adroddiad yn fwy cadarnhaol, mae'n disgrifio hynny fel rhywbeth annibynnol. Sut allwch chi a'r cyhoedd yng Nghymru fod ag unrhyw hyder mewn Gweinidog Iechyd sy'n gwrthod bod yn onest â hwy?

**The First Minister:** That is the most pathetic contribution I have ever heard from any leader in this Chamber. I have asked her to produce the evidence that there was collusion. She has failed miserably. I have asked her to produce the evidence that the content of the report was somehow altered as a result of pressure. She has failed miserably. She is wise not to make these comments outside this Chamber, I would suggest. Once

**Y Prif Weinidog:** Dyna'r cyfraniad mwyaf truenus i mi ei glywed erioed gan unrhyw arweinydd yn y Siambr hon. Rwyf wedi gofyn iddi ddarparu'r dystiolaeth bod cydgynllwynio wedi digwydd. Mae hi wedi methu'n druenus. Rwyf wedi gofyn iddi ddarparu'r dystiolaeth bod cynnwys yr adroddiad wedi'i newid rywsut o ganlyniad i bwysau. Mae hi wedi methu'n druenus. Os caf awgrymu, mae'n ddoeth o beth nad yw

again, it is an example of the Liberal Democrats trying to throw mud around without ever getting down to the detail. I say to her once again: where is the evidence that there was any pressure or collusion? We should go beyond that cheap, political point scoring that the Liberal Democrats love so much.

hi’n gwneud y sylwadau hyn y tu allan i’r Siambr hon. Unwaith eto, mae'n enghraifft o’r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio taflu mwd heb nodi’r manylion. Dywedaf wrthi unwaith eto: ble mae'r dystiolaeth bod unrhyw bwysau neu gydgynllwynio wedi bod? Dylem anwybyddu’r arfer hwnnw o sgorio pwyntiau gwleidyddol, diwerth y mae’r Democratiaid Rhyddfrydol mor hoff ohono.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, I have heard your comments to the other party leaders in this Chamber. It seems evident that there is enough doubt to pose a question in people’s mind as a result of these e-mails. For example, one of the e-mails to Chris Jones, who I believe is the medical director of NHS Wales and therefore a senior official within the Minister’s department, says

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, clywais eich sylwadau i arweinwyr y pleidiau eraill yn y Siambr hon. Mae'n ymddangos ei bod yn amlwg bod digon o amheuaeth i beri i bobl ofyn cwestiynau, o ganlyniad i’r negeseuon e-bost hyn. Er enghraifft, roedd un o'r negeseuon hyn at Chris Jones, sy'n gyfarwyddwr meddygol yn GIG Cymru fe gredaf, ac felly dywed uwch swyddog yn adran y Gweinidog:

‘As we’ve discussed, a crucial piece in the jigsaw—the argument we can’t stay as we are, just look at the outcomes’.

Fel y trafodwyd gennym, darn hanfodol yn y jig-so—y ddadl na allwn aros fel yr ydym, nid oes ond angen edrych ar y canlyniadau.

They are talking as a collective—the academic and the civil servant. These e-mails require explanation because they cast sufficient doubt in people’s minds that this is a sufficiently independent report on which to base the Government’s conclusions on the Welsh NHS.

Maent yn siarad fel un côr—yr ysgolhaig a’r gwas sifil. Mae angen esboniad ynghylch y negeseuon e-bost hyn gan eu bod yn peri digon o amheuaeth ym meddyliau pobl fod hwn yn adroddiad digon annibynnol i fod yn sail i gasgliadau’r Llywodraeth ar GIG Cymru.

1.45 p.m.

**The First Minister:** Of course we cannot stay as we are; we have been saying that for weeks and months, so why should that come as a surprise to the leader of the opposition? Once again, I say to him that if he can point to anything in this e-mail trail that suggests that the content was altered, that pressure was put on Marcus Longley, or that the content of the report was altered, then I await the results of the evidence that he purports to offer.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs ni allwn aros fel yr ydym; buom yn dweud hynny ers wythnosau a misoedd, felly pam ddylai hynny fod yn syndod i arweinydd yr wrthblaid? Unwaith eto, rwyf yn dweud wrtho os yw’n gallu cyfeirio at unrhyw beth yn y llwybr e-bost sy’n awgrymu bod y cynnwys wedi cael ei newid, bod pwysau wedi cael ei roi ar Marcus Longley, neu fod cynnwys yr adroddiad wedi cael ei newid, yna rwyf yn disgwyl canlyniadau’r dystiolaeth y mae’n honni ei fod yn ei chynnig.

**Andrew R.T. Davies:** With respect, First Minister, I quoted verbatim from one of the e-mails. I have a copy here, as do you. I quoted from it verbatim. Do you not agree

**Andrew R.T. Davies:** Gyda pharch, Brif Weinidog, dyfynnais air am air o un o’r e-byst. Mae gennyf gopi yma, fel sydd gennych chithau. Dyfynnais ohono air am air. Oni

that that type of language, if analysed by someone in a community that is facing the closure of their accident and emergency department or another medical facility, would put sufficient doubt in their mind that your Government is supposedly basing these proposals on an independent report? I put it to you, First Minister, that this report is clearly holed below the water line and, therefore, any conclusions from it cannot stand up to scrutiny.

chytunwch fod y math hwnnw o iaith, pe bai'n cael ei dadansoddi gan rywun mewn cymuned sy'n wynebu'r ffaith bod ei adran damweiniau ac achosion brys neu gyfleuster meddygol arall yn cau, yn rhoi digon o amheuaeth yn ei feddwl bod eich Llywodraeth chi, yn ôl pob sôn, yn seilio'r cynigion hyn ar adroddiad annibynnol? Rwyf yn awgrymu i chi, Brif Weinidog, fod yr adroddiad hwn wedi cael ei danseilio'n enbyd ac, felly, ni all unrhyw gasgliadau ohono wrthsefyll unrhyw waith craffu.

**The First Minister:** That is the most ridiculous comment that I have ever heard, and I will say why: let us see what a fair-minded, objective, rational person would do after looking at this e-mail trail. This is the most tenuous political story that I have come across in 13 years in electoral politics. Once again, I say to him: where is the evidence that the content was altered? Where is the evidence that Marcus Longley was put under pressure? Where is the evidence to support the words of his health spokesman—he is not even here, so cannot answer for himself—who described Marcus Longley as a 'Government stooge'; that is how he described him. What I heard this morning on the radio was a Conservative health spokesperson doing his best to wreck the academic reputation of Professor Marcus Longley. I have no objection to attacks on politicians; we all expect give and take—[*Interruption.*]

**Y Prif Weinidog:** Dyna'r sylw mwyaf chwerthinllyd a glywais erioed, a dyma pam: gadewch inni weld beth fyddai rhywun teg ei feddwl, gwrthrychol, rhesymol yn ei wneud ar ôl edrych ar y llwybr e-bost hwn. Dyma'r stori wleidyddol fwyaf disylwedd y deuthum ar ei thraws mewn 13 mlynedd mewn gwleidyddiaeth etholiadol. Unwaith eto, rwyf yn dweud wrtho: ble mae'r dystiolaeth bod y cynnwys wedi cael ei newid? Ble mae'r dystiolaeth bod Marcus Longley wedi cael ei roi o dan bwysau? Ble mae'r dystiolaeth i gefnogi geiriau ei lefarydd iechyd—nad yw hyd yn oed yma, felly ni all ateb drosto'i hun—a ddisgrifiodd Marcus Longley fel gwas bach y Llywodraeth; dyna sut y gwnaeth ei ddisgrifio. Yr hyn a glywais y bore yma ar y radio oedd llefarydd iechyd y Ceidwadwyr yn gwneud ei orau i ddinistrio enw da academaidd yr Athro Marcus Longley. Nid wyf yn gwrthwynebu ymosodiadau ar wleidyddion; rydym i gyd yn ei roi a'i gymryd—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. Leighton Andrews, order.

**Y Llywydd:** Trefn. Leighton Andrews, trefn.

**The First Minister:** We all expect give and take in the robust exchanges that we have in this Chamber and outside, but I thought that attacking an academic was well below the belt. I heard his comments and all that I can say is that, judging by conversations that I have had this morning, he would do well to take legal advice. I also say to the BBC that, as far as it is concerned, it needs to examine its position as well, because, at 11 a.m. today, a clearly defamatory statement appeared on the BBC website. That is a matter for it to explain in the future. It is cowardice to attack the reputation of an academic, to try to suggest that he is not independent, to ruin his

**Y Prif Weinidog:** Rydym i gyd yn disgwyl ei roi a'i gymryd yn y dadleuon grymus a gawn yn y Siambr hon a'r tu allan iddi, ond tybiais fod ymosodiad ar academydd yn mynd yn llawer yn rhy bell. Clywais ei sylwadau a'r cyfan y gallaf ddweud yw y byddai'n dda o beth iddo gymryd cyngor cyfreithiol, a barnu o'r sgyrsiau a gefais y bore yma. Rwyf hefyd yn dweud wrth y BBC, cyn belled ag y mae ef yn y cwestiwn, bod angen iddo edrych ar ei safbwynt hefyd, oherwydd, am 11 a.m. heddiw, ymddangosodd datganiad ar wefan y BBC a oedd yn amlwg yn ddifenwol. Mae hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid iddo ei egluro yn y

reputation in the academic world without there being any comeback from him. I ask the leader of the opposition whether his party is well served by a health spokesperson who shows such a lack of judgment, such a lack of sense, and such a slovenly approach to the facts.

dyfodol. Mae'n llwfr ymosod ar enw da academydd, ceisio awgrymu nad yw'n annibynnol, a difetha ei enw da yn y byd academaidd heb fod unrhyw gyfle iddo ymateb. Gofynnaf i arweinydd yr wrthblaid a yw ei blaid ar ei hennill o gael llefarydd iechyd sy'n dangos y fath ddiffyg doethineb, y fath ddiffyg synnwyr, a'r fath ymagwedd ddi-hid at y ffeithiau.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, stop trying to deflect from the matter of your own Minister for health's competence. [*Interruption*.] No, this is my third question; you clearly cannot count, either. The point here, First Minister, is your Minister for health's competence and whether she was aware of the facts that are contained within these e-mails, which were supposedly helping to form the basis of an independent report. You are trying to turn this on a professor from a university and moving it away—[*Interruption*.]

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, rhowch y gorau i geisio gwyro o'r mater o dan sylw, sef cymhwysedd eich Gweinidog iechyd. [*Torri ar draws*.] Na, dyma fy nhrydydd cwestiwn; mae'n amlwg nad ydych yn gallu cyfrif, ychwaith. Y pwynt yma, Brif Weinidog, yw cymhwysedd eich Gweinidog a pa un a oedd hi'n ymwybodol o'r ffeithiau sydd wedi'u cynnwys yn yr e-byst hyn, a oedd, yn ôl pob sôn, yn helpu i lunio sail i adroddiad annibynnol. Rydych yn ceisio troi hyn ar athro prifysgol a'i symud oddi wrth—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. I am very interested in what the leader of the opposition is saying.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn clywed yr hyn sydd gan arweinydd yr wrthblaid i'w ddweud.

**Andrew R.T. Davies:** It is for quite clear reasons that you are trying to do this. This is typical Welsh Labour trying to bully itself out of a hole. The fact of the matter is—[*Interruption*.] I hear the Ed Balls of the Assembly yapping away, but he would do well to listen.

**Andrew R.T. Davies:** Mae'n amlwg pam eich bod yn ceisio gwneud hyn. Mae hyn yn enghraifft nodweddiadol o Lafur Cymru yn ceisio bwlio ei hun allan o dwll. Y gwir amdani yw—[*Torri ar draws*.] Clywaf Ed Balls y Cynulliad yn cyfarth yn y gornel, ond byddai'n syniad da iddo wrando.

**The Presiding Officer:** Order. Andrew R.T. Davies, are you eventually coming to a question?

**Y Llywydd:** Trefn. Andrew R.T. Davies, a ydych yn dod i gwestiwn yn y pen draw?

**Andrew R.T. Davies:** I am coming to a question.

**Andrew R.T. Davies:** Rwyf yn dod i gwestiwn.

First Minister, will you not oblige the scrutiny of this institution by making available the Minister for Health and Social Services and her officials to the Health and Social Care Committee so that they can be scrutinised on this, along with the NHS Confederation and, should Marcus Longley choose to do so, he could also come before that committee so that the whole of this jigsaw can be put together? This is about communities' healthcare provision, which touches raw nerves across the whole of

Brif Weinidog, oni wnewch chi gymwynas o ran gwaith craffu'r sefydliad hwn drwy sicrhau bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion ar gael i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y gellir craffu ar eu gwaith ar hyn, ynghyd â Chydffederasiwn y GIG a, phe bai Marcus Longley yn dewis gwneud hynny, gallai ef hefyd ddod gerbron y pwyllgor hwnnw fel y gellir rhoi'r holl jig-so hwn at ei gilydd? Mae hyn yn ymwneud â'r ddarpariaeth gofal iechyd sydd gan

Wales.

gymunedau, pwnc sy’n ennyn teimladau cryf ledled Cymru.

**The First Minister:** Of course the Minister for health will be made available; that is what scrutiny is all about. We do not run away from scrutiny. However, I think that I just heard the leader of the opposition accuse me of besmirching the reputation of Professor Marcus Longley. His own health spokesperson, who is not here, was on Radio Wales this morning accusing Marcus Longley of conniving—that was the word that he used—with the NHS Confederation and the Welsh Government. He could not have done more to try to wreck the academic reputation of Professor Marcus Longley, and he accuses me of doing it. The reality is that he should look very carefully at his own health spokesperson and what he said and then decide whether, in fact, he should remain in his job.

**Y Prif Weinidog:** Wrth gwrs y bydd y Gweinidog iechyd ar gael; dyna beth yw ystyr craffu. Nid ydym yn rhedeg i ffwrdd o waith craffu. Fodd bynnag, tybiaf fy mod newydd glywed arweinydd yr wrthblaid yn fy nghyhuddo o bardduo enw da yr Athro Marcus Longley. Roedd ei lefarydd iechyd ei hun, nad yw yma, ar Radio Wales y bore yma yn cyhuddo Marcus Longley o gydgynllwynio—dyna’r gair a ddefnyddiodd—gyda Cydffederasiwn y GIG a Llywodraeth Cymru. Ni allai fod wedi gwneud mwy i geisio dinistrio enw da academaidd yr Athro Marcus Longley, ac mae’n fy nghyhuddo i o wneud hynny. Y gwir amdani yw y dylai edrych yn ofalus iawn ar ei lefarydd iechyd ei hun a’r hyn a ddywedodd ac yna penderfynu a ddylai, mewn gwirionedd, aros yn ei swydd.

**The Presiding Officer:** Thank you. We now move to a quieter part of the agenda, perhaps. Question 3 is from Andrew R.T. Davies, again. [*Laughter.*]

**Y Llywydd:** Diolch yn fawr. Rydym yn awr yn symud i ran dawelach o’r agenda, o bosibl. Daw cwestiwn 3 gan Andrew R.T. Davies, eto. [*Chwerthin*.]

**Leighton Andrews:** Try again. [*Laughter*.]

**Leighton Andrews:** Rhowch gynnig arall arni. [*Chwerthin*.]

**Andrew R.T. Davies:** I do not think that I need to try again. We saw what the First Minister was up to.

**Andrew R.T. Davies:** Ni chredaf fod angen imi roi cynnig arall arni. Gwelsom yr hyn yr oedd y Prif Weinidog yn ei wneud.

**Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi**

**Priorities for the Economy**

***3. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau presennol ar gyfer yr economi yn rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0626(FM)*

***3. Andrew R.T. Davies***: *Will the First Minister outline his current priorities for the economy in the South Wales Central region. OAQ(4)0626(FM)*

**The First Minister:** I am glad that the leader of the opposition has thrown in the towel on that issue. My priorities for the economy across Wales are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn falch bod arweinydd yr wrthblaid wedi rhoi’r ffidil yn y to ar y mater hwnnw. Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer yr economi ledled Cymru wedi’u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Andrew R.T. Davies:** I can confirm, First Minister, that the leader of the opposition has clearly not thrown in the towel on that issue and by your performance this afternoon—

**Andrew R.T. Davies:** Gallaf gadarnhau, Brif Weinidog, nad yw arweinydd yr wrthblaid wedi rhoi’r ffidil yn y tô ar y mater hwnnw ac ar sail eich perfformiad y prynhawn yma—

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**Andrew R.T. Davies:** He asked the question.

**Andrew R.T. Davies:** Ef a ofynnodd y cwestiwn.

**The Presiding Officer:** Order. You are now speaking—as I should remind the First Minister—as Andrew R.T. Davies, the Member for South Wales Central.

**Y Llywydd:** Trefn. Rydych yn awr yn siarad—fel y dylwn atgoffa'r Prif Weinidog—fel Andrew R.T. Davies, yr Aelod dros Ganol De Cymru.

**Andrew R.T. Davies:** First Minister, can you outline how much of the £40 million that you announced in the March fund for small and medium-sized businesses has actually found its way to small businesses in South Wales Central?

**Andrew R.T. Davies:** Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu faint o'r £40 miliwn a gyhoeddwyd gennych yn y gronfa mis Mawrth ar gyfer busnesau bach a chanolig sydd wedi cyrraedd busnesau bach yng Nghanol De Cymru mewn gwirionedd?

**The First Minister:** I will write to the Member on South Wales Central, but what I can say is that it will support the creation of more than 4,000 jobs. It was a very popular fund among the SME community.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar Ganol De Cymru, ond yr hyn y gallaf ei ddweud yw y bydd yn cefnogi'r broses o greu mwy na 4,000 o swyddi. Roedd yn gronfa boblogaidd iawn ymhlith y gymuned busnesau bach a chanolig.

**The Presiding Officer:** I call another Member for South Wales Central, Leanne Wood.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Aelod arall dros Ganol De Cymru, Leanne Wood.

**Leanne Wood:** I have received representations from serving police officers in South Wales Central who are concerned about the implications of the Winsor report and the economic impact on our area. The Winsor report recommends cuts to pay and pensions, allowing chief constables to make compulsory redundancies and the introduction of direct entry recruitment to the higher ranks of the police force. Recently, I met the Scottish Cabinet Secretary for Justice, Kenny MacAskill MSP, who has rejected the Winsor report, much to the delight of police officers in Scotland. First Minister, why will you not pursue the devolution of the police, when the alternative is to allow Theresa May to impose her will on Welsh police services?

**Leanne Wood:** Rwyf wedi cael sylwadau gan swyddogion yr heddlu yng Nghanol De Cymru sy'n pryderu am oblygiadau adroddiad Winsor a'r effaith economaidd ar ein hardal. Mae adroddiad Winsor yn argymell toriadau i gyflogau a phensiynau, gan ganiatáu i brif gwnstabliaid wneud diswyddiadau gorfodol a chyflwyno proses recriwtio mynediad uniongyrchol i rengoedd uwch llu'r heddlu. Yn ddiweddar, cwrddais ag Ysgrifennydd Cabinet yr Alban dros Gyfiawnder, Kenny MacAskill MSP, sydd wedi gwrthod adroddiad Winsor, er mawr lawenydd i swyddogion yr heddlu yn yr Alban. Brif Weinidog, pam na wnewch chi geisio datganoli'r heddlu, gan mai'r dewis arall yw caniatáu i Theresa May wthio ei hewyllys ar wasanaethau heddlu Cymru?

**The First Minister:** It is an important issue that the leader of Plaid Cymru raises, and one that will be dealt with through Silk part 2. As a Government, we are developing our response to Silk part 2, which will include proposals for devolution in a number of areas.

**Y Prif Weinidog:** Mae arweinydd Plaid Cymru yn codi mater pwysig, a fydd yn cael ei drafod drwy Silk rhan 2. Fel Llywodraeth, rydym yn datblygu ein hymateb i Silk rhan 2, a fydd yn cynnwys cynigion i ddatganoli mewn nifer o feysydd.

**The Presiding Officer:** I call Eluned Parrott, another Member for South Wales Central.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Eluned Parrott, Aelod arall dros Ganol De Cymru.

**Eluned Parrott:** An announcement on the electrification of the Valleys lines is imminent, First Minister. If this is successful, it will have a massive impact on the economy of South Wales Central. However, critical to the success of any transport system is that its different elements link together effectively. What plans does the Welsh Government have to support the integration of bus and rail services across South Wales Central? Have new scenario plans been developed to take maximum advantage of electrification if we get it?

**Eluned Parrott:** Mae cyhoeddiad ar drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ar fin cael ei wneud, Brif Weinidog. Os yw hyn yn llwyddiannus, bydd yn cael effaith enfawr ar economi Canol De Cymru. Fodd bynnag, hanfod llwyddiant unrhyw system drafnidiaeth yw bod ei helfennau gwahanol yn cysylltu gyda'i gilydd yn effeithiol. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o integreiddio gwasanaethau bws a rheilffordd ledled Canol De Cymru? A ddatblygwyd cynlluniau senario newydd i fanteisio i'r eithaf ar drydaneiddio os byddwn yn ei gael?

**The First Minister:** Yes, we will have to see what the announcement on electrification will be. As a Government, our position is that we see the Valleys lines electrification, for example, as including the Llynfi valley line, the Ebbw valley line and the Vale of Glamorgan line. Otherwise, trains that run through those places from destinations such as Merthyr or Aberdare would not be able to run through to Barry Island in the way that they do now. However, clearly, when that opportunity presents itself, if it does, we will look to see how integration can be maximised.

**Y Prif Weinidog:** Bydd, bydd yn rhaid inni weld beth fydd y cyhoeddiad ar drydaneiddio. Fel Llywodraeth, ein safbwynt yw bod trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, er enghraifft, yn cynnwys llinell dyffryn Llynfi, llinell Glyn Ebwy a llinell Bro Morgannwg. Fel arall, ni fyddai trenau sy'n rhedeg drwy'r lleoedd hynny o gyrchfannau fel Merthyr neu Aberdâr yn gallu rhedeg yn eu blaenau i Ynys y Barri yn y modd y maent yn ei wneud yn awr. Fodd bynnag, yn amlwg, pan fydd y cyfle hwnnw'n codi, os y bydd, byddwn yn edrych i weld sut y gellir ei integreiddio i'r eithaf.

## Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

## Culture, Media and Sport

***4. Mohammad Asghar:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl Etholiad Cyffredinol 2010. OAQ(4)0616(FM)*

***4. Mohammad Asghar:*** *What discussions has the First Minister had with UK Government Ministers from the Department for Culture, Media and Sport since the 2010 General Election. OAQ(4)0616(FM)*

**The First Minister:** We have regular discussions with the UK Government regarding culture, media and sport.

**Y Prif Weinidog:** Cawn drafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU ynghylch diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that answer, First Minister. Local television has the potential to provide viewers with a local perspective on issues that affect them daily as well as being a powerful tool for promoting community engagement. Last year, the UK Government consulted on its local media action plan for local TV stations, including at

**Mohammad Asghar:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae potensial gan deledu lleol i roi safbwynt lleol i wylwyr ar faterion sy'n effeithio arnynt bob dydd yn ogystal â bod yn ffordd rymus o hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned. Y llynedd, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar ei chynllun gweithredu cyfryngau lleol i

six locations in Wales. What discussions has the First Minister's Government had with the Department for Culture, Media and Sport with regard to promoting local television in Wales?

orsafoedd teledu lleol, gan gynnwys mewn chwe lleoliad yng Nghymru. Pa drafodaethau a gafodd Llywodraeth y Prif Weinidog gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am hyrwyddo teledu lleol yng Nghymru?

**The First Minister:** I certainly discussed the matter with Jeremy Hunt, when I met him. I am sceptical that local TV would be successful in six locations across Wales. We know that it has a chequered history in other parts of the UK. However, anything that broadens broadcast output in Wales is to be welcomed.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn sicr wedi trafod y mater gyda Jeremy Hunt, pan gyfarfum ag ef. Rwyf yn amheus y byddai teledu lleol yn llwyddiannus mewn chwe lleoliad ledled Cymru. Gwyddom fod ganddo hanes brith mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, mae unrhyw beth sy'n ehangu'r allbwn darlledu yng Nghymru i'w groesawu.

**Mike Hedges:** Does the First Minister welcome the news from UEFA that Cardiff is set to hold the 2014 UEFA Super Cup, and can he indicate what arrangements the Welsh Government is making to ensure that this major sporting event has the potential to benefit the wider south Wales economy?

**Mike Hedges:** A yw'r Prif Weinidog yn croesawu'r newyddion gan UEFA y bydd Caerdydd yn cynnal *Super Cup* UEFA yn 2014, ac a wnaiff nodi pa drefniadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i sicrhau bod gan y digwyddiad chwaraeon mawr hwn y potensial i ddod a budd i economi ehangach de Cymru?

**The First Minister:** I very much welcome it. It gives us the opportunity to stage a major European event and to put a stronger marker down for events like the Champions League final. We will be discussing with the Football Association of Wales how we can best maximise the benefits beyond the immediate area of Cardiff.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn ei groesawu'n fawr. Mae'n rhoi cyfle inni gynnal digwyddiad Ewropeaidd mawr ac i osod sail gryfach ar gyfer cynnal digwyddiadau fel gêm derfynol y *Champions League*. Byddwn yn trafod gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru sut y gallwn wneud y gorau o'r buddion y tu hwnt i ardal gyfagos Caerdydd.

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, rydym i gyd yn y Siambr hon yn gwybod am y problemau a ddaeth yn sgîl negodi cyllideb S4C a thrwydded y BBC. A oes trafodaethau wedi bod ynglŷn â chytundeb hirdymor wedi i'r drwydded hon ddod i ben? Pa drafodaethau rydych wedi'u cael gyda DCMS ac S4C gyda'i gilydd i sicrhau na fydd yn bosibl i'r un problemau godi yn y dyfodol?

**Bethan Jenkins:** First Minister, all of us in the Chamber know about the problems that arose as a result of negotiating the S4C budget and the BBC's licence. Have there been any discussions about the long-term agreement, once this licence comes to an end? What discussions have you had with DCMS and S4C together to ensure that the same problems cannot arise in the future?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi siarad am y sefyllfa gyda'r BBC a chydag S4C. Mae'r sefyllfa wedi cael ei datrys, mewn ffordd, yn y tymor byr, ond mae'n wir bod mwy o waith i'w wneud er mwyn sicrhau dyfodol gwasanaeth S4C. Rydym yn trafod hyn gydag S4C a chyda'r BBC.

**The First Minister:** I have spoken to the BBC and to S4C about this situation. The situation has, in a way, been resolved in the short term, but it is true that more work remains to be done in order to secure the future of the S4C service. We are discussing this with S4C and with the BBC.

**Kenneth Skates:** First Minister, in terms of sport, the second Etape Cymru closed-road cycling event will take place this September

**Kenneth Skates:** Brif Weinidog, o ran chwaraeon, bydd yr ail ddigwyddiad beicio ar ffyrdd sydd wedi'u cau gan Etape Cymru yn

in Wrexham and Denbighshire, building on last year's excellent event, which raised an estimated £1.8 million for the local economy. Will you look at the growth potential of the Etape Cymru event and commit the Welsh Government to helping to expand this and other complementary sports events, which could generate significant leisure tourism revenue in north Wales?

cael ei gynnal ym mis Medi eleni yn Wrecsam a Sir Ddinbych, gan adeiladu ar ddigwyddiad ardderchog y llynedd, a gododd £1.8 miliwn i'r economi leol yn ôl yr amcangyfrifon. A wnewch chi edrych ar botensial y digwyddiad Etape Cymru i dyfu ac ymrwymo Llywodraeth Cymru i helpu i ehangu'r digwyddiad hwn a digwyddiadau chwaraeon tebyg eraill, oherwydd gallent gynhyrchu refeniw twristiaeth hamdden sylweddol yn y gogledd?

**The First Minister:** Through the major events unit, we seek to support major sporting and cultural events in Wales and we would always look to support an event that is successful and that has the potential to grow.

**Y Prif Weinidog:** Drwy'r uned digwyddiadau mawr, rydym yn ceisio cefnogi digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol mawr yng Nghymru a byddem bob amser yn edrych i gefnogi digwyddiad sy'n llwyddiannus ac sydd â'r potensial i dyfu.

### Incwm Isel a Budd-Daliadau

### Low Incomes and Benefits

***5. Julie James:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gymorth sydd yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi pobl sydd ar incwm isel a budd-daliadau yng Nghymru. OAQ(4)0622(FM)*

***5. Julie James:*** *Will the First Minister highlight what help is contained in the Programme for Government to support people on low incomes and benefits in Wales. OAQ(4)0622(FM)*

**The First Minister:** We recently launched the 'Tackling Poverty Action Plan 2012-2016', which demonstrates how the Welsh Government plays a vital role in improving the lives of low-income families.

**Y Prif Weinidog:** Yn ddiweddar, gwnaethom lansio'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016', sy'n dangos sut mae Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl allweddol er mwyn gwella bywydau teuluoedd sydd ag incwm isel.

**Julie James:** I very much welcome the support that you have highlighted in our programme for government, but I am very concerned by figures highlighted by the BBC last week, which identified an estimated 9,010 families, including 17,115 children, that will lose nearly £4,000 a year or £73 a week under the reconfiguration of the working families tax credit. I was also very dismayed by Cameron's proposals that people under the age of 25 might lose the right to housing benefit as part of a programme to cut the welfare bill, showing that he has no understanding at all of any ordinary family's circumstances. First Minister, what can we do in Wales to further assist people on low incomes and benefits, should these terrible proposals come to fruition?

**Julie James:** Rwyf yn croesawu'n fawr y gefnogaeth rydych wedi tynnu sylw ati yn ein rhaglen lywodraethu, ond rwyf yn bryderus iawn am y ffigurau a amlygwyd gan y BBC yr wythnos diwethaf, a nododd yr amcangyfrifir y bydd 9,010 o deuluoedd, gan gynnwys 17,115 o blant, yn colli bron i £4,000 y flwyddyn neu £73 yr wythnos o dan y broses o ail-gyflunio'r credyd treth i deuluoedd. Roeddwn hefyd yn siomedig iawn gyda chynigion Cameron y gallai pobl o dan 25 oed golli'r hawl i fudd-dal tai fel rhan o'r rhaglen i gwtogi'r bil lles, sy'n dangos nad yw'n deall amgylchiadau unrhyw deulu cyffredin o gwbl. Brif Weinidog, beth allwn ni ei wneud ymhellach yng Nghymru i helpu pobl ar incwm isel a budd-daliadau pe bai'r cynigion ofnadwy hyn yn cael eu rhoi ar waith?

**The First Minister:** In the current climate,

**Y Prif Weinidog:** Yn yr hinsawdd bresennol,

financial exclusion looks set to remain a difficult problem to overcome. We are doing all that we can to help financially vulnerable households by taking forward our financial inclusion strategy, which widens access to affordable credit.

mae'n edrych yn debyg y bydd allgáu ariannol yn parhau i fod yn broblem sy'n anodd i'w goresgyn. Rydym yn gwneud popeth y gallwn ei wneud i helpu aelwydydd sy'n agored i niwed yn ariannol drwy roi ein strategaeth cynhwysiant ariannol ar waith, sy'n ehangu mynediad i gredyd fforddiadwy.

**Janet Finch-Saunders:** First Minister, few could disagree that we must fight the causes of poverty at their source. In your programme for government update, you state ad nauseum that devolved policy areas are crucially important in this regard in the longer term. Your party's response in devolved policy areas, however, has been 13 years of broken promises, endless strategies, many intentions and mere lip service. Will you reassure the people of Wales that, in the areas of policy over which you have direct control, you will raise standards during this Assembly term?

**Janet Finch-Saunders:** Brif Weinidog, prin y byddai neb yn anghytuno bod yn rhaid inni frwydro yn erbyn yr hyn sy'n achosi tlodi wrth ei wraidd. Yn eich diweddariad ar y rhaglen lywodraethu, rydych yn nodi ad nauseum fod y meysydd polisi datganoledig yn hanfodol bwysig yn hyn o beth yn y tymor hwy. Fodd bynnag, ymateb eich plaid mewn meysydd polisi datganoledig yw 13 mlynedd o dorri addewidion, strategaethau diddiwedd, nifer o fwriadau a siarad gwag yn unig. A wnewch chi roi sicrwydd i bobl Cymru y byddwch, yn y meysydd polisi y mae gennych reolaeth uniongyrchol drostynt, yn codi safonau yn ystod tymor y Cynulliad hwn?

**The First Minister:** I think that the people of Wales have confidence in what we are doing here. The opinion poll last week shows that. We know that, if there was an election now, the party opposite would, at least, be on a par with UKIP.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn credu bod gan bobl Cymru hyder yn yr hyn yr ydym yn ei wneud yma. Dangosodd arolwg barn yr wythnos diwethaf hynny. Rydym yn gwybod, pe bai etholiad yn awr, y byddai'r blaid gyferbyn yn gydradd, o leiaf, ag UKIP.

**Jocelyn Davies:** First Minister, with a diminishing capital budget, I am sure that you would agree that finding new ways to fund capital projects is a priority in order to boost the economy, to aid economic growth and to create jobs. What is your view on the potential future use of private finance initiatives?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, gyda chyllideb gyfalaf sy'n prysur ddiflannu, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn flaenoriaeth canfod ffyrdd newydd i ariannu prosiectau cyfalaf er mwyn rhoi hwb i'r economi, cynorthwyo twf economaidd a chreu swyddi. Beth yw eich barn am y posibilrwydd o ddefnyddio mentrau cyllid preifat yn y dyfodol?

**The First Minister:** We are very sceptical of PFI. We know that its past history has shown that it comes at great expense. Nevertheless, we are exploring ways of levering as much as possible into our capital programme and I know that the Minister for Finance is exploring those options at the moment.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn amheus iawn o PFI. Gwyddom fod ei hanes yn y gorffennol yn dangos ei fod yn ddrud iawn. Serch hynny, rydym yn archwilio ffyrdd o ysgogi cymaint â phosibl o arian i mewn i'n rhaglen gyfalaf a gwn fod y Gweinidog dros Gyllid yn archwilio'r opsiynau hynny ar hyn o bryd.

### Blaenoriaethau

### Priorities

***6. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Dwyrain De*

***6. William Graham:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for South Wales East.*

*Cymru. OAQ(4)0629(FM)*

*OAQ(4)0629(FM)*

**The First Minister:** Our priorities are found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae ein blaenoriaethau i’w cael yn y rhaglen lywodraethu.

**William Graham:** Thank you for your rather predictable answer, First Minister. What is your Government’s policy for reassuring the general public about the installation of incinerators? There is a public process to go through, but presumably your Government has a policy of reassurance.

**William Graham:** Diolch ichi am eich ateb, a oedd braidd yn rhagweladwy, Brif Weinidog. Beth yw polisi eich Llywodraeth ar dawelu meddwl y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch gosod llosgyddion? Mae proses gyhoeddus i fynd drwyddi, ond rhagdybiaf fod gan eich Llywodraeth bolisi o roi sicrwydd.

2.00 p.m.

**The First Minister:** Of course, any incinerators or any energy-from-waste plants would have to operate within the strict guidance laid down by the law and the Environment Agency. Although we seek to promote recycling first and foremost, as well as reuse, there will still be a residue of waste that has to be dealt with, either through a diminishing stock of landfill sites or through energy-from-waste plants.

**Y Prif Weinidog**: Wrth gwrs, byddai’n rhaid i unrhyw losgyddion neu weithfeydd ynni-o-wastraff weithredu o fewn y canllawiau llym a osodir gan y gyfraith ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Er ein bod yn ceisio hyrwyddo ailgylchu yn bennaf oll, yn ogystal ag ail-ddefnyddio, bydd gweddillion gwastraff yn parhau i orfod cael eu trin, naill ai drwy gyflenwad o safleoedd tirlenwi sy’n lleihau neu drwy weithfeydd ynni-o-wastraff.

**Lindsay Whittle:** Developing the prosperity of the south-east relies heavily on transport infrastructure in order to move goods and people in and out of the area and to attract businesses and jobs into the region. It is understandable, therefore, that businesses and people in the immediate area are concerned at the proposals in option D of the M4 corridor enhancement measures programme to close access to the eastbound motorway junctions 25 and 26. What assurances can you give that any infrastructure developments will not be made at the expense of the economy?

**Lindsay Whittle:** Mae datblygu ffyniant y de-ddwyrain yn dibynnu’n fawr ar seilwaith trafnidiaeth er mwyn symud nwyddau a phobl i mewn i’r ardal ac allan ohoni ac i ddenu busnesau a swyddi i’r ardal. Mae’n ddealladwy, felly, fod busnesau a phobl yn yr ardal gyfagos yn pryderu ynghylch y cynigion yn opsiwn D o’r rhaglen mesurau i wella coridor yr M4 i gau’r mynediad i gyffyrdd 25 a 26 y draffordd wrth deithio tua’r dwyrain. Pa sicrwydd y gallwch chi ei roi na fydd unrhyw ddatblygiadau seilwaith yn cael eu gwneud ar draul yr economi?

**The First Minister:** Infrastructure developments are designed to enhance the economy. Where there are options, we will listen carefully to any views that are given on those options during the consultation process.

**Y Prif Weinidog:** Diben datblygiadau seilwaith yw gwella’r economi. Lle mae opsiynau, byddwn yn gwrando’n astud ar unrhyw farn a roddir ar yr opsiynau hynny yn ystod y broses ymgynghori.

### Polisi Awtistiaeth

### Autism Policy

***7. Peter Black:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Awtistiaeth Llywodraeth Cymru. OAQ(4)0617(FM)*

***7. Peter Black:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government’s Autism policy. OAQ(4)0617(FM)*

**The First Minister:** Our autistic spectrum disorder strategic action plan has delivered

**Y Prif Weinidog:** Mae ein cynllun gweithredu strategol ar anhwylder sbectrwm

the necessary infrastructure within statutory authorities, enabled training for professionals and raised awareness of ASD.

awtistig wedi cyflenwi'r seilwaith angenrheidiol o fewn awdurdodau statudol, wedi hwyluso hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ac wedi codi ymwybyddiaeth ynghylch ASD.

**Peter Black:** Thank you for that answer, First Minister. You will know that it has also raised awareness of some of the failures in that plan. The National Autistic Society in Wales, for example, says that 47% of parents in Wales wait longer than three years for a diagnosis, compared with 34% in England. I have casework involving constituents who have failed to get the expert advice that they need because there is no autism expert based in that part of Wales. What is the action plan doing to put that right and what sort of timescale are we looking at?

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod ei fod hefyd wedi codi ymwybyddiaeth ynghylch rhai o'r methiannau yn y cynllun hwnnw. Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yng Nghymru, er enghraifft, yn dweud bod 47% o rieni yng Nghymru yn aros yn hwy na thair blynedd i gael diagnosis, o'i gymharu â 34% yn Lloegr. Mae gennyf fi waith achos sy'n ymwneud ag etholwyr sydd wedi methu â chael y cyngor arbenigol sydd ei angen arnynt gan nad oes unrhyw arbenigwr awtistiaeth yn y rhan honno o Gymru. Beth y mae'r cynllun gweithredu yn ei wneud i unioni hynny a pha fath o amserlen sydd gennych mewn golwg?

**The First Minister:** For this financial year, £2 million is available to continue the development and implementation of the ASD strategic action plan. That includes the development of diagnostic and counselling services for adults with ASD and children's diagnostic services. We are working with Autism Cymru, the National Autistic Society and others to undertake a consultation to identify the key issues that will need to be taken forward in the future as part of the plan.

**Y Prif Weinidog:** Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, mae £2 filiwn ar gael i barhau i ddatblygu a gweithredu'r cynllun gweithredu strategol ASD. Mae hynny'n cynnwys datblygu gwasanaethau diagnostig a chynghori ar gyfer oedolion ag ASD a gwasanaethau diagnostig i blant. Rydym yn gweithio gydag Awtistiaeth Cymru, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol ac eraill i gynnal ymgynghoriad i ganfod y materion allweddol y bydd angen eu datblygu yn y dyfodol fel rhan o'r cynllun.

**Mark Isherwood:** In the real world, early intervention depends on statementing, and statementing depends on diagnosis. We know from a December 2010 report that was recently leaked, which had been with the Welsh Government for 16 months prior to that, that concerns had been raised about the diagnosis of children. How do you, therefore, respond to concerns raised at a recent meeting of the cross-party autism group by an Asperger's syndrome pioneer, who said that adults in Wales are worried about how the autism action plan is leaving them out, especially with regard to diagnostic services identifying adults on the spectrum?

**Mark Isherwood**: Yn y byd go iawn, mae ymyrraeth gynnar yn dibynnu ar ddatganiadau, ac mae datganiadau yn dibynnu ar ddiagnosis. Gwyddom o adroddiad ym mis Rhagfyr 2010 a ddatgelwyd yn answyddogol yn ddiweddar, ac a fu yn nwylo Llywodraeth Cymru am 16 mis cyn hynny, fod pryderon wedi codi ynghylch rhoi diagnosis i blant. Sut ydych chi, felly, yn ymateb i bryderon a godwyd mewn cyfarfod diweddar o'r grŵp awtistiaeth trawsbleidiol gan arloeswr syndrom Asperger, a ddywedodd fod oedolion yng Nghymru yn pryderu nad yw'r cynllun gweithredu awtistiaeth yn eu cynnwys hwy, yn enwedig o ran gwasanaethau diagnostig sy'n nodi bod oedolion ar y sbectrwm?

**The First Minister:** The money to which I

**Y Prif Weinidog:** Diben yr arian y cyfeiriais

referred earlier is designed to develop diagnostic services and to support projects for people with Asperger's, so we would expect the action plan, together with the money that has been made available, to ensure that people get the diagnosis that they need as quickly as possible and, thereafter, the support that they need.

ato yn gynharach yw datblygu gwasanaethau diagnostig a phrosiectau cymorth ar gyfer pobl â syndrom Asperger, felly byddem yn disgwyl i'r cynllun gweithredu, ynghyd â'r arian sydd ar gael, sicrhau bod pobl yn cael y diagnosis sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl ac, wedi hynny, y cymorth sydd ei angen arnynt.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, daeth dau o'm hetholwyr i'm gweld wythnos diwethaf. Mae ganddynt fab sydd ar y sbectrwm awtistiaeth ac roeddent yn dweud bod y ffaith ei fod wedi cael iPad wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'w ymddygiad a'i allu i ddysgu. Mae dyfeisiadau felly ar gael sydd yn arbennig ar gyfer pobl sydd yn dioddef o awtistiaeth. A yw eich Llywodraeth wedi gwneud unrhyw ymchwil i hyn ac a fyddwch yn barod ystyried sicrhau bod pobl sydd ar y sbectrwm yn gallu cael mynediad i'r math hwn o ddyfais wrth i chi fwrw ymlaen â'ch ymgynghoriad ar y cynllun awtistiaeth hyd at 2015?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, two of my constituents came to see me last week. They have a son who is on the autistic spectrum and they said that the fact that he had had an iPad had made a great difference to his behaviour and his ability to learn. Such devices are available especially for people who suffer from autism. Has your Government undertaken any research into this and are you willing to consider ensuring that people on the spectrum can access these kinds of devices as you progress with your consultation on the autism plan until 2015?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw yn syniad diddorol ac rwy'n gobeithio y bydd sôn am y syniad hwnnw yn ystod yr ymgynghori a fydd yn cymryd lle ynglŷn â chyfeiriad y cynllun gweithredu yn y pen draw.

**The First Minister:** That is an interesting idea and I hope that it will be mentioned during the consultation that will take place as to the future direction of the action plan.

### Budd-daliadau Rhanbarthol

### Regional Benefits

***8. Keith Davies:*** *Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch budd-daliadau rhanbarthol. OAQ(4)0627(FM)*

***8. Keith Davies:*** *What discussions has the Welsh Government had regarding regional benefits. OAQ(4)0627(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae eithaf dryswch ynglŷn â chynnig Prif Weinidog y Deyrnas Unedig. Nid ydym fel Llywodraeth wedi cael unrhyw drafodaethau hyd yma achos nid ydym yn gwybod yn union beth yw safbwynt y Prif Weinidog yn ystod bywyd y Llywodraeth Brydeinig hon.

**The First Minister:** There is quite a bit of confusion around the Prime Minister's proposal. As a Government, we have not had any discussions to date, because we do not know exactly what the view of the Prime Minister is during the lifetime of this British Government.

**Keith Davies:** Daw polisïau Llywodraeth San Steffan yn gyflym yn fwyfwy dadleuol. Caiff toriadau parhaus, cyflogau rhanbarthol a diwygio'r system lles eu gwaethygu wrth sôn am gyflwyno system o fudd-daliadau rhanbarthol, lle bydd pobl mewn ardaloedd sy'n gysylltiedig â chyflogau isel yn derbyn llai o fudd-daliadau. Mae eisoes gan Gymru'r cyflog crynswth wythnosol isaf o bedwar

**Keith Davies:** The Westminster Government's policies are quickly becoming more and more contentious. Continuous cuts, regional pay and welfare reform will be made even worse by talk about the introduction of regional benefits, where people in areas with low incomes will receive lower benefits. Wales already has the lowest weekly gross wage of the four nations of the United

gwlad y Deyrnas Unedig, a defnyddir y rhan fwyaf o fudd-daliadau gan bobl fel ychwanegiad i'w hincwm. Os daw cynlluniau Llywodraeth San Steffan i fodolaeth, a fyddwch yn eu gwrthwynebu ar bob cyfle?

Kingdom, and most benefits are used by people to top up their incomes. If these plans by the Westminster Government come into existence, will you oppose them on all occasions?

**Y Prif Weinidog:** Byddaf. Rydym yn gwybod nad yw'r costau byw yng Nghymru yn llai na'r costau byw yn ne-ddwyrain Lloegr. Os rhywbeth, mae rhai pethau'n ddrytach yng Nghymru. Ni welaf fod unrhyw ffordd o gefnogi unrhyw fath o system budd-daliadau rhanbarthol wrth gofio hynny.

**The First Minister:** I will. We know that the cost of living in Wales is no less than the cost of living in the south-east of England. If anything, there are some things that are more expensive in Wales. I do not see any way of supporting a regional benefits system bearing that in mind.

**Nick Ramsay:** First Minister, dare I suggest that, if you are not going to have discussions with the Westminster Government about a policy area such as regional benefits, you are not going to have a full understanding of what the UK Government is proposing? There is a lot of hearsay and scaremongering about this issue. There is no solid proposal on the table for regional benefits. I agree with what Keith Davies said in his question, regarding the problems that there are at the moment with pay differentials, and the fact that wages in parts of Wales are the worst in any part of the UK. Could you tell us what you are doing to address that particular aspect of Keith Davies's question?

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, tybed a feiddiaf awgrymu, os nad ydych am gael trafodaethau â Llywodraeth San Steffan am faes polisi fel budd-daliadau rhanbarthol, ni fydd gennych ddealltwriaeth lawn o'r hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei gynnig? Mae llawer o wybodaeth ail-law a chodi bwganod am y mater hwn. Nid oes unrhyw gynnig cadarn o'n blaenau ar gyfer budd-daliadau rhanbarthol. Rwyf yn cytuno â'r hyn a ddywedodd Keith Davies yn ei gwestiwn ynghylch y problemau presennol gyda gwahaniaethau mewn cyflog, a'r ffaith mai cyflogau yn rhannau o Gymru yw'r gwaethaf yn unrhyw ran o'r DU. A allwch ddweud wrthym beth yr ydych yn ei wneud i fynd i'r afael â'r agwedd benodol honno ar gwestiwn Keith Davies?

**The First Minister:** I will tell you what we are not doing. We do not believe that public sector pay should be cut by 20%, which would make things even worse. That is something that the UK Treasury tried to put forward at one point. I have to tell the Member that we are not going to engage in conversations with the UK Government on regional benefits because we do not agree with regional benefits. There is no compromise. There is opposition. We do not accept that people in Wales—or those in the north-east of England for that matter—should be paid less or given less in benefits because of where they live. We know full well that the cost of living is the same wherever you are.

**Y Prif Weinidog:** Dywedaf wrthych yr hyn nad ydym yn ei wneud. Nid ydym yn credu y dylai cyflogau yn y sector cyhoeddus gael eu torri 20%, gan wneud pethau'n waeth fyth. Mae hynny'n rhywbeth y ceisiodd Trysorlys y DU ei gyflwyno ar un adeg. Rhaid imi ddweud wrth yr Aelod nad ydym am gymryd rhan mewn sgyrsiau gyda Llywodraeth y DU ynghylch budd-daliadau rhanbarthol oherwydd nad ydym yn cytuno gyda budd-daliadau rhanbarthol. Nid oes unrhyw gyfaddawd. Mae gwrthwynebiad. Nid ydym yn derbyn y dylai pobl yng Nghymru—neu yng ngogledd-ddwyrain Lloegr o ran hynny—gael llai o dâl neu gael llai o fudd-daliadau oherwydd ble maent yn byw. Rydym yn gwybod yn iawn fod costau byw yr un fath ble bynnag yr ydych.

**Alun Ffred Jones:** Earlier this year, Liam Byrne, the Shadow Work and Pensions Secretary, said that he was in favour of a 'cap

**Alun Ffred Jones**: Yn gynharach eleni dywedodd Liam Byrne, Ysgrifennydd Gwaith a Phensiynau yr Wrthblaid, ei fod o

set locally' on household benefits. Is this Labour Party policy, and are you in favour of it?

blaid cael cap a bennir yn lleol ar fudd-daliadau aelwydydd. Ai polisi'r Blaid Lafur yw hyn, ac a ydych o'i blaid?

**The First Minister:** No it is not, and I do not agree with that position.

**Y Prif Weinidog:** Nage, ac nid wyf yn cytuno â'r farn honno.

**Blaenoriaethau ar gyfer Hawliau Plant**

**Priorities for Children's Rights**

***9. Lindsay Whittle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer hawliau plant. OAQ(4)0625(FM)*

***9. Lindsay Whittle:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's priorities for children's rights. OAQ(4)0625(FM)*

**The First Minister:** Yes. We are proud to be the first nation in the UK to enshrine children's rights in our domestic law.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf. Rydym yn falch mai ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant yn ein cyfraith ddomestig.

**Lindsay Whittle:** Thank you for that good answer, First Minister, and I join you in that. However, I wanted to ask you about your action plan on children's rights. As you know, there are 16 priority areas listed, yet nowhere are the needs of young carers in Wales specifically mentioned. In Wales, there are 11,000 children who care for a relative, carrying out such tasks as washing, making meals, dressing and bathing. Some of these children are in primary schools. Many of these young carers are also bullied at school and miss out on an education. First Minister, what assurances can you give that the rights of these vulnerable young carers to be free from bullying and to receive the same educational opportunities as other children will be safeguarded by this Government, bearing in mind the very important point that support for young carers can be included as an additional priority within your five-year action plan?

**Lindsay Whittle:** Diolch ichi am yr ateb da hwnnw, Brif Weinidog, ac ymunaf â chi yn hynny. Fodd bynnag, yr oeddwn am ofyn ichi am eich cynllun gweithredu ar hawliau plant. Fel y gwyddoch, rhestrir 16 o feysydd blaenoriaeth, ac eto ni chyfeirir yn unman at anghenion gofalwyr ifanc yng Nghymru yn benodol. Yng Nghymru, mae 11,000 o blant yn gofalu am berthynas, yn cyflawni tasgau megis golchi, gwneud prydau bwyd, gwisgo ac ymolchi. Mae rhai o'r plant hyn mewn ysgolion cynradd. Mae nifer o'r gofalwyr ifanc hyn yn cael eu bwlio yn yr ysgol hefyd ac yn colli allan ar gael addysg. Brif Weinidog, pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd hawliau'r gofalwyr ifanc hyn sy'n agored i niwed i fod yn rhydd o fwlio ac i gael yr un cyfleoedd addysgol â phlant eraill yn cael eu diogelu gan y Llywodraeth hon, gan gadw mewn cof y pwynt pwysig iawn y gellir cynnwys cefnogaeth i ofalwyr ifanc yn flaenoriaeth ychwanegol yn eich cynllun gweithredu pum mlynedd?

**The First Minister:** Support for young carers is a priority for us, as it was for the Member's party when it was a part of Government. We know that there are many young people in Wales, sometimes at a very young age, who are carers. That is why, through the carers strategy and the support that we have put in place for young carers, we recognise the contribution that they make, and the need for them to have the necessary level of support.

**Y Prif Weinidog:** Mae cefnogaeth i ofalwyr ifanc yn flaenoriaeth i ni, fel yr oedd i blaid yr Aelod pan oedd yn rhan o'r Llywodraeth. Gwyddom fod nifer o bobl ifanc yng Nghymru sy'n ofalwyr, weithiau pan fyddant yn ifanc iawn. Dyna pam yr ydym, drwy'r strategaeth gofalwyr a'r gefnogaeth yr ydym wedi'i rhoi ar waith ar gyfer gofalwyr ifanc, yn cydnabod y cyfraniad y maent yn ei wneud, a'r angen iddynt gael y lefel angenrheidiol o gefnogaeth.

**Angela Burns:** First Minister, I am sure that you will agree with me that all people, especially children, have the right to not suffer abuse throughout their lives. One of the areas where abuse sadly occurs sometimes is on the sports field. There is a big problem with sporting punishments and regulations relating to people who have committed abuse. For example, if a judo coach was to abuse a child in his or her care—and there is evidence about a judo coach—and if that person then moved away from judo and into another sport, there is no cross-referencing from the independent safeguarding authority regarding where they have gone and the fact that they have committed this awful crime. First Minister, what discussions have you had, or will you undertake to have, with the Westminster Government—as this is a joint issue between Westminster and Wales—regarding how the independent safeguarding authority should put into place proper rules and regulations to ensure that you are regulated, no matter what sport you are involved in, and to ensure that, if you are found to have committed abuse against a child, you can be prevented from going into any other area?

**Angela Burns:** Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi bod gan bawb, yn enwedig plant, yr hawl i beidio â gorfod dioddef cael eu cam-drin drwy gydol eu bywydau. Un o’r meysydd lle mae cam-drin yn digwydd weithiau, yn anffodus, yw ar y maes chwaraeon. Mae problem fawr ynghylch cosbau chwaraeon a rheoliadau sy’n ymwneud â phobl sydd wedi cam-drin. Er enghraifft, pe byddai hyfforddwr jiwdo yn cam-drin plentyn yn ei ofal—ac mae tystiolaeth am hyfforddwr jiwdo—a phe bai’r unigolyn dan sylw yn symud i ffwrdd oddi wrth jiwdo ac i gamp arall, nid oes unrhyw groesgyfeirio gan yr awdurdod diogelu annibynnol ynghylch lle mae wedi mynd a’r ffaith ei fod wedi cyflawni’r drosedd erchyll hon. Brif Weinidog, pa drafodaethau yr ydych chi wedi’u cael, neu y byddwch yn ymrwymo i’w cael, gyda Llywodraeth San Steffan—gan fod hwn yn fater ar y cyd rhwng Cymru a San Steffan—ynghylch sut y dylai’r awdurdod diogelu annibynnol fynd ati i gyflwyno rheolau a rheoliadau priodol i sicrhau eich bod yn cael eich rheoleiddio, waeth pa gamp yr ydych yn ymwneud â hi, er mwyn sicrhau, os canfyddir eich bod wedi cam-drin plentyn, y gellir eich atal rhag gweithio mewn maes arall?

**The First Minister:** The Member raises an important point, and I will write to her with the details that she requires, in terms of how different levels of Government are working together in order to provide proper safeguarding.

**Y Prif Weinidog:** Mae’r Aelod yn codi pwynt pwysig, a byddaf yn ysgrifennu ati gyda’r manylion y mae’n holi amdanynt, o ran sut y mae gwahanol lefelau o Lywodraeth yn gweithio gyda’i gilydd er mwyn darparu’r diogelwch priodol.

**David Rees:** Following on from Lindsay Whittle’s points, Neath Port Talbot has one of the highest percentages of young carers in the UK. Last week, I met Victoria Thomas and the director of education for Neath Port Talbot to discuss the actions being taken there to help schools to identify and support these young carers who are taking on a tremendous responsibility and which can also lead to them being bullied in school. What actions is the Welsh Government taking to look at the schools and the resource packages available to them to identify and support young carers in schools?

**David Rees:** Yn dilyn ymlaen o bwyntiau Lindsay Whittle, Castell-nedd Port Talbot sydd ag un o’r canrannau uchaf o ofalwyr ifanc yn y DU. Yr wythnos diwethaf, cwrddais â Victoria Thomas a chyfarwyddwr addysg Castell-nedd Port Talbot i drafod y camau sy’n cael eu cymryd yno i helpu ysgolion i ganfod a chefnogi’r gofalwyr ifanc hyn sy’n cymryd cyfrifoldeb aruthrol ar eu hysgwyddau, sydd hefyd yn gallu arwain at iddynt gael eu bwlio yn ysgol. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i edrych ar yr ysgolion a’r pecynnau adnoddau sydd ar gael iddynt i ganfod a chefnogi gofalwyr ifanc mewn ysgolion?

**The First Minister:** We are developing a web-based toolkit for professionals in health,

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn datblygu pecyn cymorth ar y we ar gyfer gweithwyr

education and social services, to assist them in providing support for young carers. That includes updating the 'Caring for Young Carers' training resource for schools, which was originally issued in 2004. We know that we need to involve young carers in its design and that is something that will happen.

proffesiynol yn y gwasanaethau iechyd, addysg a chymdeithasol, i'w helpu i ddarparu cefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae hynny'n cynnwys diweddaru'r adnodd hyfforddiant 'Gofalu am Ofalwyr Ifanc' ar gyfer ysgolion, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2004. Gwyddom fod angen inni gynnwys gofalwyr ifanc yn y gwaith o'i gynllunio ac mae hynny'n rhywbeth a fydd yn digwydd.

**Treftadaeth**

**Heritage**

***10. Christine Chapman:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i warchod treftadaeth Cymoedd De Cymru. OAQ(4)0618(FM)*

***10. Christine Chapman:*** *What action is the Welsh Government taking to conserve the heritage of the South Wales Valleys. OAQ(4)0618(FM*)

**The First Minister:** Our actions are to be found in the programme for government**.**

**Y Prif Weinidog:** Mae ein camau gweithredu i'w cael yn y rhaglen lywodraethu.

**Christine Chapman:** I am very pleased with plans unveiled by Rhondda Cynon Taf County Borough Council to place blue plaques throughout the county borough to celebrate the historic accomplishments of local residents, thereby helping us to tell the story of the south Wales Valleys. A special heritage trail is also being planned, and I am delighted that, in Aberdare, the project will be linked to the regeneration of the town. Marking our heritage gives us a sense of pride, and it also offers economic benefits, for example, through tourism. First Minister, how can we ensure that these links are made and that we advertise our heritage as widely as possible?

**Christine Chapman:** Rwyf yn falch iawn o'r cynlluniau a gyhoeddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i osod placiau glas drwy'r fwrdeistref sirol i ddathlu llwyddiannau hanesyddol y trigolion lleol, gan ein helpu ni i adrodd hanes Cymoedd y De. Mae llwybr treftadaeth arbennig hefyd yn cael ei gynllunio, ac rwyf wrth fy modd y bydd y prosiect, yn Aberdâr, yn cael ei gysylltu ag adfywiad y dref. Mae nodi ein treftadaeth yn rhoi ymdeimlad o falchder inni, ac mae hefyd yn cynnig manteision economaidd, er enghraifft, drwy dwristiaeth. Brif Weinidog, sut y gallwn sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn cael eu gwneud a'n bod yn hysbysebu ein treftadaeth mor eang â phosibl?

**The First Minister:** Several Cadw characterisation studies have focused on Valleys towns. The aim is to foster an understanding of the historic character of whole towns, and not just particular areas or buildings, to inform a range of planning and regeneration activities. Of course, the heritage Bill offers an opportunity to ensure that we can further strengthen the protection of buildings with heritage and our heritage generally.

**Y Prif Weinidog:** Mae nifer o astudiaethau nodweddion Cadw wedi canolbwyntio ar drefi'r Cymoedd. Y nod yw meithrin dealltwriaeth o nodweddion hanesyddol trefi cyfan, ac nid ardaloedd neu adeiladau penodol yn unig, er mwyn llywio amrywiaeth o weithgareddau cynllunio ac adfywio. Wrth gwrs, mae'r Bil treftadaeth yn gyfle i sicrhau y gallwn gryfhau'r gwaith o ddiogelu adeiladau ymhellach gyda threftadaeth a'n treftadaeth yn gyffredinol.

**Suzy Davies:** Many Members, I am sure, will be aware of the South Wales Miners' Museum in my region. It was set up 36 years ago by volunteers and it still depends

**Suzy Davies:** Rwyf yn siŵr bod nifer o Aelodau yn ymwybodol o Amgueddfa Glowyr De Cymru yn fy rhanbarth i. Cafodd ei sefydlu 36 mlynedd yn ôl gan

strongly on volunteers for its success. It is an excellent example of a community organisation taking action to conserve its own heritage. To what extent does your Government draw on the experience of successful civil society enterprises, such as the South Wales Miners' Museum, in deciding its priorities for preserving and promoting its Valleys heritage?

wirfoddolwyr ac mae ei lwyddiant yn dal i ddibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr. Mae'n enghraifft wych o sefydliad cymunedol sy'n cymryd camau i warchod ei dreftadaeth ei hun. I ba raddau y mae eich Llywodraeth yn defnyddio profiad mentrau llwyddiannus cymdeithas sifil, fel Amgueddfa Glowyr De Cymru, wrth benderfynu ar ei blaenoriaethau ar gyfer gwarchod a hyrwyddo treftadaeth y Cymoedd?

**The First Minister:** We always look to work with groups that seek to preserve their heritage. I was in Senghenydd last week, at the launch of a campaign to erect a national mining memorial. I was very impressed with the level of enthusiasm and ability of the local group that I met there. So, yes, we do look at local groups in order to help them to realise their objectives.

**Y Prif Weinidog:** Rydym bob amser yn anelu at weithio gyda grwpiau sy'n ceisio diogelu eu treftadaeth. Roeddwn yn Senghennydd yr wythnos diwethaf, lle'r oedd ymgyrch yn cael ei lansio i godi cofeb mwyngloddio genedlaethol. Roeddwn yn falch iawn o frwdfrydedd a gallu'r grŵp lleol y cyfarfûm ag ef yno. Felly, ydym, rydym yn edrych ar grwpiau lleol er mwyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion.

**Bethan Jenkins:** First Minister, you will be aware that plans are afoot to consider merging the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales with Cadw. Can you give us an update on where those discussions are, whether the royal commission is fully involved in those discussions, and how those plans have progressed in terms of how Assembly Members are able to scrutinise what is happening with those two bodies?

**Bethan Jenkins:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod cynlluniau ar y gweill i ystyried uno Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru â Cadw. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau hynny, a yw'r comisiwn brenhinol yn cymryd rhan lawn yn y trafodaethau hynny, a sut y mae'r cynlluniau hynny wedi symud yn eu blaenau o ran sut y gall Aelodau'r Cynulliad graffu ar yr hyn sy'n digwydd gyda'r ddau gorff hynny?

**The First Minister:** Assembly Members will be able to scrutinise what is happening, and we seek to ensure that any move such as this enhances the protection of our heritage.

**Y Prif Weinidog:** Bydd Aelodau'r Cynulliad yn gallu craffu ar yr hyn sy'n digwydd, ac rydym yn ceisio sicrhau bod unrhyw gamau fel hyn yn gwella'r gwaith o ddiogelu ein treftadaeth.

### Triniaeth Achub Bywyd

### Life-saving Treatment

***11. Darren Millar:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella'r mynediad at driniaethau sy'n achub bywydau ar gyfer cleifion Cymru. OAQ(4)0620(FM)*

***11. Darren Millar:*** *What action is the Welsh Government taking to improve access to life saving treatment for Welsh patients. OAQ(4)0620(FM)*

**The First Minister:** He must have been consulting with his lawyer, Llywydd, to suddenly appear.

**Y Prif Weinidog**: Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn ymgynghori â'i gyfreithiwr, Llywydd, i ymddangos mor gyflym.

Our proposals for improving access to life-saving treatment are set out in 'Together for Health'.

Mae ein cynigion ar gyfer gwella mynediad i driniaeth achub bywyd wedi'u nodi yn 'Law yn Llaw at Iechyd'.

**Darren Millar:** He may think that life-saving issues are a laughing matter or something to jest about, but I certainly do not. In an emergency, access to life-saving care within a proper timescale is absolutely essential so that people can have good outcomes. Just last week, we heard that the decision had been made to strip out acute medical beds from Neath Port Talbot Hospital. What assurances can you give the residents of Conwy in Denbighshire, who are served by Ysbyty Glan Clwyd in north Wales, that the accident and emergency services and the general surgery services that back them up will not be withdrawn from that hospital?

**Darren Millar:** Efallai ei fod yn credu bod materion sy'n ymwneud ag achub bywyd yn rhywbeth i chwerthin amdanynt neu'n rhywbeth i wneud jôc amdanynt, ond nid wyf fi. Mewn achos brys, mae cael gafael ar ofal achub bywyd o fewn amser priodol yn hollol hanfodol er mwyn i bobl gael canlyniadau da. Yr wythnos diwethaf, clywsom fod penderfyniad wedi'i wneud i gael gwared ar y gwelyau meddygol acíwt o Ysbyty Castell-nedd Port Talbot. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i drigolion Conwy yn Sir Ddinbych, sy'n cael eu gwasanaethu gan Ysbyty Glan Clwyd yng ngogledd Cymru, na fydd y gwasanaethau damweiniau ac achosion brys a'r gwasanaethau llawfeddygaeth cyffredinol sy'n eu cefnogi yn cael eu tynnu oddi ar yr ysbyty hwnnw?

**The First Minister:** We will always look to provide services in a safe manner, and that means that we want to ensure that people have access to the best level of service. I can assure everybody in Wales, and not just those who live close to Ysbyty Glan Clwyd, that this Government will never falter in its stated aim of ensuring that the health service is as good and as safe as possible.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn ceisio darparu gwasanaethau mewn modd diogel, ac mae hynny'n golygu ein bod am sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y lefel orau o wasanaeth. Gallaf roi sicrwydd i bawb yng Nghymru, ac nid yn unig y rhai sy'n byw yn agos at Ysbyty Glan Clwyd, na fydd y Llywodraeth hon fyth yn petruso o ran ei nod penodol o sicrhau bod y gwasanaeth iechyd mor dda ac mor ddiogel â phosibl.

2.15 p.m.

**Keith Davies:** I, and Assembly Members Joyce Watson and Rebecca Evans, met councillors at an extraordinary meeting of Llanelli Town Council yesterday. Concerns were raised about the speed at which Hywel Dda Local Health Board intends to move into consultation following on from the recent listening and engagement process. People are concerned that if services are moved around too much, there will be an additional cost to the ambulance service and a negative impact on patients, especially those in my constituency, where there are five areas of substantial deprivation. Do you agree that services must be accessible if they are to provide life-saving treatment?

**Keith Davies:** Bu i mi, a'r Aelodau Cynulliad Joyce Watson a Rebecca Evans, gyfarfod â chynghorwyr mewn cyfarfod arbennig o Gyngor Tref Llanelli ddoe. Mynegwyd pryderon am gyflymder bwriad Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i symud i gynnal ymgynghoriad yn dilyn y broses wrando ac ymgysylltu ddiweddar. Mae pobl yn pryderu os caiff gwasanaethau eu symud o gwmpas yn ormodol, y bydd cost ychwanegol i'r gwasanaeth ambiwlans ac y bydd effaith negyddol ar gleifion, yn enwedig y rhai yn fy etholaeth i, lle mae pump ardal o amddifadedd sylweddol. A ydych yn cytuno bod yn rhaid i wasanaethau fod ar gael os ydynt i ddarparu triniaeth achub bywyd?

**The First Minister:** Services have to be accessible and safe. I was in Prince Philip Hospital on Sunday and was more than happy to speak to staff there, while visiting a relative who is there at the moment. It is

**Y Prif Weinidog:** Rhaid i wasanaethau fod yn hygyrch ac yn ddiogel. Roeddwn yn Ysbyty'r Tywysog Philip ddydd Sul ac yn fwy na pharod i siarad gyda'r staff yno, wrth imi ymweld â pherthynas sydd yno ar hyn o

important that services are as accessible as possible. It is also important that they are safe. Those are the two key principles that will always motivate this Government in what it wishes to do.

bryd. Mae'n bwysig bod gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn ddiogel. Dyna'r ddwy egwyddor allweddol a fydd bob amser yn ysgogi'r Llywodraeth hon o ran yr hyn y mae'n dymuno ei wneud.

**Elin Jones:** Yn ôl cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 13 Mawrth pan wnaethoch drafod adroddiad honedig annibynnol Marcus Longley, fe'i cofnodwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn edrych i warantu

'na fyddai unman yng Nghymru fwy na 30 munud i ffwrdd o driniaeth frys'.

Pryd yr ydych chi, fel Llywodraeth, yn bwriadu cwrdd â'r targed hwnnw y gwnaethoch osod i chi'ch hunain?

**Elin Jones:** According the minutes of the Cabinet meeting of 13 March, when you discussed the allegedly independent report of Marcus Longley, the Welsh Government would look to guarantee that

'nowhere in Wales being more than 30 minutes away from emergency treatment'.

When are you as a Government intending to meet that particular target that you set for yourselves?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n falch bod yr Aelod wedi dweud bod yr adroddiad yn hollol annibynnol. Mae'n bwysig dros ben bod hynny'n cael ei ddweud ar gofnod. Hefyd, mae'n rhaid inni weld beth yn union y bydd byrddau iechyd yn ei ddweud am yr hyn y maent am ei wneud yn y dyfodol. Byddwn, wrth gwrs, yn cadw at ein gair o ran sicrhau gwasanaeth iechyd sy'n ddiogel ac sydd ar gael i bobl pan fyddant ei angen.

**The First Minister:** I am pleased that the Member said that the report is totally independent. It is extremely important that that is said on record. We must also see exactly what the health boards say about what they wish to do in the future. We will, of course, keep to our word in terms of ensuring a health service that is safe and accessible at the point of need.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr eisoes wedi penderfynu ei fod yn trosglwyddo gwasanaethau trawma acíwt i Stoke. Cyhoeddir adolygiadau pellach dros y pythefnos nesaf. A ydych yn fodlon bod y byrddau iechyd wedi cael digon o drafodaethau gyda'r gwasanaeth ambiwlans o ran y galwadau ychwanegol ar y gwasanaeth hwnnw wrth i'r gwasanaethau hynny gael eu trosglwyddo dros y ffin?

**Aled Roberts:** First Minister, the Betsi Cadwaladr University Health Board has already decided that it is transferring acute trauma services to Stoke. There will be further reviews published over the next fortnight. Are you content that these health boards have had adequate negotiations with the ambulance service in terms of the additional demands on that service as those services are transferred over the border?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n fater i'r byrddau iechyd sicrhau bod gwasanaeth ar gael, ond mae'n hollol arferol i bobl sydd â chyflwr anarferol gael eu symud i ysbyty sydd efallai'n bell i ffwrdd. Er enghraifft, os bydd rhywun yn cael ei losgi, byddant yn mynd i Dreforys. Os bydd ar rywun angen triniaeth ar yr ymennydd, byddant yn mynd i Gaerdydd. Mae hynny wedi digwydd erioed. Felly, mae'n bwysig dros ben ein bod yn gallu dod o hyd i gydbwysedd rhwng y ffaith bod pobl eisiau gwasanaeth sy'n agos iddynt

**The First Minister:** It is up to the health boards to ensure that a service is available, but it is quite usual for people with unusual conditions to be moved to a hospital that may be further away. For example, if someone suffers burns, then they go to Morriston Hospital. If someone needs brain surgery, they go to Cardiff. That has always been the way. It is exceptionally important, therefore, that we can strike a balance between the fact that people want services close to them and ensuring that they get the best possible

a sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaeth gorau sydd ar gael.

service available.

**Blaenoriaethau Economaidd**

**Economic Priorities**

***12. Joyce Watson:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0630(FM)*

***12. Joyce Watson:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's economic priorities for Mid and West Wales. OAQ(4)0630(FM)*

**The First Minister:** Yes, they are to be found in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf; maent i'w cael yn y rhaglen lywodraethu.

**Joyce Watson:** Thank you for that answer, First Minister. Holed up as we are, deep in the Chamber, I do not know whether it is still raining outside, but it is fair to say that it has been a wet summer so far. Can I ask whether—no pun intended—the Government has begun to calculate the economic impact of this summer's flooding, particularly for tourism-dependent businesses in my region? Looking ahead to next year, can we promote Wales as an all-weather venue that is open for business regardless of the weather?

**Joyce Watson:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Gan ein bod wedi ein cuddio yma yn ddwfn yn y Siambr, wn i ddim a yw'n bwrw glaw o hyd y tu allan, ond mae'n deg dweud y bu'n haf gwlyb hyd yma. A yw'r Llywodraeth wedi dechrau cyfrifo effaith economaidd llifogydd yr haf hwn, yn enwedig ar fusnesau sy'n ddibynnol ar dwristiaeth yn fy rhanbarth i? Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, a allwn ni hyrwyddo Cymru fel lleoliad bob tywydd sydd ar agor i fusnes beth bynnag fo'r tywydd?

**The First Minister:** Sadly, we cannot control the weather. Undoubtedly, it is difficult for many tourism-related businesses. Some indoor attractions may well have seen a better year than normal. However, we know that a number of businesses will be struggling as a result of the weather and we will look to work with them to ensure that they have a sustainable future.

**Y Prif Weinidog:** Yn anffodus, ni allwn reoli'r tywydd. Heb os, mae'n anodd i nifer o fusnesau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. Efallai y bydd rhai atyniadau dan do wedi cael blwyddyn well na'r arfer. Fodd bynnag, gwyddom y bydd nifer o fusnesau yn ei chael hi'n anodd o ganlyniad i'r tywydd a byddwn yn edrych i weithio gyda hwy i sicrhau bod ganddynt ddyfodol cynaliadwy.

**Russell George:** First Minister, you will be aware of the Upper Severn Valley heritage fund, which is part of the Severn valley regeneration project that is partly funded by the Welsh Government. Carno Community Council has written to me because it is concerned about the boundary designations that have been made by the Government, which have, effectively, excluded Carno residents and businesses from accessing the fund, which is used to improve the external fabric of properties and so on. To my mind, Carno is in the Severn valley and should be included in the scheme. Therefore, Minister, will you task your officials to examine the anomaly with some urgency because the application deadline is fast approaching and I do not want to see Carno residents

**Russell George:** Brif Weinidog, byddwch yn gwybod am gronfa dreftadaeth Dyffryn Uchaf yr Hafren, sy'n rhan o brosiect adfywio dyffryn Hafren sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae Cyngor Cymuned Carno wedi ysgrifennu ataf gan ei fod yn pryderu am y dynodiadau ffin a wnaed gan y Llywodraeth, sydd, i bob pwrpas, wedi atal trigolion a busnesau Carno rhag cael mynediad i'r gronfa, sy'n cael ei defnyddio i wella adeiladwaith allanol eiddo, ac yn y blaen. Yn fy marn i, mae Carno yn nyffryn Hafren a dylid ei gynnwys yn y cynllun. Felly, Weinidog, a wnewch chi ofyn i'ch swyddogion edrych rhag blaen ar yr anghysondeb hwn gan fod y dyddiad cau yn prysur agosáu, ac nid wyf am weld trigolion

disadvantaged?

Carno yn cael eu rhoi o dan anfantais?

**The First Minister:** I will investigate the Member's concerns and write to him.

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn ymchwilio i bryderon yr Aelod ac yn ysgrifennu ato.

**Pobl sy'n Hawlio Budd-daliadau**

**Benefit Claimants**

***13. Mark Drakeford:*** *Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith unrhyw gynnig i gyflwyno cyfraddau nawdd cymdeithasol rhanbarthol ar y rheini sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru. OAQ(4)0624(FM)*

1***3. Mark Drakeford:*** *What assessment has the First Minister made of the impact of any regionalisation of social security rates on benefit claimants in Wales. OAQ(4)0624(FM)*

**The First Minister:** We know that Wales will be hit disproportionately hard compared to many other parts of the UK, and any attempt to introduce regional benefits will just make matters worse.

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom y bydd Cymru yn cael ei tharo'n anghymesur o galed o'i chymharu â nifer o rannau eraill y DU, ac mai dim ond gwneud pethau'n waeth fyddai unrhyw ymgais i gyflwyno buddiannau rhanbarthol.

**Mark Drakeford:** Do you think that the enthusiasm of the Chancellor, George Osborne, for regionalisation extends to knowing that benefit claimants in Wales face the highest electricity prices in Britain? Do you think that the Prime Minister is aware that his instruction to energy companies to 'clear up' their tariffs is, according to Consumer Focus, leading to such families being 'much worse off' as energy companies scrap discounts and increase the cheapest tariffs one third faster than standard tariffs? Is this not exactly what you would expect when poverty policy is made on the playing fields of Eton?

**Mark Drakeford:** A ydych yn credu bod brwdfrydedd y Canghellor, George Osborne, ynghylch rhanbartholi yn ymestyn i wybod bod hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru yn wynebu'r prisiau trydan uchaf ym Mhrydain? A ydych yn meddwl bod y Prif Weinidog yn ymwybodol bod ei gyfarwyddyd i gwmnïau ynni i 'glirio' eu tariffau, yn ôl Llais Defnyddwyr, yn golygu bod teuluoedd o'r fath yn 'llawer gwaeth eu byd' wrth i gwmnïau ynni gael gwared ar ostyngiadau a chynyddu'r prisiau rhataf draean yn gyflymach na thariffau safonol? Onid yw hyn yn union yr hyn y byddech yn ei ddisgwyl pan fo'r polisi ar dlodi yn cael ei wneud ar gaeau chwarae Eton?

**The First Minister:** Absolutely, and I hope that the UK Government comes to its senses, if indeed there is a UK Government after the vote tonight in the House of Commons. We will have to wait and see. You might add that to the comments by Nick Boles, who I understand is very close to the Prime Minister, suggesting the removal of free prescriptions from some pensioners, along with the winter fuel payment, and questioning child benefit—not child benefit for the better off, but child benefit full stop. We know that what he says is a reflection of what the Prime Minister is thinking. It is about time that the Tories came clean about what their real plans are, if they were ever elected with a majority.

**Y Prif Weinidog:** Yn bendant, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn dod at ei synhwyrau, os yn wir bydd Llywodraeth y DU yn bodoli ar ôl y bleidlais heno yn Nhŷ'r Cyffredin. Cawn weld. Efallai y byddwch am ychwanegu hynny at y sylwadau a wnaed gan Nick Boles, sy'n agos iawn at y Prif Weinidog hyd y deallaf, a awgrymodd y dylid cael gwared ar bresgripsiynau am ddim i rai pensiynwyr, ynghyd â'r taliad tanwydd gaeaf, ac a gwestiynodd fudd-dal plant—nid budd-dal plant i'r rhai sy'n well eu byd, ond budd-dal plant yn ei gyfanrwydd. Rydym yn gwybod bod yr hyn a ddywed yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei feddwl. Mae'n hen bryd i'r Torïaid fod yn onest am eu

cynlluniau gwirioneddol, pe baent fyth yn cael eu hethol gyda mwyafrif.

**Cefnogi Hapchwaraewyr Patholegol**

***14. Rebecca Evans:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddull gweithredu Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cefnogi hapchwaraewyr patholegol. OAQ(4)0628(FM)*

**Supporting Pathological Gamblers**

***14. Rebecca Evans:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's approach to supporting pathological gamblers. OAQ(4)0628(FM)*

**The First Minister:** People with pathological gambling addiction can consult their GP for advice and can get appropriate support, which in some cases can be provided by specialist addiction nurses, counsellors or psychiatrists.

**Y Prif Weinidog:** Gall pobl sydd â dibyniaeth gamblo patholegol ymgynghori â'u meddyg teulu i gael cyngor a gallant gael cymorth priodol, y gellir ei ddarparu mewn rhai achosion gan nyrsys, cynghorwyr neu seiciatryddion sy'n arbenigo mewn dibyniaeth.

**Rebecca Evans:** The Welsh Government has made great strides in supporting people who are addicted to alcohol and other drugs, but there is still a real lack of services and support for the increasing number of people with gambling addiction. How is the Welsh Government seeking to address this?

**Rebecca Evans:** Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau breision i gefnogi pobl sy'n gaeth i alcohol a chyffuriau eraill, ond mae gwir ddiffyg o hyd o ran gwasanaethau a chymorth i'r nifer gynyddol o bobl sydd â dibyniaeth gamblo. Sut mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn?

**The First Minister:** We provide funding for Citizens Advice Cymru and part of that funding supports Adviceline Cymru, which can provide advice on the impact of gambling where there may be financial consequences for individuals or families.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn darparu cyllid ar gyfer Cyngor ar Bopeth Cymru ac mae rhan o'r arian hwnnw yn cefnogi Llinell Gyngor Cymru, sy'n gallu rhoi cyngor ar effaith gamblo lle gallai fod canlyniadau ariannol i unigolion neu deuluoedd.

**Darren Millar:** More than 100,000 people in Wales are addicted to gambling or at risk of gambling addiction. Just last week we had a debate in the Senedd about lowering the voting age to 16, a position that your Government supported. How consistent is that argument with the fact that I have not heard a suggestion that the gambling age ought to be reduced to 16?

**Darren Millar:** Mae mwy na 100,000 o bobl yng Nghymru yn gaeth i gamblo, neu mewn perygl o fod yn ddibynnol ar gamblo. Dim ond yr wythnos diwethaf, cawsom ddadl yn y Senedd am ostwng yr oedran pleidleisio i 16, sy'n rhywbeth y mae eich Llywodraeth yn ei gefnogi. Pa mor gyson yw'r ddadl honno â'r ffaith na chlywais awgrym y dylid gostwng yr oedran gamblo i 16?

**The First Minister:** I agree with him. I do not think that the gambling age should be reduced to 16.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf yn cytuno ag ef. Nid wyf yn credu y dylid gostwng yr oedran gamblo i 16.

**Ysgrifennydd Parhaol**

***15. Alun Ffred Jones:*** *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch y broses o benodi Ysgrifennydd Parhaol i Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0631(FM)*

**Permanent Secretary**

***15. Alun Ffred Jones:*** *What discussions has the First Minister had on the process of appointing a Permanent Secretary to the Welsh Government. OAQ(4)0631(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi cael trafodaethau ar y mater hwn gyda phennaeth y gwasanaeth sifil. Cafodd cystadleuaeth ei lansio ar draws y gwasanaeth sifil yr wythnos diwethaf, ac rwy'n erfyn y bydd penodiad yn cael ei wneud ym mis Medi.

**The First Minister:** I have had discussions with the head of the civil service on this matter. A civil service-wide competition was launched last week, and I expect that an appointment will be made in September.

**Alun Ffred Jones:** Ym maniffesto'r Blaid Lafur ar gyfer yr etholiad diwethaf, rydych yn dweud

'ei fod yn anghyson nad yw uwch wasanaeth sifi Llywodraeth y Cynulliad yn atebol i Weinidogion Cymru',

a byddech yn

'ceisio adlinio llywodraethu a pherfformiad gwasanaeth sifi Llywodraeth y Cynulliad'.

A ydych wedi trafod y cynigion hyn gyda Swyddfa Cymru neu Lywodraeth San Steffan? A fydd trefn newydd, felly, wrth benodi'r Ysgrifennydd Parhaol newydd o'i gymharu â'r hen un a fydd yn golygu y bydd yr Ysgrifennydd Parhaol newydd yn atebol i chi?

**Alun Ffred Jones:** In the Labour party manifesto for the last election you say that

'it is anomalous that the Assembly Government senior civil service is not accountable to Welsh Ministers',

and that you will

'seek realignment of the governance and performance of the Assembly Government civil service'.

Have you discussed these proposals with the Wales Office or the Westminster Government? Will there be a new system, therefore, for appointing the new Permanent Secretary compared with the old one that will mean that the new Permanent Secretary will be accountable to you?

**Y Prif Weinidog:** Mae trafodaethau wedi bod ac rwy'n hapus iawn gyda'r *input* y byddaf yn ei gael o ran apwyntiad Ysgrifennydd Parhaol. Mae'n bwysig dros ben, wrth gwrs, bod yr apwyntiad yn cael ei wneud trwy broses agored, ond hefyd y caiff y Llywodraeth *input* o ran sicrhau ein bod yn cael yr ymgeisydd iawn. Beth bynnag, nid yw hynny'n golygu mai apwyntiad y Llywodraeth yw.

**The First Minister:** Discussions have taken place, and I am very happy with the input that I will have in terms of the appointment of a Permanent Secretary. It is exceptionally important that the appointment is made through an open process, but it is also important that there is input from the Welsh Government in terms of ensuring that we get the right candidate. However, that does not mean that it is a Government appointment.

**Andrew R.T. Davies:** In 2009, the Welsh civil service was reorganised under seven directors general. I understand that six of the directors general have left in the last three years. Does that cause you concern, given that a well-run civil service is very important to any Government in implementing its policies? What does such a high turnover at a senior level of management indicate to you?

**Andrew R.T. Davies:** Yn 2009, ad-drefnwyd gwasanaeth sifil Cymru o dan saith cyfarwyddwr cyffredinol. Rwyf yn deall bod chwech o'r cyfarwyddwyr cyffredinol wedi gadael yn ystod y tair blynedd diwethaf. A yw hynny'n peri pryder i chi, o ystyried bod gwasanaeth sifil sy'n cael ei redeg yn dda yn bwysig iawn i unrhyw Lywodraeth o ran gweithredu ei pholisïau? Beth y mae trosiant uchel o'r fath ar lefel rheoli uwch yn ei ddangos i chi?

**The First Minister:** Staffing matters are for the Permanent Secretary. The incoming candidate will need to ensure that the Welsh

**Y Prif Weinidog:** Rhywbeth i'r Ysgrifennydd Parhaol yw materion staffio. Bydd angen i'r ymgeisydd a benodir sicrhau

civil service continues to improve.

bod gwasanaeth sifil Cymru yn parhau i wella.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one change to report to this week's planned business. Tomorrow's oral statement on the report of the city regions task and finish group has been extended to 45 minutes. The business for the next three minutes is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

**Y Gweinidog dros Gyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae gennyf un newid i'w adrodd i'r busnes a drefnwyd ar gyfer yr wythnos hon. Mae datganiad llafar yfory ar adroddiad y tasglu gorchwyl a gorffen ar ranbarthau dinas wedi cael ei ymestyn i 45 munud. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.

**Mark Isherwood:** I call for two Welsh Government statements, the first of which is on investment in credit unions. The Association of British Credit Unions Limited has welcomed the announcement that the UK Government is to invest up to £38 million in credit unions over the next three years. The Department for Work and Pensions has advised that this £38 million includes Wales and that details of the procurement exercise will follow soon. I understand that some Welsh credit unions attended a briefing event with the DWP in Birmingham last year. It would therefore be helpful if this Assembly could learn what engagement the Welsh Government is having with this process, given that it affects credit unions in Wales, to ensure effective joint working between the two Governments on this agenda.

**Mark Isherwood:** Rwyf yn galw am ddau ddatganiad gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyntaf ohonynt ar fuddsoddi mewn undebau credyd. Mae Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig wedi croesawu'r cyhoeddiad bod Llywodraeth y DU yn buddsoddi hyd at £38 miliwn mewn undebau credyd dros y tair blynedd nesaf. Dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod y £38 miliwn yn cynnwys Cymru ac y bydd manylion yr ymarfer caffael yn dilyn yn fuan. Rwy'n deall bod rhai undebau credyd o Gymru wedi mynd i ddigwyddiad briffio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn Birmingham y llynedd. Felly, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Cynulliad yn cael gwybod pa ymgysylltiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael â'r broses hon, o ystyried ei bod yn effeithio ar undebau credyd yng Nghymru, er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol rhwng y ddwy Lywodraeth ar yr agenda hwn.

Secondly, in a similar vein, I call for a Welsh Government statement in the context of the announcement last week that the UK Department for Work and Pensions is recruiting a disabled people's user-led organisations' ambassador for Wales to ensure that the budget for disability employment, which is being fully protected, helps more disabled people into work in Wales. The UK Government is focusing on regions where Access to Work has not been widely used, such as in Wales, and it wishes to work with user groups, as well as businesses, to encourage employment. It

Yn ail, yn yr un modd, galwaf am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru yng nghyd-destun y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf bod Adran Gwaith a Phensiynau y DU yn recriwtio llysgennad sefydliadau ar gyfer pobl anabl a arweinir gan ddefnyddwyr i sicrhau bod y gyllideb ar gyfer cyflogi pobl anabl, sy'n cael ei gwarchod yn llawn, yn helpu mwy o bobl anabl i gael gwaith yng Nghymru. Mae Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar ranbarthau lle na chafodd Mynediad at Waith ei ddefnyddio'n helaeth, fel Cymru, ac mae'n dymuno gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, yn ogystal â busnesau, i annog cyflogaeth.

would, again, be helpful to have a statement to understand how the Welsh Government will engage in what is a shared agenda, involving both devolved and non-devolved aspects.

Unwaith eto, byddai'n ddefnyddiol cael datganiad i ddeall sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r hyn sy'n agenda a rennir, sy'n cynnwys agweddau datganoledig ac agweddau nad ydynt wedi'u eu datganoli.

**Jane Hutt:** In responding to Mark Isherwood's request for a statement, I have to say that we have had no detail from the Department for Work and Pensions in terms of the credit union investment. We are proud that we have a very good record of investment in credit unions in Wales, which I know is supported across the parties. That has certainly been a priority of this Welsh Labour Government, in relation to the particular importance of credit unions. The Minister will update as and when necessary on that response to the DWP.

**Jane Hutt:** Wrth ymateb i gais Mark Isherwood am ddatganiad, mae'n rhaid imi ddweud na chawsom unrhyw fanylion gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch y buddsoddiad mewn undebau credyd. Rydym yn falch bod gennym hanes da iawn o fuddsoddi mewn undebau credyd yng Nghymru, a gwn fod hyn yn cael ei gefnogi ar draws y pleidiau. Bu hynny yn sicr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur Cymru hon, mewn perthynas â phwysigrwydd arbennig undebau credyd. Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ôl yr angen am yr ymateb i'r Adran Gwaith a Phensiynau.

In terms of recent DWP announcements on the allocation of funds to help disabled people, ensuring that disabled people can access work, we are very concerned about its response to Remploy and our representations to it and the fact that it was not prepared to consider us having the ability to respond to that through a transfer of powers and responsibilities. So, we await clarity on the allocations, which we must ensure then meet the needs of disabled people in terms of employment opportunities.

O ran cyhoeddiadau diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ddyrannu arian i helpu pobl anabl, gan sicrhau bod pobl anabl yn cael mynediad i waith, rydym yn bryderus iawn am ei hymateb i Remploy a'n sylwadau iddi a'r ffaith nad oedd yn barod i ystyried rhoi'r gallu inni ymateb i hynny drwy drosglwyddo pwerau a chyfrifoldebau. Felly, rydym yn aros am eglurder ar y dyraniadau, ac mae'n rhaid inni sicrhau eu bod wedyn yn ateb anghenion pobl anabl o ran cyfleoedd cyflogaeth.

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, I have asked you on several occasions when the Government will be in a position to make a statement on the inquiry into the All Wales Ethnic Minority Association. I first raised this issue with you in January and, six months later, we are no closer to having a statement by the Government on this inquiry. If the intention is to publish the report in the summer, will you give an undertaking to the Chamber this afternoon that the Assembly will be recalled so that we can scrutinise this report properly?

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rwyf wedi gofyn ichi ar sawl achlysur pryd y bydd y Llywodraeth mewn sefyllfa i wneud datganiad am yr ymchwiliad i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Codais y mater hwn gyda chi y tro cyntaf ym mis Ionawr a, chwe mis yn ddiweddarach, nid ydym yn nes at gael datganiad gan y Llywodraeth ar yr ymchwiliad hwn. Os mai'r bwriad yw cyhoeddi'r adroddiad yn yr haf, a wnewch chi roi ymrwymiad i'r Siambr y prynhawn yma y bydd y Cynulliad yn cael ei alw'n ôl fel y gallwn graffu ar yr adroddiad hwn yn iawn?

**Jane Hutt:** I suggest that the Member looks at not only the Public Accounts Committee's website, but the Wales Audit Office's website, because they have given an update on progress in terms of the value-for-money

**Jane Hutt:** Rwyf yn awgrymu bod yr Aelod yn edrych nid yn unig ar wefan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond hefyd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, oherwydd maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y

study. It is up to it, in terms of the work that it must undertake, when the WAO report will be presented to the Public Accounts Committee.

cynnydd o ran yr astudiaeth gwerth am arian. Mater i Swyddfa Archwilio Cymru, o ran y gwaith y mae'n rhaid iddi ei wneud, yw pryd y bydd ei hadroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Andrew R.T. Davies:** Could we have a statement from the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes in relation to the catastrophe—I do not use that word lightly—that is being inflicted on the dairy industry at the moment? To have 4p taken out of the milk price equates to £250,000 a day being taken out of the rural economy in Wales. That has devastating implications for employment and for the sustainability of communities in rural areas. I would be most grateful if the Deputy Minister would be prepared to make an oral statement before the end of term. I appreciate that time is tight, but I cannot think of another example where £250,000 being taken out of a particular sector would not warrant an urgent statement from a Minister in this place.

**Andrew R.T. Davies:** A allwn gael datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd mewn perthynas â'r drychineb—nid wyf yn defnyddio'r gair yn ysgafn—sy'n cael ei gwthio ar y diwydiant llaeth ar hyn o bryd? Mae cymryd 4c allan o bris llaeth yn cyfateb i gymryd £250,000 y dydd allan o'r economi wledig yng Nghymru. Mae gan hynny oblygiadau dinistriol i gyflogaeth a chynaliadwyedd cymunedau mewn ardaloedd gwledig. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe bai'r Dirprwy Weinidog yn barod i wneud datganiad llafar cyn diwedd y tymor. Rwyf yn sylweddoli bod amser yn brin, ond ni allaf feddwl am enghraifft arall lle na fyddai tynnu £250,000 o sector penodol yn haeddu datganiad brys gan Weinidog yn y lle hwn.

2.30 p.m.

**Jane Hutt:** As I know Andrew R.T. Davies is aware, the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes is in regular contact with the dairy industry. He held a summit with representatives last month at which the issues were fully aired. We support the voluntary code of practice on milk contracts, and he would not hesitate to introduce the less advantageous EU dairy package proposals should discussions fail to deliver the strong reforms that Government would like to see. The Deputy Minister will be issuing a written statement on this, as and when appropriate.

**Jane Hutt:** Gwn fod Andrew R.T. Davies yn ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd yn cysylltu'n rheolaidd â'r diwydiant llaeth. Cynhaliodd gynhadledd â chynrychiolwyr fis diwethaf lle y trafodwyd y materion yn llawn. Rydym yn cefnogi'r cod ymarfer gwirfoddol yng nghyswllt cytundebau llaeth, ac ni fyddai ef yn oedi cyn cyflwyno cynigion pecyn llaeth llai manteisiol yr UE pe bai trafodaethau'n methu â chyflwyno'r diwygiadau mawr y mae'r Llywodraeth am eu gweld. Bydd y Dirprwy Weinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar hyn pan fydd yn briodol gwneud hynny.

**Darren Millar:** Minister, can we have a statement from the Minister for Health and Social Services on the role of community health councils in Wales? The Minister for health made a speech to a gathering of community health councils just a couple of weeks ago, in which it became clear that a gagging order was being issued. They were told that they should not be members of community health councils if they were

**Darren Millar:** Weinidog, a allwn gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar rôl cynghorau iechyd cymuned yng Nghymru? Traddododd y Gweinidog dros iechyd araith i gasgliad o gynghorau iechyd cymuned ychydig wythnosau yn ôl yn unig, lle y daeth yn amlwg bod gorchymyn cau ceg yn cael ei gyhoeddi. Dywedwyd wrthynt na ddylent fod yn aelodau o gynghorau iechyd cymuned os

against the reorganisation in their local health board area. We need some clarification on this and a statement from the Minister so that we can have a proper, full and frank discussion here in the Chamber.

oeddent yn erbyn yr ad-drefnu yn eu hardal bwrdd iechyd lleol. Mae angen rhywfaint o eglurhad yn hyn o beth a datganiad gan y Gweinidog, er mwyn inni allu cael trafodaeth briodol, lawn ac agored yma yn y Siambr.

**Jane Hutt:** We never know what is going to come next from Darren Millar. He is undermining community health councils and the important role that they play, which we value and which the Minister for Health and Social Services respects. We never know what is coming next, I have to say.

**Jane Hutt:** Nid ydym byth yn gwybod beth y bydd Darren Millar yn ei wneud nesaf. Mae'n tanseilio cynghorau iechyd cymuned a'r rhan bwysig y maent yn ei chwarae, yr ydym yn ei gwerthfawrogi ac y mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei pharchu. Nid ydym byth yn gwybod beth sy'n dod nesaf, yn wir.

**Antoinette Sandbach:** Can we have a statement, perhaps in September, from the Minster for Environment and Sustainable Development on the action that he is taking to speak to insurers about protection for those living in flood zones? I am sure you will be aware that the agreement with the Association of British Insurers is due to expire quite soon, which is very important, given the amount of people affected across Wales but particularly in my region of North Wales. I believe that we are also in for a wet July, which may mean that many more people in my area are affected, and their concerns about whether they will be able to obtain insurance cover will be absolutely key.

**Antoinette Sandbach:** A allwn gael datganiad, efallai ym mis Medi, gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy ar y camau y mae'n eu cymryd i siarad ag yswirwyr ynghylch diogelu'r rheini sy'n byw mewn parthau llifogydd? Rwy'n siŵr y byddwch yn gwybod y bydd y cytundeb â Chymdeithas Yswirwyr Prydain yn dod i ben cyn bo hir, sy'n bwysig iawn, o ystyried faint o bobl yr effeithir arnynt ledled Cymru, ond yn arbennig yn fy rhanbarth i, sef Gogledd Cymru. Rwy'n credu mai'r rhagolygon yw y bydd mis Gorffennaf yn fis gwlyb, a all olygu yr effeithir ar lawer mwy o bobl yn fy ardal i. Bydd eu pryderon ynghylch a fyddant yn gallu cael yswiriant yn gwbl allweddol.

**Jane Hutt:** I know that the Minister for Environment and Sustainable Development is well aware of the issues relating to the agreement with the Association of British Insurers. That is particularly critical in light of the flooding events that have taken place in Wales and across the UK. He will be engaging accordingly, not just in his role, but with UK Ministers as well.

**Jane Hutt:** Gwn fod Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy yn ymwybodol iawn o'r materion sy'n ymwneud â'r cytundeb â Chymdeithas Yswirwyr Prydain. Mae hynny'n arbennig o bwysig o ystyried y llifogydd a fu yng Nghymru a ledled y DU. Bydd yn ymgysylltu yn unol â hynny, nid yn unig yn rhinwedd ei rôl, ond â Gweinidogion y DU hefyd.

## Datganiad: Y Dystiolaeth sy'n Tanategu'r Achos dros Ad-drefnu'r GIG yng Nghymru
## Statement: The Evidence Underpinning the Case for Reconfiguring the NHS in Wales

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** This statement forms part of a much wider, important debate on the future of our NHS in Wales. I entirely accept that the job of the opposition is to hold the Government of the day to account.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Mae'r datganiad hwn yn rhan o ddadl bwysig a llawer ehangach ar ddyfodol ein GIG yng Nghymru. Rwy'n derbyn yn llwyr mai swydd yr wrthblaid yw dwyn y Llywodraeth ar y

However, I simply cannot allow political posturing to block the path of good government being done. Be under no illusions: good government means taking the tough decisions on the NHS that enable it to be safe and sustainable in the future. Let us all be clear. This attack is political hypocrisy of the worst kind, and any opposition worthy of the name should be ashamed of itself. This morning, we have been confronted by a supposed story of 'conniving' interference in an entirely independent report. The allegations are that my senior officials, a respected academic and I somehow conspired to deceive the Welsh public. These allegations are utterly without foundation, and I am appalled by this attack. Dragging Professor Marcus Longley's good name through the mud in this way is an unedifying spectacle.

pryd i gyfrif. Fodd bynnag, ni allaf ganiatáu i ymhonni gwleidyddol rwystro'r gwaith o lywodraethu'n dda. Peidied neb â chamgymryd: i lywodraethu'n dda, rhaid gwneud y penderfyniadau anodd ynglŷn â'r GIG sy'n ei alluogi i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Gadewch inni gyd fod yn glir. Mae'r ymosodiad hwn yn enghraifft o'r rhagrith gwleidyddol gwaethaf, a dylai unrhyw wrthblaid sy'n deilwng o'r enw deimlo cywilydd. Y bore yma, cyflwynwyd stori honedig inni am ymyrraeth ag adroddiad gwbl annibynnol drwy 'gydgynllwynio'. Honnir bod fy uwch swyddogion, academydd a berchir, a minnau rywsut wedi cynllwynio i dwyllo cyhoedd Cymru. Mae'r honiadau hyn yn gwbl ddi-sail, ac rwyf wedi fy mrawychu gan yr ymosodiad hwn. Mae pardduo enw da yr Athro Marcus Longley fel hyn yn warthus.

Professor Longley was commissioned by NHS chief executives, entirely independently of Welsh Government, to produce a report that assessed the evidence for changing the configuration of health services in Wales. He was commissioned because of his impeccable reputation and extensive record of delivering sound, evidence-based advice in respect of various challenges faced by the public sector in Wales over a number of years. Anyone who knows Professor Longley will appreciate that what distinguishes him from some others is his independent thinking and integrity. To accuse him of 'conniving' with my officials and me is utterly reprehensible. Professor Longley spent many months researching and preparing his report. During that time, he built and managed a like-minded team of academics and researchers around him to assist with the task. Together, they left no stone unturned in the pursuit of evidence, which, of course, included seeking knowledge, information and advice from a number of senior officials in the Welsh Government. Indeed, it would have been remiss of the team not to consult with my officials, where appropriate.

Comisiynwyd yr Athro Longley gan brif weithredwyr y GIG, yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, i lunio adroddiad a fyddai'n asesu'r dystiolaeth ynghylch newid cyfluniad gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Fe'i comisiynwyd oherwydd ei enw da di-fai a'r ffaith bod ganddo hanes helaeth o ddarparu cyngor cadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth, ynghylch gwahanol heriau y mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u hwynebu dros nifer o flynyddoedd. Bydd unrhyw un sy'n adnabod yr Athro Longley yn gwerthfawrogi mai'r hyn sy'n ei wneud yn wahanol i rai eraill yw ei onestrwydd a'r ffaith ei fod yn annibynnol ei feddwl. Mae ei gyhuddo ef o gydgynllwynio â'm swyddogion a minnau yn gwbl resynus. Treuliodd yr Athro Longley fisoedd lawer yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer ei adroddiad ac yn ei baratoi. Yn ystod y cyfnod hwnnw, daeth â thîm o academyddion o'r un anian ynghyd, ac fe'u rheolodd, i gynorthwyo â'r dasg. Gyda'i gilydd, ni wnaethant anwybyddu dim wrth fynd ar drywydd tystiolaeth, a oedd, wrth gwrs, yn cynnwys chwilio am wybodaeth a chyngor gan nifer o uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru. Yn wir, byddai'r tîm wedi bod yn esgeulus pe na bai wedi ymgynghori â'm swyddogion, lle yr oedd hynny'n briodol.

Professor Longley acknowledges in his report that, in some areas, the evidence was lacking.

Mae'r Athro Longley yn cydnabod yn ei adroddiad fod y dystiolaeth yn brin mewn

Nevertheless, he and his team strove tirelessly to bring all relevant evidence to bear, to paint as honest and accurate a picture of the challenges and opportunities as possible. Crucially, he was also realistic and pragmatic about the levels of public funding that are likely to be available in the years ahead.

rhai meysydd. Serch hynny, ymdrechodd ef a'i dîm yn ddiflino i gyflwyno'r holl dystiolaeth berthnasol, er mwyn creu darlun mor onest a chywir o'r heriau a'r cyfleoedd ag y bo modd. Yn hanfodol, roedd hefyd yn realistig ac yn ymarferol ynghylch lefelau'r arian cyhoeddus sy'n debygol o fod ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

The report, 'The Best Configuration of Hospital Services for Wales', is rich in data, is based on evidence, and is crafted not to dictate opinion but to stimulate debate and discussion. Can any one Member draw attention to one paragraph, one sentence, or one word that is not based on evidence or analysis? The report stands on its own merits and is a credit to Professor Longley and his team. I had no direct involvement in the formation of this report.

Mae'r adroddiad, 'Y Trefniant Gorau ar gyfer Gwasanaethau Ysbytai Cymru', yn gyfoethog o ran data ac wedi'i seilio ar dystiolaeth, ac nid yw wedi'i lunio i bennu barn ond i ysgogi dadl a thrafodaeth. A all unrhyw Aelod dynnu sylw at un paragraff, un frawddeg, neu un gair nad yw'n seiliedig ar dystiolaeth neu ddadansoddiad? Mae rhinweddau'r adroddiad yn glir o'i ddarllen, ac mae'n dwyn bri i'r Athro Longley a'i dîm. Nid oedd gennyf unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r gwaith o lunio'r adroddiad hwn.

I actually welcome the release of these documents, as I believe that they clearly demonstrate that I did not seek to influence or change the report in any way. There is no evidence either to believe that my officials sought to influence or change the report. They were merely responding to requests for information or advice being sought on the presentation of the report. They prove, I believe, that the process around the preparation of the report is irreproachable.

Rwy'n croesawu cyhoeddi'r dogfennau hyn, mewn gwirionedd, gan fy mod yn credu eu bod yn dangos yn glir nad oeddwn yn ceisio dylanwadu ar yr adroddiad nac ei newid mewn unrhyw ffordd. Nid oes tystiolaeth ychwaith fod fy swyddogion wedi ceisio dylanwadu ar yr adroddiad neu ei newid. Roeddent yn ymateb i geisiadau am wybodaeth neu gyngor ynghylch y modd y cyflwynwyd yr adroddiad yn unig. Credaf eu bod yn profi y bu'r broses o baratoi'r adroddiad yn ddi-fai.

Some Members have behaved utterly reprehensibly in their remarks earlier today. They are still attempting to divert attention away from the clear evidence in the report. I am saddened, too, that some of my senior officials are having their reputations besmirched. They are only doing the job that they are being paid to do.

Mae rhai Aelodau wedi ymddwyn yn gwbl geryddadwy drwy gyfrwng eu sylwadau yn gynharach heddiw. Maent yn dal i geisio tynnu sylw oddi wrth y dystiolaeth glir yn yr adroddiad. Mae'n fy nhristáu, hefyd, fod enwau rhai o'm uwch swyddogion yn cael eu pardduo. Yr oll y maent yn ei wneud yw'r swydd y maent yn cael eu talu i'w wneud.

Local NHS services are always a sensitive and emotive area, and every politician knows how difficult it is to achieve a consensus on change. The people of Wales have every right to have the benefits of change explained clearly and honestly. Poll after poll has shown, much to the opposition Members' distaste, that the people of Wales trust the Labour Government with the NHS in Wales. We built it, and we will ensure that it continues to serve the people of Wales long

Mae gwasanaethau GIG lleol bob amser yn faes sensitif ac emosiynol, ac mae pob gwleidydd yn gwybod pa mor anodd yw sicrhau consensws ynghylch newid. Mae gan bobl Cymru bob hawl i gael eglurhad clir a gonest o'r manteision sy'n gysylltiedig â newid. Mae un arolwg barn ar ôl y llall wedi dangos, er mawr atgasedd i Aelodau'r gwrthbleidiau, fod gan bobl Cymru ffydd yn y Llywodraeth Lafur o ran y GIG yng Nghymru. Ni a'i hadeiladodd, a byddwn yn

into the future.

sicrhau ei fod yn parhau i wasanaethu pobl Cymru am flynyddoedd maith i ddod.

Finally, nothing in this process has lacked in transparency. I have neither lied to nor connived with anyone. This report was commissioned by the NHS through the NHS Confederation, and was researched by a well-known academic. This is a blatant political attack that seeks to undermine my leadership of the NHS in Wales at the expense of the hard-earned reputations of two people who have done nothing but work hard to improve the NHS in Wales. [*Applause.*]

Yn olaf, ni fu diffyg tryloywder yn unrhyw ran o'r broses hon. Nid wyf wedi dweud celwydd nac wedi cydgynllwynio â neb. Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan y GIG drwy Gydffederasiwn y GIG, a chafodd ei ymchwilio gan academydd adnabyddus. Mae hwn yn ymosodiad gwleidyddol amlwg sy'n ceisio tanseilio fy arweinyddiaeth i ar y GIG yng Nghymru ar draul enwau da haeddiannol dau berson nad ydynt wedi gwneud dim byd ond gweithio'n galed i wella'r GIG yng Nghymru. [*Cymeradwyaeth.*]

**Darren Millar** *rose*—

**Darren Millar** *a gododd*—

**The Presiding Officer:** Order. Darren Millar, I have not called you to speak yet. Quite a number of Members wish to speak on this item, so I plead with everyone to keep their contributions as short as possible so that I can call as many Members as possible. It would be helpful, therefore, if Members could concentrate on questions. I now call Darren Millar.

**Y Llywydd:** Trefn. Darren Millar, nid wyf wedi galw arnoch i siarad eto. Mae cryn nifer o Aelodau'n dymuno siarad ynghylch yr eitem hon, felly rwy'n ymbil ar bawb i gadw eu cyfraniadau mor fyr ag y bo modd fel y gallaf alw ar gymaint o Aelodau ag y bo modd. Byddai'n ddefnyddiol, felly, pe gallai Aelodau ganolbwyntio ar gwestiynau. Galwaf ar Darren Millar.

**Darren Millar:** In May, the Welsh NHS Confederation published a report that you claimed, Minister, was completely independent and helped to cement and underpin NHS reforms. What is now clear from the e-mails and correspondence that have been published under the Freedom of Information Act 2000 is that the report was far from independent. Senior officials in your department were conniving with Professor Longley—[*Interruption.*]

**Darren Millar:** Ym mis Mai, cyhoeddodd Cydffederasiwn GIG Cymru adroddiad y gwnaethoch honni, Weinidog, ei fod yn gwbl annibynnol ac yn helpu i gadarnhau ac ategu'r diwygiadau i'r GIG. Yr hyn sydd bellach yn amlwg o'r e-byst a'r ohebiaeth a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yw bod yr adroddiad yn bell o fod yn annibynnol. Bu uwch swyddogion yn eich adran yn cydgynllwynio â'r Athro Longley—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order.

**Y Llywydd:** Trefn.

**Darren Millar:** Thank you. Senior officials in your department were conniving with Professor Longley to produce a report with a pre-determined conclusion, to pre-empt the unpopular reorganisation of health services across Wales. I will quote from some of those e-mails from Professor Longley to officials in your department: there was a search for 'killer facts', looking for evidence because the evidence was not as 'incisive' as your officials and Professor Longley might have hoped, and looking for evidence to 'sharpen up the document' to support the case for

**Darren Millar:** Diolch yn fawr. Bu uwch swyddogion yn eich adran yn cydgynllwynio â'r Athro Longley i lunio adroddiad a oedd â chasgliad a bennwyd ymlaen llaw, er mwyn achub y blaen ar y broses amhoblogaidd o ad-drefnu gwasanaethau iechyd ledled Cymru. Dyfynnaf o rai o'r e-byst gan yr Athro Longley at swyddogion yn eich adran: chwiliwyd am ffeithiau na ellid dadlau â hwy, neu '*killer facts*', ac am dystiolaeth oherwydd nad oedd y dystiolaeth mor dreiddgar ag y byddai eich swyddogion a'r Athro Longley wedi ei obeithio; chwiliwyd hefyd am

change, which was weak.

dystiolaeth i roi min ar y ddogfen er mwyn cefnogi'r achos dros newid, a oedd yn wan.

Your medical director in NHS Wales responded to some of these e-mails by attempting to influence the editorial content and presentation of the report by asking Professor Longley to set out a more 'persuasive vision' and to be 'more positive' about the case for change. We know that the report has been known by two titles. Cabinet Members who are now bickering will know that it had two titles.

Atebodd eich cyfarwyddwr meddygol yn y GIG yng Nghymru rai o'r e-byst hyn drwy geisio dylanwadu ar gynnwys golygyddol a chyflwyniad yr adroddiad, gan ofyn i'r Athro Longley gyflwyno gweledigaeth fwy argyhoeddiadol ac i fod yn fwy cadarnhaol ynghylch yr achos dros newid. Gwyddom y rhoddwyd dau deitl i'r adroddiad. Bydd yr Aelodau sydd yn y Cabinet ac sy'n ymgecru yn awr yn gwybod ei fod wedi cael dau deitl.

Minister, I will go to questions now and I would appreciate some straight answers from you. The report was originally called 'The Case for Change' and was discussed by your Cabinet in March 2012. Why did the title change to 'The Best Configuration of Hospital Services for Wales'? Do you not agree that the title 'The Case for Change' seems to indicate that there was a predetermined conclusion? Secondly, did you know, Minister, about the discussions held between officials in your department and Professor Longley? A simple 'yes' or 'no' will do as an answer. Secondly—

Weinidog, byddaf yn gofyn cwestiynau yn awr a byddwn yn gwerthfawrogi cael atebion didwyll gennych. Teitl gwreiddiol yr adroddiad oedd 'Y Ddadl dros Newid', a chafodd ei drafod gan eich Cabinet ym mis Mawrth 2012. Pam y newidiwyd y teitl i 'Y Trefniant Gorau ar gyfer Gwasanaethau Ysbytai yng Nghymru'? Onid ydych yn cytuno bod y teitl 'Y Ddadl dros Newid' yn tueddu i ddangos bod casgliad a bennwyd ymlaen llaw? Yn ail, a oeddech yn gwybod, Weinidog, am y trafodaethau a fu rhwng swyddogion yn eich adran a'r Athro Longley? Bydd ateb 'oeddwn' neu 'nac oeddwn' yn ddigon. Yn ail—

**The Presiding Officer:** Order. You mean 'thirdly'.

**Y Llywydd:** Trefn. 'Yn drydydd' yr ydych yn ei feddwl.

**Darren Millar:** Thirdly, if you did know, prior to the publication of Professor Longley's report, will you apologise for misleading the Assembly and the people of Wales about the fact that it was an independent report? Lastly, if you did not know, do you accept that you do not have a grip on your department and that it is time for you to resign? [*Interruption.*]

**Darren Millar:** Yn drydydd, os oeddech chi'n gwybod, cyn cyhoeddi adroddiad yr Athro Longley, a wnewch ymddiheuro am gamarwain y Cynulliad a phobl Cymru ynghylch y ffaith bod yr adroddiad yn annibynnol? Yn olaf, os nad oeddech yn gwybod, a ydych yn derbyn nad oes gennych reolaeth ar eich adran a'i bod yn amser ichi ymddiswyddo? [*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. There were four specific questions there. Minister, would you like to reply?

**Y Llywydd:** Trefn. Roedd pedwar cwestiwn penodol yno. Weinidog, a hoffech ymateb?

**Lesley Griffiths:** I am very sad that Darren Millar continues to smear the good name of my officials and Professor Longley. This is obviously a personal attack on me that tries to destabilise what the Government is trying to seek for the NHS in Wales. I am fair game, but I am very sad that he continues to besmirch the good name of Professor

**Lesley Griffiths:** Mae'n fy nhristáu'n fawr fod Darren Millar yn parhau i bardduo enw da fy swyddogion a'r Athro Longley. Mae hyn yn amlwg yn ymosodiad personol arnaf i sy'n ceisio ansefydlogi'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i wneud ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae hawl iddo fy nhargedu i, ond mae'n fy nhristáu'n fawr ei

Longley and my senior officials.

fod yn parhau i bardduo enw da yr Athro Longley a'm uwch swyddogion.

In answer to his questions, it is not my report so I did not change the title. He says that it is clear from the e-mails, but if he had bothered to be in the Chamber for the start of questions to the First Minister, he would have heard the First Minister challenge the opposition leaders by asking 'Where is the evidence?' I ask the same of him: where is the evidence? He needs to think very carefully about what he has said in the media this morning and again in the Chamber, and really reflect on what he has said. He has done himself a great deal of damage.

I ateb ei gwestiynau, nid fy adroddiad i yw ef, felly ni newidiais y teitl. Mae'n dweud ei bod yn glir o'r e-byst, ond pe bai wedi trafferthu i fod yn y Siambr ar gyfer dechrau'r cwestiynau i'r Prif Weinidog, byddai wedi clywed y Prif Weinidog yn herio arweinwyr y gwrthbleidiau drwy ofyn 'Ble mae'r dystiolaeth?' Gofynnaf innau iddo: ble mae'r dystiolaeth? Mae angen iddo feddwl yn ofalus am yr hyn y mae wedi'i ddweud yn y cyfryngau y bore yma ac eto yn y Siambr, a myfyrio o ddifrif ynghylch yr hyn y mae wedi'i ddweud. Mae wedi gwneud drwg mawr iddo'i hun.

**Elin Jones:** Minister, I am disappointed with the tone and content of your statement this afternoon. You were not asked for an urgent statement today to discuss or defend Marcus Longley. He is not accountable to the Chamber, and his academic credibility is not a matter for us. You are accountable to us for your words and your actions. My interest today is in your words and not in Marcus Longley's. Your top civil servants were discussing the conclusions, style and statistics in the report during its writing. That is fact, proved by the correspondence released today. Your statement to the Assembly on 9 May described that report as 'independent' twice. You have stated again today that it is an entirely independent report. Will you explain carefully to me how you believe that a report written while the content was the subject of correspondence between the author and your chief officials is, in your opinion, independent?

**Elin Jones:** Weinidog, rwyf wedi fy siomi gan naws a chynnwys eich datganiad y prynhawn yma. Ni ofynnwyd ichi am ddatganiad brys heddiw i drafod Marcus Longley neu i'w amddiffyn. Nid yw ef yn atebol i'r Siambr, ac nid yw ei hygrededd academaidd yn fater i ni. Rydych chi yn atebol i ni am eich geiriau a'ch gweithredoedd. Mae gennyf ddiddordeb heddiw yn eich geiriau chi ac nid yng ngeiriau Marcus Longley. Roedd eich gweision sifil uchaf yn trafod y casgliadau, yr arddull, a'r ystadegau yn yr adroddiad yn ystod y broses o'i ysgrifennu. Mae hynny'n wir, a chaiff ei brofi gan yr ohebiaeth a gyhoeddwyd heddiw. Yn eich datganiad i'r Cynulliad ar 9 Mai, caiff yr adroddiad hwnnw ei alw'n 'annibynnol' ddwywaith. Rydych wedi dweud eto heddiw fod yr adroddiad yn un cwbl annibynnol. A wnewch egluro yn ofalus i mi sut rydych yn credu bod adroddiad a ysgrifennwyd tra oedd y cynnwys yn destun gohebiaeth rhwng yr awdur a'ch prif swyddogion yn annibynnol, yn eich barn chi?

**Lesley Griffiths:** I referred to that in my statement. I had no influence on or association with the writing of the report. The only role my officials had was in responding to specific requests from Professor Longley to aid his research. If those requests had not been made, the report would not have been balanced. We need to look at the whole report, not at e-mails that are being taken totally out of context. The report goes to great lengths to point out the weaknesses in

**Lesley Griffiths:** Cyfeiriais at hynny yn fy natganiad. Ni ddylanwadais ar y broses o ysgrifennu'r adroddiad o gwbl, ac nid oedd gennyf unrhyw gysylltiad â'r broses honno. Yr unig rôl a oedd gan fy swyddogion oedd ymateb i geisiadau penodol gan yr Athro Longley i gynorthwyo ei waith ymchwil. Pe na wnaed y ceisiadau hynny, ni fyddai'r adroddiad wedi bod yn gytbwys. Mae angen inni edrych ar yr adroddiad cyfan, ac nid ar e-byst sy'n cael eu tynnu o'u cyd-destun yn

the data. There are whole paragraphs that point out that there are no data on many issues and that the research was not always conclusive. If there was collusion with the Welsh Government or conniving with me, or if Professor Longley was a 'stooge', as somebody has referred to him, why would he say that? I have answered your question. As someone who was recently in Government, you know how it works and you know that officials would be asked for such data.

llwyr. Gwneir ymdrech fawr yn yr adroddiad i dynnu sylw at y gwendidau yn y data. Mae paragraffau cyfan sy'n tynnu sylw at y ffaith nad oes dim data ynghylch nifer o faterion, ac nad oedd canlyniad y gwaith ymchwil yn bendant bob amser. Os cyd-gynllwyniwyd â Llywodraeth Cymru neu â mi, neu os oedd yr Athro Longley yn was bach, fel y dywedodd rhywun, pam y byddai'n dweud hynny? Rwyf wedi ateb eich cwestiwn. A chithau'n rhywun a oedd yn y Llywodraeth yn ddiweddar, rydych yn gwybod sut mae'n gweithio ac rydych yn gwybod y byddai swyddogion yn cael cais am ddata o'r fath.

2.45 p.m.

**Kirsty Williams:** Thank you, Minister, for your statement this afternoon. First, for the record, I would like to say that there is nothing unusual or remiss in the local health boards' commissioning of a report of this kind and there is nothing unusual or remiss in any researcher contacting officials in the Welsh Government to obtain data and statistical analysis that the Government would hold and for which it would be the only source for that data needed to compile the report. However, would you agree with me that the e-mails not only reveal correspondence that was asking for data or statistical analysis, but, in effect, ask for comments on draft reports over a number of months?

**Kirsty Williams:** Diolch, Weinidog, am eich datganiad y prynhawn yma. Yn gyntaf, hoffwn ddweud ar goedd nad oes unrhyw beth anarferol nag esgeulus yn y ffaith bod byrddau iechyd lleol yn comisiynu adroddiad o'r fath ac nad oes dim anarferol nag esgeulus yn y ffaith bod unrhyw ymchwilydd yn cysylltu â swyddogion yn Llywodraeth Cymru i gael data a dadansoddiadau ystadegol a fyddai gan y Llywodraeth, ac mai'r Llywodraeth fyddai'r unig ffynhonnell ar gyfer y data hwnnw a oedd ei angen i lunio'r adroddiad. Fodd bynnag, a fyddech yn cytuno â mi bod y negeseuon e-bost nid yn unig yn datgelu gohebiaeth a oedd yn gofyn am ddata neu ddadansoddiadau ystadegol, ond, i bob pwrpas, yn gofyn am sylwadau ar adroddiadau drafft dros nifer o fisoedd?

On 17 January, an e-mail was received by a senior official in your department that asked for any other relevant evidence—and it used the term 'the killer facts'—that would be useful. It also referred to a conversation that had happened the week before. Were you aware that that official had met Marcus Longley, was that conversation minuted, and were the subjects of that conversation available for public scrutiny?

Ar 17 Ionawr, cafodd uwch swyddog yn eich adran e-bost a oedd yn gofyn am unrhyw dystiolaeth berthnasol arall—defnyddiodd y term '*killer facts*'—a fyddai yn ddefnyddiol. Cyfeiriodd hefyd at sgwrs a gafwyd yr wythnos cynt. A oeddech yn ymwybodol bod y swyddog hwnnw wedi cyfarfod â Marcus Longley, a gafodd y sgwrs honno ei chofnodi, ac a oedd pynciau'r sgwrs honno ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt?

On 24 January, a draft was sent to one of your officials.

Ar 24 Ionawr, anfonwyd drafft at un o'ch swyddogion.

'In the meantime…I'd be very grateful for your comments on the attached, which is a (still incomplete) draft of the first of the papers we are producing…They should summarise the key evidence, in an objective

Yn y cyfamser...byddwn yn ddiolchgar iawn am eich sylwadau ar y ddogfen atodedig, sy'n ddrafft (dal yn anghyflawn) o'r papur cyntaf o'r holl bapurau yr ydym yn eu cynhyrchu...Dylent grynhoi'r dystiolaeth

but accessible way, with a view to allowing the interested lay reader to draw their own conclusions…That's the aim… but do they succeed?! The drafts are still work in progress, but should be complete enough for you to get a sense of the whole.'

Why would an author of a report not commissioned by your Government—as you have said today, it is not your report or your Government's report—be interested in the views of senior officials on a draft? Why is that the case? Were you aware that the author of this report was consulting with your officials on the content and style of the report?

On 22 February, once again, another senior official was sent a copy of a draft of part of the report for his comments. Once again, why would another official in your department be asked for his comments on the appropriateness of a report that was not commissioned by your Government? Surely, if the report's author was interested in consulting anyone at this stage, it would be those people who had commissioned the report. As you have quite clearly stated today, that was not your Government.

That e-mail to the medical director on 22 February stated:

'However, on reflection the evidence as presented does not seem to be as incisive as we might have hoped. Is there any further evidence that you could provide to sharpen up the document and its impact in supporting the case for change?'

That was not a request for hard, raw data; that was a specific request with a specific intention behind it.

That e-mail also said

'If you are attending the Clinical Forum later, perhaps we could have a quick chat about this.'

Did your medical director meet the author of

allweddol, mewn ffordd wrthrychol ond hygyrch, gyda'r bwriad o ganiatáu i'r darllenydd lleyg sydd â diddordeb lunio ei gasgliadau ei hun...Dyna'r nod... ond ydynt yn llwyddo?! Mae'r gwaith ar y drafftiau yn dal i fynd rhagddo, ond dylent fod yn ddigon cyflawn i chi gael syniad o'r gwaith yn ei gyfanrwydd.

Pam y byddai gan awdur adroddiad a gomisiynwyd gan eich Llywodraeth—fel yr ydych wedi'i ddweud heddiw, nid eich adroddiad chi na'ch Llywodraeth ydyw—ddiddordeb ym marn uwch swyddogion ar ddrafft? Pam bod hynny'n wir? A oeddech yn gwybod bod awdur yr adroddiad hwn yn ymgynghori â'ch swyddogion ar gynnwys ac arddull yr adroddiad?

Ar 22 Chwefror, unwaith eto, anfonwyd copi o ddrafft o' ran o'r adroddiad at uwch swyddog arall i gael ei sylwadau. Unwaith eto, pam y byddai swyddog arall yn eich adran yn cael cais i roi ei sylwadau ar briodoldeb adroddiad na chafodd ei gomisiynu gan eich Llywodraeth? Pe bai gan awdur yr adroddiad ddiddordeb mewn ymgynghori ag unrhyw un yr adeg honno, y bobl a oedd wedi comisiynu'r adroddiad fyddai hynny. Fel yr ydych wedi'i ddweud yn eithaf clir heddiw, nid eich Llywodraeth chi wnaeth hynny.

Roedd yr e-bost hwnnw at y cyfarwyddwr meddygol ar 22 Chwefror yn datgan:

Fodd bynnag, ar ôl ystyried, nid yw'r dystiolaeth fel y'i cyflwynwyd yn ymddangos mor dreiddgar ag y byddem wedi'i obeithio. A oes unrhyw dystiolaeth bellach y gallech ei darparu i roi min ar y ddogfen a'i heffaith o ran cefnogi'r achos dros newid?

Nid cais am ddata caled, creiddiol oedd hwnnw; roedd hwnnw'n gais gyda bwriad penodol y tu ôl iddo.

Dywedodd yr e-bost hefyd

Os ydych yn mynychu'r Fforwm Clinigol yn ddiweddarach, efallai y gallem gael sgwrs gyflym am hyn.

A wnaeth eich cyfarwyddwr meddygol

this report on 22 February, is that chat minuted, and are the subjects discussed available for public scrutiny?

gwrdd ag awdur yr adroddiad hwn ar 22 Chwefror, a gofnodwyd y sgwrs, ac a yw'r pynciau a drafodwyd ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt?

On 4 March, were you aware that the medical director was discussing with the author of this report the details of a meeting held between other medical directors and the planners? Is it of concern to you that your medical director was offering up additional information?

Ar 4 Mawrth, a oeddech yn ymwybodol bod y cyfarwyddwr meddygol yn trafod gydag awdur yr adroddiad hwn fanylion cyfarfod a gynhaliwyd rhwng cyfarwyddwyr meddygol eraill a'r cynllunwyr? A yw'n destun pryder i chi fod eich cyfarwyddwr meddygol yn cynnig gwybodaeth ychwanegol?

'I wonder also if we could provide a list of new services and technologies that must be delivered and examples of other systems producing better outcomes and experience than us.'

Tybed hefyd a allem ddarparu rhestr o wasanaethau a thechnolegau newydd y mae'n rhaid eu cyflwyno ac enghreifftiau o systemau eraill sy'n cynhyrchu gwell canlyniadau a phrofiad na ni.

That is not data or statistics. That is offering information to go into the report. Were you aware that, on 9 March, the chief executive of NHS Wales wrote to congratulate the author of this report on its content? I quote:

Nid data nag ystadegau yw hynny. Mae hynny'n cynnig gwybodaeth i'w gynnwys yn yr' adroddiad. A oeddech yn ymwybodol bod prif weithredwr GIG Cymru, ar 9 Mawrth, wedi ysgrifennu i longyfarch awdur yr adroddiad hwn ar ei gynnwys? Dyfynnaf:

'Just a quick note to thank you for your work on the case for change. I am aware that certain aspects are still subject to revision, but overall it is looking good. I am sure it will help change the tone in terms of the debate.'

Dim ond nodyn bach i ddiolch ichi am eich gwaith ar yr achos dros newid. Rwyf yn ymwybodol bod rhai agweddau yn dal i fod yn amodol ar adolygiad, ond yn gyffredinol mae'n edrych yn dda. Rwyf yn siŵr y bydd yn help i newid naws y ddadl.

Why did your—[*Interruption*.]

Pam wnaeth eich—[*Torri ar draws*.]

**The Presiding Officer:** Order. The Minister will answer.

**Y Llywydd:** Trefn. Bydd y Gweinidog yn ateb.

**Kirsty Williams:** Why did your chief executive feel it necessary to see a copy of this report, a report that was not commissioned by him or your Government? Finally, on 22 March, there was another e-mail from another one of your officials, which read:

**Kirsty Williams:** Pam wnaeth eich prif weithredwr deimlo bod angen iddo weld copi o'r adroddiad hwn, nad oedd yn adroddiad a gomisiynwyd ganddo ef na'ch Llywodraeth? Yn olaf, ar 22 Mawrth, roedd e-bost arall gan un arall o'ch swyddogion, a oedd yn dweud:

'There was a suggestion today that inclusion of regional comparisons might be useful.'

Roedd awgrym heddiw y gallai cynnwys cymariaethau rhanbarthol fod yn ddefnyddiol.

Do you believe that that suggestion was looking to influence what was in the report and what your officials felt was missing and should be addressed? If that is not an example of trying to influence the contents, I

A ydych yn credu bod yr awgrym hwnnw yn ceisio dylanwadu ar yr hyn a oedd yn yr adroddiad a'r hyn y tybiai eich swyddogion a oedd ar goll, ac y dylid mynd i'r afael ag ef? Os nad yw hynny'n enghraifft o geisio

do not know what is. The crucial issue, Minister, is that you said that this was an independent report. Throughout this process, your officials, at the most senior level, were in discussion with the author. Why was that the case when this report was not commissioned by you or your Government but by a different part of the NHS? Surely, any drafts offered up were not looking for statistical information or proof. What they were doing—

dylanwadu ar y cynnwys, nid wyf yn gwybod beth sydd. Y mater hanfodol, Weinidog, yw eich bod wedi dweud bod hwn yn adroddiad annibynnol. Drwy gydol y broses hon, bu eich swyddogion, ar y lefel uchaf, yn trafod gyda'r awdur. Pam fod hynny wedi digwydd pan nad oedd yr adroddiad hwn wedi cael ei gomisiynu gennych chi na'ch Llywodraeth, ond gan wahanol ran o'r GIG? Siawns nad oedd unrhyw ddrafftiau a gynigiwyd yn chwilio am wybodaeth ystadegol na thystiolaeth. Yr hyn yr oeddent yn ei wneud—

**The Presiding Officer:** Order. I have a long list of speakers.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae gennyf restr hir o siaradwyr.

**Kirsty Williams:** They were making sure that there was approval at the highest level for the contents.

**Kirsty Williams:** Roeddynt yn gwneud yn siŵr bod y 'cynnwys yn cael ei gymeradwyo ar y lefel uchaf.

**Lesley Griffiths:** I say again that you need to produce evidence of collusion. Welsh Government officials responded to requests for information from Professor Longley and the NHS Confederation. We did not seek to influence or amend the content of the report. That was entirely a matter for the NHS Confederation and Professor Longley. You know from your time as Chair of the then Health and Social Services Committee that things have to change. This is just one report in a long line of reports that supports that.

**Lesley Griffiths:** Dywedaf eto bod angen ichi gynhyrchu tystiolaeth y bu cydgynllwynio. Ymatebodd swyddogion Llywodraeth Cymru i geisiadau am wybodaeth gan yr Athro Longley a Chydffederasiwn y GIG. Ni wnaethom geisio dylanwadu ar gynnwys yr adroddiad na'i newid. Roedd hwnnw'n fater i Gydffederasiwn y GIG a'r Athro Longley yn llwyr. Byddwch yn gwybod o'ch amser fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn rhaid i bethau newid. Dim ond un adroddiad yw hwn mewn cyfres hir o adroddiadau sy'n cefnogi hynny.

**Mark Drakeford:** Minister, I agree with Elin Jones that Professor Longley's views ought not to be the subject of our discussion this afternoon. However, as they have been called into question across the Chamber, I just want to say that I have known Professor Longley for many years, here in the Assembly and in the academic arena. I have not always agreed with him, and I have shared platforms with him at different times in Wales to debate different views on the Welsh health service and its policies. In all of that, he has always been an analyst of outstanding integrity, whether disagreeing with Government policy or endorsing aspects of it. Whatever he draws on, the views he expresses are his own. Do you agree, Minister, that those who have been so cavalier in attacking the reputation of

**Mark Drakeford:** Weinidog, rwyf yn cytuno ag Elin Jones na ddylai barn yr Athro Longley fod yn destun ein trafodaeth y prynhawn yma. Fodd bynnag, gan ei bod wedi cael ei chwestiynu ar draws y Siambr, rwyf eisiau dweud fy mod wedi adnabod yr Athro Longley ers blynyddoedd lawer, yma yn y Cynulliad ac yn y maes academaidd. Nid wyf bob amser wedi cytuno ag ef, ac rwyf wedi rhannu llwyfannau ag ef ar adegau gwahanol yng Nghymru mewn dadleuon ar wahanol safbwyntiau ar wasanaeth iechyd Cymru a'i bolisïau. Yn y cyfan o hynny, bu'n ddadansoddwr gonest tu hwnt, pe bai'n anghytuno â pholisi'r Llywodraeth neu'n cymeradwyo agweddau arno. Beth bynnag y bo'n cyfeirio ato, ei farn ef ei hun y mae'n ei mynegi. A ydych yn cytuno, Weinidog, nad

others have succeeded only in damaging their own?

yw'r rhai a fu mor ddi-hid wrth ymosod ar enw da eraill dim ond wedi llwyddo i niweidio enw da eu hunain?

**Lesley Griffiths:** Yes, I do. You made a very interesting point in saying that you have not always agreed with Professor Longley, because Professor Longley has certainly not always agreed with the Welsh Government. Therefore, to portray him as a stooge or someone who would connive with us is appalling. No, we are not here to discuss his reputation, but, equally, I cannot stand back. How are we ever going to get people to do work for us? I approach people to do such work. Professor Longley did a review of the community health councils for me. How are we going to get people to do work for us if this is the outcome?

**Lesley Griffiths:** Ydw, rwy'n cytuno. Gwnaethoch bwynt diddorol iawn drwy ddweud nad ydych bob amser wedi cytuno â'r Athro Longley, oherwydd nid yw'r Athro Longley yn sicr wedi cytuno bob amser â Llywodraeth Cymru. Felly, mae ei bortreadu fel gwas bach neu rywun a fyddai'n cydgynllwynio â ni yn warthus. Na, nid ydym yma i drafod ei enw da ond, yn yr un modd, ni allaf sefyll yn ôl. Sut rydym fyth yn mynd i gael pobl i wneud gwaith i ni? Rwy'n mynd at bobl i ofyn iddynt wneud gwaith o'r fath. Gwnaeth yr Athro Longley adolygiad o gynghorau iechyd cymuned i mi. Sut ydym yn mynd i gael pobl i wneud gwaith i ni os mai dyma yw'r canlyniad?

**Angela Burns:** Minister, thank you for your statement today. I listened to it most carefully, and I am glad that you acknowledged that our role here is to scrutinise you. I also understand and appreciate your defence of your position. However, this is my concern: in October last year, a string of e-mails appeared that very clearly showed the Welsh Government asking the Higher Education Funding Council for Wales for a letter

**Angela Burns:** Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw. Roeddwn yn gwrando arno'n ofalus iawn, ac rwyf yn falch eich bod yn cydnabod mai ein rôl yma yw craffu arnoch chi. Rwyf hefyd yn deall ac yn gwerthfawrogi eich amddiffyniad o'ch safbwynt. Fodd bynnag, dyma fy mhryder: ym mis Hydref y llynedd, ymddangosodd cyfres o negeseuon e-bost a oedd yn dangos Llywodraeth Cymru yn gofyn yn glir iawn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am lythyr a oedd yn

'playing up…the positive advantages of restructuring.'

rhoi gwedd ffafriol... ar fanteision cadarnhaol ailstrwythuro.

This was in relation to university reconfiguration. Here we are today with another string of e-mails, including statements such as the ones that have been mentioned. The one I would particularly like to draw your attention to is an e-mail to Professor Longley, which states:

Roedd hyn mewn perthynas ag ailgyflunio prifysgolion. Rydym yma heddiw gyda cyfres arall o negeseuon e-bost, gan gynnwys datganiadau fel y rhai sydd wedi cael eu crybwyll. Yr un yr hoffwn dynnu eich sylw ato'n benodol yw e-bost at yr Athro Longley, sy'n dweud:

'I think there was a general feeling that the CfC needs to be more positive if possible I.e. describing a persuasive vision of how things could be better'.

Rwy'n credu bod teimlad cyffredinol bod angen i'r CfC fod yn fwy cadarnhaol os yn bosibl, hynny yw disgrifio gweledigaeth argyhoeddiadol o sut y gallai pethau fod yn well.

In the light of what happened last October and what is happening today, I have this uneasy feeling that we have a case where reports are made to fit the policy. So, I ask

Yng ngoleuni'r hyn a ddigwyddodd ym mis Hydref diwethaf a'r hyn sy'n digwydd heddiw, rwyf yn cael y teimlad anesmwyth bod gennym achos lle mae adroddiadau yn

you for your opinion on that because, for my constituents in Pembrokeshire and for other people within the Hywel Dda health board region who are so very worried about what is going to happen in their area and who are fighting, whether it is right or wrong, for what they believe should be their health service, and this kind of thing does nothing to ensure trust in the Government, the health boards or, indeed, in any of us here. I think that that is a great shame.

cael eu llunio i gyd-fynd â'r polisi. Felly, gofynnaf am eich barn ar hynny, ar ran fy etholwyr yn Sir Benfro ac ar ran pobl eraill o fewn rhanbarth bwrdd iechyd Hywel Dda, sy'n hynod bryderus am yr hyn sy'n mynd i ddigwydd yn eu hardal ac sy'n brwydro, pa un a yw'n gywir neu anghywir, dros yr hyn y maent yn credu y dylai eu gwasanaeth iechyd fod, ac nid yw'r math hwn o beth yn gwneud dim i sicrhau ymddiriedaeth yn y Llywodraeth, y byrddau iechyd nac, yn wir, unrhyw un ohonom yma. Credaf fod hynny'n drueni mawr.

**Lesley Griffiths:** I will reiterate: I, or my officials, did not have any influence on, or association with, the writing of this report. The only role my officials had was in responding to requests from Professor Longley to aid his research.

**Lesley Griffiths:** Dywedaf eto: ni chefais i, na'm swyddogion, unrhyw ddylanwad ar y broses o ysgrifennu'r adroddiad hwn nac unrhyw gysylltiad â hynny. Yr unig rôl oedd gan fy swyddogion oedd ymateb i geisiadau gan yr Athro Longley i gynorthwyo ei waith ymchwil.

**Simon Thomas:** Yesterday, Minister, I was present at a meeting of the Llanelli Town Council to discuss the proposals. The Member for Llanelli was also present and he relied heavily on Professor Longley's report, indeed, brandishing it quite literally as justification for the changes happening in Wales. Minister, I put it to you that your credibility, his credibility and the Labour party's credibility has been considerably undermined by the publication of these e-mails today. If you are genuine in your job in seeking change for medical purposes and for better services in the NHS in Wales, I put it to you that you have made your job more difficult here today, particularly in the statement you have made. The people of Wales, Llanelli and Mid and West Wales will feel today that they have been sold a pig in a poke regarding this report. It was not as thoroughly independent as you led us to believe; it was a report that had the fingerprints of Government all over it. That is not necessarily a bad thing, but a little more honesty in that regard would have helped us all to understand the position you are coming from. Minister, we never want to hear about downgrading. Is it not time you upgraded and let somebody else do this job?

**Simon Thomas:** Ddoe, Weinidog, roeddwn yn bresennol mewn cyfarfod o Gyngor Tref Llanelli i drafod y cynigion. Roedd yr Aelod dros Lanelli yn bresennol hefyd ac roedd yn dibynnu'n drwm ar adroddiad yr Athro Longley; yn wir, roedd yn ei chwifio o gwmpas yn llythrennol fel cyfiawnhad dros y newidiadau sy'n digwydd yng Nghymru. Weinidog, rwyf yn awgrymu bod eich hygrededd, ei hygrededd ef a hygrededd y blaid Lafur wedi cael ei danseilio yn sylweddol o ganlyniad i gyhoeddi'r negeseuon e-bost hyn heddiw. Os ydych yn ddiffuant yn eich tasg o geisio newid am resymau meddygol ac i gael gwasanaethau gwell yn y GIG yng Nghymru, awgrymaf eich bod wedi gwneud eich gwaith yn anos yma heddiw, yn enwedig yn y datganiad a wnaethoch. Bydd pobl Cymru, Llanelli a Chanolbarth a Gorllewin Cymru yn teimlo heddiw eu bod wedi cael eu camarwain o ran yr adroddiad hwn. Nid oedd mor gwbl annibynnol ag y bu ichi ein harwain i gredu; roedd olion bysedd y Llywodraeth dros yr adroddiad i gyd. Nid yw hynny o reidrwydd yn beth drwg, ond byddai ychydig mwy o onestrwydd yn hynny o beth wedi ein helpu ni i gyd i ddeall eich safbwynt. Weinidog, nid ydym byth eisiau clywed am israddio. Onid yw'n bryd ichi uwchraddio a gadael i rywun arall wneud y swydd hon?

**Lesley Griffiths:** In answer to your question,

**Lesley Griffiths:** I ateb eich cwestiwn, rwyf

I am very genuine about ensuring that we have safe, sustainable and high-quality services. The people of Wales will start to lose patience with us if we continue to have this political bickering. It is about time that it came to an end and we had a mature debate about it. I think that what Professor Longley wanted from his report was to have that mature debate, and I think that it is a great shame that this has happened.

yn wirioneddol ddiffuant ynghylch sicrhau bod gennym wasanaethau diogel, cynaliadwy ac o safon uchel. Bydd pobl Cymru yn dechrau colli amynedd gyda ni os byddwn yn parhau â'r cecru gwleidyddol hwn. Mae'n hen bryd iddo ddod i ben a'n bod yn cael dadl aeddfed am y peth. Tybiaf mai'r hyn yr oedd yr Athro Longley am ei gael o'i adroddiad oedd y ddadl aeddfed honno, ac rwyf yn credu ei fod yn drueni mawr bod hyn wedi digwydd.

**Mick Antoniw:** Minister, I echo some of the comments that you have made. I have been in many environments—political and legal—and it is sometimes a trick of the trade to take a series of documents, to extract those points from the documents that you feel lead to a particular point and then to ignore the others. I read all the e-mails and I have put them together. It seems to me totally illogical that there should be any suggestion that the obtaining of information and data for the preparation of the report is anything untoward whatsoever. Professor Longley outlined very clearly in his e-mail of 26 January:

**Mick Antoniw:** Weinidog, rwyf yn adleisio rhai o'r sylwadau a wnaethoch. Bum mewn sawl amgylchedd—gwleidyddol a chyfreithiol—ac weithiau mae'n arfer cymryd cyfres o ddogfennau, tynnu'r pwyntiau hynny o'r dogfennau rydych yn teimlo sy'n arwain at bwynt penodol ac yna anwybyddu'r lleill. Rwyf wedi darllen yr holl negeseuon e-bost ac rwyf wedi eu rhoi at ei gilydd. Mae'n ymddangos i mi yn gwbl afresymegol y dylai fod unrhyw awgrym bod cael gwybodaeth a data ar gyfer y gwaith o baratoi'r adroddiad yn gyfystyr ag unrhyw beth gwael o gwbl. Amlinellodd yr Athro Longley yn glir iawn yn ei e-bost ar 26 Ionawr:

'They should summarise the key evidence, in an objective but accessible way, with a view to allowing the interested lay reader to draw their own conclusions'.

Dylent grynhoi'r dystiolaeth allweddol, mewn ffordd wrthrychol ond hygyrch, gyda'r bwriad o ganiatáu i'r darllenydd lleyg sydd â diddordeb lunio ei gasgliadau ei hun.

I believe that Professor Longley—who has been made a target, quite shamefully, by the leader of the opposition, and I suspect he well regret that at his leisure in due course—made it very clear in a statement that 'The Case for Change' document is an entirely independent piece of work carried out by him in partnership with the Welsh NHS Confederation. Do you agree with that statement and does that reflect your interpretation of the production of that particular document?

Credaf fod yr Athro Longley—sydd wedi cael ei wneud yn darged, yn gwbl gywilyddus, gan arweinydd yr wrthblaid, ac rwyf yn amau y bydd yn difaru hynny wrth ei bwysau ymhen amser—wedi dweud yn glir iawn mewn datganiad bod y ddogfen ''Yr Achos dros Newid' yn ddarn o waith cwbl annibynnol a wnaed ganddo mewn partneriaeth â Chydffederasiwn GIG Cymru. A ydych yn cytuno â'r datganiad hwnnw ac a yw hynny'n adlewyrchu eich dehongliad o'r ffordd y cynhyrchwyd y ddogfen benodol honno?

**Lesley Griffiths:** Yes, I do. I mentioned previously that I think that Professor Longley went to great lengths in the report to point out weaknesses in the data. There are whole paragraphs pointing out there was not data on many issues and that research was not always conclusive. I think that he wanted people

**Lesley Griffiths:** Ydw, rwyf yn cytuno. Soniais eisoes fy mod yn meddwl bod yr Athro Longley wedi mynd i drafferth mawr yn yr adroddiad i nodi gwendidau yn y data. Mae paragraffau cyfan yn nodi nad oedd data ar nifer o faterion ac nad oedd y gwaith ymchwil bob amser yn dod i gasgliad

reading the report to be able to evaluate for themselves.

argyhoeddiadol. Rwyf yn meddwl ei fod am i bobl ddarllen yr adroddiad er mwyn gallu gwerthuso hynny drostynt eu hunain.

**Antoinette Sandbach:** Minister, you have not answered the question: did you know about the discussions between your officials and Professor Longley? You have claimed that the e-mails are taken out of context. They were released in response to a request under the Freedom of Information Act 2000. Would you like to release the information that puts them in context?

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, nid ydych wedi ateb y cwestiwn: a oeddech chi'n gwybod am y trafodaethau rhwng eich swyddogion a'r Athro Longley? Rydych wedi honni bod yr e-byst yn cael eu hystyried y tu allan i'w cyd-destun. Cawsant eu rhyddhau mewn ymateb i gais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. A hoffech chi ryddhau'r wybodaeth sy'n eu rhoi yn eu cyd-destun?

3.00 p.m.

**Lesley Griffiths:** I am not quite sure of that question. I do not know of every e-mail that is exchanged between my officials.

**Lesley Griffiths:** Nid wyf yn gwbl sicr ynglŷn â'r cwestiwn hwn. Wn i ddim am bob neges e-bost a gaiff ei chyfnewid rhwng fy swyddogion.

**Vaughan Gething:** I am grateful for the statement that has been generated by the debate that we have had. However, the question that I want to get to is not so much about the interaction between Professor Longley and members of the Welsh Government, but about the status and value of the report. I am especially interested in whether any of this debate affects the validity or accuracy of the statistics and health outcomes in Marcus Longley's report, which are the basis of the argument made. In particular, on page 9, there are stark variations in outcomes in the risk-adjusted mortality index between different health boards in Wales, which should concern all of us as Members when we look at the current NHS in Wales and its future. Professor Longley neatly encapsulates our debate around locality, access and quality when he says that

'immediate access to poor care is of little use to anyone.'

**Vaughan Gething:** Rwy'n ddiolchgar am y datganiad a ysgogwyd gan y ddadl yr ydym wedi'i chael. Fodd bynnag, nid y berthynas rhwng yr Athro Longley ac aelodau o Lywodraeth Cymru yw'r mater yr wyf am ei drafod, yn gymaint â statws a gwerth yr adroddiad. Mae gennyf ddiddordeb arbennig mewn gwybod a yw unrhyw ran o'r ddadl hon yn effeithio ar ddilysrwydd neu gywirdeb yr ystadegau a'r canlyniadau iechyd yn adroddiad Marcus Longley, sef sail y ddadl a gyflwynwyd. Yn benodol, ar dudalen 9, mae amrywiadau amlwg yn y canlyniadau yn y mynegai marwolaethau a addaswyd o ran risg, rhwng byrddau iechyd gwahanol yng Nghymru, a ddylai fod yn achos pryder i bob un ohonom fel Aelodau pan ystyriwn y GIG yng Nghymru ar hyn o bryd, a'i ddyfodol. Mae'r Athro Longley yn crynhoi ein dadl yn daclus ynghylch lleoliad, mynediad ac ansawdd pan ddywed

'dydy mynediad syth i ofal gwael ddim o werth i neb'.

Can you confirm, Minister, that the factual data in this report about health outcomes and variations between health boards in Wales and between the NHS in Wales and in England are accurate?

A allwch gadarnhau, Weinidog, fod y data ffeithiol yn yr adroddiad hwn am ganlyniadau iechyd ac amrywiadau rhwng byrddau iechyd yng Nghymru, a rhwng y GIG yng Nghymru ac yn Lloegr, yn gywir?

**Lesley Griffiths:** Yes, I understand that the

**Lesley Griffiths:** Gallaf, rwy'n deall bod y

evidence and the data are accurate. The report is entirely consistent with other reports that we have seen, if you think about the King's Fund or go back to Wanless in 2003. It is not a biased line that has been invented to suit me or the Welsh Government. I do not think that the conclusions go beyond what the evidence supports and if we had not put the evidence in, it would have produced an unbalanced report. All that evidence from the Welsh Government and other places had to be put in, having been collected and evaluated, to ensure that we had that balanced report, which supports what we all in the Chamber know, namely that services have to change.

dystiolaeth a'r data yn gywir. Mae'r adroddiad yn gwbl gyson ag adroddiadau eraill yr ydym wedi eu gweld, os meddyliwch am y King's Fund neu os ystyriwch Wanless yn 2003. Nid yw'n safbwynt unochrog sydd wedi'i ddyfeisio i fod yn addas i mi nac i Lywodraeth Cymru. Ni chredaf fod y casgliadau yn mynd y tu hwnt i'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei chefnogi a phe na baem wedi cyflwyno'r dystiolaeth, byddai wedi arwain at lunio adroddiad anghytbwys. Roedd yn rhaid cynnwys yr holl dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a mannau eraill, ar ôl ei chasglu a'i gwerthuso, sicrhau bod gennym yr adroddiad cytbwys, i gefnogi'r hyn y mae pawb yn y Siambr yn ei wybod, sef bod yn rhaid i wasanaethau newid.

**The Presiding Officer:** I have two more speakers; I want them to be very brief, please, because you have already had this opportunity and one earlier this afternoon.

**Y Llywydd**: Mae gennyf ddau siaradwr arall; rwyf am iddynt fod yn gryno iawn, os gwelwch yn dda, gan eich bod eisoes wedi cael y cyfle hwn, yn ogystal â chyfle yn gynharach y prynhawn yma.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, is it not the case that this report is masquerading as an independent report but has relied on being spoon-fed data and support from your Welsh Government officials? We know that the author of 'The Case for Change' asked your officials on 22 February this year for evidence

**Janet Finch-Saunders**: Weinidog, onid y gwir yw bod yr adroddiad hwn yn ffugio bod yn adroddiad annibynnol, ond, yn hytrach, yn dibynnu ar roi data a chefnogaeth gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar lwy iddo? Gwyddom fod awdur 'Yr Achos dros Newid' wedi gofyn i'ch swyddogion am dystiolaeth ar 22 Chwefror eleni

'to sharpen up the document and its impact in supporting the case for change'.

i roi min ar y ddogfen a'i heffaith er mwyn cefnogi'r achos dros newid.

I mention the comments of my colleague Angela Burns; you did not answer her question. We also know that your officials suggested on 4 March that the case for change

Hoffwn sôn am y sylwadau gan fy nghyd-Aelod Angela Burns; ni wnaethoch ateb ei chwestiwn. Gwyddom ninnau hefyd fod eich swyddogion wedi awgrymu ar 4 Mawrth fod angen i'r achos dros newid

'needs to be more positive if possible',

fod yn fwy cadarnhaol os yn bosibl,

describing a more 'persuasive' vision of how things could be better.

gan ddisgrifio gweledigaeth ar gyfer perswadio mwy ynghylch sut y gallai pethau fod yn well.

**The Presiding Officer:** Order. Can you come to questions, please?

**Y Llywydd:** Trefn. A allwch ofyn eich cwestiynau nawr, os gwelwch yn dda?

**Janet Finch-Saunders:** Yes, I am doing.

**Janet Finch-Saunders:** Ydw, rwy'n gwneud hynny.

**The Presiding Officer:** I am sorry, I know that you said that you are doing, but can you move to questions now, please?

**Y Llywydd:** Mae’n ddrwg gennyf, gwn eich bod yn dweud eich bod yn gwneud hynny, ond a allwch ofyn eich cwestiynau yn awr, os gwelwch yn dda?

**Janet Finch-Saunders:** Over the past 12 months, you have said numerous times in the Chamber that any service review would be based purely on clinically led decisions and evidence, but, given what we have learned today, how can you defend this report as being independent and, in real terms, a clinically led assessment?

**Janet Finch-Saunders**: Dros y 12 mis diwethaf, dywedasoch lawer gwaith yn y Siambr y byddai unrhyw adolygiad o wasanaethau yn seiliedig ar benderfyniadau dan arweiniad clinigol a thystiolaeth yn unig, ond, o ystyried yr hyn a glywsom heddiw, sut y mae modd i chi amddiffyn yr adroddiad hwn fel adroddiad annibynnol ac, mewn termau real, fel asesiad dan arweiniad clinigol?

**Lesley Griffiths:** I can absolutely defend the report. It is entirely independent, it was commissioned by the NHS and it was written by a respected academic. We know that services have to change. Clinicians are telling us that services have to change. Changes will be made based on clinical decisions.

**Lesley Griffiths**: Gallaf amddiffyn yr adroddiad yn llwyr. Mae’n gwbl annibynnol, oherwydd fe’i comisiynwyd gan y GIG ac fe’i hysgrifennwyd gan ysgolhaig uchel ei barch. Gwyddom fod yn rhaid i wasanaethau newid. Dywed clinigwyr wrthym fod yn rhaid i wasanaethau newid. Gwneir newidiadau ar sail penderfyniadau clinigol.

**Mark Isherwood:** Six years ago, Community Hospitals Acting Nationally Together Cymru was formed by campaigners across Wales fighting to retain their local hospitals after almost identical reconfiguration proposals. Do you, therefore, agree that, contrary to experience then, it would be unacceptable were the Welsh Government to dictate policy from the centre and leave the health boards to take the blame? How do you respond to concerns from the Flintshire over-50s action group that wards and minor injuries units were closed last winter due to winter pressures, but, in fact, it was a mild winter with no evidence of infection outbreaks and neighbouring hospitals in England did not close a single bed? How do you respond to concern expressed in a letter to your department by the professor of psychiatry and other senior staff at the Hergest unit in north Wales that, against a shifting culture in healthcare, nowhere more clearly so than in mental health care, there is a risk that the process will become the outcome—

**Mark Isherwood**: Chwe blynedd yn ôl, ffurfiwyd Ysbytai Cymunedol yn Gweithredu’n Genedlaethol Gyda’i Gilydd Cymru, gan ymgyrchwyr ledled Cymru oedd yn brwydro i gadw eu hysbytai lleol yn dilyn cynigion unfath bron, i ad-drefnu. A ydych, felly, yn cytuno, yn groes i’r hyn a brofwyd, y byddai’n annerbyniol pe bai Llywodraeth Cymru yn pennu polisi o’r canol ac yn gadael i’r byrddau iechyd gymryd y bai? Sut ydych chi’n ymateb i bryderon grŵp gweithredu dros 50 oed Sir y Fflint, bod wardiau ac unedau mân anafiadau wedi cau y gaeaf diwethaf oherwydd pwysau gaeaf, ond, mewn gwirionedd, roedd yn aeaf mwyn, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o achosion o haint, ac ni chaeodd ysbytai cyfagos yn Lloegr yr un gwely? Sut ydych chi’n ymateb i bryder a fynegwyd mewn llythyr at eich adran gan athro seiciatreg ac uwch staff eraill yn uned Hergest yn y Gogledd, mewn cefndir o newid diwylliant ym maes gofal iechyd, ac ym maes gofal iechyd meddwl yn bennaf oll, bod perygl y daw’r broses yn ganlyniad—

**The Presiding Officer:** Order. Can we stick to the report, please?

**Y Llywydd**: Trefn. Gawn ni gadw at yr adroddiad, os gwelwch yn dda?

**Mark Isherwood:** I have one final question.

**Mark Isherwood**: Mae gennyf un cwestiwn olaf.

**The Presiding Officer:** Order. Stick to the report and you can ask whatever question you want to ask. You seem to be wandering off from the report. Stick to the report, please.

**Y Llywydd**: Trefn. Cadwch at yr adroddiad a gallwch ofyn pa gwestiwn bynnag sydd gennych. Ymddengys eich bod yn crwydro ar drywydd gwahanol i'r adroddiad. Cadwch at yr adroddiad, os gwelwch yn dda.

**Mark Isherwood:** To the report itself?

**Mark Isherwood**: Yr adroddiad ei hun?

**The Presiding Officer:** Yes.

**Y Llywydd**: Ie

**Mark Isherwood:** This is a statement on the reconfiguration of health services and the evidence underlying it.

**Mark Isherwood**: Mae hwn yn ddatganiad ar ad-drefnu gwasanaethau iechyd a'r dystiolaeth sy'n sail iddo.

**The Presiding Officer:** Order. Could you ask your questions on the statement that has been given?

**Y Llywydd**: Trefn. A allwch ofyn eich cwestiynau ar y datganiad a roddwyd?

**Mark Isherwood:** This relates to the evidence underlying the reconfiguration of health services.

**Mark Isherwood**: Mae hyn yn ymwneud â'r dystiolaeth sy'n sail i ad-drefnu gwasanaethau iechyd.

**The Presiding Officer:** Order. Could you just ask your question?

**Y Llywydd**: Trefn. A allwch ofyn eich cwestiwn?

**Mark Isherwood:** My final question is: how do explain the concerns expressed by a Labour councillor in Flint, that cuts in central funding will have serious ramifications for patients, and that people should not be under any illusions that services are going to be maintained?

**Mark Isherwood**: Fy nghwestiwn olaf yw: sut y mae ateb y pryderon a fynegwyd gan gynghorydd Llafur yn y Fflint, bod toriadau yn yr arian canolog yn effeithio'n ddifrifol ar gleifion, ac na ddylai pobl fod o dan unrhyw argraff bod modd cynnal gwasanaethau?

**Lesley Griffiths:** I will just reiterate the fact that this report confirms what we know—that services cannot remain as they are. We cannot wrap services up in aspic, as the Conservatives would want us to do. We cannot have every service provided in every hospital. We know that we have problems with medical recruitment. We know that, due to the horrendous cuts that we have had from the Member's Government in London, the money is not available. This report supports that.

**Lesley Griffiths**: Rwyf am ailadrodd y ffaith bod yr adroddiad yn cadarnhau'r hyn a wyddom—na all gwasanaethau aros fel y maent. Ni allwn gadw gwasanaethau yn hollol ddigyfnewid, fel y byddai'r Ceidwadwyr am i ni ei wneud. Ni allwn gael pob gwasanaeth ym mhob ysbyty. Gwyddom fod gennym broblemau recriwtio i'r maes meddygol. Gwyddom, oherwydd y toriadau erchyll a gawsom gan Lywodraeth yr Aelod yn Llundain, nad yw'r arian ar gael. Mae'r adroddiad hwn yn cefnogi hynny.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog.

## Datganiad: Cyflwyno Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
## Statement: Introduction of the Public Audit (Wales) Bill

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** Yesterday, I

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt)**: Ddoe, cyflwynais Fil Archwilio

introduced the Public Audit (Wales) Bill, by laying it, together with an explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. I also issued a written statement setting out the key principles of the Bill, and I am pleased, in making this legislative statement today, to commence the Assembly's formal scrutiny of this important Bill.

Cyhoeddus (Cymru), gan ei osod, ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Hefyd cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig oedd yn nodi egwyddorion cyffredinol y Bil, ac rwy'n falch o gyflwyno'r datganiad deddfwriaethol hwn heddiw, er mwyn dechrau ar y broses o graffu'n ffurfiol ar y Bil pwysig hwn gan y Cynulliad.

The Bill fulfils a commitment made by the First Minister in his legislative statement in July last year to consider strengthening and improving the governance, accountability and oversight arrangements relating to the Auditor General for Wales. That commitment stemmed from the professional behaviour and practice of a former auditor general. The absence of clear governance and accountability was a significant contributory factor in allowing the then auditor general to override his office's control systems. The resultant reputational damage caused by those activities to an important public office was considerable.

Mae'r Bil yn cyflawni ymrwymiad a wnaed gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf y llynedd, i ystyried cryfhau a gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a threfniadau goruchwylio mewn cysylltiad ag Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd yr ymrwymiad hwnnw'n deillio o ymddygiad ac arferion proffesiynol archwilydd cyffredinol blaenorol. Roedd diffyg trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur yn ffactor cyfrannol sylweddol a oedd wedi caniatáu i'r archwilydd cyffredinol hwnnw ddiystyru systemau rheoli ei swyddfa. Achoswyd niwed sylweddol i enw da swydd gyhoeddus bwysig, o ganlyniad i'r gweithgareddau hynny.

I consulted on our commitment and the proposals for achieving it earlier this year. The consultation paper was extensive and invited a response on measures to improve the governance and accountability of the auditor general and his or her office. However, paramount in any consideration was the need to protect the auditor general's independence and status in relation to audit matters. The paper also included proposals to consolidate, simplify and modify existing legislation applicable to the auditor general's financial audit, value for money and other audit-related functions. It also asked whether the auditor general should have an express duty, in this Bill or later legislation, to carry out sustainable development examinations. I am pleased to say that there was widespread positive support for strengthening the governance and accountability arrangements. However, views varied as to how that could—and should—be achieved.

Ymgynghorais ynghylch ein hymrwymiad a'r cynigion ar gyfer ei gyflawni yn gynharach eleni. Mae'r papur ymgynghori yn helaeth ac roedd yn gwahodd ymateb ar gamau i wella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yr archwilydd cyffredinol a'i swyddfa. Fodd bynnag, roedd yr angen i warchod annibyniaeth a statws yr archwilydd cyffredinol mewn perthynas â materion archwilio yn hollbwysig mewn unrhyw ystyriaeth. Roedd y papur hefyd yn cynnwys cynigion i gydgrynhoi, symleiddio ac addasu'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol i archwiliad ariannol, gwerth am arian a swyddogaethau archwilio eraill sy'n gysylltiedig â'r archwilydd cyffredinol. Roedd hefyd yn gofyn a ddylai'r archwilydd cyffredinol gael dyletswydd benodol, yn y Bil hwn neu mewn deddfwriaeth ddiweddarach, i gynnal archwiliadau datblygu cynaliadwy. Rwy'n falch o nodi bod cefnogaeth gadarnhaol eang i gryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn o ran sut y gellid, neu y dylid, cyflawni hyn.

The responses on the proposals to

Roedd yr ymatebion i'r cynigion i

consolidate, simplify and modify the existing legislation were supportive of our intentions. Nonetheless, our proposals raised a number of competence matters that have to be resolved with the Wales Office and other UK Government departments. Our main aim has always been to address the concerns about governance, accountability and oversight, and in order to prevent any delay in achieving that aim, the Bill has undergone some restructuring to focus mainly on those matters. The substantial consolidation and simplification processes and provisions will be returned to once this Bill has been fully considered by the Assembly.

gydgrynhoi, symleiddio ac addasu'r ddeddfwriaeth bresennol yn gefnogol i'n bwriad. Serch hynny, mae ein cynigion yn codi nifer o faterion cymhwysedd y mae'n rhaid eu datrys gyda Swyddfa Cymru ac adrannau eraill o Lywodraeth y DU. Ein prif nod erioed fu mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a goruchwyliaeth, ac er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth gyflawni'r nod hwn, ailstrwythurwyd rhywfaint ar y Bil er mwyn canolbwyntio ar y materion hynny'n bennaf. Byddwn yn ystyried y cydgrynhoi sylweddol, y prosesau symleiddio a'r darpariaethau eto, unwaith y caiff y Bil ei ystyried yn llawn gan y Cynulliad.

The consultation was valuable and informative. My consideration of the consultation responses, and my subsequent follow-up engagement with the Presiding Officer and the Public Accounts Committee, has led to some changes and a much shorter Bill. The principal changes are as follows. The appointment to the office of the Auditor General for Wales is to be for a maximum single term of eight years, not seven. There is a new provision—how the Auditor General for Wales's functions are to be exercised—that makes it clear that the AGW has complete discretion in the manner in which he or she exercises audit-related functions, subject to certain conditions being met. For example, this includes having regard to the standards and principles of professional practice in relation to auditing and accounting. The provision dealing with resources for the auditor general now omits the duty on him or her to make requests for resources from the Wales Audit Office, which means that the WAO must provide resources for the AGW's functions, as required by the AGW.

Roedd yr ymgynghoriad yn werthfawr a darparodd wybodaeth ddefnyddiol. Roedd fy ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a fy nghyfarfod dilynol â'r Llywydd a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, wedi arwain at rai newidiadau a Bil llawer byrrach. Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn. Mae'r penodiad i swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru am gyfnod heb fod yn hwy nag wyth mlynedd, nid saith mlynedd. Mae darpariaeth newydd, sef sut y bydd swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cael eu harfer, a fydd yn sicrhau y bydd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddisgresiwn llwyr yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau sy'n gysylltiedig ag archwilio, yn amodol ar fodloni rhai amodau penodol. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ystyried safonau ac egwyddorion gwaith proffesiynol mewn perthynas ag archwilio a chyfrifyddu. Mae'r ddarpariaeth sy'n ymwneud ag adnoddau ar gyfer yr archwilydd cyffredinol bellach yn hepgor y ddyletswydd arno i wneud cais am adnoddau gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n golygu bod yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

The clause relating to the annual plan has the effect of ensuring that it is the AGW who will determine his or her work programme, to maintain independence. It is the Auditor General for Wales who will determine the maximum amount of resources needed to achieve that work.

Mae'r cymal sy'n ymwneud â'r cynllun blynyddol yn sicrhau mai Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd yn penderfynu ar ei raglen waith ei hun, er mwyn sicrhau ei fod yn annibynnol. Archwilydd Cyffredinol Cymru a fydd yn penderfynu ar y mwyafswm adnoddau a fydd ei angen i gyflawni'r gwaith hwnnw.

The provision dealing with the functions of the National Assembly provides authority for the Assembly to make provision, through Standing Orders, as to how the oversight of supervision of functions set out in this Bill are to be exercised by the Assembly. The Bill provides for the AGW to be the accounting officer for the WAO, and it now requires the National Assembly to appoint an auditor of the WAO's accounts and to establish the terms of appointment for that auditor. The WAO may recommend a person for appointment, but in any case must pay the auditor the remuneration provided for in the appointment. Those changes, and others of a more minor nature, address many of the representations made.

Mae'r ddarpariaeth sy'n ymdrin â swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi awdurdod i'r Cynulliad wneud darpariaeth, drwy'r Rheolau Sefydlog, o ran sut y bydd y Cynulliad yn arfer y dasg o oruchwylio swyddogaethau a nodir yn y Bil. Mae'r Bil yn darparu y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn swyddog cyfrifyddu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae bellach yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi archwilydd ar gyfer cyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru, ac i sefydlu telerau penodi ar ei gyfer. Gall Swyddfa Archwilio Cymru argymell person ar gyfer ei benodi, ond beth bynnag, mae'n rhaid darparu taliad i'r archwilydd fel y mae'r penodiad yn darparu ar ei gyfer. Mae'r newidiadau hynny, a mân newidiadau eraill, yn ymdrin â llawer o'r sylwadau a wnaed.

In its revised form, the Bill comprises 37 sections and four Schedules. It makes provision for reforming audit arrangements in Wales, continues the office of the Auditor General for Wales, creates a new body to be known as the Wales Audit Office, and provides for the Auditor General for Wales to audit local government bodies in Wales and for connected purposes. By these means the Bill addresses concerns relating to accounting, governance and propriety matters, responds to the recommendations in the Assembly's Public Accounts Committee report published in March 2011 by enhancing the oversight of the auditor general, substantially reduces the likelihood of past difficulties arising again, and provides greater assurance to the Assembly and the public.

Yn ei ffurf ddiwygiedig, mae'r Bil yn cynnwys adrannau 37 a phedair Atodlen. Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer diwygio trefniadau archwilio yng Nghymru, yn cadw swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn creu corff newydd a elwir yn Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn darparu y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ac ar gyfer dibenion sy'n gysylltiedig â hyn. Trwy'r dulliau hyn, mae'r Bil yn mynd i'r afael â phryderon sy'n ymwneud â materion cyfrifyddu, llywodraethu a phriodoldeb, yn ymateb i argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, yn gwella arferion goruchwylio'r archwilydd cyffredinol, ac yn lleihau yn sylweddol y tebygolrwydd y bydd anawsterau'r gorffennol yn codi eto, yn sylweddol, ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cynulliad a'r cyhoedd.

The audit of public money is a vital function, and those who are audited, fellow Members of this Senedd and, above all, the public must have confidence in the function. This Bill will support the AGW in delivering that. On behalf of the Assembly, I commend this Bill to Members and look forward to its scrutiny.

Mae archwilio arian cyhoeddus yn swyddogaeth hanfodol, a rhaid i'r rhai sy'n cael eu harchwilio, cyd-Aelodau yn y Senedd a'r cyhoedd, yn anad neb, fod â hyder yn y swyddogaeth. Bydd y Bil hwn yn cynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru i gyflawni hynny. Ar ran y Cynulliad, rwy'n cymeradwyo'r Bil gerbron yr Aelodau ac edrychaf ymlaen at y gwaith craffu.

**Darren Millar:** I welcome the publication of

**Darren Millar**: Rwy'n croesawu cyhoeddi

the Public Audit (Wales) Bill and the Minister's statement, on behalf of the Public Accounts Committee and on behalf of the Welsh Conservatives in the Chamber.

Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a datganiad y Gweinidog, ar ran y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac ar ran Ceidwadwyr Cymru yn y Siambr.

As the Minister is aware, the committee considered this Bill when it was published in draft earlier this year. As part of the process, we received a briefing from the Minister's officials, which was extremely helpful in familiarising us with the contents of the draft Bill at that time. The Minister will also be aware that we welcomed the draft Bill and its principal aim of strengthening the governance framework for the Wales Audit Office and its accountability to the Assembly.

Fel y gŵyr y Gweinidog, ystyriodd y pwyllgor y Bil hwn pan gyhoeddwyd ef ar ffurf drafft yn gynharach eleni. Fel rhan o'r broses, cawsom wybodaeth gan swyddogion y Gweinidog, a oedd yn ddefnyddiol iawn i'n cynorthwyo i ddod yn gyfarwydd â chynnwys y Bil drafft ar y pryd. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol hefyd ein bod yn croesawu'r Bil drafft a'r prif nod sydd ynddo, sef cryfhau fframwaith llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru a'i hatebolrwydd i'r Cynulliad.

Following the session with Government officials, and without examining all of the sections in the Bill in detail at that stage, we discussed the main themes contained within the draft Bill and wrote to the Minister, seeking further information and clarification on a number of issues, including the accountability of the Wales Audit Office to the Assembly, the governance and constitution of the WAO, and the arrangements for external audit. The Bill before us differs in many respects from the initial draft that we considered.

Yn dilyn y sesiwn gyda swyddogion y Llywodraeth, a heb edrych ar bob un o'r adrannau yn y Bil yn fanwl bryd hynny, buom yn trafod y prif themâu sydd yn y Bil drafft ac ysgrifennwyd at y Gweinidog, i ofyn am ragor o wybodaeth ac eglurhad ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru i'r Cynulliad, llywodraethu a chyfansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer archwilio allanol. Mae'r Bil sydd ger ein bron yn wahanol i'r drafft cychwynnol a ystyriwyd gennym mewn sawl ffordd.

Without wishing to pre-empt the committee's discussions, I would say that I am very pleased to see that the Minister has taken on board many of the committee's comments, particularly in relation to the accountability and external audit arrangements for the WAO and the limitations on the ability of the Public Accounts Committee to call witnesses—something that will serve the National Assembly and the people of Wales well in the future.

Er nad wyf am achub y blaen ar drafodaethau'r pwyllgor, rwyf am ddweud fy mod yn falch iawn o weld bod y Gweinidog wedi ystyried llawer o sylwadau'r pwyllgor, yn enwedig mewn perthynas ag atebolrwydd a threfniadau archwilio allanol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a'r cyfyngiadau ar allu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i alw tystion, sy'n rhywbeth a fydd yn werthfawr i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i bobl Cymru yn y dyfodol.

The crucial provisions in the Bill are the sections that deal with the reconstitution of the WAO as a corporate body. The Public Accounts Committee will be particularly interested in learning how this will work in practice, and the views of those who want to give evidence. I am looking forward, next week, to launching at Stage 1 of the committee's process, the consultation on the Bill to see what responses we get. We will also be interested in how the new WAO

Y darpariaethau allweddol yn y Bil yw'r adrannau sy'n ymdrin ag ail-gyfansoddi Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol. Bydd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn arbennig, ddiddordeb mewn clywed sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol, ac mewn clywed barn y rhai sydd am roi tystiolaeth. Rwy'n edrych ymlaen, yr wythnos nesaf, at lansio Cyfnod 1 o broses y pwyllgor, sef yr ymgynghoriad ar y Bil i weld pa ymatebion a gawn. Bydd gennym

board will be appointed and how its members will be selected. I note that most of the provisions in the draft Bill that would have been updated and would have consolidated existing accounting and audit provisions for bodies in the Welsh public sector, including local government, have now been removed. I am sure that the committee will be interested in hearing a little bit more from the Minister about how this issue will be resolved in the future when the Minister comes before the committee.

ddiddordeb hefyd mewn clywed sut y penodir bwrdd y Swyddfa Archwilio Cymru newydd, a sut y dewisir ei aelodau. Nodaf fod y rhan fwyaf o'r darpariaethau yn y Bil drafft a fyddai wedi eu diweddaru ac wedi cydgyfnerthu'r darpariaethau cyfrifyddu ac archwilio presennol ar gyfer cyrff yn y sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys llywodraeth leol, bellach wedi'u dileu. Rwy'n siŵr y bydd gan y pwyllgor ddiddordeb mewn clywed ychydig yn fwy gan y Gweinidog ynghylch sut y caiff y mater hwn ei ddatrys yn y dyfodol, pan fydd y Gweinidog gerbron y pwyllgor.

3.15 p.m.

**Darren Millar:** The committee will undertake the majority of its work on this Bill in the autumn term. Obviously, key stakeholders and other interested parties will be invited to participate in our oral evidence sessions. We hope to publish our report in November. However, before then, Minister, can you give us an indication today of the timescale by which you expect to resolve the competence matters in relation to the UK Government that you referred to in your statement? Also, in the financial part of the papers and the explanatory notes that you issued when you published the Bill, you referred to a sum of £200,000 per year being required to service the legislation once it has been enacted. How does that compare to the existing arrangements in the Wales Audit Office, which have been set up as an interim measure by the existing Auditor General for Wales? If you have that information, that would be useful.

**Darren Millar:** Bydd y pwyllgor yn cyflawni'r rhan fwyaf o'i waith ar y Bil hwn yn ystod tymor yr hydref. Yn amlwg, gwahoddir rhanddeiliaid allweddol ac eraill sydd â diddordeb i gymryd rhan yn y sesiynau tystiolaeth lafar y byddwn yn eu cynnal. Gobeithiwn gyhoeddi ein hadroddiad ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, cyn hynny, Weinidog, a allwch roi syniad inni heddiw o'r amserlen ar gyfer pryd rydych yn disgwyl datrys y materion cymhwysedd mewn perthynas â Llywodraeth y DU y cyfeiriasoch atynt yn eich datganiad? Hefyd, yn y rhan ariannol o'r papurau a'r nodiadau esboniadol a gyhoeddwyd gennych pan gyhoeddwyd y Bil, cyfeiriasoch at swm o £200,000 y flwyddyn sydd ei angen i wasanaethu'r ddeddfwriaeth wedi iddi gael ei gweithredu. Sut mae hynny'n cymharu â'r trefniadau presennol yn Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlwyd fel mesur dros dro gan yr Archwilydd Cyffredinol presennol ar gyfer Cymru? Os yw'r wybodaeth honno gennych, byddai hynny'n ddefnyddiol.

**Jane Hutt:** I thank the Chair of the Public Accounts Committee, Darren Millar, for his response to my statement this afternoon. Also, as you acknowledge, the Bill reflects many of the points made by the Public Accounts Committee in response to the consultation, in the form of a letter to me, which has been very valuable. In terms of the decisions that we made, it is important to look at the issues of competence. I respect the role of the Wales Office in that regard, and that of other UK Government departments. As I said in my statement, we need to return

**Jane Hutt**: Diolch i Darren Millar, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, am ei ymateb i fy natganiad y prynhawn yma. Hefyd, fel yr ydych yn ei gydnabod, mae'r Bil yn adlewyrchu nifer o'r pwyntiau a wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth ymateb i'r ymgynghoriad, ar ffurf llythyr ataf, a fu'n werthfawr iawn. O ran y penderfyniadau a wnaethom, mae'n bwysig edrych ar y materion cymhwysedd. Rwyf yn parchu rôl Swyddfa Cymru yn hynny o beth, ynghyd ag adrannau eraill Llywodraeth y DU. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae

to those substantial consolidation and simplification provisions. We need to progress the Bill, but the work will be ongoing in terms of coming back to the Assembly on these issues. There are a couple of matters that we need to discuss and I am sure that those responsibilities with regard to competence will arise during the scrutiny process. I am clear about the areas where we are now confident in terms of the competence that we hold and are responsible for.

angen inni ddychwelyd at y darpariaethau atgyfnerthu a symleiddio sylweddol hynny. Mae angen inni symud y Bil yn ei flaen, ond bydd y gwaith yn parhau o ran dychwelyd at y Cynulliad ynghylch y materion hyn. Mae rhai materion y mae angen inni eu trafod ac rwyf yn siŵr y bydd y cyfrifoldebau hynny o ran cymhwysedd yn codi yn ystod y broses graffu. Rwyf yn glir ynghylch y meysydd lle rydym yn awr yn hyderus o ran y cymhwysedd sydd gennym ac yr ydym yn gyfrifol amdano.

On the provisions in the consultation point in the draft Bill, in terms of consolidating, sometimes with some modifications, almost all provisions about the auditor and the value-for-money functions of the auditor general, having them in one Act would have been very difficult. In terms of transparency and understanding technical issues, it was going to be too difficult to resolve the issue at this point in time. I do think that it is important that we recognise this as the primary aim of the Bill. We set aside those provisions for now and follow through those discussions.

O ran y darpariaethau yn y pwynt ymgynghori yn y Bil drafft, o ran atgyfnerthu, weithiau gyda rhai addasiadau, byddai wedi bod yn anodd iawn cael bron pob darpariaeth ynghylch yr archwilydd a swyddogaethau gwerth am arian yr archwilydd cyffredinol mewn un Ddeddf. O ran tryloywder a deall materion technegol, buasai wedi bod yn rhy anodd i ddatrys y mater ar hyn o bryd. Credaf ei bod yn bwysig ein bod yn cydnabod hyn fel prif nod y Bil. Rydym wedi gosod y darpariaethau hynny i’r neilltu am y tro a dilyn y trafodaethau hynny.

I would like to come back to the Public Accounts Committee, as I know that I will in the autumn for Stage 1, to discuss the key points that you have made on the adequacy of the financial provisions that have been outlined. It will be a key opportunity to do so when I come back at that stage.

Hoffwn ddod yn ôl at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, fel y gwn y byddaf yn ei wneud yn yr hydref ar gyfer Cyfnod 1, i drafod y pwyntiau allweddol yr ydych wedi’u gwneud ynghylch pa mor ddigonol yw’r darpariaethau ariannol sydd wedi’u hamlinellu. Bydd yn gyfle allweddol i wneud hynny pan fyddaf yn dod yn ôl ar yr adeg honno.

**Mike Hedges:** First, I welcome the statement and the Bill. Benefits have occurred as a result of some of the proposals put forward by the Public Accounts Committee, which have helped to make a better Bill than we might have had otherwise. I have two questions. First, can you confirm that the Bill will ensure that nothing and no-one will interfere with the auditor general’s independence in relation to audit matters? That is a key point: no-one should be able to interfere with what the auditor general does. We might not like it, but no-one should be able to interfere with audit matters.

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, croesawaf y datganiad a’r Bil. Mae buddion wedi codi o ganlyniad i rai o’r cynigion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sydd wedi helpu i wneud Bil gwell nag y buasem wedi’i gael fel arall. Mae gennyf ddau gwestiwn. Yn gyntaf, a allwch chi gadarnhau y bydd y Bil yn sicrhau na fydd neb na dim yn ymyrryd ag annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol mewn perthynas â materion archwilio? Mae hynny’n bwynt allweddol: ni ddylai unrhyw un allu ymyrryd â’r hyn y mae’r archwilydd cyffredinol yn ei wneud. Efallai nad ydym yn hoffi hynny, ond ni ddylai unrhyw un allu ymyrryd â materion archwilio.

Secondly, as a worst case scenario, let us say

Yn ail, gan ddychmygu’r sefyllfa waethaf,

that the auditor general has been in post for eight years and a new auditor general has been appointed, but there is a three-month gap between the current auditor general finishing in the role and the date that the new auditor general can start, having given due notice to his authority. Would it be possible to extend the current auditor general's role for that period of three months, or would you have to appoint an independent auditor general for those three months, prior to the new auditor general taking up the post?

beth pe bai'r archwilydd cyffredinol wedi bod yn ei swydd ers wyth mlynedd a bod archwilydd cyffredinol newydd wedi cael ei benodi, ond bod bwlch o dri mis rhwng y dyddiad y mae'r archwilydd cyffredinol presennol yn gorffen a'r dyddiad y gall yr archwilydd cyffredinol newydd ddechrau, ar ôl rhoi rhybudd dyledus i'w awdurdod. A fyddai'n bosibl ymestyn rôl yr archwilydd cyffredinol presennol ar gyfer y cyfnod hwnnw o dri mis, neu a fyddai'n rhaid penodi archwilydd cyffredinol annibynnol am y tri mis hynny, cyn i'r archwilydd cyffredinol newydd ymgymryd â'r swydd?

**Jane Hutt:** I thank the Member for those questions. It is important that we should look at the issue of maintaining the auditor general's independence. The work programme of the auditor general will be determined by the auditor general, who must aim to carry out his or her functions efficiently and cost-effectively.

**Jane Hutt:** Diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y mater o gynnal annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol. Bydd rhaglen waith yr archwilydd cyffredinol yn cael ei phennu gan yr archwilydd cyffredinol, ac mae'n rhaid iddo anelu at gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac mewn modd cost-effeithiol.

It is reflected in our responses in the draft Bill. If you look at section 26, it is designed to ensure that it is the Auditor General for Wales who determines his or her own work programme to maintain the independence of the office, and it is the auditor general who determines the maximum amount of resources that will be needed for that work. That section is critical to maintaining an appropriate balance between establishing appropriate governance on the one hand and oversight arrangements on the other, maintaining the principle of the auditor general's audit independence. Also, the discretion of the auditor general should not be inappropriately fettered. That section is particularly relevant to your point.

Caiff ei adlewyrchu yn ein hymatebion yn y Bil drafft. Os edrychwch ar adran 26, mae wedi'i gynllunio i sicrhau mai Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n pennu ei raglen waith ei hun er mwyn cynnal annibyniaeth y swydd, a'r archwilydd cyffredinol sy'n pennu uchafswm yr adnoddau fydd eu hangen ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae'r adran honno yn hanfodol i gynnal cydbwysedd priodol rhwng sefydlu llywodraethiant briodol ar y naill law a threfniadau goruchwylio ar y llaw arall, gan gynnal yr egwyddor o annibyniaeth archwiliad yr archwilydd cyffredinol. Hefyd, ni ddylid cyfyngu yn amhriodol ar ddisgresiwn yr archwilydd cyffredinol. Mae'r adran honno yn arbennig o berthnasol i'ch pwynt chi.

I am sure that the committee will want to look at that issue in terms of whether there needs to be any change or amendment to the carry forward, and the three months that you suggest between one appointment and the next. We need to look at the handling of that in terms of transition, to ensure that the integrity of the office is maintained.

Rwyf yn siŵr y bydd y pwyllgor am edrych ar y mater hwnnw o ran a oes angen newid neu ddiwygio'r trosglwyddiad, a'r tri mis yr ydych yn ei awgrymu rhwng un penodiad a'r nesaf. Mae angen inni edrych ar ymdrin â hynny o ran trosglwyddo, er mwyn sicrhau bod uniondeb y swydd yn cael ei gynnal.

**Lindsay Whittle:** Thank you, Minister, for your statement today. I am relatively new to the Public Accounts Committee and it has

**Lindsay Whittle**: Diolch, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Rwyf yn gymharol newydd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac

taken quite some time to get into this particular subject. I thank you for the briefing last week, Minister. Audit committees are never the sexiest of subjects, are they? However, they are extremely important—indeed, vital—to ensure that public money is being spent in the correct way.

mae wedi cymryd cryn amser i ymdreiddio i'r pwnc penodol hwn. Diolch ichi am y briff yr wythnos diwethaf, Weinidog. Nid yw pwyllgorau archwilio yn bynciau deniadol fyth, nac ydynt? Fodd bynnag, maent yn hynod o bwysig—yn wir, yn hanfodol—i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario yn y ffordd gywir.

My first question is this: the annual plan will be laid before the Assembly, which has a duty to publish it, but will the Assembly have any powers to recommend any amendments to the plan? Secondly, you mention that the auditor general will determine the maximum amount of resources needed to carry out the work, but it is the Wales Audit Office that has the final say. What happens if there is a conflict there and who would resolve that? Thirdly, how will the Wales Audit Office account for the cost-effectiveness of the auditor general's work, and will that be done on an annual basis?

Fy nghwestiwn cyntaf yw hyn: caiff y cynllun blynyddol ei osod gerbron y Cynulliad, sydd â dyletswydd i'w gyhoeddi, ond a fydd gan y Cynulliad unrhyw bwerau i argymell unrhyw newidiadau i'r cynllun? Yn ail, rydych yn sôn mai'r archwilydd cyffredinol fydd yn penderfynu ar uchafswm yr adnoddau fydd eu hangen i wneud y gwaith, ond mai Swyddfa Archwilio Cymru sydd â'r gair olaf. Beth sy'n digwydd os oes gwrthdaro yn hyn o beth a phwy fyddai'n datrys hynny? Yn drydydd, sut y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyfrif am ba mor gost-effeithiol yw gwaith yr archwilydd cyffredinol, ac a fydd hynny'n cael ei wneud yn flynyddol?

**Jane Hutt:** I thank Lindsay Whittle for his questions. Once again, I must say how important the function and role of the Public Accounts Committee is, and indeed the role of the Auditor General for Wales, for the credibility and governance of the public sector. It is key to ensuring that we get the Public Audit (Wales) Bill right in terms of the new legislation that will be forthcoming. I have responded to Mike Hedges on the issue of the independence of the auditor general and the ability to have that flexibility in terms of the annual work programme in particular. However, we have to recognise in terms of the resources that are needed that there will be a financial estimate of the cost of the annual plan. A budget will be available to the Wales Audit Office and the Auditor General for Wales, so it is important that the annual plan shows how that budget is to be allocated between the two, and to ensure that the two bodies—one responsible for the oversight and supervision of the auditor general—have checks and balances in the process without curtailing the discretion of the Wales Audit Office to, for example, question or reject the auditor general's statement on his or her work programme. These are matters and details that I am sure you will explore during

**Jane Hutt:** Diolch i Lindsay Whittle am ei gwestiynau. Unwaith eto, mae'n rhaid imi ddweud pa mor bwysig yw swyddogaeth a rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac, yn wir, rôl Archwilydd Cyffredinol Cymru, o ran hygrededd a llywodraethiant y sector cyhoeddus. Mae'n allweddol i sicrhau ein bod yn cael y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn gywir o ran y ddeddfwriaeth newydd a ddaw. Rwyf wedi ymateb i Mike Hedges ar y mater o annibyniaeth yr archwilydd cyffredinol a'r gallu i gael yr hyblygrwydd hwnnw mewn perthynas â rhaglen waith flynyddol yn arbennig. Fodd bynnag, o ran yr adnoddau sydd eu hangen, rhaid inni gydnabod y bydd amcangyfrif ariannol o gost y cynllun blynyddol. Bydd cyllideb ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, felly mae'n bwysig bod y cynllun blynyddol yn dangos sut y dyrennir y gyllideb honno rhwng y ddau, a sicrhau bod cydbwysedd rhwng y ddau gorff—y mae un ohonynt yn gyfrifol am gymryd trosolwg o'r archwilydd cyffredinol a'i oruchwylio—yn y broses heb effeithio ar ddisgresiwn Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft, i gwestiynu neu wrthod datganiad yr archwilydd cyffredinol ar ei raglen waith. Mae'r rhain yn faterion a

Stage 1 scrutiny.

manylion yr wyf yn siŵr y byddwch yn eu harchwilio ystod gwaith craffu Cyfnod 1.

**Aled Roberts:** On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I also welcome this statement and thank you for the technical briefing that was given to the committee, and more importantly the ministerial briefing that we received as individual Members, which was very welcome. I will not revisit any of the points that have already been made. I welcome the provisions with regard to the power to call witnesses, which was an important consideration as far as we, as a committee, were concerned. I certainly echo the comments of the other Members that we are very pleased with the Government's response to the letter from the Chair of the committee with regard to the Bill generally. This is of course a smaller Bill than was originally envisaged. I understand the points that you make with regard to competence in respect of the UK Government and the stance that has been taken by the Wales Office. Could you confirm whether the discussions with regard to the sections that have not been included in this Bill are already under way? Are you, at this stage, able to give any indication as to when you are likely to be able to return with the further Bill that is referred to in the briefing papers, in respect of those sections that have not been able to be pursued in this Bill?

**Aled Roberts**: Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, rwyf hefyd yn croesawu'r datganiad hwn ac yn diolch ichi am y briff technegol a roddwyd i'r pwyllgor ac, yn bwysicach, y briff gweinidogol a gawsom fel Aelodau unigol, a oedd yn werthfawr iawn. Ni fyddaf yn ailadrodd unrhyw un o'r pwyntiau a wnaed eisoes. Croesawaf y darpariaethau o ran y pŵer i alw tystion, a oedd yn ystyriaeth bwysig i ni fel pwyllgor. Rwyf yn sicr yn ategu sylwadau'r Aelodau eraill ein bod yn hapus iawn gydag ymateb y Llywodraeth i'r llythyr gan Gadeirydd y pwyllgor ynghylch y Bil yn gyffredinol. Mae hwn, wrth gwrs, yn Fil llai nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Deallaf y pwyntiau a wnewch o ran cymhwysedd mewn perthynas â Llywodraeth y DU a'r safbwynt a gymerwyd gan Swyddfa Cymru. A allwch gadarnhau a yw'r trafodaethau mewn perthynas â'r adrannau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Bil hwn eisoes ar y gweill? A allwch, ar hyn o bryd, roi unrhyw arwydd ynghylch pryd y mae'n debygol y gallwch ddychwelyd gyda'r Bil pellach y cyfeirir ato yn y papurau briffio, o ran yr adrannau hynny na fu'n bosibl ymhelaethu arnynt yn y Bil hwn?

**Jane Hutt:** I thank Aled Roberts for a positive response, not just in terms of the technical briefing, but the ministerial briefing, which you appear to agree were both constructive and positive. Your particular point about the power to call witnesses relevant to the oversight and supervision of the exercise of any of the AGW's functions is important, and it is reflected in paragraph 68 of Schedule 4 to the Bill, which makes the relevant amendment to section 37 of the Government of Wales Act 2006. For other Members in the Chamber, this is an important power to call people to give evidence on any matter relevant to the exercise of any of the AGW's functions, the oversight and supervision of the AGW, and the oversight and supervision of the exercise of any of the AGW's functions. This is, again, an example of how we have responded to the suggestions made by the Public

**Jane Hutt:** Diolch i Aled Roberts am ei ymateb cadarnhaol, nid yn unig o ran y briff technegol, ond y briff gweinidogol, yr ymddengys y cytunwch ei fod yn adeiladol a chadarnhaol. Mae eich pwynt penodol ynghylch y pŵer i alw tystion sy'n berthnasol i'r broses o gymryd trosolwg o'r broses o arfer unrhyw rai o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'u goruchwylio yn bwysig, ac mae'n cael ei adlewyrchu ym mharagraff 68 o Atodlen 4 i'r Bil, sy'n gwneud y diwygiad perthnasol i adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gyfer Aelodau eraill yn y Siambr, mae hwn yn bŵer pwysig i alw pobl i roi tystiolaeth ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r broses o arfer unrhyw rai o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a chymryd trosolwg o'r broses o arfer unrhyw rai o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'u goruchwylio. Mae

Accounts Committee to improve the Bill.

hyn, unwaith eto, yn enghraifft o sut rydym wedi ymateb i'r awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i wella'r Bil.

I have responded to the issue of where we can progress in terms of competence issues with the Wales Office. Detailed discussions are needed to decide the extent to which the Government of Wales Act 2006 permits provisions to be modified. There are also provisions modifying, for example, the functions of a Minister of the Crown and the Treasury, and amendments to the draft Bill in relation to the UK-wide extent and application of the legislation, given that Assembly Acts can only technically have legal effect to change the law of England and Wales. Therefore, further discussion is needed on these matters with the UK Government, and I will be negotiating with the Secretary of State for Wales and with other UK Government departments on how we may best handle those issues.

Rwyf wedi ymateb i'r mater o ble y gallwn wneud cynnydd ar faterion cymhwysedd gyda Swyddfa Cymru. Mae angen trafodaethau manwl i benderfynu i ba raddau y mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i ddarpariaethau gael eu haddasu. Mae darpariaethau hefyd sy'n addasu, er enghraifft, swyddogaethau Gweinidog y Goron a'r Trysorlys, a gwelliannau i'r Bil drafft mewn perthynas â chyrhaeddiad ledled y DU a chymhwyso'r ddeddfwriaeth, o gofio mai dim ond newid cyfraith Cymru a Lloegr y gall Deddfau'r Cynulliad ei wneud yn dechnegol. Felly, mae angen trafodaeth bellach ar y materion hyn gyda Llywodraeth y DU, a byddaf yn trafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chydag adrannau eraill Llywodraeth y DU sut y gallwn ymdrin â'r materion hynny orau.

## Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2011
## Statement: The Chief Medical Officer's Annual Report 2011

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I am pleased to speak on the subject of the Chief Medical Officer for Wales's 2011 annual report. This is Dr Jewell's sixth and final annual report. I want to place on record my thanks to Dr Jewell for all his hard work over the past six years.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Rwyf yn falch o siarad ar bwnc adroddiad blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2011. Dyma chweched adroddiad blynyddol Dr Jewell a'r olaf. Hoffwn gofnodi fy niolch i Dr Jewell am ei holl waith caled dros y chwe blynedd diwethaf.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 3.28 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 3.28 p.m.*

Health in Wales is generally good and improving, which is encouraging. Levels of life expectancy at birth and healthy life expectancy are increasing and we have historically low levels of infant mortality. Circulatory disease and cancer remain the leading causes of death in Wales, although there has been a decrease in the rate of premature deaths from these diseases. In addition, the gap between male and female life expectancy is reducing due to faster improvement in male life expectancy.

Ar y cyfan, mae iechyd yng Nghymru yn gyffredinol dda ac yn gwella, sy'n galonogol. Mae lefelau disgwyliad oes adeg geni a disgwyliad oes iach yn codi ac mae gennym lefelau hanesyddol isel o farwolaethau babanod. Prif achosion marwolaeth yng Nghymru o hyd yw clefyd cylchredol a chanser, er y bu gostyngiad yn y gyfradd o farwolaethau cynamserol oherwydd y clefydau hyn. Yn ogystal, mae'r bwlch rhwng disgwyliad oes dynion a menywod yn cau o ganlyniad i welliant cyflymach yn nisgwyliad oes dynion.

One of my biggest concerns is the continually

Un o'm pryderon mwyaf yw'r bwlch

increasing gap between the health of people living in the most and least deprived communities. Health inequalities remain a central policy issue for Wales. Health boards have worked hard to identify inequalities and address them. However, there is still work to be done to reflect this focus across the full range of NHS services. Of course, the NHS is not solely responsible for the population's health. Social determinants, such as access to healthy food, housing, lifestyle choices, early years' experience, employment and education have a part to play. We will only make a significant long-term difference by working collectively and bringing our partners and the public along with us.

cynyddol rhwng iechyd pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae anghydraddoldebau iechyd yn parhau yn fater polisi canolog i Gymru. Mae byrddau iechyd wedi gweithio'n galed i ganfod anghydraddoldebau a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i adlewyrchu'r ffocws hwn ar draws yr ystod lawn o wasanaethau'r GIG. Wrth gwrs, nid y GIG yn unig sy'n gyfrifol am iechyd y boblogaeth. Mae penderfynyddion cymdeithasol, megis mynediad at fwyd iach, tai, dewisiadau o ran ffordd o fyw, profiadau blynyddoedd cynnar, cyflogaeth ac addysg yn chwarae'u rhan. Dim ond drwy gydweithio a dod â'n partneriaid a'r cyhoedd gyda ni y gwnawn gyfraniad sylweddol yn y tymor hir.

The high mortality and morbidity of Wales's most deprived areas arise mainly from these social determinants, rather than health service provision. However, this is no excuse for failure to match the greatest need with the highest quality of care. An individual's right to good healthcare should not be determined by the area in which they live, and the excellent work of Julian Tudor Hart on the inverse care law must be commended. Healthcare services should be strongest where needs are greatest.

Mae nifer uchel y marwolaethau a'r lefel uchel o forbidrwydd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn deillio'n bennaf o'r penderfynyddion cymdeithasol hyn, yn hytrach na darpariaeth gwasanaeth iechyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn esgus dros fethu â chymhwyso'r angen mwyaf â'r gofal o'r safon uchaf. Ni ddylai hawl unigolyn i ofal iechyd da gael ei bennu ar sail yr ardal lle mae'n byw, a rhaid cymeradwyo gwaith rhagorol Julian Tudor Hart ar y gyfraith gofal gwrthgyfartal. Dylai gwasanaethau gofal iechyd fod ar eu cryfaf lle mae'r anghenion mwyaf.

3.30 p.m.

I have recently asked for a service model to be developed, which will start to actively reverse the inverse care law. This will include accelerating work currently being undertaken within health boards, and also a targeted effort to enhance services to achieve measurable improvement. It will also incorporate an increased focus on being proactive in anticipating, identifying and addressing additional health problems. It will include the prevention, early detection, treatment and better control of conditions such as high blood pressure and diabetes. It is very important that our continued emphasis is on ensuring that we all take responsibility for improving and protecting our own health.

Rwyf wedi gofyn yn ddiweddar i fodel gwasanaeth gael ei ddatblygu, a fydd yn dechrau mynd ati i newid y ddeddf gofal wrthgyfartal. Bydd hyn yn cynnwys cyflymu gwaith sy'n cael ei wneud mewn byrddau iechyd, ac ymdrech wedi'i thargedu i wella gwasanaethau i gyflawni gwelliant mesuradwy. Bydd hefyd yn cynnwys mwy o ffocws ar fod yn rhagweithiol wrth ragweld problemau iechyd ychwanegol, eu nodi, a mynd i'r afael â hwy. Bydd yn cynnwys y gwaith o atal cyflyrau fel pwysedd gwaed uchel a diabetes, eu canfod yn gynnar, eu trin, a chael gwell rheolaeth arnynt. Mae'n bwysig iawn fod ein pwyslais yn parhau i fod ar sicrhau ein bod i gyd yn cymryd cyfrifoldeb am wella a diogelu ein hiechyd ein hunain.

Tobacco has a large part to play in the life

Mae gan dybaco ran fawr i'w chwarae yn y

expectancy gap, with the most deprived areas having the highest smoking rates. Positively, fewer children in Wales are smoking. The recent ban on cigarette sales from public vending machines aims to reduce the accessibility of cigarettes. This should further deter young people from smoking. The 'Tobacco and Health in Wales' report states that the 2007 ban on smoking in enclosed public places has led to a reduction in exposure to second-hand smoke. However, 39% of children live in households in which at least one adult smokes, and 20% report recent exposure to second-hand smoke in cars. Our manifesto committed us to take tough action to tackle inequalities in health, particularly the harm caused by tobacco use and its effect on children. The Fresh Start Wales campaign is helping to protect the most vulnerable in society by promoting smoke-free cars carrying children, bringing home to parents and others the risk that their smoking poses to the health of children. We expect the number of children exposed to second-hand smoke to be reduced. I will be launching the next phase of the campaign at the National Eisteddfod on 4 August.

bwlch disgwyliad oes, ac yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig y mae'r cyfraddau ysmygu uchaf. Yr hyn sy'n gadarnhaol yw bod llai o blant yng Nghymru yn ysmygu. Mae'r gwaharddiad diweddar ar werthu sigaréts o beiriannau gwerthu cyhoeddus yn anelu at ei gwneud yn anoddach cael gafael ar sigaréts. Dylai hyn gyfrannu at y gwaith o atal pobl ifanc rhag ysmygu. Mae'r adroddiad 'Tybaco ac Iechyd yng Nghymru' yn datgan bod y gwaharddiad a gyflwynwyd yn 2007 ar ymysgu mewn mannau cyhoeddus caeëdig wedi arwain at ostyngiad yn yr achosion o ddod i gysylltiad â mwg ail-law. Fodd bynnag, mae 39% o blant yn byw mewn cartref lle mae o leiaf un oedolyn yn ysmygu, ac mae 20% yn nodi y daethant i gysylltiad â mwg ail-law mewn car yn ddiweddar. Pennwyd ymrwymiad yn ein maniffesto y byddem yn cymryd camau llym i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd, yn enwedig y niwed a achosir gan ddefnyddio tybaco, a'i effaith ar blant. Mae ymgyrch Cychwyn Iach Cymru yn helpu i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas drwy hyrwyddo sicrhau bod ceir sy'n cludo plant yn ddi-fwg, gan wneud i rieni ac eraill sylweddoli'r perygl y mae'r ffaith eu bod yn ysmygu yn ei achosi i iechyd plant. Rydym yn disgwyl i nifer y plant sy'n dod i gysylltiad â mwg ail-law gael ei leihau. Byddaf yn lansio cam nesaf yr ymgyrch yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar 4 Awst.

The increase in liver disease noted in the report concerns me. It has the potential to become a significant public health issue and a key cause of premature death, particularly among younger people. The main causes of this increase are alcohol misuse and obesity. Rates of alcohol-related deaths are three and a half times as high in the most deprived areas for males and more than twice as high for females. This report highlights that we have a long way to go to prevent entrenched patterns of alcohol misuse that affect individuals' health.

Mae'r cynnydd yn yr achosion o glefyd yr iau a nodwyd yn yr adroddiad yn peri pryder imi. Mae gan hynny'r potensial i fod yn fater iechyd cyhoeddus o bwys ac yn brif achos o farwolaeth gynamserol, yn enwedig ymysg pobl iau. Prif achosion y cynnydd hwn yw camddefnyddio alcohol a gordewdra. Mae cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dair gwaith a hanner yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn achos dynion, ac yn fwy na dwywaith yn uwch yn achos menywod. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith fod gennym lawer i'w wneud i atal patrymau o gamddefnyddio alcohol sydd wedi ymwreiddio ac sy'n effeithio ar iechyd unigolion.

Our Strengthening Families programme aims to reduce substance misuse through strengthening factors within the family

Mae ein rhaglen Cryfhau Teuluoedd yn anelu at leihau nifer yr achosion o gamddefnyddio sylweddau drwy gryfhau ffactorau yn yr

environment, such as communication, resilience and parenting skills. The rise in being overweight and obesity seems to be levelling off, which is encouraging. However, we must not take success in this area for granted. The first UK-wide standardised guidelines on physical activity were launched by the UK chief medical officers last year and we must continue to focus on promoting healthy eating and physical activity to ensure that the population of Wales plays a full part in its own health.

amgylchedd teuluol, fel cyfathrebu, gwytnwch a sgiliau rhianta. Ymddengys fod y cynnydd yn nifer y bobl sydd dros eu pwysau ac yn ordew yn gwastatáu, ac mae hynny'n galonogol. Fodd bynnag, rhaid inni beidio â chymryd yn ganiataol y byddwn yn llwyddo yn y maes hwn. Lansiwyd y canllawiau safonol cyntaf sy'n berthnasol i'r DU gyfan ar weithgarwch corfforol gan brif swyddogion meddygol y DU y llynedd, a rhaid inni barhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol er mwyn sicrhau bod poblogaeth Cymru yn chwarae rhan lawn yn ei hiechyd ei hun.

The home must increasingly be seen as a setting for improving and protecting health. We have made good progress in having healthier workplaces and schools. We now need to turn our attention to the home—a place we spend a significant proportion of time, particularly families with young children, disabled adults and older people. Many factors within the home can affect health. Having safe and secure homes is fundamental to health and wellbeing, but sadly, even now some people in our society do not have a suitable dwelling and some do not have a home at all. Healthy housing is a multi-agency issue and it is vital that we work across portfolios to address it. The housing Bill provides us with an opportunity to work together to improve housing standards and ultimately to improve health.

Rhaid i'r cartref gael ei weld yn gynyddol fel lleoliad ar gyfer gwella iechyd a'i ddiogelu. Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod gweithleoedd ac ysgolion yn iachach. Mae angen inni droi ein sylw at y cartref yn awr—sef rhywle yr ydym yn treulio cyfran sylweddol o'n hamser, yn enwedig yn achos teuluoedd sydd â phlant ifanc, oedolion anabl a phobl hŷn. Gall nifer o ffactorau yn y cartref effeithio ar iechyd. Mae cael cartrefi diogel yn sylfaen i iechyd a lles, ond, yn anffodus, hyd yn oed yn awr nid oes gan rai pobl yn ein cymdeithas annedd addas, ac mae rhai nad oes ganddynt gartref o gwbl. Mae tai iach yn fater amlasiantaethol, ac mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar draws portffolios i roi sylw iddo. Mae'r Bil tai yn rhoi inni gyfle i weithio gyda'n gilydd i wella safonau tai ac, yn y pen draw, i wella iechyd.

Over the last six years, smoking rates among children and adults have declined and we have slowed the growth in being overweight and obesity. There is unequivocal evidence that people in Wales are living longer and healthier lives. However, as noted already, there is still much to be done to improve the health of the whole of Wales. This makes it even more important that we enable individuals to take more responsibility for their own health, raise awareness of self-care and provide opportunities to direct patients to sources of information and support. 'Fairer Health Outcomes for All' and 'Together for Health' recognise that improving the nation's understanding of health impacts and encouraging positive lifestyle changes are key to improving health. The health problems

Dros y chwe blynedd diwethaf, mae cyfraddau ysmygu ymhlith plant ac oedolion wedi gostwng, ac rydym wedi arafu'r twf yn nifer y bobl sydd dros eu pwysau ac yn ordew. Mae tystiolaeth ddiamwys bod pobl yng Nghymru yn byw bywydau hirach ac iachach. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae llawer i'w wneud o hyd i wella iechyd Cymru gyfan. Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth ein bod yn galluogi unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu hiechyd eu hunain, yn codi ymwybyddiaeth o hunan-ofal, ac yn darparu cyfleoedd i gyfeirio cleifion at ffynonellau gwybodaeth a chymorth. Mae 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb' a 'Law yn Llaw at Iechyd' yn cydnabod bod gwella dealltwriaeth y genedl o effeithiau iechyd ac annog newidiadau

caused by alcohol misuse, tobacco, unhealthy diets and physical inactivity are largely preventable. Tackling health inequalities, along with lifestyle-associated diseases, must remain a fundamental driver for public health action. We need to build a whole-society approach to engage all sectors, communities and individuals to make change happen. We know that an ageing population will present the NHS with new pressures in the coming years. It will mean that the hospital-based model of healthcare is not sustainable. New models of care need to be developed to enable services to be delivered within the community, closer to people's homes. With a growing elderly population, healthcare resources will need to be made available, with a new focus on dementia, social care, frailty and other health conditions that are associated with growing older.

cadarnhaol yn y ffordd y mae pobl yn byw yn allweddol o ran gwella iechyd. I raddau helaeth, mae modd osgoi'r problemau iechyd a achosir gan gamddefnyddio alcohol, tybaco, deietau nad ydynt yn iach ac anweithgarwch corfforol. Rhaid i'r ffaith bod angen mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd barhau'n sbardun sylfaenol o ran gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd. Mae angen inni lunio dull gweithredu sy'n cwmpasu'r gymdeithas gyfan, gan gynnwys pob sector, pob cymuned a phob unigolyn, er mwyn sicrhau bod pethau'n newid. Gwyddom y bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn creu pwysau newydd i'r GIG yn y blynyddoedd i ddod. Bydd yn golygu nad yw'r model o ofal iechyd sydd wedi'i seilio ar ysbytai yn gynaliadwy. Mae angen datblygu modelau gofal newydd er mwyn galluogi i wasanaethau gael eu darparu yn y gymuned, yn nes at gartrefi pobl. Gan fod nifer y bobl oedrannus yn cynyddu, bydd angen sicrhau bod adnoddau gofal iechyd ar gael, a bydd angen sicrhau bod ffocws newydd ar ddementia, gofal cymdeithasol, llesgedd a chyflyrau iechyd eraill sy'n gysylltiedig â mynd yn hŷn.

Once again, I would like to give the Chief Medical Officer for Wales my sincere thanks for all his hard work over the last six years.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Brif Swyddog Meddygol Cymru am ei holl waith caled dros y chwe blynedd diwethaf.

**Darren Millar:** Thank you for your statement, Minister. I, too, wish to pay tribute to Dr Tony Jewell, who is stepping down as the Chief Medical Officer for Wales this summer. His six years of service to the people of Wales have not gone unrecognised by me or my colleagues in the Welsh Conservatives. I also wish to welcome Dr Ruth Hussey to her new post, which commences in September, I believe.

**Darren Millar:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Rwyf innau am dalu teyrnged i Dr Tony Jewell, sy'n gadael ei swydd yn Brif Swyddog Meddygol Cymru yr haf hwn. Nid yw ei wasanaeth i bobl Cymru dros chwe blynedd wedi cael ei ddiystyru gennyf i na chan fy nghydweithwyr yn y Ceidwadwyr Cymreig. Hoffwn hefyd groesawu Dr Ruth Hussey i'w swydd newydd, a fydd yn dechrau ym mis Medi, rwy'n credu.

I was pleased to read in Dr Jewell's report that overall health in Wales is improving, and, in particular, that the gap between the life expectancy of women and men is beginning to close. However, as the Minister has rightly said, we know that health inequalities are a big problem across Wales, and that life expectancy has risen at a slower rate in some of Wales's most deprived communities. While smoking rates are falling, they still cause health problems in the most deprived communities; in particular,

Roeddwn yn falch o ddarllen yn adroddiad Dr Jewell fod iechyd cyffredinol yng Nghymru yn gwella, ac, yn benodol, fod y bwlch rhwng disgwyliad oes dynion a merched yn dechrau cau. Fodd bynnag, fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud, yn gywir ddigon, gwyddom fod anghydraddoldebau iechyd yn broblem fawr ledled Cymru, a bod disgwyliad oes wedi codi'n arafach yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Er bod cyfraddau ysmygu yn gostwng, maent yn dal i achosi problemau iechyd yn y

smoking-related deaths are more than twice those in the least deprived parts of the country.

cymunedau mwyaf difreintiedig; yn benodol, mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn fwy na dwywaith y nifer a welir yn rhannau lleiaf difreintiedig y wlad.

This is not a problem that is happening only in Wales, but overall health is worse in Wales than it is over the border in England. It is important that the Welsh Government does not take its eye off the ball with regard to cross-border inequalities. The National Audit Office reported recently that Wales has fewer GPs, shorter life expectancies and longer stays in hospital than is the case over the border in England. It is important that we recognise that and do our best as a nation to close the gap. Health improvement in Wales is always to be applauded, but we must strive to be the best. If we can come out on top in any of those fields, we will be doing very well indeed.

Nid yw hyn yn broblem sydd i'w weld yng Nghymru yn unig, ond mae iechyd yn gyffredinol yn waeth yng Nghymru nag ydyw dros y ffin yn Lloegr. Mae'n bwysig nad yw Llywodraeth Cymru yn colli ffocws o ran anghydraddoldebau trawsffiniol. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ddiweddar fod gan Gymru, o'i chymharu â'r sefyllfa dros y ffin yn Lloegr, lai o feddygon teulu a disgwyliadau oes byrrach, a bod pobl yn aros yn hwy mewn ysbytai. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny a'n bod yn gwneud ein gorau fel cenedl i gau'r bwlch. Mae gwella iechyd yng Nghymru bob amser i'w ganmol, ond rhaid inni ymdrechu i fod y gorau. Os gallwn ddod i'r brig yn unrhyw un o'r meysydd hynny, byddwn yn gwneud yn dda iawn yn wir.

You are right, Minister, to point out that many of the factors relating to health are in the home, and, indeed, in the car, when it comes to smoking. We need a concerted effort across Government departments on some of those issues. We know what the pressures are over the next few years. We have an ageing demographic, which is increasing the demand on the NHS. We also have a situation where the finances that are available to the Welsh NHS, because of your Government's decision to impose a record-breaking budget cut on the NHS in Wales, will have some consequences. Therefore, Minister, will you and your Cabinet colleagues consider reallocating some finances to the Welsh NHS in order to relieve some of the pressures that have been identified by the Wales Audit Office, the King's Fund and others in relation to the Welsh NHS? I was particularly concerned about the recent supplementary budget, which indicated a cut of a further £0.5 million to the public health side of the budget for your department. There have been three E. coli outbreaks in Wales, to which the chief medical officer referred, and which is a cause for concern. Public health money is important for delivering improvements on that front.

Mae'n iawn, Weinidog, eich bod yn nodi bod llawer o'r ffactorau sy'n ymwneud ag iechyd i'w cael yn y cartref, ac, yn wir, yn y car, o ran ysmygu. Mae angen ymdrech ar y cyd ar draws adrannau'r Llywodraeth yng nghyswllt rhai o'r materion hynny. Rydym yn gwybod ar ba ffurf y bydd y pwysau dros y blynyddoedd nesaf. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n cynyddu'r galw ar y GIG. Mae gennym sefyllfa hefyd lle y bydd y cyllid sydd ar gael i GIG Cymru, oherwydd penderfyniad eich Llywodraeth i orfodi'r toriad mwyaf erioed ar y GIG yng Nghymru, yn arwain at rai canlyniadau. Felly, Weinidog, a wnewch chi a'ch cydweithwyr yn y Cabinet ystyried ailddyrannu rhywfaint o gyllid i GIG Cymru er mwyn lleddfu rhai o'r pwysau a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, y King's Fund ac eraill mewn perthynas â GIG Cymru? Roeddwn yn pryderu'n arbennig am y gyllideb atodol ddiweddar, a oedd yn dangos toriad o £0.5 miliwn yn ychwanegol i'r rhan o gyllideb eich adran sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd. Bu tri achos o E. coli yng Nghymru, y cyfeiriodd y prif swyddog meddygol atynt, ac sy'n peri pryder. Mae arian sydd wedi'i neilltuo i iechyd y cyhoedd yn bwysig ar gyfer gwella yn y maes hwnnw.

You referred to the Fresh Start Wales

Cyfeiriasoch at ymgyrch Cychwyn Iach

campaign, which the Welsh Conservatives support. However, when do you anticipate that you might consider legislating, if insufficient improvements are found to have been achieved as a result of that campaign, to ensure that smoking in cars carrying children is consigned to the dustbin? Finally, we have called on many occasions for the establishment of a cancer treatment fund in Wales. We are concerned about the unavailability of certain cancer drugs to patients in the country. What consideration might you now give, given the evidence in the chief medical officer's report about cancer outcomes, to the creation of such a treatment fund in the future?

Cymru, y mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ei chefnogi. Fodd bynnag, pryd yr ydych yn rhagweld y byddwch efallai yn ystyried deddfu, os canfyddir na wnaed gwelliannau digonol o ganlyniad i'r ymgyrch honno, er mwyn sicrhau y rhoddir diwedd ar ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant? Yn olaf, rydym wedi galw am sefydlu cronfa triniaeth ar gyfer canser yng Nghymru ar sawl achlysur. Rydym yn pryderu am y ffaith nad yw rhai cyffuriau canser ar gael i gleifion y wlad. I ba raddau y byddwch yn awr yn ystyried creu cronfa driniaeth o'r fath yn y dyfodol, o ystyried y dystiolaeth yn adroddiad y prif swyddog meddygol ynghylch canlyniadau mewn perthynas â chanser?

**Lesley Griffiths:** I thank Darren Millar for his questions. You are absolutely right, Darren; public health is a hugely important issue. I am very pleased that you recognise that, while we are closing the gap, more needs to be done. I have said that myself. In relation to your specific questions, the First Minister and I launched Fresh Start Wales last summer, so it is coming up to its first year. I have asked for an evaluation of it after a year. It is being continually monitored. The campaign is for three years, but I have asked officials to look at drawing up legislation in case we think that that is the way to go, once we have gone through the campaign. You asked when I would consider turning to legislation; we will do this for three years, so let us have a look at what comes out from the monitoring before we decide. You also made reference to the home, as I did and as the chief medical officer did in his report. I mentioned that we have done healthier schools and made progress on that. We have made progress on healthier workplaces. There is a huge opportunity in the housing Bill, and I will work very closely with my colleague Huw Lewis and our officials will also work closely on that.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Darren Millar am ei gwestiynau. Rydych yn llygad eich lle, Darren; mae iechyd y cyhoedd yn fater hynod bwysig. Rwy'n falch iawn eich bod yn cydnabod, er ein bod yn cau'r bwlch, fod mwy eto i'w wneud. Rwyf wedi dweud hynny fy hun. Mewn perthynas â'ch cwestiynau penodol, lansiodd y Prif Weinidog a minnau Cychwyn Iach Cymru yr haf diwethaf, felly bu blwyddyn, bron, ers ei sefydlu. Rwyf wedi gofyn am werthusiad ohono ar ôl blwyddyn. Mae'n cael ei fonitro'n barhaus. Mae'r ymgyrch yn para tair blynedd, ond rwyf wedi gofyn i swyddogion gael golwg ar lunio deddfwriaeth rhag ofn y byddwn yn meddwl mai dyna y mae angen ei wneud, ar ôl i'r ymgyrch ddod i ben. Gofynasoch pryd y byddwn yn ystyried troi at ddeddfwriaeth; byddwn yn gwneud hyn am dair blynedd, felly gadewch inni gael golwg ar ganlyniadau'r monitro cyn inni benderfynu. Bu ichi gyfeirio hefyd at y cartref, fel y gwneuthum i ac fel y gwnaeth y prif swyddog meddygol yn ei adroddiad. Soniais ein bod wedi mynd ar drywydd ysgolion iachach ac wedi gwneud cynnydd yn y maes hwnnw. Rydym wedi gwneud cynnydd yng nghyswllt gweithleoedd iachach. Mae cyfle enfawr yn y Bil tai, a byddaf yn gweithio'n agos iawn â'm cyd-Aelod Huw Lewis, a bydd ein swyddogion hefyd yn gweithio'n agos yng nghyswllt hynny.

In relation to funds, I have 43% of the Welsh Government's budget in my portfolio. It is a huge amount of money. I do not think that you could ever have enough money, but, you

O ran cyllid, mae 43% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn fy mhortffolio. Mae'n swm enfawr o arian. Nid wyf yn credu y gallech byth gael digon o arian, ond

know that because of the cuts to our budget by the UK Government we cannot put any further funding in. What we need to do is to look at providing services differently: not just doing the same things in a different way, but fundamentally doing different things with our services. Also, it was only last week or the week before, I think, that the Minister for Finance announced invest-to-save funding, and we have had more funding through that. It is important that the health service, which has been at the forefront with invest-to-save schemes, continues in that way. On your last question, about the cancer drugs fund, the answer is 'no'. We are not having a cancer drugs fund. If anything, I think that a cancer drugs fund would highlight inequalities even more. You only have to look over the border to the fund in England to see that there is a huge postcode lottery. If you look at the funding that has been allocated from the cancer drugs fund in England, you will see that some 40% is allocated in south-east England whereas up in Newcastle, where the incidence of cancer is much higher, very little is being spent. We already spend more per head on cancer treatment in Wales. I do not see the need for a cancer drugs fund.

gwyddoch, oherwydd y toriadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud i'n cyllideb, na allwn ychwanegu unrhyw arian. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw ystyried darparu gwasanaethau yn wahanol: nid yn unig gwneud yr un pethau mewn ffordd wahanol, ond gwneud pethau sylfaenol wahanol gyda'n gwasanaethau. Hefyd, dim ond yr wythnos diwethaf neu'r wythnos flaenorol, rwy'n meddwl, cyhoeddodd y Gweinidog dros gyllid arian buddsoddi i arbed, ac rydym wedi cael mwy o arian drwy hynny. Mae'n bwysig bod y gwasanaeth iechyd, sydd wedi bod ar flaen y gad o ran cynlluniau buddsoddi i arbed, yn parhau yn y ffordd honno. O ran eich cwestiwn olaf, am y gronfa cyffuriau canser, yr ateb yw 'na'. Ni fyddwn yn cael cronfa cyffuriau canser. Os rhywbeth, byddai cronfa cyffuriau canser yn amlygu anghydraddoldebau i raddau hyd yn oed mwy, yn fy marn i. Nid oes ond yn rhaid ichi edrych dros y ffin ar y gronfa yn Lloegr i weld bod loteri cod post enfawr. Os edrychwch ar y cyllid sydd wedi'i ddyrannu o'r gronfa cyffuriau canser yn Lloegr, gwelwch fod tua 40% yn cael ei ddyrannu yn ne-ddwyrain Lloegr, ond yn Newcastle, lle mae nifer yr achosion o ganser yn uwch o lawer, ychydig iawn sy'n cael ei wario. Rydym eisoes yn gwario mwy y pen ar driniaeth canser yng Nghymru. Nid wyf yn gweld bod angen cronfa cyffuriau canser

**Elin Jones:** Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Rwyf hefyd yn diolch i Dr Tony Jewell am ei waith dros y chwe blynedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ac i bobl Cymru fel ein prif swyddog meddygol. Rwy'n dymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

**Elin Jones:** I thank the Minister for her statement this afternoon. I, too, thank Dr Tony Jewell for this work over the past six years for the Welsh Government and the people of Wales as our chief medical officer. I wish him well for the future.

Mae ystadegau a ffeithiau cadarnhaol yn yr adroddiad eleni. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at rai o'r rheini yn ei datganiad. Fodd bynnag, mae hefyd ystadegau a phatrymau yn yr adroddiad sy'n achosi pryder i nifer ohonom, mae'n siŵr, o ran anghydraddoldebau iechyd yn benodol. Mae clystyrau o afiechyd, a hynny mewn ardaloedd difreintiedig yn benodol. Fodd bynnag, mae'r berthynas rhwng afiechyd a thlodi ac ardaloedd difreintiedig yn un cymhleth.

There are positive statistics and facts in the report this year. The Minister has referred to some of those in her statement. However, there are also statistics and patterns in the report that are a cause for concern for many of us, I am sure, in relation to health inequalities in particular. There are clusters of disease in disadvantages areas in particular. However, the relationship between disease and poverty and disadvantaged areas is a complex one.

Er enghraifft, fi yw'r Aelod dros Geredigion.

For example, I am the Member for

Mae'r ystadegau'n dangos bod y cyfartaledd hyd oes ar ei hiraf i fenywod a dynion yng Ngheredigion o'i gymharu ag unrhyw le arall yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Ceredigion ymhell o fod y sir gyfoethocaf yng Nghymru. Mewn tablau ar gyflogau a lefelau incwm, nid yw Ceredigion yn dod yn agos at y brig. Felly, mae ffordd o fyw, yn ogystal â thlodi a diffyg incwm, yn ffactor allweddol o ran anghydraddoldeb iechyd. Mae'r berthynas rhwng y gwahanol agweddau hyn yn bwysig i'w hystyried a dylid edrych arni o ran ymyraethau Llywodraeth.

Ceredigion. The statistics show that average life expectancy is at its greatest for women and men in Ceredigion as compared to any other area of Wales. However, Ceredigion is by no means the richest county in Wales. In wage and income level tables, Ceredigion is nowhere near the top. Therefore, lifestyle, as well as poverty and a lack of income, is a key factor in terms of health inequalities. The relationship between these different aspects is important and needs to be considered and looked at in terms of Government interventions.

Mae unigolion a chlystyrau o unigolion a theuluoedd yn anwybyddu'r negeseuon am atal ysmygu, yfed llai o alcohol a byw bywyd mwy actif. Dylai negeseuon iechyd cyhoeddus gael eu targedu'n benodol at y teuluoedd a'r ardaloedd lle mae angen ceisio perswadio pobl i newid eu ffordd o fyw.

There are individuals and clusters of individuals and families who are ignoring the messages about stopping smoking, drinking less alcohol and living more active lives. Public health messages should be specifically targeted at those families and areas where we need to try to persuade people to change their way of life.

3.45 p.m.

Fodd bynnag, mae negeseuon iechyd cyhoeddus ond yn mynd rhywfaint o'r ffordd; mae cyfrifoldeb wrth gwrs gan yr unigolyn, ond mae cyfrifoldeb gan y Llywodraeth ar adegau i ymyrryd yn uniongyrchol ac yn rhagweithiol. Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu'r angen i symud yn gyflymach yn yr ymyrraeth uniongyrchol honno. Felly, dyma fy nghwestiynau i chi, Weinidog.

However, public health messages go only some of the way towards achieving that; the individual of course has a responsibility, but the Government also has responsibility at times to intervene directly and proactively. This report underlines the need to move more quickly in respect of that direct intervention. Therefore, here are my questions to you, Minister.

Yn gyntaf, ar ysmygu, pam na wnewch chi symud yn syth i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn ceir i warchod iechyd ein plant ni? Mae angen gwarchod iechyd ein plant ni rhag effeithiau ysmygu. Mae'r achos hwnnw'n eglur i nifer fawr ohonom, felly nid wyf wedi fy argyhoeddi pam na fedrwch symud yn syth i ddeddfu ar y mater hwn.

First, on smoking, why will you not move immediately to introduce legislation to ban smoking in cars to protect the health of our children? Our children's health needs to be safeguarded from the effects of smoking. The case for that is obvious to very many of us, so I remain unconvinced as to why you cannot move immediately to introduce legislation on this issue.

Yn ail, pa gamau yr ydych yn eu cymryd o hyd i roi pwysau ar Lywodraeth San Steffan i gyflwyno isafswm pris ar unedau alcohol? Mae'n amlwg bod hyn yn cychwyn cael ei ystyried o ddifrif yn San Steffan ond mae angen pwysau parhaol oddi wrth eich Llywodraeth chi i symud yn gynt ar hyn.

Secondly, what steps are you taking to continue to put pressure on the Westminster Government to introduce a minimum price per unit of alcohol? Clearly, this is starting to be taken seriously at Westminster but we need continuing pressure from your Government to move more quickly on this.

Yn olaf, ar dai, mae'r adroddiad hwn yn cydnabod y rhyngberthynas rhwng tai o

Finally, on housing, this report acknowledges the interrelationship between poor-quality

ansawdd gwael a thlodi tanwydd yn y tai hynny a lefelau iechyd unigolion. A ydych yn credu bod lle i gynyddu cyllideb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i sicrhau bod y buddsoddiad iawn yn cael ei roi i wella ein stoc dai yng Nghymru er lles iechyd ein pobl ni?

housing and fuel poverty in those homes with the levels of individuals' health. Do you think that there is room to increase the budget for the Minister for Housing, Regeneration and Heritage to ensure that the right investment is made to improve our housing stock in Wales for the benefit of our people's health?

**Lesley Griffiths:** I thank Elin Jones for those questions. In relation to the question about why we are not moving to legislate straight away, in my answer to Darren Millar's question, I explained that we have a three-year media campaign through Fresh Start Wales, through which we aim to promote smoke-free cars carrying children and to bring home to parents and others the risks that their smoking poses to the health of children. I mentioned that we are coming to the end of the first year of that campaign, and so I will look at this and, if I feel that we need to move to legislation, we will look at that. However, officials are looking at how other countries have drawn up legislation, so we are not just sitting back and waiting, and we will take it from there.

**Lesley Griffiths:** Diolch i Elin Jones am y cwestiynau hynny. O ran y cwestiwn ynghylch pam nad ydym yn bwriadu deddfu ar unwaith, yn fy ateb i gwestiwn Darren Millar, eglurais fod gennym ymgyrch tair blynedd yn y cyfryngau, drwy Cychwyn Iach Cymru, lle y bwriadwn hyrwyddo'r ffaith y dylid cario plant mewn ceir di-fwg, a sicrhau bod rhieni ac eraill yn ymwybodol o beryglon ysmygu i iechyd plant. Soniais ein bod yn dod i ddiwedd blwyddyn gyntaf yr ymgyrch honno, ac felly byddaf yn edrych ar hyn ac, os teimlaf fod angen deddfu ar y mater, byddwn yn ystyried hynny. Fodd bynnag, mae swyddogion yn edrych ar sut y mae gwledydd eraill wedi llunio deddfwriaeth, felly nid ydym yn aros yn ein hunfan, a byddwn yn gweld beth a ddaw bryd hynny.

We are putting pressure on the UK Government in relation to the minimum pricing of units of alcohol. That is a very important step and is something that I want to see.

Rydym yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â phennu isafswm pris ar unedau o alcohol. Mae hwn yn gam pwysig iawn ac yn rhywbeth yr wyf yn ei gefnogi.

In relation to housing and fuel poverty, the chief medical officer highlighted in the report that it is on the home that we need to focus. I mentioned the housing Bill, and I will be discussing that further with the Minister for housing.

O ran tlodi tai a thlodi tanwydd, amlygodd y prif swyddog meddygol yn yr adroddiad y ffaith y dylem ganolbwyntio ar y cartref. Soniais am y Bil tai, a byddaf yn trafod hwn ymhellach gyda'r Gweinidog tai.

In relation to the budget, you know that the budget is as it is. We will look at it across the Government. However, there is no more money—and I can see the Minister for finance sitting there—but it is looked at every year within the budget.

Mewn perthynas â'r gyllideb, gwyddoch fod y gyllideb fel y mae hi. Byddwn yn edrych arni ar draws y Llywodraeth. Nid oes dim mwy o arian, fodd bynnag—a gwelaf y Gweinidog Cyllid yn eistedd yn y fan acw—ond edrychir ar y mater hwn bob blwyddyn o fewn y gyllideb.

**Kirsty Williams:** I thank the Minister for her statement and echo the thanks given to the chief medical officer for his work and his commitment to public service, and I wish him well in whatever he decides to do next. He has served with great distinction and I put on record my thanks to him for that.

**Kirsty Williams**: Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad ac ategaf y diolch a fynegwyd i'r prif swyddog meddygol am ei waith a'i ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus, a dymunaf yn dda iddo o ran beth bynnag y bydd yn penderfynu ei wneud nesaf. Mae wedi gwasanaethu'n rhagorol iawn a hoffwn

gofnodi fy niolch iddo am hynny.

Minister, a great deal of the chief medical officer’s report and, indeed, of your own statement here this afternoon has focused on the issue of inequalities in health. Every one of us sitting here in the Chamber must be appalled to see that where you live in Wales has a huge impact on your life expectancy. I am often quite shocked that people are not angrier about this and that people in our poorest communities are not demanding more of a change in the statistics.

Weinidog, mae rhan fawr o adroddiad y prif swyddog meddygol ac, yn wir, o’ch datganiad chi y prynhawn yma, wedi canolbwyntio ar fater anghydraddoldebau ym maes iechyd. Mae’n rhaid bod pob un ohonom sy’n eistedd yn y Siambr wedi ein harswydo o weld bod lle yr ydych yn byw yng Nghymru yn cael effaith enfawr ar eich disgwyliad oes. Rwy’n aml wedi fy mrawychu nad yw pobl yn fwy dig am hyn ac nad yw pobl yn ein cymunedau tlotaf yn mynnu bod mwy o ymdrech yn cael ei wneud i newid yr ystadegau.

I am slightly bemused by your comments about Julian Tudor Hart and ‘The Inverse Care Law’. It is almost as though that were new and something that you have just discovered. Actually, ‘The Inverse Care Law’ was published by Julian Tudor Hart in 1971, 41 years ago. Therefore, it is not as though we have suddenly stumbled upon this particular factor in healthcare. I have been in the Assembly long enough to remember the days of Townsend money. The first health committee of the Assembly spent a great deal of time on this and made recommendations to the Government about inequalities in healthcare. We had the ‘Targeting Poor Health’ document, the Closing the Health Gap campaign, and the inequalities in health campaign between 2002 and 2005, and yet, today, in your statement, you are admitting that we have not seen the improvements that those of us who set up and endorsed Townsend would have liked to see.

Rwyf wedi fy rhyfeddu braidd gan eich sylwadau am Julian Tudor Hart a ‘The Inverse Care Law’. Mae bron fel pe bai hwn yn newydd ac yn rhywbeth yr ydych newydd ei ddarganfod. A dweud y gwir, cyhoeddwyd ‘The Inverse Care Law’ gan Julian Tudor Hart yn 1971, 41 o flynyddoedd yn ôl. Felly, nid yw fel pe baem newydd ddarganfod y ffactor penodol hwn ym maes gofal iechyd. Bum yn Aelod o’r Cynulliad ers digon o amser i gofio oes arian Townsend. Treuliodd pwyllgor iechyd cyntaf y Cynulliad lawer o amser ar y mater hwn a gwnaeth argymhellion i’r Llywodraeth am anghydraddoldebau ym maes gofal iechyd. Cafwyd y ddogfen ‘Targedu Iechyd Gwael’ gennym, yr ymgyrch Cau’r Bwlch Iechyd, a’r ymgyrch anghydraddoldebau ym maes iechyd rhwng 2002 a 2005, ac eto, heddiw, yn eich datganiad, rydych yn cyfaddef na welwyd y gwelliannau y byddai’r rhai ohonom a sefydlodd ac a gymeradwyodd Townsend wedi hoffi eu gweld.

You refer in your statement to a new service model. What does that new service model look like, and how is it different to our approaches to tackling health inequalities in the past? You say that you will be able to measure improvements under the new service model. What exactly are the improvements that you are looking to measure? How do we know what success will look like? How will the approach that you are taking now differ to that taken in light of Townsend at the beginning of the National Assembly? The approach pursued by Townsend and the administration back then have obviously not made the difference, so what will be different

Cyfeiriwch yn eich datganiad at fodel gwasanaeth newydd. Sut un yw’r model gwasanaeth newydd tybed, a sut y mae’n wahanol i’n dulliau o fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn y gorffennol? Dywedwch y bydd modd ichi fesur gwelliannau gyda’r model gwasanaeth newydd. Beth yn union yw’r gwelliannau yr ydych am eu mesur? Sut y byddwn yn gwybod beth fydd llwyddiant? Sut y bydd y dull yr ydych yn ei ddefnyddio’n awr yn wahanol i’r dull a ddefnyddiwyd yng ngoleuni Townsend ar ddechrau’r Cynulliad Cenedlaethol? Mae’n amlwg nad yw’r dull a ddefnyddiwyd gan Townsend a’r

this time that will lead to improvements in the figures?

weinyddiaeth bryd hynny wedi gwneud gwahaniaeth, felly beth fydd yn wahanol y tro hwn a fydd yn arwain at welliannau yn y ffigurau?

On an issue that you know is close to my heart and is mentioned quite a bit at the beginning of the CMO’s report, namely stillbirths, the report acknowledges that we have seen a stalling in the improvement in stillbirth figures since the early 1980s and that approximately 190 babies were stillborn last year. Each one of those is a tragedy for the family involved and has a great impact on the future health of the mother and the wider family. The CMO’s report mentions new initiatives being taken. Can you explain why local health boards will not be measured on the reduction of stillbirths in their localities? Why will that not happen? Without that, and without interventions to address that, how do you think you are going to bring down the stillbirth rate in Wales?

Ynghylch mater sy’n bwysig iawn i mi, fel y gwyddoch, ac a gaiff ei grybwyll gryn dipyn ar ddechrau adroddiad y prif swyddog meddygol, sef marw-enedigaethau, mae’r adroddiad yn cydnabod ein bod wedi gweld oedi o ran y gwelliant yn y ffigurau marw-enedigaeth ers yr 1980au cynnar a bod tua 190 o fabanod wedi’u geni’n farw y llynedd. Mae pob un o’r marwolaethau hyn yn drychineb i’r teulu dan sylw ac yn cael effaith fawr ar iechyd y fam a’r teulu ehangach yn y dyfodol. Mae adroddiad y prif swyddog meddygol yn sôn am fentrau newydd sydd ar waith. A allwch esbonio pam na fesurir y gostyngiad yn yr achosion o farw-enedigaethau yn ardaloedd y byrddau iechyd lleol? Pam na fydd hynny’n digwydd? Heb hynny, a heb ymyriadau i fynd i’r afael â hynny, sut ydych chi’n meddwl y bydd modd i chi ostwng y gyfradd marw-enedigaethau yng Nghymru?

**Lesley Griffiths:** Thank you for those questions, Kirsty. I met Julian Tudor Hart for the first time about three months ago. We had a very interesting conversation about the work that he has done. You are right that the paper was not written this week; it is not new. However, I think that we need to get to the heart of the matter. I mentioned the new service model. The details are being worked up. I want to discuss it with the new CMO, Dr Ruth Hussey, who will start work in September, to get her views on it and on how she sees it panning out. However, basically, what I want to see is some salaried GPs being brought in to work in our most deprived communities to develop innovative ways of working. I do not want them to do things in the same way; there should be fundamental differences. However, it will involve salaried GPs being brought in because you are right that people in our most deprived areas should not have to put up with poorer services. Therefore, the details of the scheme are being worked up. We had our first meeting last week, I think, chaired by the CMO. However, I will be looking to the new CMO for ideas when she takes up her post.

**Lesley Griffiths:** Diolch i chi am y cwestiynau hynny, Kirsty. Cyfarfûm â Julian Tudor Hart am y tro cyntaf tua thri mis yn ôl. Cawsom sgwrs ddiddorol iawn am y gwaith a gyflawnwyd ganddo. Rydych yn gywir nad ysgrifennwyd y papur yr wythnos hon; nid yw’n newydd. Fodd bynnag, credaf fod angen inni fynd at wraidd y mater. Soniais am y model gwasanaeth newydd. Mae’r manylion yn cael eu paratoi. Rwyf am ei drafod gyda’r prif swyddog meddygol newydd, Dr Ruth Hussey, a fydd yn dechrau ar ei gwaith ym mis Medi, i gael ei barn arno ac ar sut y mae’n gweld pethau’n gweithio. Fodd bynnag, yn y bôn, yr hyn yr wyf am ei weld yw bod rhywfaint o feddygon teulu cyflogedig yn dod i weithio yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig i ddatblygu ffyrdd arloesol o weithio. Nid wyf am i bethau gael eu gwneud yn yr un ffordd; dylid gweld gwahaniaethau sylfaenol. Fodd bynnag, bydd yn cynnwys defnyddio meddygon teulu cyflogedig, oherwydd rydych yn gywir pan ddywedwch na ddylai pobl yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig orfod dygymod â gwasanaethau o safon is. Felly, mae manylion y cynllun yn cael eu paratoi. Cawsom ein cyfarfod cyntaf yr

wythnos diwethaf, rwy'n meddwl, o dan gadeiryddiaeth y prif swyddog meddygol. Fodd bynnag, gobeithiaf glywed syniadau newydd gan y prif swyddog meddygol newydd pan fydd wedi dechrau yn ei swydd.

You mentioned stillbirths and measuring stillbirths and outcomes. This is something that we do have to look at with local health boards. It is something that I have discussed with my chief nursing officer to find ways of improving things. It is going in the right direction. We are seeing better outcomes, but we need to see a big improvement. If measurements would enable that, I will consider them.

Soniasoch am farw-enedigaethau a mesur a marw-enedigaethau a chanlyniadau. Mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid inni ei ystyried gyda byrddau iechyd lleol. Mae'n rhywbeth yr wyf wedi'i drafod gyda'm prif swyddog nyrsio, i ddod o hyd i ffyrdd o wella pethau. Mae pethau wedi troi i'r cyfeiriad cywir. Rydym yn gweld canlyniadau gwell, ond mae angen inni weld gwelliant mawr. Pe byddai dulliau mesur yn galluogi hynny i ddigwydd, byddaf yn eu hystyried.

**Jenny Rathbone:** I welcome the fact stated in the report that obesity is levelling off. Nevertheless, there is nothing that the inverse care law is more relevant to than the rise and rise of type 2 diabetes, which relates to poor diet and a sedentary lifestyle. We know that people have been encouraged to eat processed food rather than make food from raw ingredients, and we know of the prevalence of fat and sugar in these cheap foods—not necessarily particularly cheap for people to buy, but certainly in terms of the profit that can be made on them—and of the cost to the health service of the outcomes by way of the rise in type 2 diabetes. At the moment, 5% of the population has been diagnosed with diabetes, but we know that the estimates are that up to 10% of the population have diabetes undiagnosed. We also know that 80% of the money that we spend on people with diabetes is in secondary care, when preventative measures have not been put in place. A report published today indicates that we could save £200 million if we had those early preventative measures in place when people are first diagnosed, preventing their having to go into hospital to have amputations or to have other severe issues. I welcome your announcement that you will look to do more on the prevention and early detection and treatment of diabetes, but there are considerable concerns about the reduction in the number of specialist diabetes nurses to carry out that sort of work. We need to ensure that we have more of them, not fewer, if we are to turn that around.

**Jenny Rathbone**: Croesawaf y ffaith a nodwyd yn yr adroddiad fod cyfraddau gordewdra yn lefelu. Serch hynny, mae cyfraith gofal gwrthgyfartal yn fwy perthnasol i'r cynnydd cyson yn yr achosion o ddiabetes math 2 na dim arall, sy'n gysylltiedig â deiet gwael a ffordd o fyw sy'n rhy llonydd. Gwyddom fod pobl wedi cael eu hannog i fwyta bwyd wedi'i brosesu yn hytrach na gwneud bwyd o gynhwysion crai, ac rydym yn gwybod faint o fraster a siwgr sydd mewn bwydydd rhad—nad ydynt yn arbennig o rad i bobl eu prynu, ond yn sicr o ran yr elw y gellir ei gael o'u gwerthu—a faint yw cost canlyniadau'r cynnydd mewn diabetes math 2 i'r gwasanaeth iechyd. Ar hyn o bryd, mae 5% o'r boblogaeth wedi cael diagnosis o ddiabetes, ond gwyddom, yn ôl yr amcangyfrifon, bod gan hyd at 10% o'r boblogaeth ddiabetes nad chafwyd diagnosis ar ei gyfer. Rydym hefyd yn gwybod bod 80% o'r arian a wariwn ar bobl sydd â diabetes mewn gofal eilaidd, pan nad yw camau i atal y cyflwr wedi cael eu rhoi ar waith. Mae adroddiad a gyhoeddwyd heddiw yn dangos y gallem arbed £200 miliwn pe bai'r camau atal cynnar ar waith pan gâi pobl y diagnosis yn y lle cyntaf, a fyddai'n eu hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty i gael torri aelod o'u cyrff neu i drin problemau difrifol eraill. Croesawaf eich cyhoeddiad y byddwch yn edrych ar wneud mwy i atal, canfod a thrin diabetes yn gynnar, ond mae pryderon sylweddol am y gostyngiad yn nifer y nyrsys arbenigol diabetes sydd gennym i wneud y math hwn o waith. Mae angen inni sicrhau bod gennym fwy ac nid llai ohonynt, os

ydym am newid y sefyllfa.

**Lesley Griffiths:** Thank you, Jenny Rathbone. You certainly make a very important point, as diabetes is a chronic condition that is on the increase. As I mentioned in my statement, everyone is responsible for their own health, but we have to make sure that we provide the appropriate services for people when they are ill. We need to continue to promote physical activity, we need to promote healthy eating, and we need to take an opportunity to use the Olympics to promote physical activity, but we also need to ensure that diabetes services are the most appropriate. You mentioned that many people with diabetes are in secondary care, and we need to move them out to primary care and to make sure that those services are there for them. We also need education for patients when they become diabetic, to avoid the revolving door of their going back into secondary care.

**Lesley Griffiths**: Diolch yn fawr, Jenny Rathbone. Rydych yn sicr yn gwneud pwynt pwysig iawn, gan fod diabetes yn gyflwr cronig sydd ar gynnydd. Fel y soniais yn fy natganiad, mae pawb yn gyfrifol am eu hiechyd eu hunain, ond mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gwasanaethau priodol i bobl pan fyddant yn sâl. Mae angen inni barhau i hybu gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach, a rhaid inni gymryd y cyfle i ddefnyddio'r Gemau Olympaidd i hyrwyddo gweithgarwch corfforol, ond hefyd mae angen inni sicrhau mai'r gwasanaethau diabetes sydd ar waith yw'r rhai mwyaf priodol. Soniasoch fod nifer o bobl sydd â diabetes mewn gofal eilaidd, ac mae angen eu symud i wasanaethau gofal sylfaenol a gwneud yn siŵr bod y gwasanaethau hynny yno ar eu cyfer. Mae angen inni addysgu cleifion hefyd, pan gânt ddiagnosis o ddiabetes, er mwyn eu hatal rhag troi mewn cylch a dychwelyd at ofal eilaidd.

**Keith Davies:** I, too, welcome the chief medical officer's report and your statement, Minister. I also welcome the announcement of a Carmarthenshire study comparing the health of council and housing association tenants before and after upgrades to their homes. The research will monitor the effects of a Labour-led Carmarthenshire County Council scheme to bring homes up to a national standard through improvements such as double glazing installation and better-quality kitchens. Will the Minister join me in welcoming the scheme and will she monitor closely its outcomes?

**Keith Davies**: Rwyf finnau'n croesawu adroddiad y prif swyddog meddygol a'ch datganiad, Weinidog. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad ynghylch astudiaeth gan Sir Gaerfyrddin, sy'n cymharu iechyd tenantiaid y cyngor a thenantiaid cymdeithasau tai cyn ac ar ôl i'w cartrefi gael eu huwchraddio. Bydd y gwaith ymchwil yn monitro effeithiau cynllun Cyngor Sir Gaerfyrddin, o dan arweinyddiaeth y blaid Lafur, i uwchraddio cartrefi i safon genedlaethol drwy wneud gwelliannau fel gosod ffenestri dwbl a cheginau o well safon. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i groesawu'r cynllun ac a wnaiff hi fonitro ei ganlyniadau'n fanwl?

**Lesley Griffiths:** Yes, I certainly do welcome it. A few Members have mentioned—as did I in my statement—that we need to look at housing. The chief medical officer raised that in his report as an area where we need to do more. We know that if you have well-heated and a better standard of housing, that will lead to improved health and wellbeing and will reduce inequalities in health, which is very important. Therefore, we would be happy to monitor that as we go forward.

**Lesley Griffiths**: Ydw, rwy'n sicr yn ei groesawu. Soniodd rhai o'r Aelodau—fel y gwnes innau yn fy natganiad—bod angen inni edrych ar dai. Nododd y prif swyddog meddygol hynny yn ei adroddiad fel maes lle y mae angen inni wneud mwy. Gwyddom os oes gennym dai o safon sydd wedi'u cynhesu'n ddigonol, y bydd hynny'n arwain at well iechyd a lles, a bydd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd, sy'n bwysig iawn. Felly, byddem yn fodlon monitro hynny wrth inni symud ymlaen.

**Janet Finch-Saunders:** Last year's report stated that, if conditions remained as they were, a basic future projection suggested that there would be 1 million Welsh people being concurrently treated for heart-related conditions, including hypertension, by 2033. That is around one third of the adult population. Minister, what are you doing to ensure that there is a sustainable future for health services with regard to non-communicable diseases since last year's report? It is mentioned again in this year's report.

**Janet Finch-Saunders**: Nododd adroddiad y llynedd, pe bai amodau yn aros yr un fath, bod amcanestyniad sylfaenol o'r dyfodol yn awgrymu y byddai un filiwn o bobl Cymru yn cael eu trin ar yr un pryd ar gyfer anhwylderau sy'n gysylltiedig â'r galon, gan gynnwys pwysedd gwaed uchel, erbyn 2033. Oddeutu traean o'r boblogaeth sy'n oedolion yw hynny. Weinidog, beth ydych yn ei wneud i sicrhau bod dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein gwasanaethau iechyd, o ran clefydau anhrosglwyddadwy, ers adroddiad y llynedd? Sonnir am y mater eto yn yr adroddiad eleni.

**Lesley Griffiths:** I think that it is important that we continue to bring forward our public health campaigns. You mentioned hypertension specifically, and that is being looked at as part of the over-50s health checks. We need to tackle the inequality gap, and it is by using schemes such as the ones that I mentioned that we will be able to do so.

**Lesley Griffiths**: Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn parhau gydag ein hymgyrchoedd iechyd cyhoeddus. Soniasoch am bwysedd gwaed uchel yn benodol, a chaiff hynny ei ystyried fel rhan o'r archwiliadau iechyd i bobl dros 50 oed. Rhaid inni fynd i'r afael â'r bwlch anghydraddoldeb, a byddwn yn gallu gwneud hynny drwy ddefnyddio cynlluniau fel y rhai y soniais amdanynt.

**Vaughan Gething:** Like many other Members, I am concerned about health inequalities, with Grangetown and Dinas Powys, for example, having differentials of 10 years in life expectancy. I am interested, Minister, in how and where the Welsh Government expects to be able to work with communities to improve their own health. The Government cannot force people to take more exercise, to smoke less, and to eat more fruit and vegetables each day. Therefore, I am interested in how our health campaigns and our use of primary care will be geared towards delivering a measurable improvement in those health inequalities.

**Vaughan Gething:** Fel nifer o Aelodau eraill, rwy'n pryderu am anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, mae 10 mlynedd o wahaniaeth rhwng Grangetown a Dinas Powys o ran disgwyliad oes. Mae gennyf ddiddordeb, Weinidog, mewn gwybod sut a ble y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gallu gweithio gyda chymunedau i wella eu hiechyd. Ni all y Llywodraeth orfodi pobl i wneud mwy o ymarfer corff, ysmygu llai, a bwyta mwy o ffrwythau a llysiau bob dydd. Felly, mae gennyf ddiddordeb yn y ffordd y bydd ein hymgyrchoedd iechyd a'n defnydd o ofal sylfaenol yn cael eu hanelu at gyflawni gwelliant mesuradwy yn yr anghydraddoldebau iechyd hynny.

4.00 p.m.

**Lesley Griffiths:** You made the same point that I just made. It is everyone's responsibility, and it is about making sure that people have the information that they need to be able to maintain a healthy lifestyle. It is important that we are bringing the compact forward in 'Together for Health'. We need to make sure that our public health campaigns are working; they

**Lesley Griffiths:** Gwnaethoch yr un pwynt yr wyf i newydd ei wneud. Mae'n gyfrifoldeb ar bawb, ac mae'n ymwneud â sicrhau bod gan bobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i allu cynnal ffordd iach o fyw. Mae'n bwysig ein bod yn cyflwyno'r cytundeb yn 'Law yn Llaw at Iechyd'. Mae angen inni wneud yn siŵr bod ein hymgyrchoedd iechyd cyhoeddus yn gweithio; maent yn cael eu

are continually monitored. Did you mention Grangetown and Dinas Powys? The life expectancy variation between Dinas Powys and Grangetown, with the latter depicted as having an average reduction in life expectancy of 3.4 years for males and 1.6 years for females, despite there being only one train stop between Dinas Powys and Grangetown, is unacceptable. That is why we need to do more work to tackle the widening inequality gap, because it is unjust and unfair.

monitro’n barhaus. A wnaethoch chi gyfeirio at Grangetown a Dinas Powys? Mae’r amrywiad yn y disgwyliad oes rhwng Dinas Powys a Grangetown yn annerbyniol, gyda’r olaf yn cael ei gyfleu yn rhywle sydd â gostyngiad cyfartalog o ran disgwyliad oes o 3.4 mlynedd i ddynion a 1.6 mlynedd i fenywod, er mai dim ond un orsaf drên sydd rhwng Dinas Powys a Grangetown. Dyna pam mae angen inni wneud mwy o waith i fynd i’r afael â’r bwlch anghydraddoldeb sy’n ehangu, gan ei fod yn anghyfiawn ac yn annheg.

## Datganiad: y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Gymdeithasol
## Statement: Update on the Social Fund

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I am making this statement today to update Members on the progress that we are making in Wales in developing a scheme to replace the discretionary social fund. I will also take this opportunity to inform Members of some key findings arising from the consultation exercise that ended in March, which will influence the development of the successor arrangements.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Rwyf yn gwneud y datganiad hwn heddiw i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am y cynnydd yr ydym yn ei wneud yng Nghymru o ran datblygu cynllun i gymryd lle’r gronfa gymdeithasol ddewisol. Byddaf hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i hysbysu’r Aelodau ynghylch rhai o’r canfyddiadau allweddol sy’n codi o’r ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Mawrth, a fydd yn dylanwadu ar ddatblygiad y trefniadau olynol.

The UK Government’s plans to abolish the discretionary fund on 31 March 2013 and to localise support as part of its wider reforms of the benefit system have presented the Welsh Government with an enormous challenge. The timescales that we are working with present significant challenges for the Welsh Government and our partners. The challenges are also compounded by the implications of the UK Government’s wider welfare reform agenda, the impact of which will not be fully understood until the universal credit is implemented from October 2013.

Mae cynlluniau Llywodraeth y DU i ddiddymu’r gronfa ddewisol ar 31 Mawrth 2013 a lleoleiddio cefnogaeth fel rhan o’i diwygiadau ehangach o’r system fudd-daliadau wedi rhoi her enfawr i Lywodraeth Cymru. Mae’r amserlenni sydd gennym ar hyn o bryd yn gosod her sylweddol i Lywodraeth Cymru a’n partneriaid. Caiff yr heriau hyn eu cymhlethu fwy gan oblygiadau agenda diwygio lles ehangach Llywodraeth y DU, ac ni wyddom beth fydd effaith lawn hyn nes y gweithredir y credyd cyffredinol o fis Hydref 2013.

These changes are taking place against the backdrop of an extremely difficult economic climate, which is likely to see increasing numbers apply to the social fund for emergency help. Latest figures show that 76,000 people in Wales currently access the discretionary fund. The wider changes to welfare benefits are also expected to impact upon these people and potentially increase

Mae’r newidiadau hyn yn digwydd yn erbyn cefndir o hinsawdd economaidd anodd iawn, sy’n debygol o olygu y bydd nifer gynyddol yn gwneud cais i’r gronfa gymdeithasol am gymorth mewn argyfwng. Mae’r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 76,000 o bobl yng Nghymru ar hyn o bryd yn defnyddio’r gronfa ddewisol. Disgwylir i’r newidiadau ehangach i fudd-daliadau lles effeithio ar y

demand for the social fund as household budgets for those on benefits become increasingly tighter.

bobl hyn hefyd a gallai gynyddu'r galw am y gronfa gymdeithasol wrth i gyllidebau aelwydydd y rhai sydd ar fudd-daliadau ddod yn fwyfwy tyn.

Clearly, it is important that we make the right choices now in developing a successor scheme. Failing to do so will result in some of the most vulnerable people in our society, those who experience severe financial hardship, being unable to access help. I am taking this responsibility very seriously.

Yn amlwg, mae'n bwysig ein bod yn gwneud y dewisiadau cywir nawr wrth ddatblygu cynllun olynol. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu na fydd rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas—y rhai sy'n dioddef caledi ariannol difrifol—yn gallu cael cymorth. Yr wyf yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif.

I am committed to ensuring that Wales receives a fair funding transfer from the UK Government. As well as funding the cost of the support, this means receiving fair and accurate administrative funding to provide adequate cover for the new burdens that introducing this scheme will place on the Welsh Government. On that point, we are yet to receive formal confirmation from the Department for Work and Pensions on the annual budget for the social fund from April 2013 and on the additional funding that will be received to manage it. There is no guarantee that the Welsh Government will receive a consequential after the two-year commitment contained in the spending review settlement. This presents another significant risk to the Welsh Government and serves to highlight most clearly the challenges we are facing.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru yn cael trosglwyddiad ariannol teg gan Lywodraeth y DU. Yn ogystal ag ariannu cost y cymorth, mae hyn yn golygu cael cyllid gweinyddol teg a chywir i sicrhau bod digon o gefnogaeth i fynd i'r afael â'r beichiau newydd y bydd cyflwyno'r cynllun hwn yn ei roi ar Lywodraeth Cymru. Ar y pwynt hwnnw, rydym yn dal i ddisgwyl cadarnhad ffurfiol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch y gyllideb flynyddol ar gyfer y gronfa gymdeithasol o fis Ebrill 2013 a'r cyllid ychwanegol y byddwn yn ei gael i'w reoli. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol ar ôl yr ymrwymiad dwy flynedd a gynhwysir yn setliad yr adolygiad o wariant. Mae hyn yn golygu risg sylweddol arall i Lywodraeth Cymru ac yn tynnu sylw clir at yr heriau yr ydym yn eu hwynebu.

Earlier this year, we consulted on options for replacing the scheme, issuing a formal consultation on the policy and delivery issues around the development of a new scheme. We have also engaged with our key service delivery partners through consultation events to make the best use of the knowledge and expertise that exists in Wales to develop a viable and affordable scheme.

Yn gynharach eleni, gwnaethom ymgynghori ar opsiynau ar gyfer newid y cynllun, a chyhoeddi ymgynghoriad ffurfiol ar y polisi a'r materion cyflenwi mewn perthynas â datblygu cynllun newydd. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'n partneriaid sy'n darparu gwasanaethau allweddol drwy ddigwyddiadau ymgynghori i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth a'r arbenigedd sy'n bodoli yng Nghymru i ddatblygu cynllun ymarferol a fforddiadwy.

The consultation analysis has identified some very clear findings. On the question of delivery, there is broad consensus across all sectors that the delivery of the social fund should be firmly based on a partnership model and supported with local arrangements that join up. The huge importance of third sector organisations was consistently

Mae'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad wedi dod â rhai canfyddiadau clir iawn i'r amlwg. O ran cyflenwi, mae consensws eang ar draws pob sector y dylai'r dull o gyflwyno'r gronfa gymdeithasol fod wedi'i seilio'n gadarn ar fodel partneriaeth gyda chefnogaeth trefniadau lleol sy'n cydgysylltu. Tynnwyd sylw yn aml at bwysigrwydd

highlighted, if not in the actual delivery of the scheme then certainly in making referrals to the new scheme, supporting applications and working closely with the new arrangements so that it reaches those most in need.

enfawr sefydliadau'r trydydd sector, os nad o ran darparu'r cynllun ei hun, yna yn sicr wrth wneud atgyfeiriadau i'r cynllun newydd, cefnogi ceisiadau a gweithio'n agos gyda'r trefniadau newydd fel ei fod yn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

To move to the criteria, there was a great deal of support for establishing clear national qualifying criteria in order to ensure consistency of delivery across Wales. In Wales, I want to see a nationally defined scheme that avoids a postcode lottery and provides a consistent level of support across all of Wales. We aim to ensure equity and fairness for claimants, and this was also a clear message from the consultation.

O ran y meini prawf, yr oedd llawer iawn o gefnogaeth ar gyfer pennu meini prawf cymhwyso cenedlaethol clir er mwyn sicrhau darpariaeth gyson ledled Cymru. Yng Nghymru, rwyf am weld cynllun sydd â diffiniad cenedlaethol sy'n osgoi'r loteri cod post ac sy'n darparu lefel gyson o gymorth ledled Cymru gyfan. Rydym yn anelu at sicrhau cydraddoldeb a thegwch i hawlwyr, ac roedd hyn hefyd yn neges glir o'r ymgynghoriad.

There was a strong feeling from both the consultation exercise and events that the successor fund should be grant based because of the cost and complexity of recovering loans of small value. The current system recovers social fund payments directly from welfare benefits, which will not be an option to the Welsh Government. Concerns were also raised that making a loan repayment, for some, would compound their problems further in the future. This was balanced by a significant number of respondents who believe that the crisis loan fund should continue as a loan facility because of concerns that the fund will diminish if it is purely grant based. The consultation raised the suggestion of issuing vouchers for goods and services instead of making cash payments, as is the current practice. There was a clear steer from stakeholders for the use of vouchers, with the caveat that cash payments should remain an option where goods and services would not cover some particular needs. There was a call for this arrangement to be supported by food banks and recycling initiatives, where those are available locally.

Roedd teimlad cryf o'r ymgynghoriad a'r digwyddiadau y dylai'r gronfa olynol fod yn seiliedig ar grant oherwydd cost a chymhlethdod adennill gwerth benthyciadau bychain. Mae'r system bresennol yn adennill taliadau'r gronfa gymdeithasol yn uniongyrchol o fudd-daliadau lles, ac ni fydd hynny'n opsiwn i Lywodraeth Cymru. Mynegwyd pryderon hefyd y byddai ad-dalu benthyciad, i rai, yn dwysáu eu problemau ymhellach yn y dyfodol. Cafodd hyn ei gydbwyso gan nifer sylweddol o ymatebwyr sy'n credu y dylai'r gronfa benthyciad argyfwng barhau fel cyfleuster benthyciad oherwydd pryderon y bydd y gronfa yn lleihau os yw'n gweithredu ar sail grant yn unig. Codwyd awgrym o'r ymgynghoriad ynghylch cyhoeddi talebau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau yn hytrach na gwneud taliadau arian parod, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Roedd arweiniad clir gan randdeiliaid o blaid defnyddio talebau, gyda'r cafeat y dylai taliadau arian parod barhau i fod yn opsiwn lle na fyddai nwyddau a gwasanaethau yn ateb rhai anghenion penodol. Roedd galwad i'r trefniant hwn gael ei gefnogi gan fanciau bwyd a mentrau ailgylchu, lle bo'r rheini ar gael yn lleol.

The consultation also highlighted the absolute need for the new scheme to be linked with local agencies and the need to make relevant signposting to further sources of help and support available—something that I am also committed to doing. I am also clear that the cornerstone of the new

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn tynnu sylw at y gwir angen i'r cynllun newydd fod yn gysylltiedig ag asiantaethau lleol a'r angen i gyfeirio mewn ffordd berthnasol at ffynonellau pellach o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael—rhywbeth yr wyf hefyd wedi ymrwymo i'w wneud. Rwyf hefyd yn glir

arrangements will be to have strong links with financial capability, money advice, income maximisation and affordable credit. This will ensure that the underlying problems faced by those on low incomes are addressed at the point of application, with relevant signposting to support in order to maximise income and organise finances better to help avoid repeat claims. This will help to maximise the limited funding available to provide support. I am committed to this principle and to utilising existing Welsh Government-supported organisations, such as credit unions, to provide this holistic service.

mai conglfaen y trefniadau newydd fydd cael cysylltiadau cryf gyda chapasiti ariannol, cyngor ariannol, sicrhau'r incwm mwyaf posibl a chredyd fforddiadwy. Bydd hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â'r problemau sylfaenol a wynebir gan y rhai sydd ar incwm isel pan wneir cais, gyda chyfeiriadau perthnasol at gefnogaeth er mwyn sicrhau'r incwm mwyaf posibl a threfnu arian yn well er mwyn helpu i osgoi gorfod gwneud hawliadau dro ar ôl tro. Bydd hyn yn helpu i wneud y gorau o'r cyllid cyfyngedig sydd ar gael i ddarparu cefnogaeth. Rwyf wedi ymrwymo i'r egwyddor hon ac i ddefnyddio sefydliadau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, fel undebau credyd, i ddarparu'r gwasanaeth cyfannol hwn.

I am seeking to develop a scheme that is built on partnership but is also supported through local arrangements, to allow some local flexibility. I believe that the best option for delivery might be through the procurement of a single organisation to manage the scheme and to establish local consortia arrangements to deliver it. I have therefore asked officials to explore that option in more detail, and, following the conclusion of that process, I will give the matter more consideration and bring the detail back to the Chamber.

Rwyf yn ceisio datblygu cynllun sy'n cael ei adeiladu ar bartneriaeth, ond sy'n cael ei gefnogi hefyd drwy drefniadau lleol, er mwyn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd lleol. Credaf mai'r opsiwn gorau ar gyfer darparu o bosibl yw drwy gaffael un sefydliad i reoli'r cynllun a sefydlu trefniadau consortia lleol i'w ddarparu. Felly, rwyf wedi gofyn i swyddogion edrych ar yr opsiwn hwnnw'n fanylach ac, ar ôl i'r broses honno ddod i ben, byddaf yn ystyried y mater ymhellach ac yn cyflwyno'r manylion i'r Siambr.

While my priority is to ensure that a replacement social fund scheme is operational before April 2013, I am determined to ensure that the future scheme supports our commitments to tackling poverty. I am also taking this forward alongside the development of a new scheme to provide council tax support in Wales, so that we can mitigate some of the worst impacts of the UK Government's welfare reforms. In contrast to England, where local authorities have been left to develop their own schemes to replace council tax benefit, we will be implementing a single nationally defined scheme that provides a minimum, consistent level of council tax support, again across the whole of Wales.

Er mai fy mlaenoriaeth yw sicrhau bod cronfa newydd ar waith yn lle'r cynllun cymdeithasol cyn mis Ebrill 2013, rwyf yn benderfynol o sicrhau bod cynllun y dyfodol yn cefnogi ein hymrwymiadau i fynd i'r afael â thlodi. Rwyf hefyd yn bwrw ymlaen â hyn ochr yn ochr â datblygu cynllun newydd i roi cymorth o ran y dreth gyngor yng Nghymru, fel y gallwn liniaru rhai o effeithiau gwaethaf diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Yn wahanol i Loegr, lle mae awdurdodau lleol wedi cael eu gadael i ddatblygu eu cynlluniau eu hunain i gymryd lle budd-dal y dreth gyngor, byddwn yn gweithredu un cynllun gyda diffiniad cenedlaethol sy'n darparu lefel safonol, cyson o gymorth o ran y dreth gyngor, eto ledled Cymru gyfan.

Our programme for government makes it clear that we will take every opportunity to mitigate the negative implications of the UK Government's welfare reforms, as well as seeking to tackle the longer term causes of

Mae ein rhaglen lywodraethu yn ei gwneud yn glir y byddwn yn manteisio ar bob cyfle i liniaru effeithiau negyddol diwygiadau lles Llywodraeth y DU, yn ogystal â cheisio mynd i'r afael yn y tymor hir ag achosion

poverty in Wales. The tackling poverty action plan draws together the policy actions that we are taking, and it sets out our key objectives. We are clear that it is essential that we consider the impact of the welfare reform changes holistically, and that we come together across different portfolios to achieve this.

tlodi yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi yn dwyn ynghyd y camau gweithredu polisi yr ydym yn eu cymryd, ac mae'n nodi ein hamcanion allweddol. Rydym yn glir ei bod yn hanfodol ein bod yn ystyried effaith y newidiadau diwygio lles mewn modd cyfannol, a'n bod yn dod ynghyd ar draws portffolios gwahanol i gyflawni hyn.

**Mark Isherwood:** As the Minister indicated, the Welfare Reform Act 2012 abolishes the current system of discretionary payments from April 2013. In place of the payments, budgeting loans will form part of the universal credit, which has been referred to, and community care grants and crisis loans will be delivered by English local authorities and by the devolved administrations in Scotland and Wales. Will you welcome the information that I have received from the DWP today, namely that the current budget is being protected and that this is not about saving money but localising provision? There will be no cuts to crisis loans or community care grants, and provision will be more personalised, with decisions being taken closer to the individuals involved.

**Mark Isherwood:** Fel y dywedodd y Gweinidog, mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn diddymu'r system bresennol o daliadau dewisol o fis Ebrill 2013. Yn lle'r taliadau, bydd benthyciadau cyllidebu yn ffurfio rhan o'r credyd cyffredinol, y cyfeiriwyd ato, a bydd awdurdodau lleol yn Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban yn darparu grantiau gofal cymunedol a benthyciadau argyfwng. A wnewch chi groesawu'r wybodaeth a gefais gan yr Adran Gwaith a Phensiynau heddiw bod y gyllideb gyfredol yn cael ei gwarchod, a bod hyn yn ymwneud â lleoleiddio darpariaeth yn hytrach nag arbed arian? Ni fydd unrhyw doriadau i fenthyciadau argyfwng neu grantiau gofal yn y gymuned, a bydd y ddarpariaeth yn fwy personol, gyda phenderfyniadau yn cael eu gwneud yn nes at yr unigolion dan sylw.

Will you also welcome other information that I have had today, namely that the universal credit, as well as being simpler for people to use, will leave the average household £25 better off a week, and will provide greater work incentives for people, as opposed to the current marginal deduction rates of 90% when people go to work? Community care grants are primarily intended to help vulnerable people claiming income-related benefits to settle or remain in the community, or to support families that are under exceptional pressure. They will be devolved. How will you ensure that this Assembly is kept appraised of the successor scheme as it develops? Crisis loans are available to anyone—whether they are on benefits or not—who cannot meet their immediate short-term needs in an emergency or as a consequence of a disaster. Again, how will you ensure that the Assembly is kept fully aware of developments as the successor scheme develops? Also, how will you ensure that the Assembly collectively is able to

A wnewch chi hefyd groesawu gwybodaeth arall a gefais heddiw, sef y bydd y credyd cyffredinol, yn ogystal â bod yn haws i bobl ei ddefnyddio, yn golygu y bydd aelwydydd cyffredin £25 yn well eu byd bob wythnos, ac y bydd yn cynnig mwy o gymhellion i bobl weithio, yn hytrach na'r cyfraddau didyniad ymylol presennol o 90% pan fydd pobl yn mynd i weithio? Prif ddiben y grantiau gofal cymunedol yw helpu pobl sy'n agored i niwed sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm i setlo neu aros yn y gymuned, neu i gefnogi teuluoedd sydd o dan bwysau eithriadol. Byddant yn cael eu datganoli. Sut y byddwch yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael gwybod am y cynllun olynol wrth iddo ddatblygu? Mae benthyciadau argyfwng ar gael i unrhyw un—pa un a ydynt ar fudd-daliadau ai peidio—nad yw'n gallu ateb ei anghenion tymor byr mewn argyfwng neu o ganlyniad i drychineb. Eto, sut y byddwch yn sicrhau bod y Cynulliad yn cael gwybodaeth lawn am y datblygiadau wrth i'r cynllun olynol

comment on and influence the development of those schemes?

ddatblygu? Hefyd, sut y byddwch yn sicrhau bod y Cynulliad cyfan yn gallu gwneud sylwadau am ddatblygiadau'r cynlluniau hynny a dylanwadu arnynt?

You referred to the role of the third sector. Credit unions and third sector community financial services welcome the support that the Welsh Government has given them since devolution, and they have a particular insight into and experience of the problems of the financial exclusion and poverty central to the aims of the discretionary social fund, and they are providing lending services to the groups being targeted. Of the 21 credit unions in Wales, 18 are members of the Association of British Credit Unions Ltd. How would you respond to their call for the devolution of the social fund in Wales not to be considered without exploring the role that credit unions could play in its delivery or support?

Cyfeiriasoch at rôl y trydydd sector. Mae undebau credyd a gwasanaethau ariannol cymunedol y trydydd sector yn croesawu'r gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi ei rhoi iddynt ers datganoli, ac mae ganddynt ddealltwriaeth arbennig a phrofiad o'r problemau sy'n gysylltiedig â'r allgáu ariannol a'r tlodi sy'n ganolog i amcanion y gronfa gymdeithasol ddewisol, ac maent yn cynnig gwasanaethau benthyca i'r grwpiau a dargedir. O'r 21 o undebau credyd yng Nghymru, mae 18 yn aelodau o Gymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyf. Sut y byddech chi'n ymateb i'w cais i beidio ag ystyried datganoli'r gronfa gymdeithasol yng Nghymru heb edrych ar y rôl y gallai undebau credyd ei chwarae o ran ei darparu neu ei chefnogi?

They acknowledge that they would not be able to be the sole provider of a social fund replacement in Wales, because of their size and the costs of the administration. However, they do address the point that you made in your statement about the ability to take loan repayments from benefits at source. They say that they do have the ability to take loan repayments from benefits at source through the Department for Work and Pensions' eligible loan deduction scheme when a benefits-receiving member consistently fails to repay. Will you consider working with them to access the access that they have, even if the Welsh Government does not, and will you therefore recognise that credit unions may be ideally placed to provide longer term support for those who have been referred to the discretionary social fund?

Maent yn cydnabod na allent fod yn unig ddarparwr yr hyn a geir yn lle cronfa gymdeithasol yng Nghymru, oherwydd eu maint a chostau gweinyddu. Fodd bynnag, maent yn mynd i'r afael â'r pwynt a wnaethoch yn eich datganiad am y gallu i gymryd ad-daliadau benthyciad o'r ffynhonnell fudd-daliadau. Maent yn dweud bod ganddynt y gallu i gymryd ad-daliadau benthyciadau o'r ffynhonnell fudd-daliadau drwy gynllun didyniadau benthyciadau cymwys yr Adran Gwaith a Phensiynau pan fydd aelod sy'n cael budd-daliadau yn gyson yn methu â'u had-dalu. A wnewch chi ystyried gweithio gyda hwy i gael mynediad at y mynediad sydd ganddynt, hyd yn oed os nad yw Llywodraeth Cymru am wneud, ac a wnewch chi gydnabod, felly, y gallai undebau credyd fod mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu cymorth tymor hwy ar gyfer y rhai a atgyfeiriwyd i'r gronfa gymdeithasol ddewisol?

Finally, I will just address questions to the bits that will not be devolved in the regulated scheme. As we heard, the budgeting loans will be added to universal credit as a non-devolved matter.

Yn olaf, hoffwn ofyn cwestiynau am y darnau na fyddant yn cael eu datganoli yn y cynllun a reoleiddir. Fel y clywsom, bydd y benthyciadau cyllidebu yn cael eu hychwanegu at y credyd cyffredinol fel mater heb ei ddatganoli.

One aspect of the regulated scheme applies to

Mae un agwedd ar y cynllun a reoleiddir yn

funeral payments. As you may know, I chair the cross-party group on funerals and bereavement, which regularly discusses the impact of social funds on people at a time of bereavement. How will the Welsh Government respond? Will it give consideration to the most recent research into social fund funeral payments conducted by the Centre for Death and Society at the University of Bath, published on 27 June, just two and a half weeks ago, in its engagement with the UK Government in this agenda, as it affects many people in Wales? Given the confusion regarding benefits status and entitlement to a funeral payment, and because of the fact that, as claims are submitted and assessed after a funeral has been organised, the current administration of the payment means that claimants have to commit themselves to funeral costs before they know how much, if any, the state will pay towards them.

berthnasol i daliadau angladd. Fel y gwyddoch, efallai, rwyf yn gadeirydd ar y grŵp trawsbleidiol ar angladdau a phrofedigaeth, sy'n aml yn trafod effaith cronfeydd cymdeithasol ar bobl mewn profedigaeth. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb? A fydd yn ystyried y gwaith ymchwil diweddaraf ar daliadau angladd cronfeydd cymdeithasol a wnaed gan y Ganolfan Marwolaeth a Chymdeithas ym Mhrifysgol Caerfaddon, a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin, dim ond pythefnos a hanner yn ôl, o ran ei ymgysylltiad â Llywodraeth y DU yn yr agenda hwn, gan ei fod yn effeithio ar nifer o bobl yng Nghymru? O gofio'r dryswch ynghylch statws budd-daliadau a'r hawl i gael taliad angladd, ac oherwydd y ffaith bod hawliadau yn cael eu cyflwyno a'u hasesu ar ôl trefnu angladd, mae gweinyddu taliadau ar hyn o bryd yn golygu bod yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud yr hawliad ymrwymo eu hunain i gostau angladd cyn eu bod yn gwybod faint, os o gwbl, y bydd y wladwriaeth yn ei dalu tuag atynt.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his contribution. I will respond to a few of the points made in his questions.

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad. Byddaf yn ymateb i rai o'r pwyntiau a wnaed yn ei gwestiynau.

I am slightly surprised that the Member appears to have figures that I do not have for the settlement from the DWP. The Member suggests that there will be no reduction in funding from the DWP for the scheme. That is certainly not the discussion that my team has been having with the DWP. In fact, the figures that have been quoted to us suggest a 20% reduction in social funds to Wales, which is significantly different from the 0% that the member alluded to.

Rwyf yn synnu braidd o weld ei bod yn ymddangos bod gan yr Aelod ffigurau nad oes gennyf fi ar gyfer y setliad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Aelod yn awgrymu na fydd unrhyw ostyngiad yn y cyllid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y cynllun. Nid dyna'r drafodaeth y bu fy nhîm yn ei chael gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. Yn wir, mae'r ffigurau sydd wedi'u dyfynnu i ni yn awgrymu gostyngiad o 20% mewn cronfeydd cymdeithasol i Gymru, sy'n sylweddol wahanol i'r 0% y cyfeiriodd yr aelod ato.

As I said in my statement, we have not had sight of the core funding or the administrative funding to deliver a scheme by 2013. Of course, as the Member acknowledges, we are dealing with some very vulnerable people.

Fel y dywedais yn fy natganiad, nid ydym wedi cael golwg ar y cyllid craidd na'r cyllid gweinyddol ar gyfer darparu cynllun erbyn 2013. Wrth gwrs, fel y mae'r Aelod yn ei gydnabod, rydym yn ymdrin â rhai pobl sy'n agored iawn i niwed.

The Member raised a number of issues to do with the delivery of a scheme. I mentioned in my statement my thoughts on procuring a national organisation to monitor and centrally control the scheme, with us then moving out

Cyfeiriodd yr Aelod at nifer o faterion yn ymwneud â chyflwyno cynllun. Soniais yn fy natganiad am fy syniadau ynghylch caffael sefydliad cenedlaethol i fonitro a rheoli'r cynllun yn ganolog, gyda ni wedyn yn symud

for local delivery. I am sympathetic to the Member's calls for what credit unions can and cannot deliver in this.

allan er mwyn iddo gael ei gyflenwi'n lleol. Rwyf yn cydymdeimlo â cheisiadau'r Aelod ynghylch yr hyn y gall undebau credyd ei ddarparu yn hyn o beth, a'r hyn na allant ei ddarparu.

I am slightly nervous about the Member's comments that credit unions have the ability to withdraw payments direct from the benefits of people who have accessed the loans. I know that they have the capability to do that, but when these people are at their most vulnerable, and have their money taken out at source, it can lead to a spiral of their needing crisis loans. I am interested in the Member's views and have taken notice of them.

Rwyf ychydig yn betrus ynghylch sylwadau'r Aelod bod gan undebau credyd y gallu i dynnu taliadau yn uniongyrchol o fudd-daliadau pobl sydd wedi defnyddio'r benthyciadau. Gwn fod ganddynt y gallu i wneud hynny, ond pan fydd y bobl hyn ar eu mwyaf agored i niwed, a'u harian yn cael ei gymryd allan yn y ffynhonnell, gall arwain at waethygu eu hangen am fenthyciadau argyfwng. Mae gennyf ddiddordeb yn safbwyntiau'r Aelod ac rwyf wedi cymryd sylw ohonynt.

4.15 p.m.

The third sector and credit unions have a vital role in supporting our communities. They are at the heart of advice services and signposting. They are a core point of signposting for the future of the scheme over the coming years. As with council tax benefits, there are far too many unknowns in relation to the proposal. I hope that the statement has given Members a flavour of its direction, but not knowing the nature of the core elements or the administration element of this will put pressure on whoever will deliver the scheme in 2013.

Mae gan y trydydd sector ac undebau credyd rôl hanfodol o ran cefnogi ein cymunedau. Maent wrth wraidd gwasanaethau cyngor a chyfeirio. Maent yn bwynt cyfeirio creiddiol ar gyfer dyfodol y cynllun dros y blynyddoedd nesaf. Fel yn achos budd-daliadau treth gyngor, mae llawer gormod o ffactorau anhysbys mewn perthynas â'r cynnig. Gobeithio y bydd y datganiad wedi rhoi syniad i Aelodau o'i gyfeiriad, ond bydd peidio â gwybod am natur ei elfennau craidd na'i elfennau gweinyddol yn rhoi pwysau ar bwy bynnag fydd yn cyflwyno'r cynllun yn 2013.

**Simon Thomas:** Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae llawer i bryderu amdano yn y datganiad, yn enwedig y posibilrwydd y bydd y swm hwn yn cael ei gwtogi wrth gael ei basio draw i Lywodraeth Cymru, o feddwl y bydd angen cefnogaeth gan y gronfa gymdeithasol ar fwy a mwy o bobl yn y dyfodol. Mae'n siŵr ein bod i gyd, fel Aelodau, yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod atom yn chwilio am help gyda budd-daliadau a ffyrdd o ddod â dau ben llinyn ynghyd.

**Simon Thomas:** I would like to thank the Minister for his statement today. There is a great deal to cause concern in this statement, especially the possibility that this sum will be cut in being passed over to the Welsh Government, given that more and more people will need support from the social fund in future. I am sure that we all, as Members, see an increase in the number of people who come to us looking for help with benefits and with how to cope with their finances.

Hoffwn ofyn ychydig yn fwy i'r Gweinidog am sut y mae'n rhagweld y bydd yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, yn enwedig yn y tymor hir. Roeddwn yn siomedig nad oedd llefarydd y Torïaid wedi manteisio ar y cyfle i ddweud y byddant

I would like to ask the Minister for a few more details on how he foresees this funding being transferred to the Welsh Government, especially in the long term. I was disappointed that the Tory spokesperson did not take the opportunity to at least say that

o leiaf yn brwydro dros sicrhau'r arian hwn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru dros y tymor hir, yn hytrach na dros ddwy flynedd, sef yr hyn a amlinellwyd yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant presennol. Mae hwnnw'n bwynt hynod bwysig. Rwy'n gobeithio ein bod i gyd, fel Aelodau Cynulliad, yn gallu cytuno ar y pwynt hwnnw.

they will fight for this funding to be included in the Welsh Government budget in the long term, rather than over two years, as has been outlined in the current comprehensive spending review. This is an extremely important point. I hope that we can all agree, as Assembly Members, on that point.

Hoffwn ofyn i'r Gweinidog am gostau gweinyddu'r cynlluniau hyn. Faint o arian y mae'n gofyn amdano gan Lywodraeth San Steffan, a faint mae'n disgwyl ei gael? Sut y bydd yn gallu gwneud ei gynlluniau i weithredu'r cynllun o'r newydd mor gost effeithiol ag y bo modd? Rwyf am rannu ychydig o bryderon y gallai'r hyn y mae'n ei amlinellu—fframwaith cenedlaethol, darpariaeth leol a'r posibilrwydd o nifer o gyrff yn bod yn rhan o hyn—arwain at ddyblygu. Mae'n hynod bwysig nad oes dyblygu yn y system hon. Mae'n hynod bwysig nad ydym yn gweld cyrff—er bod ganddynt resymau da iawn i wneud hynny drostynt eu hunain—yn chwilio am gyfle i fod yn rhan o'r cynllun hwn ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

I would like to ask the Minister about the administration costs of these schemes. How much funding is he asking for from the Westminster Government, and how much does he expect to receive? How will he be able to make his plans for implementing the new schemes as cost-effective as possible? I want to share a few concerns that what he is outlining—a national framework, local provision and the possibility that a number of bodies can be part of this—could lead to duplication. It is extremely important that there is no duplication in this system. It is extremely important that we do not see bodies—even though they have very good reasons for doing it for themselves—looking for opportunities to be part of this scheme and competing against each other.

Hoffwn ofyn iddo sicrhau ei fod yn rhoi arweiniad strategol, cenedlaethol ar hyn. Pa drafodaethau y mae'n eu cael â llywodraeth leol? Byddech yn disgwyl i Lywodraeth Lafur edrych ar ei chymheiriaid mewn llywodraeth leol i helpu gyda'r gwaith o ddarparu'r cynllun hwn. Efallai fod lle i ystyried budd-dal y dreth gyngor mewn perthynas â hyn.

I would like to ask him to ensure that he provides strategic, national leadership on this issue. What discussions is he having with local government? You would expect a Labour Government to look to its peers in local government to help with the work of providing these schemes. There might be scope to consider council tax benefits in this regard.

Roeddwn yn synnu ei fod wedi derbyn barn yr ymgynghoriad am dalebau mewn ffordd mor ddifater. Mae hanes talebau a'u defnydd i gefnogi pobl mewn tlodi yn un trist yng Nghymru, yn mynd yn ôl i ddyddiau'r *Scotch Cattle* yng nghymoedd Gwent. Byddwn yn siomedig i weld y Blaid Lafur, yn arbennig, yn derbyn talebau heb fwy o feddwl am eu heffaith ar y bobl a fydd yn eu derbyn, yn ogystal â'r ffaith y gellid creu marchnad ddu mewn talebau. Mae gwerth mewn talebau—nid ydych yn osgoi'r broblem ariannol drwy ddefnyddio talebau. Hoffwn glywed mwy am hynny gan y Gweinidog.

I was surprised that he so indifferently accepted the view of the consultation on vouchers. Vouchers, and their use to support people living in poverty, have a very sad history in Wales, going back to the time of the Scotch Cattle in the Gwent valleys. I would be disappointed to see the Labour Party, especially, accepting vouchers without giving more thought to their effect on the people who will receive them, as well as to the fact that a black market can be created in vouchers. There is value in vouchers—you do not avoid the problems associated with cash by using vouchers. I would be interested in hearing more about that too from the Minister.

Roeddwn yn cytuno ag un pwynt a wnaeth Mark Isherwood, sef ei bod yn bosibl bod rôl i undebau credyd yn hyn. Rwy'n croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog am allu cyllidol a gwybodaeth ariannol. Byddwn yn hoffi gweld bod modd cyflwyno person sy'n derbyn benthyciad argyfwng drwy'r cynllun newydd i undeb credyd, a'i helpu, efallai, mewn modd mwy pwrpasol i wella ei sgiliau ariannol. Er na fyddwn yn mynd mor bell â Mark ynglŷn ag adennill y benthyciadau, mae'n ymddangos i mi efallai fod mecanwaith i'w ddarparu yma, ac i addysgu pobl ynglŷn â sgiliau ariannol ar yr un pryd.

I agreed with one point that Mark Isherwood made, in that it is important that there is a role for credit unions in this regard. I welcome what the Minister said about financial skills and knowledge. I would like to see a way of introducing a person who receives a crisis loan through the new scheme to a credit union, helping them, perhaps, in a more purposeful way, to improve their financial skills. Although I would not go quite so far as Mark with regard to recovering the loans, it seems to me that there might be a mechanism to be provided here, and to educate people about financial skills at the same time.

Rwy'n cloi drwy ddweud ein bod yn siomedig nad yw hyn eto yn cydnabod bod angen talu mwy i gynllun newydd ar gyfer budd-daliadau'r dreth gyngor, o gymryd y problemau yn y fan honno a'r hyn a fydd yn digwydd i'r gronfa gymdeithasol. Bydd y bobl dlotaf yng Nghymru yn gweld gostyngiad sylweddol yn y gefnogaeth iddynt dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, oherwydd penderfyniadau San Steffan, yn y bôn. Mae'n hynod bwysig ein bod i gyd yn uno yn y Cynulliad i wrthwynebu'r cynlluniau hyn lle bo modd a, lle nad oes modd, i wneud yn siŵr bod gennym y cynllun cenedlaethol gorau posibl i gefnogi ein cymunedau yma yng Nghymru.

I conclude by saying that we are disappointed that this does not yet acknowledge that there is a need to pay more into the new scheme for council tax benefit, given the problems there and what is happening to the social fund. The poorest people in Wales will see a substantial decrease in support over the next two to three years, because of decisions taken in Westminster, basically. It is extremely important that we all unite in the Assembly to oppose these changes where possible and, where it is not possible, to ensure that we have the best possible national scheme to support our communities in Wales.

**Carl Sargeant:** I am grateful for the Member's contribution. I share his concern that this is guaranteed for just two years within the comprehensive spending review programme. I do not think that, at this point in the UK's economic cycle, these problems will go away over the next two years. That has been the historic problem: trying to see what will happen in two years' time. This is still to be discussed with the UK Government, but there does not seem to be any light at the end of the tunnel.

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad yr Aelod. Rwy'n rhannu ei bryder mai dim ond am ddwy flynedd mae hyn yn cael ei warantu o fewn rhaglen yr adolygiad cynhwysfawr o wariant. Nid wyf yn credu, ar yr adeg hon yng nghylch economaidd y DU, y bydd y problemau hyn yn diflannu dros y ddwy flynedd nesaf. Bu hynny'n broblem hanesyddol: ceisio rhagweld beth fydd yn digwydd ymhen dwy flynedd. Mae hyn eto i'w drafod gyda Llywodraeth y DU, ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw olau ar ddiwedd y twnnel.

I acknowledge the Member's concern around the use of vouchers, but again, it is about the ability to access services. We can sometimes get better value for money by using the voucher system and procuring through companies at a national or regional level. I note the Member's concern, particularly

Rwyf yn cydnabod pryder yr Aelod ynghylch y defnydd o dalebau, ond eto, mae'n ymwneud â'r gallu i gael gafael ar wasanaethau. Weithiau, gallwn sicrhau gwerth am arian gwell drwy ddefnyddio'r system dalebau a chaffael drwy gwmnïau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol. Rwyf yn

around the issue of the black market in vouchers, which is not something that we would want to see.

nodi pryder yr Aelod, yn enwedig o ran y farchnad ddu mewn talebau, nad yw'n rhywbeth y byddem am ei weld.

The Member raised an interesting point around councils and their ability to distribute vouchers. I do not doubt their ability to step up to the mark to deliver this, but we did hold a very robust consultation process, and we have had 46 responses from interested parties about delivery. Again, I go back to the issue around credit unions: I see a role for them, both in giving advice and support to people on safe borrowing and on the whole ethos of financial capability. I understand all of that. However, in taking this forward we also have to be mindful of access to credit unions across Wales, making sure that, in times of need, people are able to quickly access a service. The coverage of credit unions might extend across the whole of Wales, but sometimes accessibility is not as easy as we would like, so we have to do some work around that. However, I certainly see that the credit unions can play an effective role alongside partner organisations in delivering this scheme.

Cododd yr Aelod bwynt diddorol am gynghorau a'u gallu i ddosbarthu talebau. Nid wyf yn amau eu gallu i gymryd cyfrifoldeb i gyflawni hyn, ond gwnaethom gynnal proses ymgynghori gadarn iawn, a chawsom 46 o ymatebion gan bartïon â diddordeb ynghylch cyflawni'r gwaith. Unwaith eto, rwyf yn mynd yn ôl at undebau credyd: gwelaf rôl ar eu cyfer, o ran rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl ar fenthyca'n ddiogel ac ar holl ethos gallu ariannol. Rwyf yn deall hynny i gyd. Fodd bynnag, wrth fwrw ymlaen â hyn, rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol o fynediad i undebau credyd ledled Cymru, gan wneud yn siŵr bod pobl, ar adegau o angen, yn gallu cael mynediad cyflym at wasanaeth. Efallai y bydd undebau credyd yn ymestyn ar draws Cymru gyfan, ond weithiau nid yw mor hawdd cael atynt ag y byddem yn ei hoffi, felly mae'n rhaid inni wneud rhywfaint o waith ar hynny. Fodd bynnag, rwyf yn sicr o'r farn y gall undebau credyd chwarae rhan effeithiol ochr yn ochr â sefydliadau partner i gyflawni'r cynllun hwn.

**Peter Black:** I also welcome the scheme that the Minister is starting to outline as a result of the responses to the consultation. There are a number of good points in the statement, and I will raise a couple of points on some of the issues that the Minister refers to. Like him, I very much value the role of the third sector in this area, and it is important that it is involved. I wonder whether the Minister could give us some more detail on how the partnership with the third sector will be formalised as part of the scheme.

**Peter Black:** Rwyf hefyd yn croesawu'r cynllun mae'r Gweinidog yn dechrau ei amlinellu o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae nifer o bwyntiau da yn y datganiad, a byddaf yn codi ychydig ohonynt ar rai o'r materion y cyfeiriodd y Gweinidog atynt. Fel yntau, rwyf yn gwerthfawrogi rôl y trydydd sector yn y maes hwn yn fawr, ac mae'n bwysig ei fod yn rhan o'r broses. Tybed a wnaiff y Gweinidog roi manylion i ni ar sut y bydd y bartneriaeth gyda'r trydydd sector yn cael eu ffurfioli fel rhan o'r cynllun.

The Minister says clearly that he prefers to abandon loans in favour of grants; I support that move, and think that it is important that we do that. The complexities involved in chasing up loan repayments will add to the cost of the scheme and make it more difficult to administer on a Wales-only basis. There are huge social issues around trying to recover loans as part of this, so I welcome that. Perhaps the Minister could give us more detail on how the grants will target the most needy. What restrictions will be placed on the grants? Clearly, there is only a limited

Mae'r Gweinidog yn dweud yn glir ei fod yn well ganddo roi'r gorau i fenthyciadau o blaid grantiau; rwyf yn cefnogi'r symudiad hwnnw, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud hynny. Bydd y cymhlethdodau a ddaw yn sgîl mynd ar drywydd ad-daliadau benthyciadau yn ychwanegu at gost y cynllun ac yn peri ei fod yn anoddach i'w weinyddu yng Nghymru yn unig. Mae problemau cymdeithasol sylweddol o ran ceisio adennill benthyciadau fel rhan o hyn, felly rwyf yn croesawu hynny. Efallai y gallai'r Gweinidog roi mwy o

amount of money available, and we need to know what criteria will apply to the grants to make the best use of them and to ensure that they reach those in most need.

fanylion am sut y bydd y grantiau yn helpu'r bobl fwyaf anghenus. Pa gyfyngiadau fydd yn cael eu rhoi ar y grantiau? Yn amlwg, dim ond hyn a hyn o arian sydd ar gael, ac rydym angen gwybod pa feini prawf fydd yn berthnasol i'r grantiau i wneud y defnydd gorau ohonynt, ac er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y rhai mwyaf anghenus.

I am very interested in the role of credit unions in this, and I commend the Minister for trying to involve them as part of this. I am still not clear as to the role of credit unions and how they will be used to supplement the scheme. One of the big issues in this area is the loans that are available from loan sharks with high interest rates, which many people on benefits access and, as a result, get into problems with. Will the additional resources that the credit unions have available be used to supplement the scheme that is in place? How will they be involved as part of that? I know that there has been a very good example in Llanelli in terms of credit unions using the post office network. Will that be rolled out across Wales?

Mae gennyf ddiddordeb mawr yn rôl undebau credyd yn hyn, a chymeradwyaf y Gweinidog am geisio eu cynnwys fel rhan o hyn. Rwyf dal yn aneglur ynghylch rôl yr undebau credyd a sut y byddant yn cael eu defnyddio i ychwanegu at y cynllun. Un o'r problemau mawr yn y maes hwn yw'r benthyciadau sydd ar gael gan fenthycwyr arian didrwydded gyda chyfraddau llog uchel, y mae llawer o bobl ar fudd-daliadau yn eu cael ac, o ganlyniad, yn mynd i drybini. A fydd yr adnoddau ychwanegol sydd ar gael gan yr undebau credyd yn cael eu defnyddio i ychwanegu at y cynllun sydd ar waith? Sut y cânt eu cynnwys fel rhan o hynny? Gwn y bu enghraifft dda iawn yn Llanelli lle roedd undebau credyd yn defnyddio'r rhwydwaith swyddfeydd post. A fydd hynny'n cael ei gyflwyno ar draws Cymru?

I am also curious as to why we are not making better use of local councils, which is an issue that was raised by Simon Thomas. As Simon said, local councils have experience in administering council tax benefit and housing benefit. It seems to me that, although it is right to have national qualifying criteria, to ensure that is not a postcode lottery across Wales, the experience of councils in delivering the scheme will be useful in delivery and in decision-making. Could the Minister elaborate on his decision-making process in that regard?

Rwyf hefyd eisiau gwybod pam nad ydym yn gwneud gwell defnydd o gynghorau lleol, sy'n fater a godwyd gan Simon Thomas. Fel y dywedodd Simon, mae profiad gan gynghorau lleol o weinyddu budd-dal treth gyngor a budd-dal tai. Mae'n ymddangos i mi, er ei bod yn iawn cael meini prawf cymhwyso cenedlaethol, er mwyn sicrhau nad oes loteri cod post ar draws Cymru, y bydd profiad cynghorau o ran cyflwyno'r cynllun yn ddefnyddiol wrth gyflwyno a gwneud penderfyniadau. A wnaiff y Gweinidog ymhelaethu ar ei broses benderfynu yn hynny o beth?

Finally, could the Minister provide more detail on how individuals will access the scheme and what appeals mechanisms will be in place when individuals are denied access to it?

Yn olaf, a wnaiff y Gweinidog roi mwy o fanylion am sut y bydd unigolion yn cael mynediad i'r cynllun a pha fecanweithiau apelio sydd ar waith pan fydd unigolion yn cael gwrthod mynediad iddo?

**Carl Sargeant:** I thank the Member for his questions. There is, of course, a lot of detail to be worked up. When we have further information, I will share it with Assembly Members. As I said, the availability criteria

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Wrth gwrs, mae llawer o fanylion ar ôl i'w llunio. Pan fydd gennym fwy o wybodaeth, byddaf yn ei rhannu gydag Aelodau'r Cynulliad. Fel y dywedais, bydd y

will be worked up with the new scheme providers.

meini prawf argaeledd yn cael eu llunio gyda darparwyr y cynllun newydd.

I am grateful for the Member's support in relation to the principle of third sector credit unions working to deliver this. I recognise the Member's point—I do not think that he was arguing this—but you cannot have it both ways: you cannot have local government delivering it, as well as the third sector and the credit unions. We are trying to make sure that we procure a service for delivery, which is related to some of the issues relating to people applying and failing and the subsequent appeals process. We are trying to get a consistent scheme that is held at the top by a procured service provider and delivered locally—whether that is by credit unions, local government or third sector organisations. However, the detail of that is still unclear and I cannot pre-empt a procurement programme.

Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelod o ran yr egwyddor bod undebau credyd o'r trydydd sector yn gweithio i gyflawni hyn. Rwyf yn cydnabod pwynt yr Aelod—nid wyf yn meddwl ei fod yn dadlau dros hyn—ond ni allwch ei chael hi bob ffordd: ni allwch gael llywodraeth leol yn ei gyflwyno, yn ogystal â'r trydydd sector a'r undebau credyd. Rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn caffael gwasanaeth i'w gyflwyno, sy'n gysylltiedig â rhai o'r problemau o ran pobl yn gwneud cais ac yn methu, a'r broses apelio ddilynol. Rydym yn ceisio cael cynllun cyson sy'n cael ei gynnal ar y brig gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi ei gaffael a'i ddarparu'n lleol—boed hynny gan undebau credyd, llywodraeth leol neu sefydliadau trydydd sector. Fodd bynnag, mae manylion hynny yn dal yn aneglur ac ni allaf gyhoeddi manylion rhaglen gaffael ymlaen llaw.

I recognise the issues around housing benefit and council tax benefit, and I am very aware of the professional capability within local authorities. However, there is often a social stigma attached to people accessing this fund when in need. Without being overtly political about this, we must consider the sad fact that some people try to shame people who are in poverty, not through any fault of their own, but because of the circumstances in which they find themselves.

Rwyf yn cydnabod y broblem sy'n ymwneud â budd-dal tai a budd-dal treth cyngor, a gwn yn iawn am y gallu proffesiynol o fewn awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae stigma cymdeithasol yn aml ynghlwm wrth bobl sy'n defnyddio'r gronfa hon pan maent mewn angen. Heb fod yn rhy wleidyddol am hyn, rhaid inni ystyried y ffaith drist bod rhai pobl yn ceisio codi cywilydd ar bobl sy'n byw mewn tlodi, nid oherwydd eu bai hwy, ond oherwydd yr amgylchiadau maent yn cael eu hunain ynddynt.

We must ensure that the people who can access this fund feel comfortable in doing so. When those people and families are most in need, we should give them every opportunity to access this easily. That is about availability, access and coverage—whichever unit delivers this must be able to meet those criteria going forward.

Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y bobl sy'n gallu cael mynediad at y gronfa hon yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny. Pan fydd y bobl a'r teuluoedd hynny fwyaf mewn angen, dylem roi pob cyfle iddynt gael mynediad at hyn yn hawdd. Mae a wnelo hynny ag argaeledd, mynediad a lleoliad daearyddol—dylai pa bynnag uned sy'n darparu hyn allu bodloni'r meini prawf hynny yn y dyfodol.

**Lynne Neagle:** Thank you for your statement, Minister. Like you, I am concerned about the timing of these changes, given the state of the economy and the massive changes that we are seeing to the welfare benefit system. I have a few issues that I want to question you about. First, while

**Lynne Neagle:** Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Fel chithau, rwyf yn pryderu am amseriad y newidiadau hyn, o gofio am gyflwr yr economi a'r newidiadau enfawr a welwn i'r system fudd-daliadau lles. Mae gen i rywfaint o faterion rwyf am eich holi yn eu cylch. Yn gyntaf, er fy mod yn

I welcome the fact that you are looking to establish national qualifying criteria to ensure consistency, if you opt for a scheme delivered by local authorities or by a consortia of local authorities, what assurances can you give that any funding that goes out to local government for that will be ring fenced?

croesawu’r ffaith eich bod yn bwriadu sefydlu meini prawf cymhwyso cenedlaethol i sicrhau cysondeb, os byddwch yn dewis cynllun a gyflwynir gan awdurdodau lleol neu gan gonsortia o awdurdodau lleol, pa sicrwydd allwch chi ei roi y bydd unrhyw arian sy’n mynd allan i lywodraeth leol ar gyfer hynny yn cael ei neilltuo?

4.30 p.m.

I, too, was concerned about the content in relation to voucher schemes. We need to be careful not to stigmatise poor families, because we know that some people will do without rather than face that kind of stigma. What was the evidence base in the consultation that supported that? For example, were the consultees saying that they were worried that people would not spend the money on what it was intended for? I would not want us to send a message to people in need that we cannot trust them to spend money on what it is for. Finally, on the issue of grants versus loans, my concern about moving to a grant-based system is that that would make it harder for people to get resources because they would then become very precious indeed. What consideration have you given to that? The last thing that we would want to see would be people who are in need of short-term help going to seek that help from people like loan sharks and doorstep lenders.

Roeddwn innau hefyd yn bryderus am gynnwys y cynlluniau talebau. Mae angen i ni fod yn ofalus i beidio â difrïo teuluoedd tlawd, oherwydd gwyddom y bydd rhai pobl yn mynd heb bethau yn hytrach nag wynebu’r math hwnnw o stigma. Beth oedd sail y dystiolaeth yn yr ymgynghoriad a oedd yn cefnogi hynny? Er enghraifft, a oedd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn dweud eu bod yn poeni na fyddai pobl yn gwario'r arian ar yr hyn a fwriadwyd? Ni fyddwn am i ni gyfleu neges i bobl mewn angen, na allwn ymddiried ynddynt i wario arian ar yr hyn y dylent ei wario arno. Yn olaf, ar y mater o grantiau neu fenthyciadau, fy mhryder ynghylch newid i system grantiau yw y byddai hynny'n ei gwneud yn anoddach i bobl gael adnoddau, oherwydd y byddent wedyn yn dod yn werthfawr iawn. Pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i hynny? Y peth olaf yr ydym am ei weld yn digwydd, yw pobl sydd angen cymorth yn y tymor byr yn mynd i ofyn am y cymorth hwnnw gan bobl fel benthycwyr arian didrwydded, a benthycwyr ar garreg y drws.

**Carl Sargeant:** I thank the Member for the important points that she has raised in this debate. The funding that we receive from the UK Government for the social fund will be ring-fenced. My view is that we will make sure that all the funding given for the social fund will go into it. It is a limited amount of money—indeed, the numbers are unknown. As I said earlier, we believe that the quantum will be a lot less than we were expecting in the first place; there will be up to a 20% reduction, which is a significant knock to the block grant that will come across. That will have implications for the number of people who will be able to take up the scheme as there will be less money to deliver it. That will be extremely challenging. When there is no more money, there is no more to give, and

**Carl Sargeant:** Diolch i'r Aelod am y pwyntiau pwysig a gododd yn ystod y ddadl hon. Bydd yr arian a gawn gan Lywodraeth y DU ar gyfer y gronfa gymdeithasol wedi’i neilltuo. Fy marn i yw y byddwn yn sicrhau y bydd yr holl arian a roddwyd ar gyfer y gronfa gymdeithasol yn mynd i’r gronfa honno. Nid yw’n swm mawr o arian—yn wir, ni wyddom beth yw’r swm. Fel y nodais yn gynharach, rydym yn credu y bydd y cwantwm yn llawer llai nag oeddem yn ei ddisgwyl yn y lle cyntaf; bydd gostyngiad o hyd at 20%, sy'n ergyd sylweddol i'r grant bloc a geir. Bydd goblygiadau yn hyn o beth i nifer y bobl a fydd yn gallu manteisio ar y cynllun gan y bydd llai o arian i'w gyflawni. Bydd hynny'n hynod o heriol. Pan na fydd rhagor o arian, ni fydd dim mwy i’r roi, ac

that worries me immensely.

mae hynny'n fy mhoeni'n fawr iawn.

As I said to Members earlier about the vouchers, I note your concerns about the stigma of using vouchers, or not using them at all because they are vouchers. There are new opportunities with store cards that we might be able to consider as a way of doing that. The reasoning behind that was about the cost-effectiveness of doing that. We thought that with larger organisations—if it was for a supply of washing machines across Wales—we would get a bigger procurement benefit by procuring from a larger company in that process. That is just one example of the opportunities available, notwithstanding the Member's concerns.

Fel y dywedais wrth yr Aelodau yn gynharach am y talebau, nodaf eich pryderon am y stigma o ddefnyddio talebau, neu beidio â'u defnyddio o gwbl oherwydd mai talebau ydynt. Mae cyfleoedd newydd gyda chardiau siopau, y gallem eu hystyried fel ffordd o wneud hynny. Mae'r rhesymeg sy'n sail i hyn yn gysylltiedig â pha mor gost-effeithiol ydyw i wneud hynny. Roeddem yn credu, o ran sefydliadau mwy—os oedd am gyflenwad o beiriannau golchi ar draws Cymru——y caem well budd caffael drwy gaffael gan gwmni mwy o faint yn y broses honno. Dim ond un enghraifft yw hyn o'r cyfleoedd sydd ar gael, er gwaethaf pryderon yr Aelod.

On the issue of grants versus loans, I agree that when people are most vulnerable, this might give them a bit of breathing space, but the inability to repay might lead them to the door of a loan shark, which is something that we must prevent at every opportunity. That is why we are moving down this route. I am grateful for the Member's support in this challenging time, with potentially 20% less funding for the core and an unknown quantum for the administration cost. For the people who are proposing to bid to deliver a scheme, we do not know how much money they will have to deliver that. It is a really difficult place for us and them to move forward.

Ynghylch y mater o grantiau neu fenthyciadau, rwy'n cytuno, pan fydd pobl yn fwyaf agored i niwed, gallai hyn roi ychydig o seibiant iddynt, ond efallai y bydd methu ag ad-dalu yn eu harwain at fenthycwyr didrwydded, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei atal bob tro. Dyna pam rydym yn dilyn y trywydd hwn. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau yn y cyfnod anodd hwn, gyda chyllid a allai fod 20% yn llai ar gyfer y costau craidd a chwantwm anhysbys ar gyfer y costau gweinyddol. Ar gyfer y bobl sy'n bwriadu gwneud cynnig i ddarparu cynllun, ni wyddom faint o arian a fydd ganddynt i'w ddarparu. Mae'n sefyllfa anodd iawn i ni ac iddynt hwythau ar gyfer symud ymlaen.

**The Deputy Presiding Officer:** I still have three Members who wish to be called, so quick questions only, please.

**Y Dirprwy Lywydd**: Mae tri Aelod sy'n dymuno cael eu galw o hyd, felly a gawn ni gwestiynau cyflym yn unig, os gwelwch yn dda.

**Julie Morgan:** I also welcome the statement. How are you going to incorporate the different parts of the social fund that are being devolved? The crisis loan scheme is, on average, between £50 and £60 and the longer term community grant is between £400 and £500. How are you going to incorporate those and ensure that it is a non-stigmatising scheme? I also express concern about the idea of having food vouchers.

**Julie Morgan**: Rwyf innau hefyd yn croesawu'r datganiad. Sut y byddwch yn ymgorffori'r gwahanol rannau o'r gronfa gymdeithasol a ddatganolir? Mae'r cynllun benthyciad argyfwng, ar gyfartaledd, rhwng £50 a £60 a'r grant cymuned tymor hwy rhwng £400 a £500. Sut y byddwch yn ymgorffori'r rheini ac yn sicrhau bod hwn yn gynllun heb stigma'n perthyn iddo? Dymunaf fynegi pryder am y syniad o gael talebau bwyd hefyd.

**Carl Sargeant:** I repeat some of my

**Carl Sargeant**: Rwy'n ailadrodd rhai o fy

responses to colleagues who have raised those matters today. The detail of the criteria for the delivery of the scheme is still being worked up in terms of how we will do it. We cannot move much further until we know what the quantum of money is for delivery and how we will split that between the two funds. I would expect a single delivery organisation to monitor and deliver both schemes in future, whoever that might be. As Lynne Neagle mentioned earlier, and as you said, Julie, I recognise the issue that you raised about vouchers and will give that further consideration.

ymatebion i gydweithwyr sydd wedi codi'r materion hynny heddiw. Mae manylion y meini prawf ar gyfer darparu'r cynllun yn dal i gael eu llunio, o ran sut y byddwn yn gwneud hynny. Ni allwn symud yn llawer pellach nes y gwyddom beth yw'r cwantwm o arian ar gyfer ei ddarparu a sut y byddwn yn ei rannu rhwng y ddwy gronfa. Disgwyliwn mai un sefydliad darparu fydd yn monitro a darparu'r ddau gynllun yn y dyfodol, pa sefydliad bynnag fydd hwnnw. Fel y soniodd Lynne Neagle yn gynharach ac fel y dywedasoch chi, Julie, rwy'n cydnabod y mater a godwyd gennych am dalebau a byddaf yn ystyried hwn ymhellach.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, thank you for your statement. I welcome the UK Government's initiative in devolving the community care grants and crisis loans to the Welsh Government. However, you have twice referred to 20% cuts. I have information here from the Department for Work and Pensions that is worth pointing out: the current budget is being protected, so this is not about saving money but localising provision.

**Janet Finch-Saunders**: Weinidog, diolch i chi am eich datganiad. Rwy'n croesawu menter Llywodraeth y DU sy'n datganoli'r grantiau gofal cymunedol a benthyciadau argyfwng i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydych wedi cyfeirio ddwywaith at doriadau o 20%. Mae gen i wybodaeth yma gan yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n werth ei nodi: caiff y gyllideb bresennol ei gwarchod, felly nid yw hyn yn ymwneud ag arbed arian ond â lleoleiddio'r ddarpariaeth.

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Is this leading to a question?

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. A yw hyn yn arwain at gwestiwn?

**Janet Finch-Saunders:** Yes, it is.

**Janet Finch-Saunders**: Ydy.

There are to be no cuts to crisis loans and community care grants and provision can be more personalised. Therefore, I would like to know from where you got your figure of 20%.

Ni wneir unrhyw doriadau i fenthyciadau argyfwng a grantiau gofal cymunedol a gall y ddarpariaeth fod yn fwy personol. Felly, hoffwn wybod o ble y cawsoch eich ffigur o 20%.

Many other questions have been asked in relation to the scrutiny of this. I believe that this could be administered through local authorities. In the UK, extra money is being given to facilitate this. Why are you not thinking like that? Once again, there is a top-down approach and I think that you should have more confidence in local authorities on this. I would like to know in particular why you have quoted the figure of 20% cuts.

Mae llawer o gwestiynau eraill wedi'u gofyn mewn cysylltiad â chraffu ar hyn. Credaf y byddai modd gweinyddu hwn drwy awdurdodau lleol. Yn y DU, rhoddir arian ychwanegol ar gyfer hwyluso hyn. Pam nad ydych chi'n meddwl yn yr un ffordd? Unwaith eto, mae yna feddylfryd o'r brig i lawr a chredaf y dylech gael mwy o hyder yn yr awdurdodau lleol yn hyn o beth. Hoffwn wybod, yn arbennig, pam rydych wedi dyfynnu'r ffigur o 20% o ran toriadau.

**Carl Sargeant:** I am grateful to the Member; her contribution has been interesting. I am not familiar with the figures that you did not quote, actually. You said that there would be

**Carl Sargeant**: Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod; bu ei chyfraniad yn ddiddorol. Nid wyf yn gyfarwydd â'r ffigurau nad oeddech yn eu dyfynnu, mewn gwirionedd. Dywedasoch na

no reduction in the DWP spend; that it would be ring-fenced or protected. The figures that my department has been receiving from the DWP indicate that it is trying to reduce the social fund activity to the levels of 2005. If that is achieved, it will mean a reduction of at least £2.5 million, which is a 20% cut to the individual budget. This is something that my department has been working on for many months. If either you or your colleagues have now come up with some new, unique figures, I would certainly be interested to hear them. I will be taking it up with the DWP that it has dared to share figures with the opposition Members in terms of delivering a scheme that we are still unaware of. It would be quite unprofessional if that were the case. However, I would be surprised if that was the case.

fyddai dim gostyngiad yng ngwariant yr Adran Gwaith a Phensiynau; y byddai'n cael ei neilltuo neu’i ddiogelu. Mae'r ffigurau y mae fy adran wedi’u cael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos ei bod yn ceisio lleihau gweithgarwch y gronfa gymdeithasol i’r un lefelau â 2005. Os cyflawnir hynny, bydd yn golygu gostyngiad o £2.5 miliwn o leiaf, sy’n doriad o 20% yn y gyllideb unigol. Mae fy adran wedi bod yn gweithio ar hyn ers misoedd lawer. Os ydych chi neu'ch cydweithwyr wedi darganfod ffigurau newydd, unigryw, yn sicr byddai gennyf ddiddordeb i’w clywed. Byddaf yn codi’r mater gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau, ei bod wedi meiddio rhannu ffigurau gydag Aelodau'r wrthblaid ynghylch cyflawni cynllun nad ydym yn ymwybodol ohono o hyd. Byddai hynny’n gwbl amhroffesiynol os yw’n wir. Fodd bynnag, rwy’n amau hynny.

In terms of the local authorities delivering aspects of this, I am glad that the Member welcomes the fact that this is being devolved to Wales. Let me be very clear: I do not really want this social fund, nor do I want council tax benefit. The fact of the matter is that this is a way of obscuring the fact that the UK Government is making major cuts to the benefits of the most vulnerable people in communities and you should be ashamed to be a part of that.

O ran yr awdurdodau lleol yn darparu agweddau ar hyn, rwy’n falch bod yr Aelod yn croesawu'r ffaith bod hyn yn cael ei ddatganoli i Gymru. Gadewch i mi fod yn glir iawn: Nid wyf eisiau’r gronfa gymdeithasol, na budd-dal y dreth gyngor mewn gwirionedd. Y gwir amdani yw bod hyn yn ffordd o guddio'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn gwneud toriadau sylweddol i fudd-daliadau’r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, a dylech fod â chywilydd i fod yn rhan o hynny.

**Mark Drakeford:** Minister, will you confirm one more time that, with barely six working months left before this is meant to be introduced in Wales, you are having to devise a scheme without knowing how much money will be transferred to you, although there will be a substantial cut? The social fund has been cut already this year by the coalition’s insistence that no more than three crisis loans can be claimed within a 12-calendar-month period. You do not know how much money will be transferred to support the administration of a scheme that, historically, for every £3 that has been given out, it has cost £1 to administer, and you do not know how long the funding will last when you do get it. Whatever happened to the principles of decent administration?

**Mark Drakeford**: Weinidog, a wnewch chi gadarnhau unwaith eto, gyda phrin chwe mis gwaith ar ôl cyn y bwriedir cyflwyno hyn yng Nghymru, rydych yn gorfod dyfeisio cynllun heb wybod faint o arian fydd yn cael ei drosglwyddo i chi, er y bydd toriad sylweddol? Bu toriadau yn y gronfa gymdeithasol eisoes eleni oherwydd bod y Glymblaid wedi mynnu na ellir hawlio mwy na thri benthyciad argyfwng o fewn cyfnod o 12 mis calendr. Nid ydych yn gwybod faint o arian a drosglwyddir i gefnogi’r gwaith o weinyddu’r cynllun, sydd, yn hanesyddol, wedi costio £1 i weinyddu’r gwaith am bob £3 a dalwyd allan, ac nid ydych yn gwybod am ba hyd y bydd yr arian yn para pan fyddwch yn ei gael. Beth a ddigwyddodd i egwyddorion gweinyddiaeth weddus?

**Carl Sargeant:** I can confirm all the facts

**Carl Sargeant**: Gallaf gadarnhau’r holl

that the Member raised. We do not know what the core value will be, we do not know what the administration costs will be and we certainly do not know when we will get that detail.

ffeithiau a godwyd gan yr Aelod. Ni wyddom beth fydd y gwerth craidd, ni wyddom beth fydd y costau gweinyddol, ac yn sicr, ni wyddom pryd y byddwn yn cael y manylion hynny.

I am extremely concerned about our ability and that of our partners to help the most vulnerable in our communities by April 2013, in relation to both council tax and the social fund. We have a duty to continue to try to tease out these numbers in order to deliver this scheme, but I remain very concerned about the opportunities presented to us by the UK Government and our ability to deliver on that for the people of Wales.

Rwy’n bryderus iawn am ein gallu ni, a gallu ein partneriaid i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau erbyn mis Ebrill 2013, mewn cysylltiad â’r dreth gyngor a'r gronfa gymdeithasol. Mae dyletswydd arnom i barhau i geisio cael y ffigurau hyn, er mwyn cyflawni'r cynllun hwn, ond rwy’n bryderus iawn o hyd am y cyfleoedd a gyflwynwyd i ni gan Lywodraeth y DU, a’n gallu i gyflawni yn hyn o beth, ar gyfer pobl Cymru.

**The Deputy Presiding Officer:** Thank you, Minister.

**Y Dirprwy Lywydd**: Diolch, Weinidog.

## Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012
## Designation of Features (Appeals) (Wales) Regulations 2012

*Cynnig NDM5032 Jane Hutt*

*Motion NDM5032 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:*

*To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 27.5:*

*Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o’r Gorchymyn Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mehefin 2012.*

*Approves that the draft The Designation of Features (Appeals) (Wales) Regulations 2012 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 15 June 2012.*

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I move the motion.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Cynigiaf y cynnig.

Under the terms of the Flood and Water Management Act 2010, the Environment Agency, lead local flood authorities and internal drainage boards are provided with new powers enabling them to designate a natural or man-made structure or feature of the environment, if they think that its existence and location affects a flood or coastal erosion risk.

O dan amodau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, darperir pwerau newydd i Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau llifogydd lleol arweiniol a byrddau draenio mewnol sy’n eu galluogi i ddynodi nodwedd neu strwythur naturiol neu artiffisial yn yr amgylchedd, os ydynt yn credu bod ei fodolaeth a’i leoliad yn effeithio ar y perygl o lifogydd neu erydu arfordirol.

The main objective of these powers is to prevent uncontrolled damage or removal of structures or features that contribute towards flood and coastal erosion risk management systems. The powers will serve to manage

Prif amcan y pwerau hyn yw atal difrod heb ei reoli, neu dynnu strwythurau neu nodweddion sy'n cyfrannu at systemau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd y pwerau yn cynorthwyo i reoli perygl

flood and coastal erosion risk and ensure that owners are informed and made aware of their importance and the contribution made to flood or coastal risk management systems. The Designation of Features (Appeals) (Wales) Regulations 2012 have been prepared to provide a comprehensive and independent right of appeal for owners of structures or features in relation to the decisions taken by the designating authorities.

llifogydd ac erydu arfordirol ac yn sicrhau bod perchnogion yn cael eu hysbysu a'u bod yn ymwybodol o'u pwysigrwydd a'r cyfraniad a wneir ganddynt at systemau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Paratowyd Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Hysbysiadau) (Cymru) 2012 i ddarparu hawl cynhwysfawr ac annibynnol i apelio ar gyfer perchnogion strwythurau neu nodweddion mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wnaed gan yr awdurdodau dynodi.

**The Deputy Presiding Officer:** I have no other speakers. I presume, Minister, that you do not wish to make a further contribution. I see that you do not.

**Y Dirprwy Lywydd:** Nid oes rhagor o siaradwyr. Rwy'n tybio, Weinidog, nad ydych yn dymuno gwneud cyfraniad pellach. Gwelaf nad ydych.

The proposal is to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, the motion is therefore agreed.

Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog rhif 12.36, caiff y cynnig ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Rhifedd
## Numeracy

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 10 ac 11 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 6, 7, 8 a 9 yn enw William Graham.

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2, 3, 10 and 11 in the name of Aled Roberts, amendments 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 6, 7, 8 and 9 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5031 Jane Hutt*

*Motion NDM5031 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn nodi:*

*1. Notes:*

*a) bod rhifedd yn sgil hanfodol;*

*a) that numeracy is a fundamental skill;*

*b) bod angen codi safonau rhifedd ar fyrder gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn;*

*b) that there is an urgent need to raise standards of numeracy with a commitment from all sectors of education to delivering this objective;*

*c) bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i godi'n sylweddol lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd er mwyn cynorthwyo'r sector addysg a dysgwyr i godi safonau rhifedd.*

*c) the Welsh Government's intention to publish a National Numeracy Programme to significantly raise levels of attainment in numeracy in order to support the education sector and learners to raise numeracy*

*standards.*

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** I move the motion.

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Cynigiaf y cynnig.

I wish to remind the Assembly that, in February 2011, I set out our priorities to tackle underperformance in education in Wales. These included a focus on raising levels of literacy and numeracy. To start with, perhaps we should be clear about what we mean by numeracy. It is not simply mathematics. 'Numeracy' describes the set of skills needed to tackle a variety of real-world problems by applying numerical reasoning in order to understand how to solve that problem and then carrying out the mathematical procedures to find the solution. People in all walks of life and in all careers need numbers on a daily basis without being mathematicians.

Hoffwn atgoffa'r Cynulliad fy mod wedi nodi ein blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â thanberfformio ym maes addysg yng Nghymru, ym mis Chwefror 2011. Roedd y blaenoriaethau'n cynnwys ffocws ar godi lefelau llythrennedd a rhifedd. I ddechrau, efallai y dylem fod yn glir ynghylch beth a olygwn wrth y gair rhifedd. Nid mathemateg yn unig mohono. Mae 'rhifedd' yn disgrifio cyfres o sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael ag amrywiaeth o broblemau yn y byd go iawn, drwy ddefnyddio dulliau rhesymu rhifiadol er mwyn deall sut i ddatrys y broblem, ac yna dilyn y drefn fathemategol o ddod o hyd i'r ateb. Mae angen rhifau ar bobl ym mhob maes ac ym mhob math o yrfa mewn bywyd bob dydd, er nad ydynt yn fathemategwyr.

We are moving forward. Mathematics GCSE results are improving. Over the last decade, through schemes such as the foundation phase and the Welsh baccalaureate, we have focused on skills such as literacy and numeracy. However, I do not need to labour the point that our Programme for International Student Assessment scores for the mathematical literacy domain were below our expectations. I have made very clear our ambition for Wales to climb the PISA rankings and to be in the top 20 of PISA nations by 2015. I have also made it clear that this is a significant challenge.

Rydym yn cymryd camau ymlaen. Mae canlyniadau TGAU Mathemateg yn gwella. Dros y degawd diwethaf, drwy gynlluniau fel y cyfnod sylfaen a bagloriaeth Cymru, rydym wedi canolbwyntio ar sgiliau fel llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes angen i mi bwysleisio'r pwynt bod ein sgoriau o ran y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) ar gyfer y maes llythrennedd mathemategol yn is na'n disgwyliadau. Rwyf wedi mynegi ein huchelgais ar gyfer Cymru yn amlwg iawn, sef dringo yn uwch o ran safle PISA a bod ymhlith yr 20 gwlad uchaf ar raddfa PISA erbyn 2015. Rwyf hefyd wedi datgan yn glir bod hyn yn her sylweddol.

Numeracy standards have a significant impact on our economy. The London School of Economics found that adults with an equivalent of year 9 ability or above in numeracy earn an average of 26% more than those below this level. Having basic numeracy skills is important, but so is unlocking the potential of able and talented pupils to be our next generation of scientists, technologists, engineers and mathematicians. We fully recognise the correlation between deprivation and levels of attainment in numeracy, and we want to do something about it. Our £32.4 million pupil deprivation grant for 2012-13 will prioritise numeracy as

Caiff safonau rhifedd effaith sylweddol ar ein heconomi. Canfu'r London School of Economics fod oedolion sydd â gallu sy'n cyfateb i allu blwyddyn 9 neu uwch mewn sgiliau rhifedd yn ennill, ar gyfartaledd, 26% yn fwy na'r rhai sy'n is na'r lefel hon. Mae sgiliau rhifedd sylfaenol yn bwysig, ond mae datgloi potensial disgyblion galluog a thalentog hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau bod digon o wyddonwyr, technolegwyr, peirianwyr a mathemategwyr ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Rydym yn cydnabod y berthynas rhwng amddifadedd a lefelau cyrhaeddiad o ran rhifedd, ac rydym am roi sylw i'r mater. Bydd ein grant amddifadedd

one of the three national priorities we have identified to tackle.

disgyblion o £32,400,000 ar gyfer 2012-13 yn sicrhau bod rhifedd yn un o'r tri blaenoriaeth cenedlaethol a nodwyd gennym i fynd i'r afael â hwy.

I intend to base our actions for the national numeracy programme around four themes: the curriculum, that is, what is taught; teaching, which is how it is taught; pupil interventions; and behavioural change in terms of attitudes towards numeracy. We have already acted, and we have also been carrying out research into which specific activities can lift standards of numeracy. We are currently consulting on the national literacy and numeracy framework, and we will also introduce annual numeracy tests for the first time in May 2013, to parallel the introduction of reading tests.

Rwy'n bwriadu seilio ein camau gweithredu ar gyfer y rhaglen rhifedd genedlaethol ar bedair thema: y cwricwlwm, hynny yw, yr hyn a addysgir; addysgu, sef, sut y mae'n cael ei addysgu; ymyriadau disgyblion; a newid ymddygiadau o ran agweddau at rifedd. Rydym wedi gweithredu eisoes, ac rydym hefyd wedi bod yn gwneud ymchwil i ba weithgareddau penodol a all godi safonau rhifedd. Rydym wrthi'n ymgynghori ar y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, a byddwn hefyd yn cyflwyno profion rhifedd blynyddol am y tro cyntaf ym mis Mai 2013, a gaiff eu cyflwyno ochr yn ochr â phrofion darllen.

I have announced elsewhere the support I expect teachers to receive through the high-quality resources, the professional learning communities and the Master's in educational practice. Through the school effectiveness grant, we have given substantial support to regional consortia to run catch-up programmes for those falling behind. Through the same grant, I have asked consortia to identify, develop and deploy outstanding teachers of numeracy to coach and mentor other teachers. My department is currently considering a range of new actions to support school leaders, teachers and pupils. It is also considering how to tackle the issue of the apparent social acceptability of not being good with numbers. We also recognise the crucial role that parents play in helping to raise standards.

Rwyf wedi cyhoeddi mewn mannau eraill y cymorth yr wyf yn disgwyl i athrawon ei gael, drwy'r adnoddau o ansawdd uchel, y cymunedau dysgu proffesiynol a'r radd Meistr mewn ymarfer addysgol. Drwy'r grant effeithiolrwydd ysgolion, rydym wedi rhoi cefnogaeth sylweddol i gonsortia rhanbarthol i gynnal rhaglenni dal i fyny ar gyfer y rhai sydd ar ei hôl hi. Drwy'r un grant, rwyf wedi gofyn i'r consortia adnabod, datblygu a defnyddio athrawon rhifedd rhagorol i hyfforddi a mentora athrawon eraill. Mae fy adran yn ystyried cyfres o gamau gweithredu newydd ar hyn o bryd, i gefnogi arweinwyr ysgolion, athrawon a disgyblion. Mae hefyd yn ystyried sut i fynd i'r afael â'r broblem o ran derbynioldeb cymdeithasol ymddangosiadol peidio â bod yn dda gyda rhifau. Rydym hefyd yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae rhieni yn ei chwarae i helpu i godi safonau.

The Welsh Government and its partners in all sectors have a role to play to improve the standard of numeracy of our children and young people. My department has already been engaged in stock takes with the different consortia to look at the issues of underperformance, for example, in GCSE mathematics. The percentage of pupils gaining A* to C grades in mathematics has been consistently lower than those gaining the same grades in English or Welsh first-language across all consortia and all

Mae gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid ym mhob sector rôl i'w chwarae i wella safon rhifedd ein plant a'n pobl ifanc. Mae fy adran eisoes wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirio gyda'r consortia gwahanol, i edrych ar faterion fel tangyflawni, er enghraifft, mewn mathemateg TGAU. Mae canran y disgyblion sy'n ennill gradd A* i C mewn mathemateg wedi bod yn is yn gyson na'r rhai sy'n cael yr un graddau mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, ar draws pob consortia a phob awdurdod.

authorities.

Our school standards unit has been looking at what has actually worked in schools that have consistently bucked the trend in mathematics at GCSE. The data from that field work are being analysed and the report will be submitted to me in September and subsequently published.

Bu ein huned safonau ysgolion yn ystyried beth sydd wedi gweithio mewn gwirionedd mewn ysgolion sy’n gyson yn mynd yn groes i’r arfer cyffredinol a welir ym maes mathemateg ar lefel TGAU. Mae’r data o’r gwaith maes hwnnw yn cael eu dadansoddi a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i mi ym mis Medi a’i gyhoeddi ar ôl hynny.

4.45 p.m.

There are some excellent examples in Wales of school projects that schools have done well and schools have then spread that experience to other places, for example, Eirias High School in Conwy, where standards in mathematics at key stage 4 have risen substantially from 54% in 2009 to 69% in 2011, with 90 students now studying maths in the sixth form. The experience there is that the head of mathematics approached the senior education officer in Conwy last autumn to secure funding for himself and three other members of his team to be taken off the timetable to assemble resources so that other teachers in Conwy could access and use those resources in the classroom. They have developed training for maths teachers across Conwy, which has been highly successful in developing that best practice. So, we want to learn from best practice, we want to spread best practice and, ultimately, the success of that will be demonstrated through results. I am pleased that Eirias is also co-operating with maths trainees who are taking the postgraduate certificate in education in the Bangor and Aberystwyth teacher training partnership, so that they are getting experience of some of the best practice in teaching mathematics. There is good practice in Wales; we need to learn from it and we need to ensure that it is spread.

Mae rhai enghreifftiau rhagorol i’w cael yng Nghymru o brosiectau ysgol y llwyddodd ysgolion i’w gwneud yn dda ac mae ysgolion wedi lledaenu’r profiad hwnnw i fannau eraill, megis Ysgol Uwchradd Eirias yng Nghonwy, lle mae safonau mewn mathemateg yng nghyfnod allweddol 4 wedi cynyddu’n sylweddol o 54% yn 2009 i 69% yn 2011, gyda 90 o fyfyrwyr yn astudio mathemateg yn y chweched dosbarth erbyn hyn. Y profiad yno yw bod y pennaeth mathemateg wedi cysylltu â’r uwch swyddog addysg yng Nghonwy yr hydref diwethaf i sicrhau cyllid iddo’i hun a thri aelod arall o’i dîm i gael eu tynnu oddi ar yr amserlen er mwyn casglu adnoddau fel y gallai athrawon eraill yng Nghonwy gael mynediad at yr adnoddau hynny a’u defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Maent wedi datblygu hyfforddiant i athrawon mathemateg ledled Conwy, sydd wedi bod yn llwyddiant mawr o ran datblygu’r arfer gorau hwnnw. Felly, rydym am ddysgu o arfer gorau, rydym am ei ledaenu ac, yn y pen draw, bydd llwyddiant hynny’n cael ei ddangos mewn canlyniadau. Rwyf yn falch bod Eirias hefyd yn cydweithio â hyfforddeion mathemateg sy’n dilyn y cwrs tystysgrif addysg i raddedigion ym mhartneriaeth hyfforddi athrawon Bangor ac Aberystwyth, fel eu bod yn cael profiad o rai o’r arferion gorau wrth addysgu mathemateg. Mae arfer da yng Nghymru; mae angen i ni ddysgu oddi wrtho a sicrhau y caiff ei ledaenu.

*Gwelliant 1 Aled Roberts*

*Amendment 1 Aled Roberts*

*Ychwanegu is-bwynt b) newydd ac ail-rifo’r pwyntiau sy’n dilyn:*

*Add as new sub-point b) and renumber accordingly:*

*bod Cymru, o dan asesiad PISA 2009, yn 40fed o blith 67 o wledydd ym maes*

*that, under the 2009 PISA assessment, Wales ranks 40th out of 67 countries for*

*mathemateg.*

*mathematics.*

*Gwelliant 2 Aled Roberts*

*Amendment 2 Aled Roberts*

*Dileu is-bwynt b), a rhoi yn ei le 'bod angen ymateb ar fyrder i'r hen broblem o safonau rhifedd yng Nghymru, nad yw Gweinidogion addysg blaenorol wedi mynd i'r afael â hi, er mwyn codi safonau rhifedd gydag ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn'.*

*In sub-point b), after 'need to' insert 'respond to the long-standing issue of numeracy standards in Wales, which has not been tackled by previous education Ministers, in order to'*

*Gwelliant 3 Aled Roberts*

*Amendment 3 Aled Roberts*

*Yn is-bwynt b), ar ôl 'gydag ymrwymiad gan' dileu 'bob', ac ychwanegu 'Lywodraeth Cymru a phob'.*

*In sub-point b), after 'commitment from' insert 'the Welsh government and'*

*Gwelliant 10 Aled Roberts*

*Amendment 10 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r buddsoddiad a ddarparwyd gan y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.*

*Welcomes the investment provided by the pupil deprivation grant, which will help to improve numeracy in schools.*

*Gwelliant 11 Aled Roberts*

*Amendment 11 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r grant amddifadedd disgyblion yn ei flwyddyn ganlynol er mwyn parhau i helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.*

*Calls on the Welsh government to extend the pupil deprivation grant in its following year to continue to help improve numeracy in school.*

**Aled Roberts:** Cynigiaf welliannau 1, 2, 3, 10 ac 11 yn fy enw i.

**Aled Roberts:** I move amendments 1, 2, 3, 10 and 11 in my name.

As we have heard from the Minister on numerous occasions and in a number of locations, the 2009 PISA assessments placed Wales fortieth out of 67 countries for mathematics—10 places behind Northern Ireland, 12 places behind England and 19 places behind Scotland. It was reported last week that Michael Davidson, the head of PISA in Paris, believes that 15-year-olds in Wales are lagging two years behind their counterparts in Shanghai. We cannot, therefore, disagree in principle with the Government motion before us, but that does not mean that it cannot be improved. That is

Fel yr ydym wedi'i glywed gan y Gweinidog ar sawl achlysur ac mewn sawl man, roedd asesiadau PISA yn 2009 yn gosod Cymru yn ddeugeinfed allan o 67 o wledydd ar gyfer mathemateg—10 o leoedd y tu ôl i Ogledd Iwerddon, 12 y tu ôl i Loegr a 19 o leoedd y tu ôl i'r Alban. Dywedwyd yr wythnos diwethaf fod Michael Davidson, pennaeth PISA ym Mharis, o'r farn bod disgyblion 15 oed yng Nghymru ddwy flynedd y tu ôl i'w cymheiriaid yn Shanghai. Ni allwn, felly, anghytuno mewn egwyddor â chynnig y Llywodraeth sydd gerbron, ond nid yw hynny'n golygu nad oes modd ei wella. Dyna

why a significant number of amendments have been tabled by the opposition parties.

pam fod nifer sylweddol o welliannau wedi cael eu cynnig gan y gwrthbleidiau.

While we welcome this debate and the future publication of a national numeracy programme, we also recognise that the existence of any programme or strategy is no guarantee of successful implementation. We note that a numeracy framework is also being developed to be implemented on a statutory basis from September 2013. It is our belief that our amendments supplement and strengthen the original motion. They emphasise the need for urgent, systematic and comprehensive action. However, improving numeracy is not just about doing better in the PISA tests. Ranking higher in the maths PISA tables will be the natural consequence of improved numeracy skills. Teaching to the tests may, on the face of it, make Wales look better, but it will not address the staggering standard of young people's numeracy skills.

Er ein bod yn croesawu'r ddadl hon a'r ffaith y bydd rhaglen rhifedd genedlaethol yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol, rydym hefyd yn cydnabod nad yw bodolaeth unrhyw raglen neu strategaeth yn sicrhau y bydd yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus. Rydym yn nodi bod fframwaith rhifedd hefyd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar sail statudol o fis Medi 2013. Credwn fod ein gwelliannau yn ategu a chryfhau'r cynnig gwreiddiol. Maent yn pwysleisio bod angen gweithredu ar frys, yn systematig ac yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, mae gwella rhifedd yn golygu mwy na gwneud yn well yn y profion PISA. Bydd dod yn uwch yn nhablau mathemateg PISA yn ganlyniad naturiol i sgiliau rhifedd gwell. Gall addysgu ar gyfer y profion, ar yr olwg gyntaf, wneud Cymru edrych yn well, ond ni fydd yn mynd i'r afael â'r diffyg safon sgiliau rhifedd syfrdanol sydd gan bobl ifanc.

**Leighton Andrews:** May I just say—[*Inaudible*.]

**Leighton Andrews:** Ga'i ddweud—[*Anghlywadwy*.]

**Aled Roberts:** My understanding is that guidance is already being framed by the Government with regard to advising teachers how to ensure that those tests—[*Interruption*.] Yes, and training is being provided. I would hope that that is not the case, but time will tell.

**Aled Roberts:** Rwyf yn cael ar ddeall bod arweiniad eisoes yn cael ei fframio gan y Llywodraeth o ran cynghori athrawon ar sut i sicrhau bod y profion hynny—[*Torri ar draws*.] Ydy, ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Gobeithio nad yw hynny'n wir, ond amser a ddengys.

Since the days of the first Assembly, Minister, Labour Ministers for education have tried a variety of initiatives to improve standards. Thirteen years on, we hope that this particular policy proves more effective in continuing to raise numeracy standards and to improve the life chances of our young people in Wales. We are pleased to see from this motion that the Welsh Government expects commitment from all sectors of education. I would hope that consideration will be given to the plight of young people who currently want to enrol at FE colleges but whose lack of numeracy skills means that they are denied the opportunity to take up their chosen course. It is essential that the whole of the education sector is committed to these improvements, but it is also crucial that the Welsh Government acknowledges the responses to the consultation from education

Ers dyddiau'r Cynulliad cyntaf, Weinidog, mae Gweinidogion addysg Llafur wedi rhoi cynnig ar amryw o fentrau i wella safonau. Dair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach, gobeithio y bydd y polisi penodol hwn yn profi'n fwy effeithiol o ran parhau i godi safonau rhifedd a gwella cyfleoedd bywyd ein pobl ifanc yng Nghymru. Rydym yn falch o weld o'r cynnig hwn fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl ymrwymiad gan bob sector yn y byd addysg. Gobeithio y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hynt pobl ifanc sydd ar hyn o bryd am gofrestru mewn colegau addysg bellach, ond y mae eu diffyg sgiliau rhifedd yn golygu eu bod yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i fanteisio ar y cwrs o'u dewis. Mae'n hanfodol bod y sector addysg i gyd yn ymrwymo i'r gwelliannau hyn, ond mae hefyd yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr ymatebion a roddodd

professionals in this instance. Our hope is that the programme will also consider older learners and provide further support to children and young people by broadening the opportunity to improve numeracy skills to anyone who is paying the price of our previous failures.

gweithwyr addysg proffesiynol i'r ymgynghoriad yn hyn o beth. Ein gobaith yw y bydd y rhaglen hefyd yn ystyried dysgwyr hŷn ac yn rhoi cymorth pellach i blant a phobl ifanc drwy ehangu'r cyfle i wella sgiliau rhifedd y rhai sy'n talu'r pris am ein methiannau blaenorol.

The Minister mentioned during his statement this afternoon that data from fieldwork have been obtained by the consortia, and he quite rightly said that there are schools in Wales that have shown significant improvement in developing numeracy and literacy strategies. I would hope that the comment made in the Children and Young People Committee, that improvement may not always be down to one methodology, is also taken on board. It is to be hoped that the Government will not be prescriptive about the type and nature of the programmes that it seeks educationists to use.

Soniodd y Gweinidog yn ystod ei ddatganiad y prynhawn yma fod y consortia wedi cael y data o'r gwaith maes, ac roedd yn iawn i ddweud bod rhai ysgolion yng Nghymru wedi dangos gwelliant sylweddol o ran datblygu strategaethau rhifedd a llythrennedd. Gobeithio y bydd y sylw a wnaed yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sef nad yw gwelliant bob amser yn seiliedig ar un fethodoleg, hefyd yn cael ei ystyried. Gobeithio na fydd y Llywodraeth yn rhagnodol ynghylch math a natur y rhaglenni y mae'n ceisio cael addysgwyr i'w defnyddio.

I also acknowledge what the Minister said regarding the fact that improving numeracy skills does not have to be confined to schools. The Minister quite rightly suggested that there is an important role for parents, families and friends in helping to develop numeracy in more informal settings. In the formal setting of the school, however, it is good to see that additional funding is being put in place to support need. We obviously believe that the pupil deprivation grant, going directly to schools, will help the most disadvantaged pupils. In England, initial research suggests that pupil premium funding has been a major factor in improving the situation.

Rwyf hefyd yn cydnabod yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ynghylch y ffaith nad oes rhaid cyfyngu'r gwaith o wella sgiliau rhifedd i ysgolion. Awgrymodd y Gweinidog yn gwbl gywir bod rôl bwysig gan rieni, teuluoedd a ffrindiau er mwyn helpu i ddatblygu rhifedd mewn lleoliadau mwy anffurfiol. Yn lleoliad ffurfiol yr ysgol, fodd bynnag, mae'n dda gweld bod cyllid ychwanegol yn cael ei roi i gefnogi angen. Rydym yn amlwg o'r farn y bydd y grant amddifadedd disgyblion, sy'n mynd yn uniongyrchol i ysgolion, yn helpu'r disgyblion mwyaf difreintiedig. Yn Lloegr, mae ymchwil cychwynnol yn awgrymu y bu ariannu'r premiwm disgybl yn ffactor bwysig i wella'r sefyllfa.

As it stands, this motion essentially recognises what we already know and introduces a numeracy programme that we already expected. However, I welcome the fact that the Minister has brought forward a debate on this this afternoon rather than a statement. Our commitment to raising standards must surely be evident from our insistence on the pupil deprivation grant. We will support all of the amendments from the Conservatives and Plaid Cymru and look forward to voting through a robust, targeted and fit-for-purpose numeracy programme for Wales.

Fel y saif, mae'r cynnig hwn yn ei hanfod yn cydnabod yr hyn a wyddom eisoes ac yn cyflwyno rhaglen rifedd yr oeddem yn ei disgwyl yn barod. Fodd bynnag, croesawaf y ffaith fod y Gweinidog wedi cyflwyno dadl ar hyn y prynhawn yma yn hytrach na datganiad. Mae ein hymrwymiad i godi safonau yn dra amlwg o gofio inni fynnu cael y grant amddifadedd disgyblion. Byddwn yn cefnogi'r gwelliannau i gyd gan y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru ac edrychwn ymlaen at bleidleisio o blaid rhaglen rifedd gadarn, wedi ei thargedu ac sy'n addas i'r diben ar gyfer Cymru.

*Gwelliant 4 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*y gydberthynas sy'n parhau rhwng amddifadedd a'r lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd.*

*Gwelliant 5 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn gresynu bod safonau rhifedd wedi dirywio, ar ôl deuddeg mlynedd ddi-dor o Weinidogion addysg Llafur mewn grym.*

**Simon Thomas:** I move amendments 4 and 5 in the name of Jocelyn Davies.

I state at the outset that we will also support the opposition amendments, except for one or two, upon which we will be abstaining, and I expect that Aled Roberts can guess which ones those might be.

We have brought forward amendments 4 and 5 not to gainsay what the Government has said in its motion, which we support, but because we thought it important to highlight the continuing and persistent link between deprivation and poor attainment, including, in particular, poor attainment in numeracy, and also the fact that we have had three successive Labour-led Governments in Wales, under which, sadly, we have seen these standards slide. I have said in the past, and I will say again, that Plaid Cymru was part of one of those Governments. We acknowledge our role in that and if we took our eye off the ball then we are sorry for that. Looking back, we can see clearly that, from about 2006 onwards, all of us in Wales should have been more aware of the slide in standards of numeracy and literacy in our educational establishments and perhaps we should all have been more aware of early intervention, in particular, as a way of dealing with that. Instead we had a plethora of add-on, ad hoc initiatives. Unfortunately, there is a tendency to continue with that approach. However, I hope that this

*Amendment 4 Jocelyn Davies*

*Add as new sub-point at end of motion:*

*the continuing correlation between deprivation and the levels of attainment in numeracy.*

*Amendment 5 Jocelyn Davies*

*Add as new point at end of motion:*

*Regrets that after twelve continuous years of Labour education Ministers in power, standards of numeracy have declined.*

**Simon Thomas:** Cynigiaf welliannau 4 a 5 yn enw Jocelyn Davies.

Rwyf am ddechrau drwy ddweud y byddwn ninnau hefyd yn cefnogi gwelliannau'r gwrthbleidiau, ar wahân i un neu ddau, y byddwn yn ymatal arnynt, a thybiaf y bydd Aled Roberts yn gallu dyfalu pa rai fydd y rheini.

Rydym wedi cyflwyno gwelliannau 4 a 5 nid er mwyn gwrthddweud yr hyn a ddywedodd y Llywodraeth yn ei chynnig, yr ydym yn ei gefnogi, ond oherwydd ein bod o'r farn ei bod yn bwysig tynnu sylw at y cyswllt parhaus a chyson rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad gwael, gan gynnwys, yn benodol, cyrhaeddiad gwael mewn rhifedd, a hefyd y ffaith bod safonau, yn anffodus, wedi llithro o dan dair Llywodraeth Lafur yn olynol. Fel y dywedais o'r blaen, ac fe'i dywedaf eto, roedd Plaid Cymru yn rhan o un o'r Llywodraethau hynny. Rydym yn cydnabod ein rôl yn hynny ac os gwnaethom dynnu ein llygaid oddi ar y bêl yna mae'n ddrwg gennym am hynny. Wrth edrych yn ôl, gallwn weld yn glir, o tua 2006 ymlaen, y dylai pob un ohonom yng Nghymru fod wedi sylwi mwy ar y llithriad mewn safonau rhifedd a llythrennedd yn ein sefydliadau addysgol, ac efallai y dylem i gyd fod yn ymwybodol o ymyrraeth gynnar, yn benodol, fel ffordd o ddelio â hynny. Yn hytrach, cawsom lu o fentrau ychwanegol ac ad hoc. Yn anffodus, mae tuedd i barhau â'r dull hwnnw. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y

Government, at least, will start to have a more streamlined and coherent approach to making these improvements. I know that the Minister believes in this personally, and I accept his commitment to this, but I think that it needs to be restated that our failures in numeracy are according to an international measure. We are slipping down the OECD rankings with the PISA tests. It is not just about mathematics, as the Minister was right to point out. As Estyn has stated, to be fully numerate, pupils must be able to apply these skills in other subject areas and real-life contexts, and that is what seems to be missing in our education system at the moment, and that is what PISA measures.

Llywodraeth hon, o leiaf, yn dechrau coleddu agwedd symlach a mwy cydlynol i wneud y gwelliannau hyn. Gwn fod y Gweinidog yn bersonol yn credu yn hyn, ac rwyf yn derbyn ei ymrwymiad iddo, ond mae angen dweud eto bod ein methiannau o ran rhifedd yn cael eu mesur yn ôl mesur rhyngwladol. Rydym yn llithro i lawr tabl OECD gyda phrofion PISA. Nid yw'n ymwneud â mathemateg yn unig, fel y dywedodd y Gweinidog yn gywir. Fel y dywedodd Estyn, i fod yn gwbl rifog, rhaid i ddisgyblion allu cymhwyso'r medrau hyn mewn meysydd pwnc eraill a chyd-destunau bywyd go iawn, a dyna beth sy'n ymddangos ar goll yn ein system addysg ar hyn o bryd, a dyna beth mae PISA yn ei fesur.

It is of particular concern that, although we have seen some significant improvement in the level 2 thresholds, across five A* to C GCSEs, the improvement in those that include English language or Welsh language and mathematics has been very slow and make up only a third of that general improvement. Perhaps, again, we have been focusing on general GCSE improvements in Wales and have not really considered that that is not showing an improvement in numeracy—in relation to today's debate in particular. Estyn's annual report this year identified that schools are not making enough progress in addressing this problem.

Mae'n peri pryder arbennig, er inni weld arwyddion o welliant sylweddol yn y trothwyon lefel 2, ar draws pum gradd A* i C TGAU, mai araf fu'r gwelliant yn y rhai sy'n cynnwys Saesneg iaith neu Gymraeg iaith a mathemateg, a bod hynny ond yn cyfrif am draean o'r gwelliant cyffredinol. Efallai, eto, ein bod wedi canolbwyntio ar welliannau cyffredinol mewn TGAU yng Nghymru ac heb wir ystyried nad yw hynny'n dangos gwelliant mewn rhifedd—o ran dadl heddiw yn enwedig. Nododd adroddiad blynyddol Estyn eleni nad yw ysgolion yn gwneud digon o gynnydd wrth fynd i'r afael â'r broblem hon.

This goes wider, however. It means that those leaving school are not able to play a full part in the jobs market. The Welsh Government recognised this in its National Basic Skills Strategy for Wales, which ran from 2001 to 2004, which set a target for 2010 that 55% of working adults would at least have level 1 numeracy skills. When 2010 came to be, how many of our working adults had level 1 numeracy skills? Just 51%. That means that there are over 900,000 individuals in Wales with numeracy skills below level 1. That is why we are not performing as well as we should be economically, and that is why we need to address these problems within our education system. The Minister has announced a consultation on changing the way in which teachers are trained and on changing the access and qualifications requirements to go on teacher-training courses. I hope that he might be able to say

Mae hyn yn mynd ymhellach, fodd bynnag. Mae'n golygu nad yw'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn gallu chwarae rhan lawn yn y farchnad swyddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn yn ei Strategaeth Genedlaethol Sgiliau Sylfaenol i Gymru, a oedd ar waith rhwng 2001 a 2004, a osododd darged y byddai 55% o oedolion sy'n gweithio yn meddu ar sgiliau rhifedd lefel 1, o leiaf, erbyn 2010. Pan ddaeth 2010, faint o'n hoedolion sy'n gweithio a feddai ar sgiliau rhifedd lefel 1? Dim ond 51%. Mae hynny'n golygu bod mwy na 900,000 o unigolion yng Nghymru gyda sgiliau rhifedd islaw lefel 1. Dyna pam nad ydym yn perfformio cystal yn economaidd ag y dylem, a dyna pam mae angen inni fynd i'r afael â'r problemau hyn yn ein system addysg. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar newid y ffordd mae athrawon yn cael eu hyfforddi ac ar newid y gofynion mynediad a

something about that in concluding this debate, particularly as he might be looking to improve access requirements for teachers around numeracy. I believe that will be a key issue for us in future.

chymwysterau i ddilyn cyrsiau hyfforddi athrawon. Gobeithio y gall ddweud rhywbeth am hynny wrth gloi'r ddadl hon, yn enwedig gan y gallai fod yn edrych i wella gofynion mynediad o ran rhifedd i athrawon. Bydd hynny'n fater allweddol i ni yn y dyfodol.

It is also true to say that pupil standards in mathematics as a whole, throughout Wales, in key stages 2 and 3, are higher than the pupils' achievements in numeracy. It is counterintuitive, but you can be quite good at maths and pretty bad at numeracy. I think that we have all come across that in dealing with people who may have an O-level, A-level or GCSE in maths, but are unable to give you the correct change when you are trying to do a financial transaction with them. The Minister talked about good projects and about rolling out best practice. I hope that, in concluding this debate, he will say a bit more about that, particularly in respect of what methods may prove to work best in Wales. Finally, I would like him to address the methods that work best in our most deprived communities. It is clear that this is one of the things holding educational attainment back in Wales. The Institute of Education, University of London, published a very interesting report a few weeks ago on the millennium cohort. That report found that living in poverty has a cumulative effect on cognitive development that remains with a child throughout their life. For example, 69% of respondents who were assessed to be at level 1 in numeracy had a household income of less than £15,000. That is to say, deprivation and a lack of numeracy are built into each other.

Mae hefyd yn wir i ddweud bod safonau disgyblion mewn mathemateg ar y cyfan, ledled Cymru, yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, yn uwch na chyflawniadau'r disgyblion mewn rhifedd. Mae'n groes i reddf, ond gallwch fod yn eithaf da mewn mathemateg ac yn eithaf gwael mewn rhifedd. Credaf ein bod i gyd wedi dod ar draws hynny wrth ddelio â phobl a allai fod â lefel O, lefel A neu TGAU mewn mathemateg, ond yn methu rhoi'r newid cywir i chi pan fyddwch yn ceisio gwneud trafodiad ariannol â nhw. Soniodd y Gweinidog am brosiectau da ac am gyflwyno arfer gorau. Gobeithio, wrth gloi'r ddadl hon, y bydd yn dweud rhywfaint mwy am hynny, yn enwedig o ran pa ddulliau a allai weithio orau yng Nghymru. Yn olaf, hoffwn iddo sôn am y dulliau sy'n gweithio orau yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n amlwg bod hyn yn un o'r pethau sy'n dal cyrhaeddiad addysgol yn ôl yng Nghymru. Cyhoeddodd y sefydliad addysg ym Mhrifysgol Llundain adroddiad diddorol iawn ychydig wythnosau yn ôl ar gohort y mileniwm. Canfu'r adroddiad hwnnw fod byw mewn tlodi yn cael effaith gronnus ar ddatblygiad gwybyddol, sy'n aros gyda phlentyn drwy gydol ei oes. Er enghraifft, roedd gan 69% o'r ymatebwyr yr aseswyd eu bod ar lefel 1 mewn rhifedd incwm cartref is na £15,000. Hynny yw, mae amddifadedd a diffyg rhifedd yn mynd law yn llaw.

**Y Dirprwy Lywydd:** Gorffennwch, os gwelwch yn dda.

**The Deputy Presiding Officer:** Conclude, please.

**Simon Thomas:** Educational attainment in Wales is being held back by the fact that we are a deprived nation, and I want to see this Government address that in a more vigorous manner.

**Simon Thomas:** Mae cyrhaeddiad addysgol yng Nghymru yn cael ei ddal yn ôl gan y ffaith ein bod yn genedl ddifreintiedig, ac rwyf am weld y Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â hynny mewn ffordd fwy egnïol.

*Gwelliant 6 William Graham*

*Amendment 6 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod y rôl allweddol y gall rhieni a*

*Acknowledges the crucial role which parents*

*gwarcheidwaid ei chwarae wrth weithio gyda'r sector addysg i wella safonau rhifedd ymysg plant a phobl ifanc Cymru.*

*and guardians can play in working with the education sector to improve standards of numeracy amongst Wales' children and young people.*

*Gwelliant 7 William Graham*

*Amendment 7 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu wrth fethiant Llywodraethau olynol Cymru i godi safonau rhifedd yng Nghymru yn ddigonol.*

*Regrets the failure of successive Welsh Governments to adequately raise numeracy standards in Wales.*

*Gwelliant 8 William Graham*

*Amendment 8 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu bod safbwynt Llywodraeth Cymru ei bod yn afrealistig disgwyl gwelliannau sylweddol ym mherfformiad Cymru yn yr asesiadau nesaf gan PISA, yn awgrymu nad ydynt ar frys i wella safonau rhifedd yng Nghymru.*

*Believes the Welsh Government's position that it is unrealistic to expect significant improvements in Wales' performance in the next PISA assessments suggests a lack of urgency in driving up numeracy standards in Wales.*

*Gwelliant 9 William Graham*

*Amendment 9 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar y Gweinidog i bennu targedau clir ar gyfer gwelliannau mewn mathemateg yng nghanlyniadau PISA 2012.*

*Calls on the Minister to set clear targets for improvement in mathematics in the 2012 PISA results.*

**Angela Burns:** I move amendments 6, 7, 8 and 9 in the name of William Graham.

**Angela Burns:** Cynigiaf welliannau 6, 7, 8 a 9 yn enw William Graham.

We will also be supporting all of the amendments, except amendments 10 and 11 tabled by the Liberal Democrats. We will not be supporting those simply because I do not see how a few hundred pounds extra per child is going to help numeracy specifically, which is what is stated in amendment 10. Neither do I believe, in relation to amendment 11, that this is a sustainable way forward. I have not heard any commitment from the Welsh Government that it would be sustainable. We have always had this problem with the pupil deprivation grant, although the thinking behind it is very laudable, of course.

Byddwn hefyd yn cefnogi'r gwelliannau i gyd, ac eithrio gwelliannau 10 ac 11 a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Ni fyddwn yn cefnogi'r rheini am y rheswm syml nad wyf yn gweld sut y bydd gwario ychydig gannoedd o bunnoedd yn ychwanegol am bob plentyn yn helpu rhifedd yn benodol, sef yr hyn a ddywedir yng ngwelliant 10. Nid wyf yn credu chwaith, o ran gwelliant 11, bod hon yn ffordd ymlaen gynaliadwy. Ni chlywais unrhyw ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru y byddai'n gynaliadwy. Rydym bob amser wedi cael y broblem hon gyda'r grant amddifadedd disgyblion, er bod y meddylfryd y tu ôl iddo i'w ganmol yn fawr, wrth gwrs.

Before I speak to our amendments, I would just like to build on a couple of comments that Simon Thomas and the Minister made. First of all, the Minister said that we need real-world problems that can be solved by having good numeracy skills, rather than theoretical stuff. I agree with that totally. Simon Thomas talked about how poor some of our numeracy capabilities were. I think that that is to do with an absolute lack of aspiration. I would like to refer you to a stage 2 examination that you would have to take if you wanted to go to a further education college at the age of 16. One question asks you to tick the shape that has only one pair of sides parallel. You have a load of little questions. Another question asks you what three quarters of 100 is. You are asked to work out a bus timetable, and you are asked what a right-angle measures. These are all really great things to know, but we are talking about 16-year-olds. We need to have greater aspiration; we should be saying that we want most of our 16-year-olds in Wales—not all of them, but most of them—to be able to walk that kind of paper.

Cyn i mi sôn am ein gwelliannau, hoffwn ymhelaethu ar un neu ddau o sylwadau a wnaed gan Simon Thomas a'r Gweinidog. Yn gyntaf, dywedodd y Gweinidog bod arnom angen problemau'r byd go iawn y gellir eu datrys drwy gael sgiliau rhifedd da, yn hytrach na stwff damcaniaethol. Cytunaf yn llwyr â hynny. Soniodd Simon Thomas am ba mor wael oedd rhai o'n galluoedd rhifedd. Credaf fod hynny'n ymwneud â diffyg dyhead llwyr. Hoffwn dynnu eich sylw at arholiad cyfnod 2 y byddai'n rhaid i chi ei gymryd os ydych am fynd i goleg addysg bellach yn 16 oed. Mae un cwestiwn yn gofyn i chi roi tic wrth y siâp sydd â dim ond un pâr o ochrau cyfochrog. Mae gennych lwyth o gwestiynau bach. Mae cwestiwn arall yn gofyn i chi beth yw tri chwarter 100. Gofynnir i chi weithio allan amserlen bws, a gofynnir i chi beth yw mesurau ongl sgwâr. Mae'r rhain i gyd yn bethau gwych i wybod, ond rydym yn sôn am bobl 16 mlwydd oed. Mae angen inni fod â mwy o ddyhead; dylem fod yn dweud ein bod am i ran fwyaf o'n pobl ifanc 16 mlwydd oed yng Nghymru—nid pob un ohonynt, ond y rhan fwyaf—allu pasio'r math hwnnw o bapur yn hawdd.

5.00 p.m.

That is why we are not doing very well in comparison with many other countries, and we need to lift that desire and aspiration for where we are taking our children. I have little kids, and I hope that they can walk those kinds of questions at 16. One of them is just like me, in that neither of us is particularly good at numbers, but, boy oh boy, I would hope that, by the time she is 16, for her sake and for the sake of her life chances, we have things like this well taped. We are just not teaching our children properly. I urge all Assembly Members, if they have the time and the inclination over the holidays, to have a quick look at some of the examination papers that we are asking our children to sit, as I think that you will be surprised at how poor an awful lot of them are, which is why we are in this situation.

Dyna pam nad ydym yn gwneud yn dda iawn o gymharu â llawer o wledydd eraill, ac mae angen i ni godi'r awydd a'r dyhead hwnnw ynghylch ble yr ydym yn mynd â'n plant. Mae gennyf i blant bach, a gobeithio y byddant yn ei chael yn hawdd iawn ateb y mathau hynny o gwestiynau pan fyddant yn 16 oed. Mae un ohonynt yn union fel fi, yn yr ystyr nad oes yr un ohonom yn arbennig o dda am drin rhifau, ond gobeithio'n wir, erbyn y bydd hi'n 16 oed, er ei mwyn hi ac er mwyn ei chyfleoedd mewn bywyd, y bydd pethau fel hyn ar sail dda gennym. Y gwir yw nad ydym yn addysgu ein plant yn iawn. Rwy'n annog holl Aelodau'r Cynulliad, os oes ganddynt yr amser a'r awydd dros y gwyliau, i gael cipolwg ar rai o'r papurau arholiad yr ydym yn gofyn i'n plant eu sefyll, gan fy mod yn meddwl y byddwch yn synnu pa mor wael yw llawer iawn ohonynt, a dyna pam rydym yn y sefyllfa hon.

**Leighton Andrews:** The Member has just said that the exams that we are asking young people in Wales to take are poor. Does that

**Leighton Andrews:** Mae'r Aelod newydd ddweud bod yr arholiadau y disgwyliwn i'n pobl ifanc eu sefyll yng Nghymru yn wael. A

mean that, like Michael Gove, she wants to move away from GCSEs and go back to O-levels?

yw hynny'n golygu ei bod, fel Michael Gove, am i ni symud oddi wrth TGAU a mynd yn ôl i arholiadau lefel O?

**Angela Burns:** I want to go back to what works best for pupils here in Wales. I tell you now, Minister, that what we currently have does not work for them. [*Interruption.*] No, I am not Michael Gove's puppy dog, unlike when the previous Labour Government at Westminster had this Government here on a fairly short chain. What they get up to in England I have absolutely no regard for most of the time, because I am interested in Welsh pupils. [*Interruption.*] No, I am not necessarily prepared to go back to GCEs, O-levels or anything else. I want the best thing for the children of Wales.

**Angela Burns:** Rwyf am fynd yn ôl at yr hyn sy'n gweithio orau ar gyfer y disgyblion yma yng Nghymru. Rwy'n dweud wrthych yn awr, Weinidog, nad yw'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd yn gweithio ar eu cyfer. [*Torri ar draws*.] Na, nid wyf yn gi bach i Michael Gove, yn wahanol i'r adeg pan oedd Llywodraeth Lafur flaenorol San Steffan yn cadw'r Llywodraeth yma yn dynn wrth ei sawdl. Nid oes gennyf unrhyw ddiddordeb yn yr hyn y maent yn ei wneud yn Lloegr y rhan fwyaf o'r amser, gan fod fy niddordeb mewn disgyblion Cymru. [*Torri ar draws*.] Na, nid wyf o reidrwydd yn barod i fynd yn ôl i TAG, lefel O, na dim arall. Rwyf am gael yr hyn sydd orau i blant Cymru.

I will now race through my amendments very quickly, because I can see, Deputy Presiding Officer, that I am already out of time.

Byddaf yn awr yn rhuthro drwy fy ngwelliannau, oherwydd gallaf weld, Ddirprwy Lywydd, fod fy amser eisoes ar ben.

Our amendment 6 is on the crucial role that parents and guardians play. This is the central problem that I have with the Department for Education and Skills. It is about how we engage with people. Let us take parents for example. It is really important that we engage all parents. We have some absolutely excellent programmes running in Communities First areas, Minister, helping to engage the hard-to-reach parents and the harder-to-reach children to get them on track. However, in fact, Wales is full of really ordinary parents who need help. We need to be able to give our children more numeracy skills. Why do I say that it is just the average parent who needs that help? It is because 40% of our children are not performing as well as they should be, which means that 40% of parents out there may well require a little bit of help, and I have some ideas. How about getting more involved with DVDs? How about programmes to help parents who speak English only but whose children go to Welsh-medium schools and are taught their mathematics in Welsh? It is a very different process compared with English children being taught mathematics in English. I speak from personal experience, and I have spoken to an awful lot of other people. There are a

Mae ein gwelliant 6 yn ymwneud â'r rhan hollbwysig y mae rhieni a gwarcheidwaid yn ei chwarae. Dyma'r broblem ganolog sydd gennyf yng nghyswllt yr Adran Addysg a Sgiliau. Mae'n ymwneud â'r modd yr ydym yn ymgysylltu â phobl. Gadewch i ni ystyried rhieni er enghraifft. Mae'n bwysig iawn ein bod yn ymgysylltu â'r holl rieni. Weinidog, mae gennym rai rhaglenni ardderchog ar waith yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, sy'n helpu i ennyn diddordeb y rhieni anodd eu cyrraedd a'r plant mwy anodd eu cyrraedd, i'w cael i ddilyn y trywydd iawn. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae Cymru yn llawn o rieni hollol gyffredin sydd angen cymorth. Mae angen i ni allu rhoi rhagor o sgiliau rhifedd i'n plant. Pam rwyf yn dweud mai dim ond y rhiant cyffredin sydd angen y cymorth hwnnw? Dywedaf hynny oherwydd nad yw 40% o'n plant yn perfformio cystal ag y dylent, sy'n golygu bod 40% o rieni sydd angen ychydig o gymorth, efallai, ac mae gennyf rai syniadau. Beth am gymryd mwy o ran mewn DVDs? Beth am raglenni i helpu rhieni sy'n siarad Saesneg yn unig ond y mae eu plant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn dysgu mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae'n broses wahanol iawn o'i chymharu â phlant Saesneg yr

great many things that we can do to help parents and carers to support their children.

addysgir mathemateg iddynt drwy gyfrwng y Saesneg. Rwy’n siarad o brofiad personol, ac rwyf wedi siarad â llawer iawn o bobl eraill. Mae llawer iawn o bethau y gallwn eu gwneud i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plant.

Above all, though, my real worry is in amendment 8. I simply do not understand, Minister, why it has taken you so long to put in place even the smallest way of helping parents and teachers to deliver better results on numeracy as far as the PISA assessments go.

Fodd bynnag, yn anad dim, gwelliant 8 yw’r hyn yr wyf yn pryderu amdano. Nid wyf yn deall, Weinidog, pam mae wedi cymryd cymaint o amser i chi roi’r peth lleiaf ar waith i helpu rhieni ac athrawon i sicrhau canlyniadau gwell ym maes rhifedd o ran asesiadau PISA.

**David Rees:** Those of us who have worked as academics or teachers have seen at first hand how the right skills can go on to play a decisive role in a person’s life. Numeracy matters fundamentally for the economic and social health of our country. Furthermore, mathematics is a critical tool for young people as they confront issues and challenges in the personal, occupational, societal and scientific aspects of their lives.

**David Rees:** Mae’r rhai ohonom sydd wedi gweithio fel academyddion neu athrawon wedi gweld drosom ein hunain sut y gall y sgiliau cywir chwarae rhan bendant yn ddiweddarach ym mywyd unigolyn. Mae rhifedd yn chwarae rhan sylfaenol bwysig ar gyfer iechyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad. Ar ben hynny, mae mathemateg yn offeryn hanfodol ar gyfer pobl ifanc wrth iddynt wynebu problemau a heriau yn yr agweddau personol, galwedigaethol, cymdeithasol a gwyddonol ar eu bywydau.

The imperative for maths and science education only grows as the strategic significance of cyberspace and its understanding become more apparent. When we stand here debating numeracy, we must also remember that this is about giving our young people the transferable skills that are vital to their education, their future careers and their everyday lives.

Dim ond wrth i arwyddocâd strategol y seiberofod a dealltwriaeth ohono ddod yn fwy amlwg y mae’r angen am addysg ym maes mathemateg a gwyddoniaeth yn tyfu. Wrth i ni sefyll yma yn trafod rhifedd, rhaid i ni hefyd gofio bod hyn yn ymwneud â rhoi i’n pobl ifanc y sgiliau trosglwyddadwy hynny sy’n hanfodol ar gyfer eu haddysg, eu gyrfaoedd yn y dyfodol a’u bywydau pob dydd.

Being numerate helps us to function more responsibly in everyday life, and it helps us to contribute more effectively to society. It increases our opportunities in the world of work and establishes foundations to be built upon for lifelong learning.

Mae bod yn rhifog yn ein helpu i weithredu’n fwy cyfrifol yn ein bywyd pob dydd, ac mae’n ein helpu i gyfrannu’n fwy effeithiol at y gymdeithas. Mae’n cynyddu ein cyfleoedd yn y byd gwaith ac yn sefydlu seiliau i adeiladu arnynt ar gyfer dysgu gydol oes.

Mae rhifedd nid yn unig yn gangen o fathemateg, ond mae hefyd yn rhan annatod o sgiliau bywyd. Mae cefnogi pob agwedd ar ddysgu yn rhoi mynediad i gwricwlwm ehangach i bobl ifanc.

Numeracy is not only a branch of mathematics, but it is also an integral part of life skills. Supporting every aspect of learning gives young people access to a wider curriculum.

As such, the pernicious effects of poor numeracy seep into every aspect of people’s lives and cut across many of the debates that

Felly, mae effeithiau niweidiol rhifedd gwael yn treiddio i bob agwedd ar fywydau pobl ac yn berthnasol i lawer o’r dadleuon a gawn

we have here in the Senedd. You have already heard some of these points, but first, adults who struggle with numeracy are twice as likely to be unemployed, and are far less likely to receive work-related training, to get promotion or to receive a raise. On the other hand, adults with level 1 numeracy or above earn on average 26% more than adults with skills below that level.

yma yn y Senedd. Rydych eisoes wedi clywed rhai o'r pwyntiau hyn, ond, yn gyntaf, mae oedolion sy'n cael trafferth gyda rhifedd ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, ac yn llawer llai tebygol o gael hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith, o gael dyrchafiad neu o gael codiad cyflog. Ar y llaw arall, mae oedolion sydd â rhifedd lefel 1 neu uwch yn ennill, ar gyfartaledd, 26% yn fwy nag oedolion sydd â sgiliau is na'r lefel honno.

Secondly, recent studies have shown that numeracy is a bigger indicator of disadvantage than literacy. Adults with poor numeracy skills are two and a half times more likely to report having a long-standing illness or disability. Men and women with poor numeracy are roughly twice as likely to report several symptoms of depression.

Yn ail, mae astudiaethau diweddar wedi dangos bod rhifedd yn fwy o ddangosydd o anfantais nag yw llythrennedd. Mae oedolion sydd â sgiliau rhifedd gwael yn ddwywaith a hanner yn fwy tebygol o roi gwybod bod ganddynt salwch hirdymor neu anabledd. Ar y cyfan, mae dynion a merched sydd â sgiliau rhifedd gwael ddwywaith yn fwy tebygol o roi gwybod bod ganddynt nifer o symptomau iselder.

Finally, having a numerate population is vital to the UK's building a strong economy and competing globally. Over recent years, surveys have shown widespread concern among employers about their employees' basic skills. The CBI's 2008 audit surveyed 735 firms, employing 1.7 million people between them. Over half said that they were concerned that they would not be able to find enough skilled people with the right qualifications in the future. In March, it was reported that 49% of the UK working-age population have the numeracy skills of 11-year-olds. As many here have already acknowledged, according to the 2009 PISA assessment, Wales was ranked fortieth out of 67 countries for mathematics. That is a worrying statistic and one that this Government and this Minister have not shied away from tackling. However, the issue of numeracy cannot be considered in isolation.

Yn olaf, mae poblogaeth rifog yn hanfodol i adeiladu economi gref yn y DU ac fel y gall gystadlu yn fyd-eang. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae arolygon wedi dangos pryder cyffredinol ymhlith cyflogwyr am sgiliau sylfaenol eu cyflogeion. Aeth archwiliad 2008 y CBI ati i gynnal arolwg o 735 o gwmnïau, a oedd yn cyflogi cyfanswm o 1.7 miliwn o bobl. Dywedodd dros hanner eu bod yn pryderu na fyddent, yn y dyfodol, yn gallu dod o hyd i ddigon o bobl fedrus a fyddai'n meddu ar y cymwysterau cywir. Ym mis Mawrth, cafwyd adroddiad bod 49% o boblogaeth y DU sydd o oedran gweithio yn meddu ar sgiliau rhifedd plentyn 11 oed. Fel y mae llawer yma wedi cydnabod, yn ôl asesiad PISA yn 2009, roedd Cymru yn y deugeinfed safle o 67 o wledydd mewn mathemateg. Mae hwnnw'n ystadegyn sy'n peri pryder ac yn un nad yw'r Llywodraeth hon na'r Gweinidog hwn wedi gwrthod mynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, ni ellir ystyried rhifedd ar ei ben ei hun.

**Angela Burns:** I am grateful to the Member for taking an intervention. I agree that the Government is now trying to put together various strategies to find an elegant solution, but we are looking at a consultation that will not finish for over a year. Implementation will be some time next year and it concerns a five-year programme. In the meantime, that is

**Angela Burns:** Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am dderbyn ymyriad. Rwy'n cytuno bod y Llywodraeth yn awr yn ceisio llunio strategaethau amrywiol i ddod o hyd i ateb cain, ond mae dros flwyddyn tan y bydd yr ymgynghoriad yn gorffen. Bydd yn cael ei weithredu rywbryd yn y flwyddyn nesaf, ac mae'n ymwneud â rhaglen bum mlynedd. Yn

about seven years' worth of people who are being let down. Surely we can look for something fast and effective to do in the short term to at least try to raise the standards.

y cyfamser, dyna werth tua saith mlynedd o bobl sy'n cael eu siomi. Siawns y gallwn edrych am rywbeth cyflym ac effeithiol i'w wneud yn y tymor byr, o leiaf er mwyn ceisio codi safonau.

**David Rees:** I agree that we need something fast and effective but we need to get it right—that is the important aspect. The Minister is getting it right and that is crucial. We would be letting down our future pupils and people if we did not get it right. I was working in education, teaching mathematics under Keith Joseph and Ken Baker, and I can tell you about the difficulties that they caused in the 1980s.

**David Rees:** Rwy'n cytuno bod angen rhywbeth cyflym ac effeithiol arnom, ond mae angen i ni wneud pethau'n iawn—dyna yw'r agwedd bwysig. Mae'r Gweinidog yn gwneud pethau'n iawn, ac mae hynny'n hanfodol. Byddem yn gwneud tro gwael â'n darpar ddisgyblion ac eraill pe na baem yn gwneud hynny. Roeddwn yn gweithio ym maes addysg, yn dysgu mathemateg dan Keith Joseph a Ken Baker, a gallaf ddweud wrthych am yr anawsterau a achoswyd ganddynt yn y 1980au.

In a study comparing the lives of 34-year-olds who had poor numeracy with those who had good numeracy, those with poor numeracy were much more likely to have parents with no qualifications, half as likely to have parents who were interested in their education, twice as likely to leave school aged 16, five times more likely to achieve no qualifications overall, and more than twice as likely to have had their first child while still in their teens, with the added pressures that that brings for young people. These are issues that cannot just be tackled in our schools. They go straight to the heart of many of our poorest communities and how we support the most vulnerable during these dark economic times.

Mewn astudiaeth a oedd yn cymharu bywydau pobl 34 mlwydd oed a oedd â sgiliau rhifedd gwael â rhai yr oedd eu sgiliau rhifedd yn dda, y rhai a oedd â sgiliau rhifedd gwael oedd fwyaf tebygol o fod â rhieni heb unrhyw gymwysterau, hanner mor debygol o fod â rhieni a oedd â diddordeb yn eu haddysg, ddwywaith yn fwy tebygol o adael yr ysgol yn 16 oed, bum gwaith yn fwy tebygol o beidio â chyflawni unrhyw gymwysterau o gwbl, ac yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu plentyn cyntaf tra oeddent yn eu harddegau, a chael y pwysau ychwanegol a ddaw ar bobl ifanc yn sgîl hynny. Mae'r rhain yn faterion na ellir mynd i'r afael â hwy yn ein hysgolion yn unig. Maent yn mynd yn syth at wraidd llawer o'n cymunedau tlotaf a'r modd yr ydym yn cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ystod y cyfnod economaidd tywyll hwn.

I applaud the decision of the Minister for Education and Skills to set the ambitious target for Wales of being among the top 20 nations in the PISA results by 2015. That is a challenging task, made all the more difficult by the large areas of deprivation across Wales. However, the national numeracy programme and initial teacher training centres for mathematics are positive actions from the Welsh Government to improve levels of numeracy in schools across Wales significantly and will provide pragmatic steps for us to reach that goal.

Rwy'n cymeradwyo penderfyniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau i bennu targed uchelgeisiol ar gyfer Cymru o fod ymysg yr 20 gwlad uchaf yng nghanlyniadau PISA erbyn 2015. Mae hynny'n dasg heriol, a wnaed yn fwy anodd gan y ffaith bod ardaloedd mawr o amddifadedd ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae'r rhaglen rhifedd genedlaethol a chanolfannau hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer mathemateg yn gamau cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion ledled Cymru yn sylweddol, a byddant yn cynnig camau ymarferol i ni fel y gallwn gyrraedd y

nod hwnnw.

To ensure that the next generation enjoys opportunities to flourish in a growing economy, a confident nation, and a society that believes in progress, there is no escaping the significance of mathematics and science. Central to that vision is the fact that we must support the most vulnerable children to ensure that low attainment does not become a self-fulfilling prophecy.

Er mwyn sicrhau bod gan y genhedlaeth nesaf gyfleoedd i ffynnu mewn economi sy'n tyfu, cenedl hyderus, a chymdeithas sy'n credu mewn cynnydd, ni ellir diystyru arwyddocâd mathemateg a gwyddoniaeth. Yn ganolog i'r weledigaeth honno y mae'r ffaith bod yn rhaid i ni gefnogi'r plant mwyaf agored i niwed i sicrhau nad yw cyrhaeddiad isel yn dod yn broffwydoliaeth a fydd yn gwireddu ei hun.

On a final note, I have not heard it yet, but I want to praise the teachers who tackle mathematical disadvantage with expert insight and ambitious determination on a daily basis. This Welsh Government believes that the people of Wales are the country's most valuable resource, and it has worked and will continue to work alongside the many dedicated professionals and volunteers—and let us not forget them—who help that potential to flourish.

Yn olaf, nid wyf wedi clywed hyn eto, ond hoffwn ganmol yr athrawon sy'n mynd i'r afael ag anfantais fathemategol gyda dealltwriaeth arbenigol a phenderfynoldeb uchelgeisiol o ddydd i ddydd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai pobl Cymru yw adnodd mwyaf gwerthfawr y wlad, ac mae wedi gweithio, a bydd yn parhau i weithio, ochr yn ochr â'r holl weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr ymroddedig—peidiwch â gadael i ni eu hanghofio—sy'n helpu'r potensial hwnnw i ffynnu.

**Keith Davies:** Mae'n amlwg fy mod i hefyd yn cefnogi polisi llythrennedd y Llywodraeth. Rwy'n cytuno'n llwyr â David Rees yn Gymraeg ac yn Saesneg. Da iawn.

**Keith Davies:** I obviously support the Government's literacy policy. I agree entirely with David Rees in Welsh and in English. Well done.

Beth ddigwyddodd ar 15 Chwefror 1971? A allwch chi ateb hynny? Newidiodd ein harian o fod ar sail punnoedd, sylltau a cheiniogau i fod ar sail degau, gan wneud delio ag arian yn rhwyddach i bawb. Rwy'n cofio'n iawn. Roeddwn i yno, ac yn darlithio ar fathemateg ar y pryd. Dywedais i 'Chwefror y pymthegfed'. Byddwn wedi bod yr un mor ddealladwy pe bawn wedi dweud 'Chwefror un-deg-pump'. A beth yw'r Gymraeg am 17? Wel, un ateb posibl yw 'un-deg-saith'. Serch hynny, ateb arall fyddai 'dwy-ar-bymtheg'. A beth am 18? Wel, mae'n bosibl dweud 'deunaw', sy'n gyfieithiad llythrennol o naw ddwywaith.

What happened on 15 February 1971? Can you answer that? Our money changed over from pounds, shillings and pence to decimalisation, which made dealing with money easier for everyone. I remember it well. I was there, and I was lecturing in mathematics at the time. I just said '*Chwefror y pymthegfed*', but I would have been just as easily understood had I used a different term and said '*Chwefror un-deg-pump*'. And what is the Welsh for 17? One possible answer is '*un-deg-saith*', but it can also be expressed as 'fifteen-plus-two'. And what about 18 in Welsh? Well, it is possible to say '*deunaw'*, which is a literal translation of 'twice nine'.

Y gwir amdani yw ei fod yn swnio'n anodd a chymhleth drwy ei roi fel yna, ond i rywun sydd wedi clywed y gwahanol fersiynau wrth dyfu lan, ac wrth eu clywed ar lafar gwlad, mae'r gwahanol ffyrdd o rifo yn Gymraeg yn hawdd, yn hollol naturiol, ac yn synhwyrol.

The truth is that it sounds difficult and complex when you put it like that, but for someone who has heard all these different forms growing up, and heard them spoken on a daily basis, the different ways of counting in Welsh are easy, entirely natural and

Gwelais blant yn drysu gyda hyn, ac yn yr un modd fe'i gwelais yn eu deall ac yn eu defnyddio'n rhugl yn fuan wedyn, o ganlyniad i addysg ac athrawon yn eu hesbonio. Mae cyfraniad athrawon i ddatblygiad plant yn anfesuradwy.

sensible. I have seen children confused by that, and likewise I have seen children understand them and using them fluently soon afterwards, as a result of education and of teachers explaining them. Teachers' contribution to the development of children is immeasurable.

Prif amcan y rhaglen rhifedd genedlaethol yw i blant ddysgu yn gywir y tro cyntaf. Yna, byddant yn ymwybodol o'r sawl ffordd sydd o ddweud y rhifau uchod, a byddant yn ymwybodol o'r gwahaniaeth. Yn fwy pwysig, byddant yn ymwybodol bod gwahanol ffyrdd o ddweud yr un peth, a mwy o ffyrdd o ddod o hyd i'r ateb cywir, sef rhywbeth yr oedd Aled Roberts yn sôn amdano yn gynharach. Mae sawl ffordd o gael Wil i'w wely.

The main objective of the national numeracy programme is for children to learn properly the first time. Then they will be aware of the various ways there are of expressing the numbers that I mentioned, and aware of the differences. More importantly, they will be aware that there are different ways of expressing the same thing, and more ways of reaching the correct solution, which Aled Roberts mentioned earlier. There is more than one way to skin a cat.

Ceir pwyslais hefyd yn y fframwaith rhifedd a llythrennedd cenedlaethol ar gael athrawon i sylweddoli bod ganddynt ddylanwad hollbwysig ar ddatblygiad y dysgwyr, i'w hannog i ganolbwyntio mwy ar rifedd a llythrennedd mewn gwersi ar draws y cwricwlwm, fel yr oedd Simon Thomas yn anelu ato'n gynharach. Y gwir amdani yw nad ydyw o fewn ein gallu i newid y canlyniadau PISA diwethaf yn awr, ond mae o fewn ein gallu i newid canlyniadau'r dyfodol. Ffurf weithredol hyn yw cynllun 20 pwynt y Gweinidog addysg, sydd wedi cymryd ystyriaeth eang o'r heriau a'i defnyddio yn sylfaen i'r gweithredu o hyn ymlaen. Clywais gyfraniadau'r gwrthbleidiau heddiw yn amlinellu'r angen am newid, ond dyma'r un pleidiau a oedd yn gwrthwynebu bandio, sef system a fyddai'n darparu cymorth i'r ysgolion sydd ei angen. Byddai toriad o 20% neu £1.5 biliwn yn y gyllideb addysg fel a gynigiwyd gan y Torïaid yn torri nifer y disgyblion sydd â gallu rhifedd.

There is also an emphasis in the national numeracy and literacy framework on encouraging teachers to realise that they have a crucial influence on learners' development, to encourage them to concentrate more on literacy and numeracy in classes that go across the curriculum, as Simon Thomas was getting at earlier. The truth is that we cannot change the results of the latest PISA assessments, but we can change the results for the future. The Minister's 20-point action plan is the practical application of this, which takes a broad consideration of the challenges and uses that as a platform for action for the future. I heard the contributions of the opposition parties today outlining the need for change, but these are the self-same parties that objected to banding, namely a system that would provide assistance to those schools that need it. The cut of 20% or £1.5 billion in the education budget, as proposed by the Tories, would cut the number of pupils with numeracy skills.

**Angela Burns:** I am grateful to you for taking this intervention. Given how important it is for our children to read, write, understand, have comprehension, and be numerate, do you not think that the Minister's 21 statements so far this term on many other issues, let alone his state-of-the-nation addresses in other places, are all just a sideshow? There should be more urgency given the importance of getting numeracy right. You said yourself how difficult it is to

**Angela Burns:** Rwy'n ddiolchgar i chi am dderbyn yr ymyriad hwn. O gofio pa mor bwysig yw hi i'n plant ddarllen, ysgrifennu, deall, amgyffred, a bod yn rhifog, onid ydych yn credu bod y 21 datganiad y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud hyd yn hyn y tymor hwn ar nifer o faterion eraill, heb sôn am ei anerchiadau mewn mannau eraill ynghylch cyflwr y genedl, yn bethau eilradd i gyd? Dylai fod mwy o frys o gofio pa mor bwysig yw cael rhifedd yn iawn.

learn in Welsh.

Dywedasoch eich hun pa mor anodd ydyw i'w ddysgu yn y Gymraeg.

**Keith Davies:** Mae'n rhaid inni gael cynllun. Heb gynllun, ni fydd pethau'n gweithio. Yr hyn a wnaeth y Gweinidog addysg y llynedd oedd creu cynllun 20 pwynt, ac mae pob un o'r pwyntiau hynny'n bwysig. Cânt eu cyflwyno yn eu tro.

**Keith Davies:** We need a plan in place. Without a proper plan in place, things will not work. What the Minister for education did last year was draw up a 20-point plan, and each of those points is important. They will be introduced in turn.

I fynd yn ôl at doriadau yn y system addysg, pe bai 20% yn llai o wariant, byddai plant yn gadael yr ysgol heb y sgiliau priodol i fynd i'r brifysgol neu i'r gweithle, neu i gyfrifo eu biliau cartref neu i reoli eu gwariant personol. Mae'n hollbwysig ein bod yn cadw'r cyllid sydd ar gael i addysg yn awr ac, yn sicr, ein bod yn cefnogi'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i gynnig yn ei gynlluniau.

To return to cuts in the education budget, if there were a 20% reduction in expenditure, children would leave school without the appropriate skills to go to university, to enter the workplace, to calculate their home bills or to manage their personal spending. It is vital that we retain the funding available now for education and, certainly, that we support what the Minister has proposed in his plans.

**Joyce Watson:** The 2009 PISA assessment was a wake-up call for Wales. We should not hide from the hard truth. Wales was fortieth out of 67 countries for numeracy, and too many children have been let down by that system. They have been left confused in lessons, embarrassed to ask for help, and quietly falling behind their classmates. No child should have to struggle from one lesson to the next, from one year to the other. I want every child in Wales to feel confident in using maths in school and in applying it to their everyday lives—not just the children of those parents who are confident, able and willing to help with the homework, but the children of parents who dread being asked to explain long division.

**Joyce Watson:** Roedd canlyniadau PISA yn 2009 yn rhybudd i Gymru. Ni ddylem guddio rhag y gwir plaen. Roedd Cymru yn y deugeinfed safle o 67 o wledydd ym maes rhifedd, ac mae'r system honno wedi gwneud tro gwael â gormod o blant. Maent wedi cael eu gadael yn ddryslyd yn y gwersi, gyda gormod o gywilydd i ofyn am gymorth, ac yn mynd ar ei hôl hi yn ddistaw bach o'u cymharu â'u cyd-ddisgyblion. Ni ddylai unrhyw blentyn orfod cael pethau'n anodd o un wers i'r llall, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Rwyf am i bob plentyn yng Nghymru deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio mathemateg yn yr ysgol ac wrth ei defnyddio yn eu bywydau pob dydd—nid dim ond plant y rhieni sy'n teimlo'n hyderus ynghylch helpu gyda'r gwaith cartref, ac sy'n gallu ac sy'n barod i wneud hynny, ond plant y rhieni sy'n ofni wynebu'r cais i esbonio beth yw symiau rhannu hir.

We all know people who will say that they cannot do maths, but numeracy can and must be learned. In a global, high-skill economy, numeracy is the key to unlocking this country's potential. This Government, I believe, has grasped the nettle. The 20-point action plan that the Minister has set out will help us to achieve the ambitious target for Wales to be in the top 20 PISA countries by 2015. The development of a national numeracy programme and a new national literacy and numeracy framework represents a sea change in our approach. Therefore,

Rydym i gyd yn adnabod pobl a fydd yn dweud nad ydynt yn deall mathemateg, ond gellir dysgu rhifedd, a rhaid iddo gael ei ddysgu. Mewn economi fyd-eang, uchel ei sgiliau, rhifedd yw'r allwedd i sicrhau y gwireddir potensial y wlad hon. Credaf fod y Llywodraeth hon wedi cydio yn y broblem. Bydd y cynllun gweithredu 20-pwynt a gyflwynwyd gan y Gweinidog yn ein helpu i gyrraedd y targed uchelgeisiol i Gymru fod ymhlith yr 20 gwlad uchaf ar raddfa PISA erbyn 2015. Bydd datblygu rhaglen rhifedd genedlaethol a fframwaith rhifedd a

much has been done, but there is still much to do, as the Minister has said.

llythrennedd cenedlaethol newydd yn golygu newid mawr yn ein dull gweithredu. Felly, mae llawer wedi‘i wneud, ond mae llawer i‘w wneud eto, fel y dywedodd y Gweinidog.

5.15 p.m.

International league tables encourage us to draw comparisons between us and other countries across the world and to learn from international best practice. The near unanimous advice is to look east. When politicians from all sides are saying the same thing, I usually begin to worry, but when organisations such as the OECD and the Royal Society for the Encouragement of Arts, Manufactures and Commerce echoes these calls, we must sit up and take notice.

Mae tablau cynghrair rhyngwladol yn ein hannog i wneud cymariaethau rhyngom ni â gwledydd eraill ar draws y byd ac i ddysgu o arferion gorau rhyngwladol. Y cyngor unfrydol a roddir yw edrych tua’r dwyrain. Pan fydd gwleidyddion o bob ochr yn dweud yr un peth, byddaf yn dechrau poeni fel arfer, ond pan fydd sefydliadau fel y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, y Gymdeithas Frenhinol er hybu’r Celfyddydau, Gweithgynhyrchwyr a’r byd Masnach yn adleisio’r galwadau hyn, mae’n rhaid i ni gymryd sylw.

We should not lose perspective, of course. International comparisons demonstrate that this is a British problem, as well as a Welsh one. There is a national phobia when it comes to mathematics and numeracy and we must conquer that. Exposure therapy is part of the solution. Looking east to China, we know that children there are expected to work hard at numeracy and to study mathematics as a compulsory subject to the age of 17 or 18. However, as well gazing east, we can learn lessons from looking much closer to home. Standards of numeracy in primary schools, for example, are generally comparatively higher than in secondary schools. The reason is that numeracy skills are applied more broadly across the curriculum in primary schools than they are at key stage 3. Therefore, with all the talk about going back to basics and learning by rote and such things, we should not forget to take a closer look at where our own primary schools are getting things right.

Ni ddylem golli’r persbectif, wrth gwrs. Dengys cymariaethau rhyngwladol bod hon yn broblem Brydeinig, yn ogystal ag yn broblem Gymreig. Mae ffobia cenedlaethol pan sonnir am fathemateg a rhifedd ac mae’n rhaid i ni oresgyn hynny. Trin a thrafod yw’r ateb yn rhannol. Wrth edrych tua’r dwyrain i Tsieina, gwyddom fod disgwyl i blant yno weithio’n galed gyda rhifedd ac i astudio mathemateg fel pwnc gorfodol hyd at 17 neu 18 oed. Fodd bynnag, yn ogystal ag edrych tua’r dwyrain, gallwn ddysgu gwersi o edrych yn llawer agosach at gartref. Ar y cyfan, mae safonau rhifedd mewn ysgolion cynradd, er enghraifft, yn gymharol uwch yn gyffredinol nag mewn ysgolion uwchradd. Y rheswm yw, bod sgiliau rhifedd yn cael eu cymhwyso’n fwy eang ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion cynradd nag y maent yng nghyfnod allweddol 3. Felly, gyda’r holl sôn am fynd yn ôl at y pethau sylfaenol a dysgu pethau ar y cof ac ati, dylem gofio edrych yn fwy manwl sut y mae ein hysgolion cynradd ni yn cyrraedd y nod.

**The Minister for Education and Skills (Leighton Andrews):** My colleague the Deputy Minister for Skills sometimes likes to tease officials in my department by saying that there are basically three kinds of people: those who can count and those who cannot. [*Laughter.*] For those who cannot count, we will today be supporting amendments 1, 3, 4, 6 and 10, and opposing the others,

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau (Leighton Andrews):** Bydd fy nghydweithiwr, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, weithiau’n hoffi tynnu coes y swyddogion yn fy adran drwy ddweud, yn y bôn, fod tri math o bobl: y rhai sy’n gallu cyfrif a’r rhai na allant gyfrif. [Chwerthin.] I’r rhai nad ydynt yn gallu cyfrif, byddwn yn cefnogi gwelliannau 1, 3, 4, 6 a 10 heddiw, ac yn gwrthwynebu’r rhai

particularly the one that prejudges budget discussions.

eraill, yn enwedig yr un sy'n rhagfarnu trafodaethau ar y gyllideb.

If anyone wanted to understand why numeracy is important, they could have benefited from listening to the passionate speech by my colleague the Member for Aberavon who demonstrated, both in Welsh and English, the importance of numeracy skills to young people. His speech stood out in today's debate, and I congratulate him on it. I am less impressed with the speech by the spokesperson for the Liberal Democrats. It is fine to cite PISA—and I had a very good discussion last week with Michael Davidson of PISA, whom he mentioned, who was over here to talk to about 120 headteachers and deputy headteachers about the whole process of PISA—but it is important that people understand what you can and cannot do with PISA. You cannot teach to the PISA assessments. Anyone who has any understanding of the PISA assessments will tell you that. However, what you can do is ensure that schools have a good grounding in what is expected of pupils when they take part in the PISA assessments and understand the methodologies of PISA and how they contribute to developing and underpinning skills. That is what we have been seeking to do with the advice and information that we have been giving to schools.

Os oes unrhyw un am ddeall pam mae rhifedd yn bwysig, gallent fod wedi cael budd o wrando ar yr araith angerddol gan fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Aberafan, a gyfleodd bwysigrwydd sgiliau rhifedd i bobl ifanc, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd ei araith yn hynod iawn yn ystod y ddadl heddiw, ac rwy'n ei longyfarch arni. Gwnaeth yr araith gan y llefarydd ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol lai o argraff arnaf. Mae'n iawn dyfynnu PISA—a chefais drafodaeth dda iawn yr wythnos diwethaf gyda Michael Davidson o PISA, y soniodd amdano, a oedd yma i siarad â thua 120 o benaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgolion am broses gyfan PISA—ond mae'n bwysig, fodd bynnag, fod pobl yn deall yr hyn y gallwch ei wneud gyda PISA a'r hyn na allwch ei wneud gydag ef. Ni allwch addysgu yn ôl asesiadau PISA. Mae hynny'n amlwg i bawb sydd ag unrhyw ddealltwriaeth o asesiadau PISA. Fodd bynnag, yr hyn y gallwch ei wneud yw sicrhau bod gan ysgolion sylfaen dda o ran yr hyn a ddisgwylir gan ddisgyblion pan fyddant yn cymryd rhan yn yr asesiadau PISA a'u bod yn deall methodolegau PISA a sut y maent yn cyfrannu at ddatblygu a sefydlu sgiliau. Dyna'r hyn yr ydym wedi bod yn ceisio ei wneud wrth roi cyngor a gwybodaeth i ysgolion.

We want all learners to be able to access subjects that have their roots in numeracy throughout their school life and to leave school with the skills that they need to support their future choices. Our programme on numeracy is comprehensive. The Plaid Cymru spokesperson rightly referred to the issue of raising the standard of teaching in numeracy. My department is currently consulting on proposals to introduce more detailed requirements for initial teacher training courses in Wales. For example, we are proposing to make it a requirement to assess regularly trainee teachers' numeracy skills. We are also proposing to make it a requirement for all initial teacher training providers to ensure that students are trained in the teaching of numeracy. I am determined that newly qualified teachers have the strong numeracy skills that are needed to take

Rydym am i bob dysgwr allu cael mynediad at bynciau sydd â rhifedd yn sylfaen iddynt, drwy gydol eu bywyd ysgol, ac i adael yr ysgol gyda'r sgiliau y byddant eu hangen i gefnogi eu dewisiadau yn y dyfodol. Mae ein rhaglen ar rifedd yn gynhwysfawr. Yn briodol, cyfeiriodd llefarydd Plaid Cymru at y mater o godi safon addysgu sgiliau rhifedd. Mae fy adran yn ymgynghori, ar hyn o bryd, ar gynigion i gyflwyno gofynion mwy manwl ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Er enghraifft, rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol bod sgiliau rhifedd athrawon o dan hyfforddiant yn cael eu hasesu'n rheolaidd. Rydym hefyd yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol bod holl ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hyfforddi i addysgu rhifedd. Rwy'n benderfynol y bydd gan athrawon sydd

forward the improvements that I am driving.

newydd gymhwyso y sgiliau rhifedd cadarn sydd eu hangen i roi'r gwelliannau yr wyf yn eu cynnig, ar waith.

The Plaid Cymru spokesperson also made the point about the relationship between poverty and poor attainment and reviewed some of the research on that. I reviewed a lot more of that research in a recent speech to the 'A Child's World—Working Together for a Better Future' conference in Aberystwyth.

Nododd llefarydd Plaid Cymru hefyd y pwynt ynghylch y berthynas rhwng tlodi a chyrhaeddiad gwael, a bu'n adolygu rhywfaint o'r ymchwil a wnaed ar hynny. Adolygais innau lawer mwy o'r ymchwil hwnnw mewn araith ddiweddar yn y gynhadledd 'Byd Plentyn - Gweithio gyda'n Gilydd at Ddyfodol Gwell' yn Aberystwyth.

The quality of mathematics teachers is also clearly important, in their own lessons and in supporting their fellow teachers in applying numeracy to their own lessons. We have recently improved the financial incentives for eligible graduates to teach maths to up to £15,000 for students with a first-class degree. Through the Learning Wales website, we will publish a range of online resources providing all teachers with support and guidance in relation to our national numeracy programme.

Mae ansawdd gwaith yr athrawon mathemateg hefyd yn bwysig, yn amlwg, a hynny yn eu gwersi eu hunain ac wrth gefnogi eu cyd-athrawon i gymhwyso rhifedd at eu gwersi hwythau. Yn ddiweddar, rydym wedi gwella'r cymhellion ariannol i raddedigion cymwys addysgu mathemateg, i hyd at £15,000 ar gyfer myfyrwyr gyda gradd dosbarth cyntaf. Drwy wefan Dysgu Cymru, byddwn yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau ar-lein sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad i bob athro mewn perthynas â'n rhaglen rhifedd genedlaethol.

**Simon Thomas:** On the point about getting the best teachers and breaking the correlation between poverty and attainment, he may be aware that his colleague in London, the English shadow Minister, Stephen Twigg, has today announced that army schools with a service ethos are the answer to this. Will he use this opportunity to rule that out for Wales?

**Simon Thomas**: Ar y pwynt ynghylch cael yr athrawon gorau, a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad, tybed a yw'n ymwybodol bod ei gydweithiwr, Stephen Twigg, Gweinidog yr Wrthblaid yn Llundain, wedi cyhoeddi heddiw mai ysgolion y fyddin, sydd ag ethos gwasanaeth, yw'r ateb i hyn. A fydd yn defnyddio'r cyfle hwn i ddiystyru hyn ar gyfer Cymru?

**Leighton Andrews:** I have no plans to go down that route, but I want to pay tribute to the work being done with the cadet force in Treorchy Comprehensive School in my constituency, which I think has made an important contribution to that school. My colleague the Member for Mid and West Wales referred to a national phobia when it comes to numbers and she is right to talk about that. We believe that employers can have a role in helping the issue of numeracy have greater importance and context for young people. We are investigating how to encourage them to get involved in enhancing the curriculum in schools in relation to numeracy. There are potential benefits to employers, teachers and pupils if this approach is successful.

**Leighton Andrews**: Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ddilyn y trywydd hwnnw, ond hoffwn dalu teyrnged i'r gwaith a wneir gyda chadetiaid yn Ysgol Gyfun Treorci, yn fy etholaeth, gan fod y cadetiaid wedi gwneud cyfraniad pwysig i'r ysgol honno. Cyfeiriodd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, at ffobia cenedlaethol o ran rhifau, ac mae'n gywir i sôn am hynny. Credwn y gall cyflogwyr helpu i sicrhau bod pobl ifanc yn deall pwysigrwydd rhifedd a rhoi mwy o gyd-destun iddo. Rydym yn ymchwilio i'r modd y gallwn eu hannog i helpu i wella'r cwricwlwm o ran rhifedd mewn ysgolion. Mae manteision posibl i gyflogwyr, athrawon a disgyblion pe bai'r dull gweithredu hwn yn llwyddiannus.

The application of numeracy in the real world is critical. One of the more obvious and essential applications is that of managing money. My colleague the Member for Llanelli reminisced about the introduction of decimalisation in the 1970s. I want to make it clear to him that financial capability is there in the curriculum; it can be seen in the literacy and numeracy framework. The Welsh financial education unit is supporting teachers in teaching financial capability by offering free continuing professional development training to teachers of seven to 19-year-olds during the 2012-13 academic year.

Mae defnyddio rhifedd yn y byd go iawn yn hanfodol. Un defnydd hanfodol ac amlwg iawn yw rheoli arian. Roedd fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Lanelli yn cofio'r dyddiau da pan gyflwynwyd y system ddegol yn y 1970au. Rwyf am nodi'n glir wrtho bod gallu ariannol wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm; mae i'w weld yn y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae uned addysg ariannol Cymru yn cefnogi athrawon wrth addysgu gallu ariannol, drwy gynnig hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus am ddim i athrawon disgyblion rhwng saith a 19 oed yn ystod y flwyddyn academaidd 2012-13.

We have specified that numeracy must be central to the qualifications system. A formal consultation exercise on key issues and options arising from the 14-19 review of qualifications is now under way and runs until 1 September. We will continue to refine and develop the national numeracy programme during its life. We will learn from delivering this programme and from listening to expert advice on what is working and what will work. To that end, I will appoint an expert panel on numeracy to provide targeted advice and guidance throughout the life of the national numeracy programme. The panel will monitor, review and evaluate the programme's performance and provide advice on actions proposed to raise numeracy levels and how these could be implemented—for teaching through the medium of English as well as the medium of Welsh, and my colleague the Member for Llanelli was right to draw attention to the different issues in that regard. We advertised for appointees to that panel in June and the appointments process is under way.

Rydym wedi nodi bod yn rhaid i rifedd fod yn ganolog i'r system gymwysterau. Mae ymgynghoriad ffurfiol ar faterion allweddol a'r dewisiadau sy'n deillio o'r adolygiad o gymwysterau i rai rhwng 14 a 19 oed wedi dechrau a bydd ar waith tan 1 Medi. Byddwn yn parhau i fireinio a datblygu'r rhaglen rhifedd genedlaethol dros gyfnod y rhaglen. Byddwn yn dysgu o gyflwyno'r rhaglen hon ac o wrando ar gyngor arbenigol ynghylch beth sy'n gweithio a beth fydd yn gweithio. I'r perwyl hwnnw, byddaf yn penodi panel arbenigol ar rifedd, i roi cyngor ac arweiniad wedi'i dargedu, drwy gydol cyfnod y rhaglen rhifedd genedlaethol. Bydd y panel yn monitro, adolygu a gwerthuso perfformiad y rhaglen ac yn rhoi cyngor ar gamau gweithredu arfaethedig i godi lefelau rhifedd, a sut y bydd modd eu rhoi ar waith—ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Saesneg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae fy nghydweithiwr, yr Aelod dros Lanelli, yn gywir pan dynnodd sylw at y gwahanol faterion yn hynny o beth. Hysbysebwyd am bobl i'w penodi i'r panel hwnnw ym mis Mehefin ac mae'r broses o benodi ar y gweill.

We remain committed to ensuring that young people in Wales have access to the skills that they need to help them succeed and progress into employment or higher education. We will work closely with our partners and stakeholders to improve the opportunities and prospects for our young people and seek to ensure that Wales has a future skilled workforce that can ably compete in the global economy.

Rydym wedi ymrwymo o hyd, i sicrhau bod gan bobl ifanc yng Nghymru fynediad at y sgiliau sydd eu hangen arnynt i'w helpu i lwyddo a symud ymlaen i gyflogaeth neu addysg uwch. Byddwn yn gweithio'n agos â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i wella'r cyfleoedd a'r rhagolygon ar gyfer ein pobl ifanc ac yn ceisio sicrhau bod gan Gymru weithlu medrus yn y dyfodol a fydd yn gallu cystadlu yn yr economi fyd-eang.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 1. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, datganaf fod gwelliant 1 wedi ei dderbyn.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 1 be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 1 agreed.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly caiff pob pleidlais arall ar yr eitem hon ei gohirio tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The question is that amendment 2 be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

**The Deputy Presiding Officer:** Are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that three Members do. Clerk, please ring the bell.

**Y Dirprwy Lywydd**: A oes tri Aelod sy’n dymuno i’r gloch gael ei chanu? Gwelaf fod tri Aelod yn dymuno hynny. Glerc, canwch y gloch os gwelwch yn dda.

I can allow five minutes when the bell is rung, but I think that everyone is now present. Are Members happy with me to proceed with the voting? I see that you are.

Gallaf ganiatáu pum munud pan fydd y gloch yn cael ei chanu, ond credaf fod pawb yn bresennol yn awr. A yw’r Aelodau yn fodlon i mi fwrw ymlaen â’r pleidleisio? Gwelaf eich bod.

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 2 i NDM5031: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 2 to NDM5031: For 25, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane

Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5031: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 3to NDM5031: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled

Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 4 i NDM5031: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 4 to NDM5031: For 50, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon

Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM5031: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 5 to NDM5031: For 25, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM5031: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Amendment 6 to NDM5031: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark

Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM5031: O blaid 18, Ymatal 7, Yn erbyn 26.*
*Amendment 7 to NDM5031: For 18, Abstain 7, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne

Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

5.30 p.m.

*Gwelliant 8 i NDM5031: O blaid 23, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 8 to NDM5031: For 23, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 9 i NDM5031: O blaid 25, Ymatal 0, Yn erbyn 26.*
*Amendment 9 to NDM5031: For 25, Abstain 0, Against 26.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Gwelliant 10 i NDM5031: O blaid 31, Ymatal 7, Yn erbyn 13.*
*Amendment 10 to NDM5031: For 31, Abstain 7, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.*
*Amendment agreed.*

*Gwelliant 11 i NDM5031: O blaid 5, Ymatal 7, Yn erbyn 39.*
*Amendment 11 to NDM5031: For 5, Abstain 7, Against 39.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Parrott, Eluned
Powell, William
Roberts, Aled
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Elin
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

*Cynnig NDM5031 fel y'i diwygiwyd:*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn nodi:*

*a) bod rhifedd yn sgil hanfodol;*

*b) bod Cymru, o dan asesiad PISA 2009, yn 40fed o blith 67 o wledydd ym maes mathemateg;*

*c) bod angen codi safonau rhifedd ar fyrder gydag ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a phob sector yn y byd addysg i gyflawni'r amcan hwn;*

*d) bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Rhaglen Rhifedd Genedlaethol i godi'n sylweddol lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd er mwyn cynorthwyo'r sector addysg a dysgwyr i godi safonau rhifedd;*

*e) y gydberthynas sy'n parhau rhwng amddifadedd a'r lefelau cyrhaeddiad mewn rhifedd.*

*2. Yn cydnabod y rôl allweddol y gall rhieni a gwarcheidwaid ei chwarae wrth weithio gyda'r sector addysg i wella safonau rhifedd ymysg plant a phobl ifanc Cymru.*

*3. Yn croesawu'r buddsoddiad a ddarparwyd gan y grant amddifadedd disgyblion, a fydd yn helpu i wella lefelau rhifedd mewn ysgolion.*

*Motion NDM5031 as amended:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Notes:*

*a) that numeracy is a fundamental skill;*

*b) that, under the 2009 PISA assessment, Wales ranks 40th out of 67 countries for mathematics;*

*c) that there is an urgent need to raise standards of numeracy with a commitment from the Welsh Government and all sectors of education to delivering this objective;*

*d) the Welsh Government's intention to publish a National Numeracy Programme to significantly raise levels of attainment in numeracy in order to support the education sector and learners to raise numeracy standards;*

*e) the continuing correlation between deprivation and the levels of attainment in numeracy.*

*2. Acknowledges the crucial role which parents and guardians can play in working with the education sector to improve standards of numeracy amongst Wales' children and young people.*

*3. Welcomes the investment provided by the pupil deprivation grant, which will help to improve numeracy in schools.*

*Cynnig NDM5031 fel y'i diwygiwyd: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*
*Motion NDM5031 as amended: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Davies, Paul
Davies, Suzy
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Gething, Vaughan
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hedges, Mike
Hutt, Jane
Isherwood, Mark
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Millar, Darren
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Ramsay, Nick
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay
Williams, Kirsty
Wood, Leanne

*Derbyniwyd cynnig NDM5031 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM5031 as amended agreed.*

## Dadl Fer a Ohiriwyd ers 27 Mehefin 2012
## Short Debate Postponed from 27 June 2012

### Arafu'r Traffig i Sicrhau Diogelwch ein Plant Ysgol
### Putting the Brakes on Traffic to Ensure the Safety of our School Children

**Leanne Wood:** I have had requests from Mike Hedges, Joyce Watson and Eluned Parrott to take part in the debate, and I will grant them a minute each at the end.

A great deal of time is spent inside and outside this Chamber discussing the education of children in Wales, and that is only right and proper. After all, a good education system underpins any successful economy. It also provides the most effective means of escaping poverty, and I think that all of us who are left gathered here would agree that there is still far too much poverty in Wales. Although it is our duty to ensure that our educational standards are world-class, we must also provide a safe environment in which children can learn, develop and flourish.

For me, this safe environment includes the journey to and from school. There are plenty of initiatives aimed at getting parents to abandon the school run, and I applaud schools such as Millbrook Primary School in Newport, Gwent, which, last month, had all 186 of its pupils take part in a record-breaking walking bus to the classroom. This sort of scheme has three important benefits. It encourages children to be active, it takes traffic off the roads and it reduces carbon emissions. However, in many other parts of Wales, there is a major deterrent to parents allowing their children to walk to school, and that is the speed of traffic outside some school gates.

I want to take the opportunity this afternoon to highlight the example of Ysgol Penderyn in the northern most reaches of the South Wales Central region that I represent. The walking bus is an idea that some parents in the village briefly considered before rejecting because the speed limit outside the school is 40 mph. I am not sure how anyone could argue that this is a safe environment for children walking to school. Some Members may be familiar with the school. Travelling

**Leanne Wood:** Yr wyf wedi cael ceisiadau gan Mike Hedges, Joyce Watson ac Eluned Parrott i gymryd rhan yn y ddadl, a byddaf yn rhoi munud yr un iddynt ar y diwedd.

Mae llawer iawn o amser yn cael ei dreulio y tu mewn a'r tu allan i'r Siambr hon yn trafod addysg plant yng Nghymru, ac mae hynny'n iawn ac yn briodol. Wedi'r cyfan, mae system addysg dda yn sail i unrhyw economi lwyddiannus. Mae hefyd yn cynnig y ffordd fwyaf effeithiol o ddianc rhag tlodi, ac yr wyf yn meddwl y byddai pob un ohonom sydd ar ôl yma yn cytuno bod llawer gormod o dlodi yng Nghymru o hyd. Er ei bod yn ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein safonau addysgol o'r radd flaenaf, mae'n rhaid inni hefyd ddarparu amgylchedd diogel lle y gall plant ddysgu, datblygu a ffynnu**.**

I mi, mae'r amgylchedd diogel yn cynnwys y daith yn ôl ac ymlaen o'r ysgol. Mae digon o fentrau wedi'u hanelu at gael rhieni i roi'r gorau i'r daith i'r ysgol, a chymeradwyaf ysgolion fel Ysgol Gynradd Millbrook yng Nghasnewydd, a oedd, y mis diwethaf, wedi llwyddo i gael pob un o'i 186 o ddisgyblion i gymryd rhan yn y bws cerdded mwyaf erioed i'r ystafell ddosbarth. Mae tri budd pwysig i'r math hwn o gynllun. Mae'n annog plant i fod yn weithgar, mae'n cymryd traffig oddi ar y ffyrdd ac mae'n lleihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, mewn llawer o rannau eraill o Gymru, mae un ffactor fawr sy'n rhwystro rhieni rhag gadael i'w plant gerdded i'r ysgol, sef cyflymder y traffig tu allan i rai ysgolion.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle y prynhawn yma i dynnu sylw at un esiampl, sef Ysgol Penderyn yn rhannau gogleddol rhanbarth Canol De Cymru yr wyf fi yn ei gynrychioli. Mae'r bws cerdded yn syniad y gwnaeth rhai rhieni yn y pentref ei ystyried am ychydig cyn ei wrthod oherwydd bod y terfyn cyflymder y tu allan i'r ysgol yn 40 mya. Nid wyf yn siŵr sut y gallai unrhyw un ddadlau bod hyn yn amgylchedd diogel i blant gerdded i'r ysgol. Efallai y bydd rhai

from Brecon to Hirwaun, the speed limit actually increases from 30 mph to 40 mph by the time it reaches the school. The school has another problem, which is illegal parking. I do not condone illegal parking in any way, but there is no doubt that the prevalence of illegal parking in Penderyn is exacerbated by a feeling among parents that it is simply not safe to allow their children to walk to school when the cars travelling past are travelling at 40 mph.

Aelodau yn gyfarwydd â'r ysgol. Wrth deithio o Aberhonddu i Hirwaun, mae'r terfyn cyflymder mewn gwirionedd yn cynyddu o 30 mya i 40 mya erbyn iddo gyrraedd yr ysgol. Mae gan yr ysgol broblem arall, sef parcio anghyfreithlon. Nid wyf yn esgusodi parcio anghyfreithlon mewn unrhyw ffordd, ond nid oes amheuaeth bod nifer yr achosion o barcio anghyfreithlon ym Mhenderyn yn cael ei waethygu gan deimlad ymhlith rhieni nad yw'n ddiogel i adael i'w plant gerdded i'r ysgol pan fydd y ceir sy'n teithio heibio yn teithio ar gyflymder o 40 mya.

Let us look at the evidence. Experts are in agreement on the wide gulf between the consequences of a car travelling at 20 mph and 25 mph, let alone 40 mph. The following information is from the road safety charity Brake:

Gadewch i ni edrych ar y dystiolaeth. Mae arbenigwyr yn cytuno ar y bwlch mawr rhwng effaith car yn teithio 20 mya a 25 mya, heb sôn am 40 mya. Daw'r wybodaeth ganlynol gan Brake, yr elusen diogelwch ar y ffyrdd:

'A vehicle travelling at a speed limit of 20 mph at the onset of an incident would stop in time to avoid a child running out three car-lengths in front. The same vehicle initially breaking this limit at 25 mph would still be travelling at 18 mph at the three car-lengths marker. A pedestrian hit at 18 mph by a 1 ton car would be likely to suffer death or serious injury. To imagine the effect this is roughly the same as a child falling out backwards and head first from an upstairs window. We say backwards and head first to demonstrate the lack of control a child has in a road crash, and the potential not only for that child to be hit severely on their head and upper body but also be run over and consequently crushed by a vehicle.'

Byddai cerbyd sy'n teithio 20 mya ar ddechrau digwyddiad yn stopio mewn pryd i osgoi plentyn a fyddai'n rhedeg allan i'r ffordd bellter tri char i ffwrdd. Byddai'r un cerbyd sy'n teithio 25 mya yn dal i fod yn teithio 18 mya ar ôl cyrraedd pellter tri char i ffwrdd. Byddai cerddwr sy'n cael ei daro gan gar 1 tunnell sy'n teithio ar gyflymder o 18 milltir yr awr yn debygol o farw neu ddioddef anafiadau difrifol. Er mwyn dychmygu'r effaith, mae hyn yn fras yr un fath â phlentyn yn disgyn wysg ei gefn, a'i ben i lawr o ffenestr i fyny'r grisiau. Rydym yn dweud wysg ei gefn a'i ben i lawr er mwyn dangos y diffyg rheolaeth sydd gan blentyn mewn gwrthdrawiad ar y ffordd, a'r potensial nid yn unig i'r plentyn gael ei daro'n ddifrifol ar ei ben a rhan uchaf ei gorff, ond i'r cerbyd fynd drosto ac yna'i wasgu gan y cerbyd .

What is particularly alarming for the parents of children at Ysgol Penderyn is that the stopping distance of a car travelling at 40 mph is treble that of a car travelling at 20 mph—it goes from 40 ft to 120 ft. There are more sobering statistics from Brake:

Yr hyn sy'n arbennig o frawychus i rieni plant Ysgol Penderyn yw bod y pellter stopio ar gyfer car sy'n teithio 40 mya dair gwaith yn fwy na'r hyn yw ar gyfer car sy'n teithio 20 mya—mae'n codi o 40 troedfedd i 120 troedfedd. Mae gan Brake fwy o ystadegau difrifol:

'Half of the deaths of people on foot are the very young or elderly.'

Mae hanner y bobl sy'n cael eu lladd a hwythau'n cerdded yn blant ifanc neu'n bobl oedrannus.

It goes on to say that

Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod

'research published in 2002 showed that children in the 10% most deprived areas in the country…are more than three times more likely to be killed or injured on foot than children in the 10% least deprived wards.'

Ymchwil a gyhoeddwyd yn 2002 yn dangos bod plant yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad...yn fwy na thair gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu wrth gerdded na phlant yn y 10% o wardiau lleiaf difreintiedig.

I know that quoting statistics is dry, so there will not be many more, I promise, but this one is from the Welsh Government and is, perhaps, the most pertinent:

Gwn fod dyfynnu ystadegau yn sych, felly ni fydd llawer mwy, yr wyf yn addo, ond mae hwn yn dod gan Lywodraeth Cymru a dyma, efallai, y mwyaf perthnasol:

'Since 2002, around 1 in 4 of all child pedestrian casualties were reported to be school pupils on a journey to or from school.'

'Ers 2002 mae tua 1 ymhob 4 o'r holl anafusion cerddwyr sy'n blant yn cael eu hadrodd o fod yn ddisgyblion ysgol yn teithio i neu o'r ysgol.'

Clearly, more needs to be done, and soon. We should not tolerate a situation whereby children without transport are forced to endure a dangerous route to school on foot.

Yn amlwg, mae angen gwneud mwy, a hynny'n fuan. Ni ddylem oddef sefyllfa lle mae plant heb gludiant yn cael eu gorfodi i ddioddef llwybr cerdded peryglus i'r ysgol.

In the community of Penderyn, there is a well-run, well-supported and energetic campaign, which is ably supported by my Plaid Cymru colleague and Hirwaun councillor Karen Morgan, to revise the speed limit. Campaigners want the limit cut to 30 mph with a 20 mph time-bound limit outside the school itself—not an unreasonable request, you might think. Unfortunately, their efforts have come up against a brick wall from Rhondda Cynon Taf County Borough Council, which cites a lack of funds as being the chief factor in denying them their demands. This lack of funds is something that the Welsh Local Government Association says is also hampering the review of speed limits by local authorities ordered by the Welsh Government. The WLGA says that, because of the fact that it is not a requirement and that no additional resources have been provided, progress is variable and some authorities are more advanced than others with this work. The County Surveyors' Society has confirmed this obstacle, adding that there is also the issue of providing a staff resource to undertake the review. Additionally, I understand that the Department for Transport is issuing revised guidance and a new assessment tool, which is likely to filter through to Welsh local authorities in due course; there may be some reluctance to undertake work while this is

Yng nghymuned Penderyn, mae ymgyrch dda, egnïol a gefnogir yn dda, sy'n cael cefnogaeth fedrus gan Karen Morgan, fy nghyd-aelod Plaid Cymru a chynghorydd Hirwaun, i adolygu'r terfyn cyflymder. Mae ymgyrchwyr am i'r terfyn gael ei ostwng i 30 mya gyda chyfyngder o 20 mya ar rai adegau y tu allan i'r ysgol ei hun—cais nid afresymol, efallai. Yn anffodus, mae eu hymdrechion wedi taro maen tramgwydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sy'n sôn am ddiffyg arian fel y prif ffactor dros wrthod eu gofynion. Mae'r diffyg arian yn rhywbeth y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn ddweud sy'n amharu ar adolygiad awdurdodau lleol o gyfyngiadau cyflymder, y mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn amdano. Oherwydd y ffaith nad yw'n ofynnol ac nad oes unrhyw adnoddau ychwanegol wedi eu darparu, dywed Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod unrhyw gynnydd yn amrywiol a bod rhai awdurdodau wedi symud ymlaen fwy nag eraill gyda'r gwaith hwn. Mae Cymdeithas y Syrfewyr Sirol wedi cadarnhau'r rhwystr hwn, gan ychwanegu bod yna hefyd fater o ddarparu staff i gynnal yr adolygiad. Yn ychwanegol, deallaf fod yr Adran Drafnidiaeth yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig a dull asesu newydd, sy'n debygol o dreiddio i awdurdodau lleol Cymru maes o law; efallai bod amharodrwydd i

pending. So, it seems that the Welsh Government has ordered a review, but is not providing either the means or the impetus to carry it out.

ymgymryd â gwaith tra bod hyn yn yr arfaeth. Felly, ymddengys bod Llywodraeth Cymru wedi gorchymyn adolygiad, ond nid yw'n darparu'r modd na'r ysgogiad i wneud y gwaith.

There is a lack of urgency on this issue. In correspondence with a campaign group in Penderyn, Rhondda Cynon Taf council also underlines one significant criterion of the Welsh Government, which states that accident history is a significant factor in determining the success, or not, of an application for a traffic management grant. Is this Welsh Government really sending out a message to the parents of pupils in Ysgol Penderyn that somebody has to be seriously injured, or worse, before something can be done? I know from anecdotal evidence that there have been a few traffic accidents outside Ysgol Penderyn, one of which involved a lorry travelling to a nearby quarry. Do these near misses have to be serious accidents before action is taken?

Mae diffyg brys ar y mater hwn. Mewn gohebiaeth gyda grŵp ymgyrchu ym Mhenderyn, mae cyngor Rhondda Cynon Taf hefyd yn tanlinellu un maen prawf arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi bod hanes damweiniau yn ffactor arwyddocaol wrth benderfynu llwyddiant, neu ddiffyg llwyddiant cais am grant rheoli traffig. A yw Llywodraeth Cymru, o ddifrif calon, yn anfon neges at rieni disgyblion yn Ysgol Penderyn bod yn rhaid i rywun gael ei anafu'n ddifrifol, neu'n waeth, cyn y gellir gwneud rhywbeth? Rwy'n gwybod o dystiolaeth anecdotaidd bod ychydig o ddamweiniau traffig wedi digwydd y tu allan i Ysgol Penderyn, ac un ohonynt yn ymwneud â lori oedd yn teithio i chwarel gyfagos. A oes angen i'r achosion hyn o ddigwyddiadau a oedd bron yn ddamweiniau droi'n ddamweiniau difrifol cyn i gamau gael eu cymryd?

I would like to contrast this with the proactive action that has been taken in Scotland, where substantial funding was provided to local authorities to introduce a mandatory speed limit around schools. An estimated 85% of schools in Scotland now have a 20 mph speed limit outside their grounds. Unfortunately, the Welsh Government is not able to provide an estimate of how many of our schools have a 20 mph limit outside their grounds. The driver for the cash injection by the Scottish Government was research that showed that injury accidents fell by 60%, child pedestrian accidents by 70% and child cyclist accidents by 48% in areas where 20 mph zones and traffic-calming measures were introduced.

Hoffwn gymharu hynny â'r camau rhagweithiol sydd wedi cael ei gymryd yn yr Alban, lle roedd cyllid sylweddol yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol i gyflwyno terfyn cyflymder gorfodol o amgylch ysgolion. Amcangyfrifir bod cyfyngiad cyflymder o 20 mya y tu allan i 85% o ysgolion yn yr Alban bellach. Yn anffodus, nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu darparu amcangyfrif o faint o'n hysgolion sydd â chyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr y tu allan i dir yr ysgol. Yr hyn a lywiodd yr hwb ariannol gan Lywodraeth yr Alban oedd ymchwil a ddangosodd bod damweiniau wedi gostwng 60%, damweiniau i blant sy'n cerdded wedi gostwng 70% a damweiniau i blant sy'n beicio wedi gostwng 48% mewn ardaloedd lle mae parthau 20 mya a mesurau arafu traffig wedi cael eu cyflwyno.

Before I close my contribution to this debate, I would like to leave you with one final statistic. In 2011, there were 82 child pedestrian deaths and serious injuries in Wales. That represented a 15% increase from the previous year. The situation is not improving; it is getting worse. Our children

Cyn i mi orffen fy nghyfraniad i'r ddadl hon, hoffwn eich gadael gydag un ystadegyn olaf. Yn 2011, roedd 82 o farwolaethau ac anafiadau difrifol yng Nghymru i blant sy'n cerdded. Roedd hynny yn gynnydd o 15% ers y flwyddyn flaenorol. Nid yw'r sefyllfa'n gwella; mae'n gwaethygu. Mae ein plant yn

deserve better.

haeddu gwell.

**Mike Hedges:** First, I thank Leanne Wood for giving me a minute in this debate. I am committed to 20 mph speed limits outside schools, but only during the school day. I am a fan of variable speed limits. Outside Ynystawe Primary School, of which I happen to be chair of the governors, we have a 20 mph speed limit, but only during the school day. There is a variable speed sign so that people do not drive past it at 11 p.m. asking 'Why is it 20 mph here?' It has to be 20 mph when the children are using the building. Variable speed limits get the support of both parents and other motorists, because they appear fair. I would urge the Minister to fully support these limits. They cost more, but they are safer, because when you are driving along, you have to look at what the speed limit is, because it varies during the day. They are important means of ensuring the safety of our children, and I hope that more places will have these variable speed limits.

**Mike Hedges:** Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Leanne Wood am roi munud imi yn y ddadl hon. Rwyf wedi ymrwymo i gyfyngiadau cyflymder o 20 mya y tu allan i ysgolion, ond dim ond yn ystod y diwrnod ysgol. Yr wyf o blaid terfynau cyflymder amrywiol. Y tu allan i Ysgol Gynradd Ynystawe, lle rwyf yn digwydd bod yn gadeirydd y llywodraethwyr, mae gennym derfyn cyflymder o 20 milltir yr awr, ond dim ond yn ystod y diwrnod ysgol. Mae arwydd cyflymder amrywiol fel nad yw pobl sy'n gyrru heibio am 11 pm yn gofyn 'Pam ei fod yn 20 mya yma?' Rhaid iddo fod yn 20 mya pan fydd y plant yn defnyddio'r adeilad. Mae terfynau cyflymder amrywiol yn cael cefnogaeth rhieni a modurwyr eraill, am eu bod yn ymddangos yn deg. Buaswn yn annog y Gweinidog i roi cefnogaeth lawn i'r terfynau hyn. Maent yn fwy costus, ond yn fwy diogel, oherwydd pan fyddwch yn gyrru, mae'n rhaid i chi edrych beth yw'r terfyn cyflymder, am ei fod yn amrywio yn ystod y dydd. Maent yn ffordd bwysig o sicrhau diogelwch ein plant, a gobeithio y bydd mwy o leoedd yn cael terfynau cyflymder amrywiol.

**Joyce Watson:** I am delighted to support Leanne Wood on this issue. We need to build on success. Two years ago, Saron Primary School in Carmarthenshire called for the speed limit near its entrance to be reduced to 20 mph and it had success with that. The charity Sustrans is now arguing the case in favour of doing this across the length and breadth of Wales. Let us not be complacent. If the door is open, let us make sure that everybody goes through it. No child should be disadvantaged because a school is last in the queue. We know that reducing speed saves lives, and you cannot put a price on a child's life. Every child's life is priceless. Therefore, I do not accept the WLGA saying that it is not a requirement and that authorities do not have additional funds. Doing nothing is not acceptable. Local authorities had rising budgets from 1999 to 2007; they had an eight-year period when they should have used section 106 agreements and targeted budgets, and they chose not to do so. I will not accept that as an argument, but I will support a change to reduce speeds outside schools.

**Joyce Watson:** Rwyf yn falch o gefnogi Leanne Wood ar y mater hwn. Mae angen inni adeiladu ar lwyddiant. Ddwy flynedd yn ôl, galwodd Ysgol Gynradd Saron yn Sir Gaerfyrddin am ostwng y terfyn cyflymder ger y fynedfa i 20 mya, a llwyddodd i wneud hynny. Mae elusen Sustrans erbyn hyn yn dadlau dros wneud hyn ar hyd a lled Cymru. Ni ddylem fod yn hunanfodlon. Os yw'r drws yn agored, gadewch inni wneud yn siŵr bod pawb yn mynd trwyddo. Ni ddylai unrhyw blentyn fod o dan anfantais oherwydd bod yr ysgol yn olaf yn y ciw. Gwyddom fod gostwng cyflymder yn achub bywydau, ac ni allwch roi pris ar fywyd plentyn. Mae bywyd pob plentyn yn amhrisiadwy. Felly, nid wyf yn derbyn Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dweud nad yw'n ofynnol ac nad oes arian ychwanegol gan awdurdodau. Nid yw gwneud dim yn dderbyniol. Cododd cyllidebau awdurdodau lleol rhwng 1999-2007; cawsant gyfnod o wyth mlynedd pan ddylent fod wedi defnyddio cytundebau adran 106 a chyllidebau wedi'u targedu, ac maent yn dewis peidio â gwneud hynny. Ni fyddaf yn derbyn hynny fel dadl, ond byddaf

yn cefnogi newid i ostwng cyflymder y tu allan i ysgolion.

**Eluned Parrott:** I, too, thank Leanne Wood for bringing this thought-provoking debate forward today. On the side of the road between St Athan and Cowbridge there is a memorial, which I pass frequently, to a child who died on his way home from school. As Leanne will know, South Wales Central, and especially the Vale of Glamorgan, has a tragic history when it comes to school transport. I take my children to school every morning, so I see this issue every day. We are lucky that we live in a village, the school is on a minor road and the speed limit is already 20 mph. We have a bigger problem and that is the legacy of town and education planning over 100 years or more, which means that we have schools on major roads where speed and parking are both problems and children are travelling great distances to schools in many cases. Perhaps it is part of the bigger issue of how we get our children to their education safely. I would like to see this issue considered in the round with other safety issues to make sure that no more children die en route.

**Eluned Parrott:** Rwyf innau hefyd yn diolch i Leanne Wood am gyflwyno'r ddadl hon heddiw sy'n procio'r meddwl. Ar ochr y ffordd rhwng Sain Tathan a'r Bont-faen mae cofeb y byddaf yn mynd heibio iddi'n aml, i blentyn a fu farw ar ei ffordd adref o'r ysgol. Fel y gwyddoch Leanne, mae gan Canol De Cymru, ac yn enwedig Bro Morgannwg, hanes trasig pan ddaw i gludiant ysgol. Rwyf yn cludo fy mhlant i'r ysgol bob bore, felly rwyf yn gweld hyn bob dydd. Rydym yn ffodus ein bod yn byw mewn pentref, mae'r ysgol ar isffordd lle mae'r terfyn cyflymder eisoes yn 20 mya. Mae gennym fwy o broblem, sef etifeddiaeth cynllunio addysg a thref o dros 100 mlynedd neu fwy, sy'n golygu bod gennym ysgolion ar brif ffyrdd lle mae cyflymder a pharcio yn broblem ac mae plant yn teithio pellteroedd mawr i ysgolion mewn llawer o achosion. Efallai ei bod yn rhan o broblem fwy o sut yr ydym yn cael ein plant at eu haddysg yn ddiogel. Hoffwn weld y mater hwn yn cael ei ystyried yn ehangach ynghyd â materion diogelwch eraill i sicrhau nad oes mwy o blant yn marw ar y ffordd.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I thank the Deputy Presiding Officer for the opportunity to contribute to this debate. First, I place on record my thanks to Leanne Wood for the opportunity for us to have this discussion and debate on this hugely important topic in the Chamber.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Diolch i'r Dirprwy Lywydd am y cyfle i gyfrannu at y ddadl hon. Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy niolch i Leanne Wood am y cyfle inni gael y drafodaeth a'r ddadl hon ar y pwnc hynod o bwysig hwn yn y Siambr.

5.45 p.m.

All the Members speaking in this debate this afternoon have alluded to the significant impact that this can have on families. Road traffic collisions can have tragic consequences for those involved, and their families. Such incidents are even more appalling when children are involved. The Welsh Government is committed to reducing the number of children and young people killed or seriously injured on our roads, and we will continue to work with our partners to achieve this. I am pleased to say that Wales has seen a very significant reduction in the number of child road casualties in recent

Mae'r holl Aelodau sy'n siarad yn y ddadl hon y prynhawn yma wedi cyfeirio at yr effaith sylweddol y gall hyn ei chael ar deuluoedd. Gall gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd arwain at ganlyniadau trychinebus i'r rhai sy'n gysylltiedig, a'u teuluoedd. Mae digwyddiadau o'r fath hyd yn oed yn fwy dirdynnol pan fo'r damweiniau yn cynnwys plant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd, a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wireddu hyn. Rwyf yn falch o ddweud y bu gostyngiad sylweddol

years. In 2010, we achieved and exceeded our targets for reducing the number of children killed and seriously injured, achieving a 63% reduction. Last year, we equalled the record low number of casualties achieved in 2009. The Welsh road network is among the safest in the world, and we should be rightly proud of that.

iawn yn nifer y plant a gafodd eu lladd neu eu hanafu o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2010, gwnaethom gyflawni a rhagori ar ein targedau i leihau nifer y plant a gafodd eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol, gan sicrhau gostyngiad o 63%. Cafodd llai o bobl eu lladd neu eu hanafu ar y ffodd nag erioed o'r blaen yn 2009 ac roedd y ffigur ar ei hisaf eto y llynedd. Mae rhwydwaith ffyrdd Cymru ymhlith y diogelaf yn y byd, a dylem fod yn haeddiannol falch o hynny.

However, I know that there is much more that needs to be done to ensure that we can achieve further reductions. That is why we remain committed to funding road safety, providing over £6.5 million to local authorities in the current financial year through the regional transport consortia grant. This can be used to fund 20 mph zones and traffic-calming measures around schools, and there are many examples of these initiatives around Wales. It is also used to educate children on road safety. Kerb craft is one example of that, and the Member also raised the walking bus scheme, with which I am very familiar. I took part in one of those events in Cardiff. It is designed to teach five to seven-year-olds pedestrian skills through practical roadside training.

Fodd bynnag, gwn fod angen gwneud llawer mwy i sicrhau y gallwn ostwng y nifer ymhellach. Dyna pam rydym yn parhau'n ymrwymedig i ariannu diogelwch ar y ffyrdd, gan roi dros £6.5 miliwn i awdurdodau lleol yn y flwyddyn ariannol gyfredol drwy'r grant consortia trafnidiaeth rhanbarthol. Gellir defnyddio hwn i ariannu parthau 20 mya a mesurau arafu traffig o amgylch ysgolion, ac mae llawer o enghreifftiau o'r mentrau hyn ledled Cymru. Fe'i defnyddir hefyd i addysgu plant am ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae kerbcraft yn un enghraifft o hynny, a soniodd yr Aelod hefyd am y cynllun bws cerdded, yr wyf yn gyfarwydd iawn ag ef. Cymerais ran mewn un o'r digwyddiadau hynny yng Nghaerdydd. Mae wedi'i gynllunio i addysgu sgiliau cerddwyr i blant pump i saith oed drwy hyfforddiant ymarferol ar ochr y ffordd.

We have also provided local authorities with £5 million this year through the Safe Routes in Communities grant, which aims to improve accessibility and safety in communities, with many schemes concerned with ensuring that children can walk or cycle to school safely. The grant will now specifically target areas of social deprivation, to support the integration of communities where that is needed. The Member is right to raise the fact that we know that there is definitely a link between poverty and road traffic collisions. That is something that I have changed in the way that we distribute the funding for Safe Routes in Communities this year. That is having a big impact. In fact, RCT was the first council to benefit from the changes in this procurement exercise, because we altered the way in which we measure things.

Rydym hefyd wedi rhoi £5 miliwn i awdurdodau lleol eleni drwy'r grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, sy'n anelu at wella hygyrchedd a diogelwch mewn cymunedau, a bwriad llawer o gynlluniau yw sicrhau y gall plant gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel. Bydd y grant yn awr yn targedu ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol, er mwyn cefnogi'r gwaith o integreiddio cymunedau lle bo angen. Mae'r Aelod yn iawn i sôn am y ffaith ein bod yn gwybod yn bendant fod cysylltiad rhwng tlodi a gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi'i newid yn y ffordd yr ydym yn dosbarthu'r cyllid ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau eleni. Mae hynny'n cael effaith fawr. Yn wir, Rhondda Cynon Taf oedd y cyngor cyntaf i elwa ar y newidiadau yn yr ymarfer caffael hwn, gan ein bod wedi newid y ffordd yr ydym yn mesur pethau.

We recognise the proven casualty reduction benefit of 20 mph speed zones, and we support their introduction where appropriate. There are approximately 560 20 mph speed zones around Wales, many of them with funding from the Welsh Government. Mike Hedges introduced an interesting concept in terms of variable speed limits, and I would be quite interested for my team to look at that more closely, in terms of the opportunities that it may present. In 2009, we issued guidance—which came from us and local authorities—on setting the most appropriate speed for particular sections of road. It was recommended that speed limits on A and B roads should be reviewed by 2014. The guidance makes it very clear that the characteristics of the road, and the needs of vulnerable users, should be taken into account when setting local speed limits. It is important to point out that local authorities are responsible for setting speed limits on local roads. I note the Member's concern relating to her region.

Rydym yn cydnabod bod prawf bod parthau cyflymder 20 mya yn lleihau nifer y rhai a gaiff eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd, ac rydym yn cefnogi eu cyflwyno lle y bo'n briodol. Mae oddeutu 560 o barthau cyflymder 20 mya o amgylch Cymru, llawer ohonynt wedi eu creu gyda chyllid Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd Mike Hedges gysyniad diddorol o ran terfynau cyflymder amrywiol, a byddai cryn ddiddordeb gennyf i fy nhîm edrych ar hynny yn fwy manwl, o ran y cyfleoedd y gallai ei gyflwyno. Yn 2009, gwnaethom gyhoeddi canllawiau—a ddaeth gennym ni ac awdurdodau lleol—ar osod y cyflymder mwyaf priodol ar gyfer rhannau penodol o'r ffordd. Argymhellwyd y dylai terfynau cyflymder ar ffyrdd A a B gael eu hadolygu erbyn 2014. Mae'r canllawiau yn nodi'n glir iawn y dylai nodweddion y ffordd, ac anghenion defnyddwyr sy'n agored i niwed, gael eu hystyried wrth osod terfynau cyflymder lleol. Mae'n bwysig nodi mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am osod cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd lleol. Nodaf bryder yr Aelod o ran ei rhanbarth hi.

The road safety delivery plan is currently being finalised for consultation. The plan sets out our strategic approach to road safety to 2020 and reaffirms our commitment to funding child road safety and ensuring the adoption of best practice to maximise casualty reduction. It will also place an onus on the Welsh Government to explore whether any action is required to address research findings that link road casualty incidents and social deprivation among children. As I mentioned, there is a clear link there, but we need to better understand what those causes are. There is much excellent work being done to ensure the safety of our children when travelling to school, or travelling anywhere, in fact—whether that be travelling from school to home, or just out travelling socially with friends. We have to ensure that we improve on the terrible statistics that we have witnessed and that the Member has alluded to today.

Mae'r cynllun cyflwyno diogelwch ar y ffyrdd wrthi'n cael ei gwblhau ar gyfer ymgynghori arno. Mae'r cynllun yn nodi ein hymagwedd strategol at ddiogelwch ar y ffyrdd hyd at 2020 ac yn cadarnhau ein hymrwymiad i ariannu diogelwch plant ar y ffyrdd a sicrhau y caiff arfer gorau ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o bobl yn cael eu lladd neu eu hanafu ar y ffyrdd. Bydd hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i archwilio a oes angen gweithredu i ymdrin â chanfyddiadau ymchwil sy'n cysylltu damweiniau ar y ffyrdd ac amddifadedd cymdeithasol ymhlith plant. Fel y soniais, mae cyswllt clir yno, ond mae angen i ni ddeall yn well beth yw'r rhesymau drosto. Mae llawer o waith rhagorol yn cael ei wneud i sicrhau diogelwch ein plant wrth deithio i'r ysgol, neu'n teithio i unrhyw le, a dweud y gwir—boed o'r ysgol i'r cartref, neu'n teithio'n gymdeithasol gyda ffrindiau. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwella ar yr ystadegau ofnadwy a welsom, ac y cyfeiriodd yr Aelod atynt heddiw.

I know that there is much more to be done. There are many more improvements that we

Gwn fod llawer mwy i'w wneud. Mae llawer mwy o welliannau y byddwn yn parhau i

will continue to strive to deliver. We will continue to highlight the benefits of reducing speed limits and implementing other traffic-calming measures where appropriate, and supporting the education of children on the importance of travel safety. This has been a very serious and interesting debate this afternoon, in terms of Members' contributions, and I am pleased to be able to be able to respond today. Members will be very interested in the road safety delivery plan, when we launch it for consultation, and its ability to improve safety for road users, be they children, adults or vulnerable people in the communities that we represent.

ymdrechu i'w cyflawni. Byddwn yn parhau i dynnu sylw at fanteision cyfyngiadau gostwng cyflymder ac yn gweithredu mesurau arafu traffig eraill lle y bo'n briodol, a chefnogi addysg plant ar bwysigrwydd diogelwch teithio. Bu hon yn ddadl ddifrifol a diddorol iawn y prynhawn yma, o ran cyfraniadau Aelodau, ac rwyf yn falch o allu ymateb heddiw. Bydd gan yr Aelodau ddiddordeb mawr yn y cynllun cyflwyno diogelwch ar y ffordd, pan fyddwn yn ei lansio i gynnal ymgynghoriad arno, a'i allu i wella diogelwch i ddefnyddwyr y ffyrdd, boed yn blant, yn oedolion neu'n bobl sy'n agored i niwed yn y cymunedau yr ydym yn eu cynrychioli.

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.52 p.m.*
*The meeting ended at 5.52 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)

This page is intentionally left blank